



Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

2014 dccc 4

Nodiadau Esboniadol

Social Services and Well-being (Wales) Act 2014

2014 anaw 4

Explanatory Notes

£25.50



Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

2014 dccc 4

Nodiadau Esboniadol

Social Services and Well-being (Wales) Act 2014

2014 anaw 4

Explanatory Notes

DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Mawrth 2014 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014. Fe'u lluniwyd gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Adran 2 - Ystyr "llesiant"

2. Mae'r adran hon yn nodi'r agweddau ar lesiant person a gynhwysir yn y term hwn. Mae is-adran (2) yn nodi'r agweddau a gynhwysir yng nghysyniad llesiant mewn perthynas â phob person, p'un a yw'n oedolyn neu'n blentyn. Mae is-adrannau (3) a (4) yn nodi'r agweddau ychwanegol hynny a gynhwysir yng nghysyniad llesiant mewn perthynas â phlant ac oedolion yn ôl eu trefn.

Adran 3 - Ystyr "oedolyn", "plentyn", "gofalwr" ac "anabl"

3. Mae adran 3 yn diffinio termau allweddol penodol at ddibenion y Ddeddf. Mae is-adran (4) yn diffinio gofalwr fel person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl (diffinnir anabledd yn is-adran (5) drwy gyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb 2010). Y rhagdybiaeth gyffredinol yw na ddylai gofalwyr proffesiynol sy'n derbyn tâl gael eu cynnwys o fewn cwmpas y diffiniad (gweler is-adran (7)). Fodd bynnag, caniateir disgresiwn eang i awdurdodau lleol i drin person fel gofalwr os ydynt o'r farn, yng nghyd-destun y berthynas o ofalu, y byddai'n briodol trin person fel gofalwr (gweler is-adran (8)). Byddai hyn, er enghraifft, yn galluogi awdurdod lleol i drin person fel gofalwr mewn achosion pan na fo'r berthynas o ofalu yn un fasnachol yn bennaf.
4. Ni chaiff person fod yn ofalwr os cedwir y person hwnnw yn gaeth mewn carchar neu lety cadw ieuencid, neu os yw'n preswyllo mewn mangre a gymeradwywyd ar ôl cael ei gollfarnu o drosedd (gweler adran 187(1)). Mangre a gymeradwywyd yw mangre a ddefnyddir i letya personau sydd wedi cael mechniaeth mewn achos troseddol, neu sydd i'w defnyddio i oruchwylio neu adsefydlu personau sydd wedi eu collfarnu o droseddau (gweler adran 188(1) o'r Ddeddf hon, sy'n diffinio 'mangre a gymeradwywyd' drwy gyfeirio at adran 13 o Ddeddf Rheoli Troseddwyd 2013), neu mewn cysylltiad â hynny.

Adran 4 - Ystyr "gofal a chymorth"

5. Mae adran 4 yn nodi ystyr y term 'gofal a chymorth', a ddefnyddir yn aml yn y Ddeddf.

SOCIAL SERVICES AND WELL-BEING (WALES) ACT 2014

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 which was passed by the National Assembly for Wales on 18 March 2014 and received Royal Assent on 1 May 2014. They have been prepared by the Department for Health and Social Services of the Welsh Government to assist the reader of the Act. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it.

COMMENTARY ON SECTIONS

Section 2 - Meaning of "well-being"

2. This section sets out the aspects of a person's well-being which are included within this term. Subsection (2) sets out the aspects which are included in the concept of well-being in relation to all persons, whether adults or children. Subsections (3) and (4) set out those additional aspects which are included in the concept of well-being in relation to children and adults respectively.

Section 3 - Meaning of "adult", "child", "carer" and "disabled"

3. Section 3 defines certain key terms for the purposes of the Act. Subsection (4) defines a carer as a person who provides or intends to provide care for an adult or disabled child (disability being defined in subsection (5) by reference to the Equality Act 2010). The general premise is that professional carers who receive payment should not be included within the scope of the definition (see subsection (7)). However, local authorities are afforded a wide discretion to treat a person as a carer if they consider that, in the context of the caring relationship, it would be appropriate for a person to be treated as a carer (see subsection (8)). This would, for example, enable a local authority to treat a person as a carer in cases where the caring relationship was not principally a commercial one.
4. A person cannot be a carer if that person is detained in prison or youth detention accommodation, or is residing in approved premises after having been convicted of an offence (see section 187(1)). Approved premises are those used to accommodate persons granted bail in criminal proceedings or for use for, or in connection with, the supervision or rehabilitation of persons convicted of offences (see section 188(1) of this Act, which defines 'approved premises' by reference to section 13 of the Offender Management Act 2013).

Section 4 - Meaning of "care and support"

5. Section 4 sets out the meaning of the term care and support, which is used frequently throughout the Act.

Adran 5 - Dyletswydd llesiant

6. Mae adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hyrwyddo llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth.
7. Mae'r ddyletswydd llesiant hollgyffredinol hon yn gymwys i bob person a chorff sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) ac asiantaethau statudol eraill.

Adran 6 - Dyletswyddau hollgyffredinol eraill: cyffredinol

8. Mae adran 6 yn rhoi effaith i egwyddorion allweddol penodol drwy nodi'r materion y mae'n rhaid i berson roi sylw iddynt wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas ag unigolion penodol. Mae is-adran (1) yn egluro bod y ddyletswydd i roi sylw i'r materion hyn yn gymwys ar yr adeg pan fo person yn cael ei asesu o ran p'un a oes arno anghenion am ofal a chymorth (neu anghenion am gymorth yn achos gofalwr), yn ogystal â phan fo wedi ei ddyfarnu bod ar y person anghenion o'r fath. Mae'r ddyletswydd i roi sylw i'r materion hyn hefyd yn gymwys pan fo person yn arfer swyddogaethau o dan Ran 6 o'r Ddeddf. Gellid arfer y swyddogaethau hynny mewn perthynas â phlentyn sy'n derbyn gofal neu mewn perthynas â phlant a phobl ifanc eraill, er enghraifft y rhai sy'n gadael gofal.
9. Mae is-adran (2) yn nodi'r materion y mae'n rhaid i berson roi sylw iddynt wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â'r unigolion a restrir yn is-adran (1).
10. Mae is-adrannau (3) a (4) yn nodi materion ychwanegol y mae'n rhaid i berson roi sylw iddynt wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas ag oedolion a phlant yn ôl eu trefn.

Adran 7 - Dyletswyddau hollgyffredinol eraill: Egwyddorion a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig

11. Mae adran 7 yn cynnwys dwy ddyletswydd. Mae'r gyntaf yn ddyletswydd ar bersonau sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas ag oedolion y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth, neu ofalwyr y mae arnynt anghenion am gymorth. Y ddyletswydd, yn yr achos hwn, yw rhoi sylw dyladwy i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn (fel y'u mabwysiadwyd gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar 16 Rhagfyr 1991).
12. Mae'r ail yn ddyletswydd ar bersonau sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth, gofalwyr sy'n blant y mae arnynt anghenion am gymorth a phersonau y mae swyddogaethau yn cael eu cyflawni mewn cysylltiad â hwy o dan Ran 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya). Y ddyletswydd, yn yr achos hwn, yw rhoi sylw dyladwy i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (gweler penderfyniad y Cynulliad Cyffredinol 44/25 dyddiedig Tachwedd 1989). Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i'w drin fel pe bai'n cael effaith ar y ffurf a nodir ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (gweler is-adran (3)).

Section 5 - Well-being duty

6. Section 5 requires persons exercising functions under the Act to promote the well-being of people who need care and support and carers who need support.
7. This overarching well-being duty applies to all persons and bodies exercising functions under this Act, including the Welsh Ministers, local authorities, Local Health Boards (LHBs) and other statutory agencies.

Section 6 - Other overarching duties: general

8. Section 6 gives effect to certain key principles by setting out the matters to which a person must have regard when exercising functions under the Act in relation to certain individuals. Subsection (1) makes clear that the duty to have regard to these matters applies at the point when a person is being assessed as to whether they have needs for care and support (or needs for support in the case of carer), as well as when it has been determined that the person has such needs. The duty to have regard to these matters also applies where a person is exercising functions under Part 6 of the Act. Such functions could be exercised in relation to a looked after child or in relation to other children and young people, for example care leavers.
9. Subsection (2) sets out matters to which a person must have regard when exercising functions under the Act in relation to the individuals listed in subsection (1).
10. Subsections (3) and (4) set out additional matters to which a person must have regard when exercising functions under the Act in relation to adults and children respectively.

Section 7 - Other overarching duties: UN Principles and Convention

11. Section 7 contains two duties. The first is a duty upon persons carrying out functions under the Act in relation to adults with needs for care and support, or carers with needs for support. The duty, in this case, is to have due regard to the United Nations Principles for Older Persons (as adopted by the General Assembly of the United Nations on 16th December 1991).
12. The second is a duty upon persons carrying out functions under the Act in relation to children with needs for care and support, child carers with needs for support and persons in respect of which functions are carried out under Part 6 (looked after and accommodated children). The duty, in this case, is to have due regard to Part 1 of the United Nations Convention on the Rights of the Child (see General Assembly resolution 44/25 of November 1989). The United Nations Convention on the Rights of the Child is to be treated as having effect in the form set out in the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 (see subsection (3)).

13. Mae Gweinidogion Cymru eisoes yn ddarostyngedig i ddyletswydd i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan gynnwys ei BroTOCOLAU Gweithredol, wrth arfer eu swyddogaethau: gosodir y ddyletswydd hon gan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae is-adran (4) yn ystyried hyn ac yn darparu nad yw'r ddyletswydd yn is-adran (2) yn gymwys i Weinidogion Cymru.

Adran 8 – Dyletswydd i ddyroddi datganiad ynghylch y canlyniadau sydd i'w sicrhau

14. Mae adran 8 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi datganiad ynghylch y canlyniadau llesiant sydd i'w sicrhau drwy ddarparu gofal a chymorth. Mae hefyd yn pennu dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid dyroddi'r datganiad, ac mae'n pennu'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y datganiad. Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r datganiad yn gyson a chânt ddiwygio'r datganiad os ydynt yn ystyried bod hynny'n briodol. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy cyn dyroddi neu ddiwygio'r datganiad a rhaid iddynt osod y datganiad a ddyroddwyd neu a ddiwygiwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gyhoeddi.

Adran 9 – Pŵer i ddyroddi cod ar gyfer helpu i sicrhau'r canlyniadau

15. Mae adran 9 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi, ac o bryd i'w gilydd ddiwygio, cod i helpu i sicrhau'r canlyniadau a bennir yn y datganiad a ddyroddir o dan adran 8. Caiff y cod roi canllawiau ac, yn achos awdurdodau lleol, caiff hefyd osod gofynion. Mae enghreifftiau o'r materion y gellir eu nodi yn y cod yn cynnwys safonau ansawdd, mesurau perfformiad a thargedau perfformiad. Rhaid cyhoeddi'r cod presennol a rhaid peri i unrhyw fersiynau o'r cod nad ydynt bellach mewn grym fod ar gael.

Adran 10 – Awdurdodau lleol a'r cod

16. Mae adran 10 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu'n unol ag unrhyw ofynion a osodir gan y cod a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd wedi eu cynnwys ynddo. Pan fo mesurau perfformiad wedi eu pennu yn y cod, cânt eu trin fel dangosyddion perfformiad sydd wedi eu pennu o dan y fframwaith ar gyfer gwella llywodraeth leol yn Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Dangosyddion perfformiad yw'r materion y caiff perfformiad awdurdod lleol wrth arfer ei swyddogaethau ei fesur drwy gyfeirio atynt. Yn yr un modd, pan fo'r cod yn pennu targedau perfformiad, caiff y rhain eu trin fel safonau perfformiad sydd wedi eu pennu o dan Ran 1 o Fesur 2009.

Adran 12 – Pŵer i helpu awdurdodau lleol i gydymffurfio â gofynion y cod

17. Mae adran 12 yn rhoi pŵer cyffredinol i Weinidogion Cymru i wneud unrhyw beth y maent yn ystyried ei fod yn debygol o helpu awdurdod lleol i gydymffurfio â gofynion y cod. Mae is-adran (2) yn disgrifio rhai o'r pethau y gall Gweinidogion Cymru eu gwneud wrth arfer y pŵer cyffredinol hwn. Cyn gwneud unrhyw un o'r pethau hyn, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod lleol y maent yn bwriadu ei gynorthwyo ac unrhyw randdeiliaid perthnasol (oni bai bod y pethau hyn yn cael eu gwneud ar gais yr awdurdod lleol).

13. The Welsh Ministers are already subject to a duty to have regard to the United Nations Convention on the Rights of the Child, including its Operational Protocols, when exercising their functions: this duty is imposed by the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011. Subsection (4) takes this into account and provides that the duty in subsection (2) does not apply to the Welsh Ministers.

Section 8 – Duty to issue a statement of the outcomes to be achieved

14. Section 8 requires the Welsh Ministers to issue a statement of the well-being outcomes that are to be achieved by the provision of care and support. It also sets a deadline by which the statement must be issued and specifies what must be included in the statement. The Welsh Ministers must keep the statement under review and may revise the statement if they consider this appropriate. The Welsh Ministers must consult such persons as they think fit before issuing or revising the statement and they must lay the issued or revised statement before the National Assembly for Wales and publish it.

Section 9 – Power to issue a code to help achieve the outcomes

15. Section 9 requires the Welsh Ministers to issue, and from time to time revise, a code to help achieve the outcomes specified in the statement issued under section 8. The code can give guidance and in the case of local authorities, it can also impose requirements. Examples of the matters which may be set out in the code include quality standards, performance measures and performance targets. The current code must be published, and any versions of the code which are no longer in force must be made available.

Section 10 – Local authorities and the code

16. Section 10 requires local authorities to act in accordance with any requirements imposed by the code and to have regard to any relevant guidance contained within it. Where performance measures are specified in the code, they will be treated as performance indicators that have been specified under the framework for local government improvement in Part 1 of the Local Government (Wales) Measure 2009. Performance indicators are the matters by reference to which a local authority's performance in exercising its functions are measured. In the same way, where the code specifies performance targets, these will be treated as performance standards that have been specified under Part 1 of the 2009 Measure.

Section 12 – Power to help local authorities to comply with the code's requirements

17. Section 12 provides the Welsh Ministers with a general power to do anything which they consider is likely to help a local authority to comply with the requirements of the code. Subsection (2) describes some of the things which the Welsh Ministers can do in the exercise of this general power. Before doing any of these things, the Welsh Ministers must consult the local authority they intend to assist and any relevant stakeholders (unless these things are being done at the local authority's request).

Adran 14 - Asesu anghenion am ofal a chymorth, cymorth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol

18. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a BILlau gydweithio i asesu graddau'r anghenion am ofal a chymorth (gan gynnwys anghenion gofalwyr am gymorth) yn ardal yr awdurdod lleol ac i ba raddau nad yw'r anghenion hynny'n cael eu diwallu. Rhaid iddynt hefyd asesu ystod a lefel y gwasanaethau y mae eu hangen i ddiwallu'r anghenion gofal a chymorth sydd wedi eu canfod, ac ystod a lefel y gwasanaethau y mae eu hangen i atal, oedi neu leihau anghenion am ofal a chymorth ac i sicrhau'r dibenion eraill a nodir yn adran 15. Mae gofyniad hefyd i asesu'r camau y mae angen eu cymryd i ddarparu'r ystod hon a'r lefel hon o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.
19. Mae'r gofyniad i gynnal asesiad o anghenion lleol o dan yr adran hon ar wahân i (ac yn ychwanegol at) unrhyw ofyniad i asesu anghenion iechyd a llesiant y boblogaeth leol a osodir gan reoliadau o dan adran 40 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae is-adran (3) yn diwygio adran 40 o Ddeddf 2006 i'w gwneud yn ofynnol i'r asesiad hwn o anghenion lleol gael ei ystyried wrth lunio neu adolygu'r strategaeth iechyd a llesiant berthnasol ac i osod rhwymedigaeth ar BILlau i gymryd y rhan arweiniol wrth gyflwyno i Weinidogion Cymru y rhannau hynny o'r strategaeth iechyd a llesiant sy'n ymwneud â gofalwyr.
20. Mae is-adran (4) yn diwygio adran 26 o Ddeddf Plant 2004 i'w gwneud yn ofynnol i'r asesiad o anghenion lleol gael ei ystyried yn yr un modd ag wrth lunio cynlluniau plant a phobl ifanc.

Adran 15 - Gwasanaethau ataliol

21. Mae adran 15 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol i ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau (y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel "gwasanaethau ataliol"). Disgrifir y dibenion sydd i'w sicrhau drwy ddarparu gwasanaethau ataliol yn is-adran (2) ac maent yn cynnwys cyfrannu at atal neu oedi datblygiad anghenion pobl am ofal a chymorth a lleihau'r anghenion am ofal a chymorth i bobl y mae arnynt anghenion o'r fath. Un o'r dibenion eraill a ddisgrifir yw hyrwyddo magwraeth plant gan eu teuluoedd, pan fo hynny'n gyson â llesiant y plant. Mae'r elfen hon o adran 15 yn disodli darpariaeth a oedd gynt wedi ei chynnwys yn adran 17 o Ddeddf Plant 1989.
22. Rhaid i awdurdodau lleol ystyried hefyd bwysigrwydd sicrhau'r dibenion hyn wrth arfer eu swyddogaethau eraill. Golyga hyn mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yn gyffredinol, ac nid yr adran gwasanaethau cymdeithasol yn unig, yw ystyried y math o wasanaethau ataliol y gellid eu darparu.
23. Yn yr un modd, rhaid i BILlau ystyried hefyd bwysigrwydd sicrhau'r dibenion hyn wrth arfer eu swyddogaethau hwythau. Er nad yw hyn yn rhoi unrhyw swyddogaeth newydd i'r BILlau, mae'n golygu bod rhaid i BILlau ystyried a oes yna bethau y gallant eu darparu neu eu trefnu o dan eu swyddogaethau presennol a fyddai'n sicrhau'r dibenion hyn.

Section 14 - Assessment of needs for care and support, support for carers and preventative services

18. Subsection (1) requires local authorities and LHBs to work together to assess the extent of the needs for care and support (including the needs of carers for support) in the local authority's area and the extent to which those needs are not being met. They must also assess the range and level of services needed to meet the care and support needs that have been identified, and the range and level of services needed to prevent, delay or reduce needs for care and support and to achieve the other purposes set out in section 15. There is also a requirement to assess the actions required to provide this combined range and level of services through the medium of Welsh.
19. The requirement to carry out a local needs assessment under this section is separate from (and additional to) any requirement to assess the health and well-being needs of the local population which is imposed by regulations under section 40 of the National Health Service (Wales) Act 2006. Subsection (3) amends section 40 of the Act 2006 to require that this local needs assessment is taken into account when preparing or reviewing the relevant health and well-being strategy and to place an obligation on LHBs to take the lead role in submitting to Welsh Ministers those parts of health and well-being strategy that relate to carers.
20. Subsection (4) amends section 26 of the Children Act 2004 to require the local needs assessment be taken into account in the same way when preparing children and young people's plans.

Section 15 - Preventative services

21. Section 15 places a general duty on local authorities to provide or arrange the provision of services (generally referred to as "preventative services"). The purposes that are to be achieved by the provision of preventative services are described in subsection (2) and include contributing towards preventing or delaying the development of people's needs for care and support and reducing the needs for care and support of people who have such needs. One of the other purposes described is the promotion of the upbringing of children by their families, where this is consistent with the well-being of children. This element of section 15 replaces provision formerly contained in section 17 of the Children Act 1989.
22. Local authorities also have to consider the importance of achieving these purposes when exercising their other functions. This means that it is the responsibility of the local authority as a whole, not just the social services department, to consider the kind of preventative services which could be provided.
23. In the same way, LHBs also have to consider the importance of achieving these purposes when exercising their functions. Although this does not confer any new function on LHBs, it means that LHBs have to consider whether there are things they can provide or arrange under their existing functions which would achieve these purposes.

Adran 16 - Hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector

24. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo datblygiad mentrau cymdeithasol a sefydliadau neu drefniadau cydweithredol yn eu hardaloedd i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo ymglymiad personau y mae gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol i'w darparu ar eu cyfer yn y broses o ddylunio a rhedeg y ddarpariaeth honno ac argaeledd gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol gan sefydliadau trydydd sector (p'un a ydynt yn fentrau cymdeithasol neu'n sefydliadau cydweithredol ai peidio).
25. Mae is-adran (2) yn darparu diffiniadau ar gyfer nifer o'r termau a ddefnyddir yn is-adran (1), gan gynnwys "menter gymdeithasol" a "sefydliad trydydd sector".

Adran 17 - Darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy

26. Mae adran 17 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau y darperir gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy. Diben y gwasanaeth yw darparu gwybodaeth a chyngor i bobl ynglŷn â gofal a chymorth, gan gynnwys cymorth i ofalwyr, a'u cynorthwyo i gael gafael arnynt. Rhaid darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy mewn modd sy'n eu gwneud yn hygyrch i'r unigolyn y'u bwriedir iddo.
27. Rhaid sicrhau bod gwybodaeth a chyngor ar gael i bawb, p'un a oes arnynt anghenion am ofal a chymorth ai peidio. Gallai'r personau hynny gynnwys gofalwyr neu bartïon a chanddynt fuddiant, er enghraifft.
28. Rhaid i'r gwasanaeth gynnwys gwybodaeth (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, wybodaeth ariannol) a chyngor am y system gofal a chymorth y darperir ar ei chyfer o dan y Ddeddf, y mathau o ofal a chymorth sydd ar gael yn ardal awdurdod lleol a sut y ceir gafael arnynt, a sut i leisio pryderon am bobl y mae'n ymddangos bod arnynt anghenion am ofal a chymorth, neu gymorth.
29. Mae BILlau ac Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) o dan ddyletswydd i hwyluso'r gwasanaeth drwy ddarparu gwybodaeth i'r awdurdod lleol am y gofal a'r cymorth y maent yn eu darparu.
30. Caiff dau neu fwy o awdurdodau lleol sicrhau ar y cyd fod gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn cael ei ddarparu.
31. Mae'r adran hon yn disodli'r dyletswyddau yn adran 1(2) o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 a pharagraff 1(2) o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989, ac mae'n ehangu'r dyletswyddau hynny.

Adran 18 - Cofrestrau o bobl â nam ar eu golwg, pobl â nam ar eu clyw a phobl anabl eraill

32. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio a chynnal cofrestr o bobl sy'n preswyluo fel arfer yn ardal yr awdurdod ac sydd â nam ar eu golwg, nam ar eu clyw neu sy'n dioddef o nam ar eu golwg ac ar eu clyw sydd, gyda'i gilydd, yn cael effaith sylweddol ar eu bywydau bob dydd. Mae'r gofyniad hwn yn disodli'r gofyniad yn adran 29(4)(g) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948.

Section 16 – Promoting social enterprises, co-operatives, user led services and the third sector

24. Subsection (1) places a duty on local authorities to promote the development of social enterprises and co-operative organisations or arrangements in their areas to provide care and support and preventative services. It also places a duty on local authorities to promote the involvement of persons for whom care and support or preventative services are to be provided in the design and running of that provision and the availability of care and support and preventative services from third sector organisations (whether or not they are social enterprises or co-operative organisations).
25. Subsection (2) provides definitions for a number of the terms used in subsection (1), including “social enterprise” and “third sector organisation”.

Section 17 – Provision of information, advice and assistance

26. Section 17 places a duty on local authorities to secure the provision of an information, advice and assistance service. The purpose of the service is to provide people with information and advice relating to care and support, including support for carers, and to provide assistance to them in accessing it. Information, advice and assistance must be provided in a manner that makes it accessible to the individual for whom it is intended.
27. Information and advice is to be made available to all people regardless of whether they have needs for care and support. Such persons could include carers or interested parties, for example.
28. The service must include information (including, but not limited to, financial information) and advice about the care and support system provided for under the Act, the types of care and support available in a local authority area and how to access it, and how to raise concerns about people who appear to have needs for care and support, or support.
29. LHBs and National Health Service (NHS) Trusts are under a duty to facilitate the service by providing the local authority with information about the care and support that they provide.
30. Two or more local authorities may jointly secure the provision of an information, advice and assistance service.
31. This section replaces and expands the duties in section 1(2) of the Chronically Sick and Disabled Persons Act 1970 and paragraph 1(2) of Schedule 2 to the Children Act 1989.

Section 18 – Registers of sight-impaired, hearing-impaired and other disabled people

32. Subsection (1) requires local authorities to establish and maintain a register of people who are ordinarily resident in the authority’s area and who are sight-impaired, hearing-impaired or who suffer from sight and hearing impairments which, in combination, have a significant effect on their day to day lives. This requirement replaces the requirement in section 29(4)(g) of the National Assistance Act 1948.

33. Nid yw'r adran yn darparu diffiniadau ar gyfer "nam ar y golwg", "nam difrifol ar y golwg", "nam ar y clyw" na "nam difrifol ar y clyw". Fodd bynnag, caniateir i'r pŵer i wneud rheoliadau yn is-adran (3) gael ei ddefnyddio i ddisgrifio ystyr y termau hyn at ddibenion rhwymedigaeth yr awdurdod lleol i lunio a chynnal cofrestr fel bod gan staff clinigol ac awdurdodau lleol gyd-ddealltwriaeth o'r derminoleg.
34. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio a chynnal cofrestr o blant sydd yn eu hardal hwy ac sydd naill ai'n anabl neu sydd â nam corfforol neu feddyliol a all arwain at anghenion am wasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'r rhwymedigaeth hon yn disodli'r gofyniad ym mharagraff 2 o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.
35. Mae is-adrannau (5) i (7) yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol lunio a chynnal cofrestrau o oedolion sy'n anabl ac oedolion nad ydynt yn anabl ond y mae ganddynt nam corfforol neu feddyliol neu y mae arnynt anghenion o fath arall y mae'r awdurdod lleol yn ystyried y gallant arwain at angen am ofal a chymorth yn y dyfodol.
36. Bydd y cofrestrau a gaiff eu llunio yn unol ag is-adrannau (4) i (8) yn cynorthwyo awdurdod lleol i asesu anghenion am ofal a chymorth o fewn ei ardal yn y dyfodol drwy adnabod personau a all fod yn dioddef o gyflwr dirywiol ac y gall fod arnynt angen cynhorthwy yr awdurdod lleol yn y dyfodol wrth i'w cyflwr ddirywio er nad oes arnynt angen cynhorthwy o'r fath ar hyn o bryd.
37. Mae is-adrannau (9) a (10) yn darparu nad yw'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys unrhyw berson mewn cofrestr oni bai bod y person hwnnw wedi gwneud cais i gael ei gynnwys ynddi neu fod cais i'w gynnwys wedi ei wneud ar ei ran. Rhaid i awdurdod lleol hysbysu person ei fod wedi ei gynnwys mewn cofrestr ac, os gwneir cais gan y person, neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran, rhaid iddo ddileu unrhyw ddata personol sy'n ymwneud â'r person hwnnw (er y caiff gadw'r data di-enw).

Adran 19 - Dyletswydd i asesu anghenion oedolyn am ofal a chymorth

38. Mae adran 19 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu a oes ar oedolyn anghenion am ofal a chymorth ac os oes, beth yw'r anghenion hynny. Ysgogir y ddyletswydd pan fo'n ymddangos i awdurdod lleol y gall fod ar oedolyn anghenion o'r fath.
39. Mae is-adran (3) yn egluro bod y ddyletswydd i wneud asesiad yn gymwys ni waeth beth fo lefel yr angen am ofal a chymorth a lefel adnoddau ariannol yr oedolyn.
40. Rhaid i'r asesiad ganolbwyntio ar y canlyniadau y mae'r oedolyn yn dymuno eu sicrhau yn ei fywyd beunyddiol: er enghraifft, i allu byw gartref a bwydo'i hun. Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried i ba raddau y gallai'r ddarpariaeth o ofal a chymorth, gwasanaethau ataliol, neu'r ddarpariaeth o wybodaeth, cyngor neu gynhorthwy, helpu'r oedolyn i sicrhau'r canlyniadau hynny. Gallai fod yn bosibl, er enghraifft, helpu'r oedolyn i sicrhau'r canlyniadau hynny drwy roi cymorth i'r oedolyn i gael gafael ar ystod o wasanaethau yn ardal y person megis offer

33. The section does not provide definitions for “sight impairment”, “severe sight impairment”, “hearing impairment” or “severe hearing impairment”. However, the regulation-making power in subsection (3) may be used to describe what these terms mean for the purposes of the local authority’s obligation to establish and maintain a register so that clinical staff and local authorities have a shared understanding of the terminology.
34. Subsection (4) requires local authorities to establish and maintain a register of children who are in their area and who are either disabled or who have a physical or mental impairment which may result in needs for social care services. This obligation replaces the requirement in paragraph 2 of Schedule 2 to the Children Act 1989.
35. Subsections (5) to (7) give local authorities power to establish and maintain registers of adults who are disabled and adults who are not disabled but have a physical or mental impairment or otherwise have needs which the local authority considers may lead to a requirement for care and support in the future.
36. Registers established in accordance with subsections (4) to (8) will assist a local authority in assessing future needs for care and support within its area by identifying persons who may be suffering from a degenerative condition who, whilst they may not need local authority assistance at the present time, may well do so in the future as their condition deteriorates.
37. Subsections (9) and (10) provide that local authorities are not required to include any person in a register unless that person has applied to be included in it or an application to be included has been made on their behalf. A local authority must inform a person that they have been included in a register and, if requested by the person, or someone acting on their behalf, they must remove any personal data relating to that person (although they may retain the anonymised data).

Section 19 – Duty to assess the needs of an adult for care and support

38. Section 19 requires local authorities to assess whether an adult has needs for care and support and if so, what those needs are. The duty is triggered where it appears to a local authority that an adult may have such needs.
39. Subsection (3) makes it clear that the duty to carry out an assessment applies regardless of the level of need for care and support and the level of the adult’s financial resources.
40. The assessment must focus on the outcomes the adult wishes to achieve in his or her daily life: for example, to be able to live at home and feed himself or herself. The local authority must consider the extent to which the provision of care and support, preventative services, or the provision of information, advice or assistance, could help the adult to achieve those outcomes. It might be possible, for example, to help the adult achieve those outcomes by giving the adult support to access a range of services in the person’s locality such as community equipment, community transport, and volunteer befriending services, as well as by providing more formal care and support.

cymunedol, trafnidiaeth gymunedol a gwasanaethau ymgyfeillio gan wirfoddolwyr, yn ogystal â thrwy ddarparu gofal a chymorth mwy ffurfiol.

41. Mae is-adran (4)(c) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ystyried a allai materion eraill helpu'r oedolyn i sicrhau'r canlyniadau y mae am eu sicrhau, ac i ba raddau. Gallai'r materion hyn gynnwys galluoedd yr oedolyn ei hun, a galluoedd pobl eraill, i sicrhau'r canlyniadau hynny eu hunain, neu gael gwared â'r rhwystrau i sicrhau'r canlyniadau hynny.
42. Rhaid i'r asesiad ei hun fod yn un cymesur a rhaid iddo gynnwys yr oedolyn, a phan fo'n ddichonadwy, ofalwr yr oedolyn. Caiff rheoliadau o dan adran 30 osod gofynion pellach mewn perthynas â'r asesiad.

Adran 20 – Gwrthod asesiad o anghenion ar gyfer oedolyn

43. Mae adran 20 yn darparu, yn gyffredinol, na fydd dyletswydd yr awdurdod lleol i asesu oedolyn yn gymwys os yw'r oedolyn yn gwrthod yr asesiad.
44. Mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau bod gan oedolion reolaeth ar b'un a wneir asesiad. Cânt benderfynu eu bod yn dymuno gwneud eu trefniadau eu hunain i ddiwallu eu hanghenion am ofal a chymorth heb gynnwys yr awdurdod lleol.
45. Yn yr un modd, nid yw'r ddyletswydd i asesu anghenion oedolyn yn gymwys os nad oes gan yr oedolyn alluedd i benderfynu a wrthoda asesiad a bod 'person awdurdodedig' yn gwneud y penderfyniad i wrthod yr asesiad ar ran yr oedolyn. Diffinnir 'person awdurdodedig' yn is-adran (4) fel person sydd wedi ei awdurdodi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p'un ai yn nhermau cyffredinol neu benodol) i benderfynu a wrthoda asesiad o anghenion, neu a ofynna am un, ar ran yr oedolyn.
46. Fodd bynnag, mae rhai achosion pan fydd yr awdurdod lleol o dan rwymedigaeth i wneud asesiad, er gwaethaf gwrthodiad yr oedolyn o dan sylw neu wrthodiad person awdurdodedig. Pan fo'r awdurdod lleol yn amau bod yr oedolyn yn cael, neu'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso, mae'r awdurdod yn parhau o dan ddyletswydd i asesu anghenion yr oedolyn. Diffinnir "camdriniaeth" a "cam-drin" ac "esgeulustod" yn adran 197(1) o'r Ddeddf.
47. Pan fo'r awdurdod lleol wedi ei fodloni nad oes gan yr oedolyn alluedd i benderfynu a wrthoda asesiad ond bod person awdurdodedig i wneud y penderfyniad ar ran yr oedolyn, nid yw gwrthodiad yr oedolyn o asesiad yn rhyddhau'r awdurdod lleol o'i ddyletswydd i wneud yr asesiad er y caiff gwrthodiad y person awdurdodedig wneud hynny.
48. Pan fo'r awdurdod lleol wedi ei fodloni nad oes gan yr oedolyn alluedd i benderfynu a wrthoda asesiad ac nad oes person awdurdodedig i wneud y penderfyniad ar ran yr oedolyn, rhaid i'r awdurdod lleol wneud yr asesiad er gwaethaf gwrthodiad yr oedolyn os yw o'r farn y byddai hyn er lles pennaf yr oedolyn.

41. Subsection (4)(c) requires the local authority to consider whether and to what extent other matters could help the adult reach the outcomes they want to achieve. These matters might include the adult's own capabilities and those of others, to achieve those outcomes themselves, or the removal of barriers to the achievement of those outcomes.
42. The assessment itself must be proportionate and must involve the adult and, where feasible, the adult's carer. Regulations under section 30 may impose further requirements in relation to the assessment.

Section 20 – Refusal of a needs assessment for an adult

43. Section 20 provides that, in general, the local authority's duty to assess an adult does not apply if the adult refuses the assessment.
44. This provision ensures that adults have control over whether an assessment is carried out. They can decide that they wish to make their own arrangements for meeting their needs for care and support without the involvement of the local authority.
45. Similarly, the duty to assess an adult's needs does not apply if the adult lacks capacity to decide whether to refuse an assessment and an 'authorised person' makes the decision to refuse the assessment on the adult's behalf. An 'authorised person' is defined in subsection (4) as a person authorised under the Mental Capacity Act 2005 (whether in general or specific terms) to decide whether to refuse, or ask for, a needs assessment on the adult's behalf.
46. However, there are some cases where the local authority will be obliged to carry out an assessment notwithstanding the refusal of the adult concerned or the refusal of an authorised person. Where the local authority suspects that the adult is experiencing or is at risk of abuse or neglect, the authority remains under a duty to assess the adult's needs. "Abuse" and "neglect" are defined in section 197(1) of the Act.
47. Where the local authority is satisfied that the adult lacks capacity to decide whether to refuse an assessment but there is an authorised person to make the decision on the adult's behalf, the adult's refusal of an assessment does not discharge the local authority from its duty to carry out the assessment although the refusal of the authorised person may do so.
48. Where the local authority is satisfied that the adult lacks capacity to decide whether to refuse an assessment and there is no authorised person to make the decision on the adult's behalf, the local authority must carry out the assessment notwithstanding the adult's refusal if it considers that this would be in the adult's best interests.

49. Pan fo'r ddyletswydd i asesu anghenion oedolyn wedi ei rhyddhau drwy wrthodiad, ailymrwymir i'r ddyletswydd os yw'r oedolyn o dan sylw (neu berson awdurdodedig sy'n gweithredu ar ei ran) yn newid ei feddwl ac yn gofyn wedyn am asesiad; neu os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod anghenion neu amgylchiadau'r oedolyn wedi newid.

Adran 21 - Dyletswydd i asesu anghenion plentyn am ofal a chymorth

50. Mae adran 21 yn gwneud darpariaeth debyg mewn perthynas ag asesu anghenion plentyn i'r ddarpariaeth a wneir gan adran 19 mewn perthynas ag asesu anghenion oedolyn. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu a oes ar blentyn anghenion am ofal a chymorth yn ychwanegol at, neu yn lle, y gofal a'r cymorth sy'n cael eu darparu gan deulu'r plentyn ac os oes, beth yw'r anghenion hynny. Ysgogir y ddyletswydd pan fo'n ymddangos i awdurdod lleol y gall fod ar blentyn anghenion am ofal a chymorth. Rhagdybir bod angen gofal a chymorth ar blentyn anabl yn ychwanegol at, neu yn lle, y gofal a'r cymorth sy'n cael eu darparu gan deulu'r plentyn. Mae hyn yn golygu y bydd awdurdod lleol, yn y rhan fwyaf o achosion, o dan rwymedigaeth i asesu anghenion plentyn anabl.
51. Mae'r ddyletswydd i wneud yr asesiad yn gymwys ni waeth beth fo lefel angen y plentyn am ofal a chymorth. Mae'r ddyletswydd i asesu hefyd yn gymwys ni waeth beth fo adnoddau ariannol unrhyw oedolyn y gellid gosod ffi arno am ddiwallu anghenion y plentyn am ofal a chymorth.
52. Mae ystyriaethau penodol yn gymwys i asesu plant. Rhaid i'r asesiad ystyried anghenion datblygiadol y plentyn, a cheisio canfod y canlyniadau y mae'r plentyn yn dymuno eu sicrhau, gan ystyried oedran a dealltwriaeth y plentyn wrth wneud hynny. Rhaid iddo hefyd geisio canfod y canlyniadau y mae'r rheini a chanddynt gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn dymuno i'r plentyn eu sicrhau, i'r graddau y mae hyn yn briodol gan roi sylw i'r angen i hyrwyddo llesiant y plentyn, a chanfod y canlyniadau y mae unrhyw bersonau a bennir mewn rheoliadau yn dymuno i'r plentyn eu sicrhau. Gallai'r canlyniadau hynny gynnwys canlyniadau sy'n ymwneud â datblygiad corfforol, cymdeithasol neu ymddygiadol ac, i blant hŷn, ganlyniadau sy'n ymwneud â sgiliau hunanofal neu fynediad i addysg a hyfforddiant.
53. Rhaid asesu i ba raddau y gallai'r ddarpariaeth o ofal a chymorth, gwasanaethau ataliol, neu'r ddarpariaeth o wybodaeth, cyngor neu gynhorthwy, gyfrannu at sicrhau'r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu anghenion y mae'r asesiad yn eu canfod. Er enghraifft, gallai fod modd i rai anghenion plentyn gael eu diwallu drwy fynediad i wasanaethau megis clybiau ieuenctid, Teuluoedd yn Gyntaf neu Dechrau'n Deg, wrth ei gwneud yn ofynnol ar yr un pryd gael cynllun gofal a chymorth a reolir er mwyn diwallu anghenion eraill sy'n cael eu canfod drwy'r fframwaith asesu.
54. Mae is-adran (4)(d) yn ei gwneud yn ofynnol i'r asesiad ystyried, yn ychwanegol, i ba raddau y gallai materion eraill gyfrannu at sicrhau'r canlyniadau a ddymunir neu fel arall ddiwallu anghenion y plentyn. Gallai'r materion hynny, er enghraifft, gynnwys addysg neu ddarpariaeth tai.

49. Where the duty to assess an adult's needs has been discharged by a refusal, the duty is re-engaged if the adult in question (or an authorised person acting on his or her behalf) changes their mind and subsequently asks for an assessment; or if the local authority considers that the adult's needs or circumstances have changed.

Section 21 – Duty to assess the needs of a child for care and support

50. Section 21 makes similar provision in relation to the assessment of a child's needs to that which is made by section 19 in relation to the assessment of an adult's needs. Local authorities are required to assess whether a child has needs for care and support in addition to, or instead of, the care and support provided by the child's family and if so, what those needs are. The duty is triggered where it appears to a local authority that a child may have needs for care and support. A disabled child is presumed to need care and support in addition to, or instead of, the care and support provided by the child's family. This means that in most cases a local authority will be obliged to assess the needs of a disabled child.
51. The duty to carry out the assessment applies regardless of the level of the child's need for care and support. The duty to assess also applies regardless of the financial resources of any adult on whom a charge might be imposed for meeting the child's needs for care and support.
52. There are particular considerations that apply to the assessment of children. The assessment must take into account the developmental needs of the child, and seek to identify the outcomes the child wishes to achieve, taking account of the child's age and understanding in doing so. It must also seek to identify the outcomes that those with parental responsibility for the child wish the child to achieve, to the extent that this is appropriate having regard to the need to promote the child's well-being, and to identify the outcomes that any persons specified in regulations wish the child to achieve. Such outcomes might include outcomes relating to physical, social or behavioural development and, for older children, outcomes relating to self-care skills or access to education and training.
53. There must be an assessment of the extent to which the provision of care and support, preventative services, or the provision of information, advice or assistance, could contribute to the achievement of those outcomes or otherwise meet needs identified by the assessment. For example a child might be capable of having some needs met through access to services such as youth clubs, Families First or Flying Start, whilst requiring a managed care and support plan to meet other needs identified through the assessment framework.
54. Subsection (4)(d) requires the assessment to consider, in addition, the extent to which other matters could contribute to the achievement of the desired outcomes or otherwise meet the child's needs. Such matters might, for example, include education or housing provision.

55. Wrth gynnal yr asesiad, rhaid i'r awdurdod lleol gynnwys y plentyn ac unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.
56. Rhaid i'r asesiad ei hun fod yn un cymesur. Caiff rheoliadau o dan adran 30 osod gofynion pellach mewn perthynas â'r asesiad.
57. Nid yw'r ddyletswydd i wneud asesiad o dan yr adran hon yn gymwys mewn perthynas â phlentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban neu gan Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon. Gwneir darpariaeth ar wahân yn Rhan 6 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru.

Adran 22 - Gwrthod asesiad o anghenion ar gyfer plentyn sy'n 16 neu'n 17 oed

58. Mae adran 22 yn gwneud darpariaeth debyg mewn perthynas â phlant 16 neu 17 oed i'r ddarpariaeth a wneir gan adran 20 mewn perthynas ag oedolion.
59. Yn gyffredinol, nid oes rhwymedigaeth ar yr awdurdod lleol i asesu anghenion plentyn 16 neu 17 oed os yw'r plentyn yn gwrthod yr asesiad. Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan blant hŷn yr un rheolaeth ag oedolion ynglŷn â chynnwys yr awdurdod lleol ai peidio mewn darparu neu drefnu gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth.
60. Nid oes rhwymedigaeth ychwaith ar awdurdod lleol i wneud asesiad os nad oes gan blentyn 16 neu 17 oed alluedd i benderfynu a wrthoda asesiad a bod person awdurdodedig yn gwneud y penderfyniad i wrthod yr asesiad ar ran y plentyn. Diffinnir 'person awdurdodedig' yn is-adran (5) fel person sydd wedi ei awdurdodi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p'un ai yn nhermau cyffredinol neu benodol) i benderfynu a wrthoda asesiad o anghenion, neu a ofynna am un, ar ran y plentyn. Pan na fo person awdurdodedig i wneud y penderfyniad ar ran y plentyn hwnnw, nid oes rhwymedigaeth ar yr awdurdod lleol fel arfer i wneud asesiad os yw person a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn gwrthod yr asesiad ar gyfer y plentyn.
61. Fodd bynnag, mae rhai achosion pan fydd yr awdurdod lleol o dan rwymedigaeth i gynnal asesiad, er gwaethaf gwrthodiad y plentyn o dan sylw ac er gwaethaf gwrthodiad person awdurdodedig neu berson a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.
62. Pan fo'r awdurdod lleol yn amau bod y plentyn yn cael, neu'n wynebu risg o gael, ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio mewn modd arall, bydd yr awdurdod yn parhau o dan ddyletswydd i asesu anghenion y plentyn. Diffinnir "camdriniaeth" a "cam-drin", "esgeulustod" a "niwed" yn adran 197(1). Pan fo'r awdurdod lleol wedi ei fodloni nad oes gan blentyn 16 neu 17 oed alluedd i wrthod asesiad, ni fydd gwrthodiad y plentyn yn rhyddhau'r awdurdod lleol o'i ddyletswydd i wneud yr asesiad. Fodd bynnag, caiff gwrthodiad a roddir gan berson a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn ryddhau'r ddyletswydd honno, oni bai bod yr awdurdod lleol o'r farn na fyddai peidio â chael yr asesiad er lles pennaf y plentyn.

55. In undertaking the assessment, the local authority must involve the child and any person who has parental responsibility for the child.
56. The assessment itself must be proportionate. Regulations under section 30 may impose further requirements in relation to the assessment.
57. The duty to carry out an assessment under this section does not apply in relation to a child looked after by a local authority in Wales, England or Scotland or by a Health and Social Care Trust in Northern Ireland. Separate provision is made in Part 6 for children who are looked after by a local authority in Wales.

Section 22 – Refusal of a needs assessment for a child aged 16 or 17

58. Section 22 makes similar provision in relation to children aged 16 or 17 to that which is made by section 20 in relation to adults.
59. In general, the local authority is not obliged to assess the needs of a child aged 16 or 17 if the child refuses the assessment. This recognises the importance of ensuring that older children have the same control as adults over whether the local authority is to be involved in providing or arranging services to meet their care and support needs.
60. There is also no obligation on a local authority to carry out an assessment if a child aged 16 or 17 lacks capacity to decide whether to refuse an assessment and an authorised person makes the decision to refuse the assessment on the child's behalf. An 'authorised person' is defined in subsection (5) as a person authorised under the Mental Capacity Act 2005 (whether in general or specific terms) to decide whether to refuse, or ask for, a needs assessment on the child's behalf. Where there is no authorised person to make the decision on behalf of such a child, the local authority is not normally obliged to carry out an assessment if a person with parental responsibility for the child refuses the assessment for the child.
61. However, there are some cases where the local authority will be obliged to carry out an assessment notwithstanding the refusal of the child concerned and notwithstanding the refusal of an authorised person or a person with parental responsibility for the child.
62. Where the local authority suspects that the child is experiencing or is at risk of abuse, neglect or other kinds of harm, the authority remains under a duty to assess the child's needs. "Abuse", "neglect" and "harm" are defined in section 197(1). Where the local authority is satisfied that a child aged 16 or 17 lacks capacity to refuse an assessment the child's refusal will not discharge the local authority from its duty to carry out the assessment. However, a refusal given by a person with parental responsibility for the child may discharge that duty, unless the local authority believes that not having the assessment would not be in the child's best interests.

63. Pan fo'r ddyletswydd i asesu anghenion plentyn wedi ei rhyddhau drwy wrthodiad, ailymrwymir i'r ddyletswydd os yw'r plentyn yn gofyn wedyn am asesiad. Os nad oes gan y plentyn alluedd, ailymrwymir i'r ddyletswydd os yw person awdurdodedig (neu, os nad oes person awdurdodedig, berson a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn) yn gofyn wedyn am asesiad.
64. Gall newid yn anghenion neu amgylchiadau'r plentyn, neu newid yn anghenion neu amgylchiadau person a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, hefyd arwain at ailymrwymo i'r ddyletswydd i asesu.

Adran 23 - Gwrthod asesiad o anghenion ar gyfer plentyn o dan 16 oed

65. Yn achos plant o dan 16 oed, nid yw'r gyfraith yn rhagdybio bod ganddynt alluedd i wneud penderfyniadau. Er mwyn i wrthodiad gan blentyn o dan 16 oed ryddhau dyletswydd yr awdurdod lleol i wneud asesiad, rhaid i'r awdurdod lleol fod wedi ei fodloni bod y plentyn yn gallu gwneud penderfyniad deallus ynghylch gwrthod asesiad.
66. Fel rheol gyffredinol, nid oes dyletswydd ar awdurdod lleol i asesu anghenion plentyn o dan 16 oed os yw person a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn gwrthod asesiad o'r fath. Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd i wneud asesiad yn parhau i fod yn gymwys os oes gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch gwrthod yr asesiad ac nad yw'n cytuno â'r gwrthodiad a roddir gan y person a chanddo gyfrifoldeb rhiant.
67. Mae rhagofalon eraill hefyd yn bodoli i ganiatáu i wrthodiad o asesiad o anghenion ar gyfer plentyn o dan 16 oed gael ei drechu o dan amgylchiadau penodol fel bod y ddyletswydd i asesu yn parhau i fod yn gymwys.
68. Pan fo'r awdurdod lleol yn amau bod y plentyn yn cael, neu'n wynebu risg o gael, ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio mewn modd arall, mae'r awdurdod lleol yn parhau o dan ddyletswydd i asesu anghenion y plentyn. Diffinnir "camdriniaeth" a "cam-drin", "esgeulustod" a "niwed" yn adran 197(1).
69. Pan fo'r awdurdod lleol wedi ei fodloni y byddai peidio â chael asesiad yn anghyson â llesiant y plentyn, rhaid i'r awdurdod lleol ddiystyru unrhyw wrthodiad a roddir gan berson a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn a rhaid iddo wneud asesiad o anghenion y plentyn. Pan fo'r ddyletswydd i asesu anghenion plentyn wedi ei rhyddhau drwy wrthodiad, ailymrwymir i'r ddyletswydd os yw'r plentyn yn gofyn wedyn am asesiad a bod ganddo ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cael asesiad. Ailymrwymir i'r ddyletswydd i asesu hefyd os yw person a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn gofyn wedyn am asesiad.
70. Gall newid yn anghenion neu amgylchiadau'r plentyn, neu newid yn anghenion neu amgylchiadau person a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, hefyd arwain at ailymrwymo i'r ddyletswydd i asesu.

Adran 24 - Dyletswydd i asesu anghenion gofalwr am gymorth

71. Mae adran 24 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol wneud asesiad o anghenion gofalwr am gymorth. Gweler y nodyn esboniadol ar gyfer adran 3 i gael rhagor o wybodaeth am bwy sy'n ofalwr at ddibenion y Ddeddf.

63. Where the duty to assess a child's needs has been discharged by a refusal, the duty is re-engaged if the child subsequently asks for an assessment. If the child lacks capacity, the duty is re-engaged if an authorised person (or, if there is no authorised person, a person with parental responsibility for the child) subsequently asks for an assessment.
64. A change in the needs or circumstances of the child, or a change in the needs or circumstances of a person with parental responsibility for the child, may also lead to the duty to assess being re-engaged.

Section 23 – Refusal of a needs assessment for a child aged under 16

65. In the case of children under 16, there is no presumption in law that they have capacity to make decisions. In order for a refusal by a child under 16 to discharge the local authority's duty to carry out an assessment, the local authority must be satisfied that the child is able to make an informed decision about the refusal of an assessment.
66. As a general rule, there is no duty on a local authority to assess the needs of a child aged under 16 if a person with parental responsibility for the child refuses such an assessment. However, the duty to undertake an assessment continues to apply if the child has sufficient understanding to make an informed decision about the refusal of the assessment and does not agree with the refusal given by the person with parental responsibility.
67. There are also other safeguards in place to allow a refusal of a needs assessment for a child under 16 to be overridden in certain circumstances so that the duty to assess continues to apply.
68. Where the local authority suspects that the child is experiencing or is at risk of abuse, neglect or other kinds of harm, the local authority remains under a duty to assess the child's needs. "Abuse", "neglect" and "harm" are defined in section 197(1).
69. Where the local authority is satisfied that not having an assessment would be inconsistent with the child's well-being, the local authority must disregard any refusal given by a person with parental responsibility for the child and must undertake an assessment of the child's needs. Where the duty to assess a child's needs has been discharged by a refusal, the duty is re-engaged if the child subsequently asks for an assessment and has sufficient understanding to make an informed decision about having an assessment. The duty to assess is also re-engaged if a person with parental responsibility for the child subsequently asks for an assessment.
70. A change in the needs or circumstances of the child, or a change in the needs or circumstances of a person with parental responsibility for the child, may also lead to the duty to assess being re-engaged.

Section 24 – Duty to assess the needs of a carer for support

71. Section 24 requires a local authority to carry out an assessment of a carer's needs for support. See the explanatory note to section 3 for further information about who is a carer for the purposes of the Act.

72. Ysgogir y ddyletswydd i asesu os yw'n ymddangos i'r awdurdod lleol y gall fod ar ofalwr anghenion am gymorth. Mae'r ddyletswydd yn gymwys ni waeth beth fo barn yr awdurdod ar lefel y cymorth y mae ei angen ar y gofalwr neu lefel adnoddau ariannol y gofalwr neu'r person y mae angen y gofal arno.
73. Rhaid i'r asesiad gynnwys asesiad o'r graddau y mae'r gofalwr yn gallu ac yn fodlon darparu'r gofal a pharhau i ddarparu'r gofal, y canlyniadau y mae'r gofalwr yn dymuno eu sicrhau ac, os plentyn yw'r gofalwr, y canlyniadau y mae rhiant y plentyn hwnnw (a'r personau eraill hynny a bennir mewn rheoliadau) yn dymuno eu sicrhau ar ei gyfer. Rhaid i'r asesiad ganfod hefyd y graddau y gallai cymorth, gwasanaethau ataliol, neu'r ddarpariaeth o wybodaeth, cyngor neu gynhorthwy neu unrhyw faterion eraill helpu i sicrhau'r canlyniadau sydd wedi eu nodi. Wrth wneud yr asesiad, rhaid i'r awdurdod lleol gynnwys y gofalwr a, phan fo'n ddichonadwy, y person y mae'r gofalwr yn darparu neu'n bwriadu darparu gofal iddo.
74. Rhaid i'r asesiad hefyd roi sylw i b'un a yw'r gofalwr yn dymuno gweithio a chymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu weithgareddau hamdden ac, os plentyn yw'r gofalwr, rhaid iddo hefyd roi sylw i'w anghenion datblygiadol a'r graddau y mae'n briodol i'r plentyn ddarparu'r gofal. Dylai hyn arwain at yr awdurdod lleol yn ystyried a yw gofalwr sy'n blentyn mewn gwirionedd yn blentyn y mae arno anghenion gofal a chymorth yn ei hawl ei hun y dylid ei asesu o dan adran 21.
75. Rhaid i'r asesiad ei hun fod yn un cymesur a rhaid iddo gynnwys yr oedolyn a, phan fo'n ddichonadwy, gofalwr yr oedolyn. Caiff rheoliadau o dan adran 30 osod gofynion pellach mewn perthynas â'r asesiad.

Adran 25 - Gwrthod asesiad o anghenion ar gyfer gofalwr sy'n oedolyn

76. Mae adran 25 yn darparu nad yw dyletswydd yr awdurdod lleol i asesu anghenion gofalwr sy'n oedolyn yn gymwys os yw'r gofalwr yn gwrthod asesiad o anghenion a bod ganddo alluedd i benderfynu a wrthoda'r asesiad.
77. Yn yr un modd, nid yw'r ddyletswydd i asesu anghenion gofalwr sy'n oedolyn yn gymwys os nad oes gan y gofalwr alluedd i benderfynu a wrthoda asesiad a bod person awdurdodedig yn gwneud y penderfyniad i wrthod yr asesiad ar ei ran. Diffinnir 'person awdurdodedig' yn is-adran (4) fel person sydd wedi ei awdurdodi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p'un ai yn nhermau cyffredinol neu benodol) i benderfynu a wrthoda asesiad o anghenion, neu a ofynna am un, ar ran y gofalwr.
78. Fodd bynnag, os yw gofalwr sy'n oedolyn yn gwrthod asesiad o anghenion o dan amgylchiadau pan fo'r awdurdod lleol wedi ei fodloni nad oes gan y gofalwr alluedd ac nad oes person awdurdodedig a all weithredu ar ran y gofalwr, mae'n ofynnol, serch hynny, i'r awdurdod lleol wneud asesiad o anghenion y gofalwr os yw wedi ei fodloni y byddai cael yr asesiad er lles pennaf y gofalwr.

72. The duty to assess is triggered if it appears to the local authority that a carer may have needs for support. The duty applies regardless of the authority's view of the level of support the carer needs or the level of the financial resources of the carer or the person needing care.
73. The assessment must include an assessment of the extent to which the carer is able and willing to provide the care and to continue to provide the care, the outcomes the carer wishes to achieve and, if a child is the carer, the outcomes the parent of that child (and such other persons as are specified in regulations) wishes to achieve for them. The assessment must also identify the extent to which support, preventative services, or the provision of information, advice or assistance or any other matters could assist in achieving the identified outcomes. In carrying out the assessment, the local authority must involve the carer and, where feasible, the person for whom the carer provides or intends to provide care.
74. The assessment also must have regard to whether the carer wishes to work and participate in education, training or leisure activities and, if the carer is a child, must also have regard to his or her developmental needs and the extent to which it is appropriate for the child to provide the care. This should lead to consideration by the local authority of whether a child carer is actually a child with care and support needs in his or her own right who should be assessed under section 21.
75. The assessment itself must be proportionate and must involve the adult and, where feasible, the adult's carer. Regulations under section 30 may impose further requirements in relation to the assessment.

Section 25 – Refusal of a needs assessment for an adult carer

76. Section 25 provides that the local authority's duty to assess an adult carer's needs does not apply if the carer refuses a needs assessment and has capacity to decide whether to refuse the assessment.
77. Similarly, the duty to assess an adult carer's needs does not apply if the carer lacks capacity to decide whether to refuse an assessment, and an authorised person makes the decision to refuse the assessment on their behalf. An 'authorised person' is defined in subsection (4) as a person authorised under the Mental Capacity Act 2005 (whether in general or specific terms) to decide whether to refuse, or ask for, a needs assessment on the carer's behalf.
78. However, if an adult carer refuses a needs assessment in circumstances in which the local authority is satisfied that the carer lacks capacity and that there is no authorised person who can act on the carer's behalf, the local authority is nonetheless required to undertake an assessment of the carer's needs if it is satisfied that having the assessment would be in the carer's best interests.

79. Pan fo'r ddyletswydd i asesu anghenion gofalwr wedi ei rhyddhau drwy wrthodiad, ailymrwymir i'r ddyletswydd os yw'r gofalwr (neu berson awdurdodedig sy'n gweithredu ar ei ran) yn gofyn yn ddiweddarach am asesiad neu os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod amgylchiadau'r gofalwr wedi newid.

Adran 26 – Gwrthod asesiad o anghenion ar gyfer gofalwr sy'n 16 neu'n 17 oed

80. Mae adran 26 yn darparu nad yw dyletswydd yr awdurdod lleol i asesu anghenion gofalwr sy'n 16 neu'n 17 oed yn gymwys os yw'r gofalwr yn gwrthod asesiad o anghenion a bod ganddo alluedd i benderfynu a wrthoda'r asesiad.
81. Yn yr un modd, nid yw'r ddyletswydd i asesu anghenion gofalwr sy'n 16 neu'n 17 oed yn gymwys os nad oes gan y gofalwr alluedd i benderfynu a wrthoda'r asesiad a bod person awdurdodedig yn gwneud y penderfyniad i wrthod ar ei ran. Diffinnir 'person awdurdodedig' yn is-adran (5) fel person sydd wedi ei awdurdodi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p'un ai yn nhermau cyffredinol neu benodol) i benderfynu a wrthoda asesiad o anghenion, neu a ofynna am un, ar ran y gofalwr.
82. Pan na fo gan y gofalwr alluedd i benderfynu a gaiff asesiad o anghenion ac nad oes person awdurdodedig i wneud y penderfyniad ar ran y gofalwr, caiff person a chanddo gyfrifoldeb rhiant wrthod yr asesiad. Mae gwrthodiad o'r fath yn rhyddhau'r awdurdod lleol o'i ddyletswydd i asesu anghenion y gofalwr oni bai bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni na fyddai peidio â chael yr asesiad er lles pennaf y gofalwr.
83. Pan fo'r ddyletswydd i ryddhau anghenion gofalwr wedi ei rhyddhau drwy wrthodiad, ailymrwymir i'r ddyletswydd os yw'r gofalwr yn gofyn yn ddiweddarach am asesiad. Pan na fo gan y gofalwr alluedd, ailymrwymir i'r ddyletswydd i asesu hefyd os yw'r person awdurdodedig (neu berson a chanddo gyfrifoldeb rhiant os nad oes person awdurdodedig) yn gofyn wedyn am asesiad.
84. Gall newid yn anghenion neu amgylchiadau'r gofalwr neu newid yn anghenion neu amgylchiadau person a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y gofalwr hefyd arwain at ailymrwymo i'r ddyletswydd i asesu.

Adran 27 – Gwrthod asesiad o anghenion ar gyfer gofalwr o dan 16 oed

85. Mae adran 27 yn darparu nad yw dyletswydd yr awdurdod lleol i asesu gofalwr o dan 16 oed yn gymwys os yw'r gofalwr yn gwrthod yr asesiad a bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni bod gan y gofalwr ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch gwrthod asesiad.
86. Yn yr un modd, nid yw'r ddyletswydd i asesu anghenion gofalwr yn gymwys pan fo person a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros ofalwr o dan 16 oed yn gwrthod asesiad o anghenion ar gyfer y gofalwr. Trechir effaith gwrthodiad o'r fath, fodd bynnag, os oes gan y gofalwr ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch gwrthod yr asesiad ac nad yw'n cytuno â'r gwrthodiad. O dan yr amgylchiadau hynny, mae'r awdurdod lleol yn parhau o dan ddyletswydd i asesu anghenion y gofalwr.

79. Where the duty to assess a carer's needs has been discharged by a refusal, the duty is re-engaged if the carer (or an authorised person acting on his or her behalf) asks at a later date for an assessment or if the local authority is satisfied that the carer's circumstances have changed.

Section 26 – Refusal of a needs assessment for a carer aged 16 or 17

80. Section 26 provides that the local authority's duty to assess the needs of a carer aged 16 or 17 does not apply if the carer refuses a needs assessment and has capacity to decide whether to refuse the assessment
81. Similarly, the duty to assess the needs of a carer aged 16 or 17 does not apply if the carer lacks capacity to decide whether to refuse the assessment and an authorised person makes the decision to refuse on their behalf. An 'authorised person' is defined in subsection (5) as a person authorised under the Mental Capacity Act 2005 (whether in general or specific terms) to decide whether to refuse, or ask for, a needs assessment on the carer's behalf.
82. Where the carer lacks capacity to decide whether to have a needs assessment and there is no authorised person to make the decision on the carer's behalf, a person with parental responsibility may refuse the assessment. Such a refusal discharges the local authority's duty to assess the carer's needs unless the local authority is satisfied that not having the assessment would not be in the carer's best interests.
83. Where the duty to discharge a carer's needs has been discharged by a refusal, the duty is re-engaged if the carer asks at a later date for an assessment. Where the carer lacks capacity, the duty to assess is also re-engaged if the authorised person (or person with parental responsibility if there is no authorised person) subsequently asks for an assessment.
84. A change in the needs or circumstances of the carer or a change in the needs or circumstances of a person with parental responsibility for the carer may also lead to the duty to assess being re-engaged.

Section 27 – Refusal of a needs assessment for a carer aged under 16

85. Section 27 provides that the local authority's duty to assess a carer aged under 16 does not apply if the carer refuses the assessment and the local authority is satisfied that the carer has sufficient understanding to make an informed decision about the refusal of an assessment.
86. Similarly, the duty to assess a carer's needs does not apply where a person with parental responsibility for a carer aged under 16 refuses a needs assessment for the carer. The effect of such a refusal is overridden, however, if the carer has sufficient understanding to make an informed decision about the refusal of the assessment and does not agree with the refusal. In such circumstances the local authority continues to be under a duty to assess the carer's needs.

87. Mae'n ofynnol hefyd i awdurdod lleol wneud asesiad o anghenion ar gyfer gofalwr o dan 16 oed, er gwaethaf y gwrthodiad gan y person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y gofalwr pan fo wedi ei fodloni y byddai peidio â chael yr asesiad yn anghyson â llesiant y gofalwr.
88. Pan fo'r ddyletswydd i asesu anghenion gofalwr wedi ei rhyddhau drwy wrthodiad, ailymrwymir i'r ddyletswydd os yw'r gofalwr yn gofyn wedyn am asesiad a bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni bod gan y gofalwr ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cael asesiad. Ailymrwymir i'r ddyletswydd hefyd os yw'r person a chanddo gyfrifoldeb rhiant yn gofyn wedyn am asesiad, neu os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod anghenion neu amgylchiadau'r gofalwr, neu unrhyw berson a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y gofalwr, wedi newid.

Adran 28 - Cyfuno asesiadau o anghenion ar gyfer gofalwr a pherson y gofelir amdano

89. Mae adran 28 yn caniatáu i awdurdod lleol gyfuno asesiad o anghenion person ag asesiad o anghenion ei ofalwr. Fodd bynnag, ni chaiff yr awdurdod lleol wneud hynny oni roddir cydsyniad dilys gan y personau hynny neu mewn cysylltiad â hwy, neu os yw'r amgylchiadau yn golygu y caniateir i'r gofyniad i gael cydsyniad dilys gael ei hepgor.
90. Rhagdybir bod gan oedolyn neu blentyn sy'n 16 neu'n 17 oed alluedd i roi cydsyniad dilys i gyfuno'r asesiadau. Gall plentyn o dan 16 oed roi cydsyniad dilys i gyfuno'r asesiadau os oes gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch y mater.
91. Gall person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn roi cydsyniad dilys ar ran plentyn o dan 16 oed, er y bydd y cydsyniad hwn yn annilys os oes gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cyfuno asesiadau ac nad yw'n cytuno â'r cydsyniad a roddir gan y person a chanddo gyfrifoldeb rhiant.
92. Pan fo'r awdurdod lleol wedi ei fodloni nad oes gan oedolyn neu blentyn sy'n 16 neu'n 17 oed alluedd i roi cydsyniad dilys, gall person awdurdodedig roi cydsyniad o'r fath yn ei le. Diffinnir 'person awdurdodedig' yn is-adran (7) fel person sydd wedi ei awdurdodi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p'un ai yn nhermau cyffredinol neu benodol) i benderfynu a wrthoda asesiad o anghenion, neu a ofynna am un, ar ran yr oedolyn neu'r plentyn.
93. Pan fo awdurdod lleol wedi ei fodloni nad oes gan oedolyn alluedd i roi cydsyniad dilys ac nad oes person awdurdodedig a all wneud hynny, gall yr awdurdod lleol hepgor y gofyniad i gael cydsyniad dilys a chyfuno asesiad yr oedolyn os yw wedi ei fodloni y byddai hyn er lles pennaf yr oedolyn.
94. Pan fo awdurdod lleol wedi ei fodloni nad oes gan blentyn sy'n 16 neu'n 17 oed alluedd i roi cydsyniad dilys i gyfuno'r asesiadau ac nad oes person awdurdodedig a all wneud hynny, mae cydsyniad dilys person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn ofynnol. Fodd bynnag, gall yr awdurdod lleol hepgor yr angen am y cydsyniad hwn os yw wedi ei fodloni y byddai cyfuno asesiadau o anghenion er lles pennaf y plentyn.

87. A local authority is also required to undertake a needs assessment for a carer under 16, notwithstanding the refusal of the person with parental responsibility for the carer where it is satisfied that not having the assessment would be inconsistent with the carer's well-being.
88. Where the duty to assess a carer's needs has been discharged by a refusal, the duty is re-engaged if the carer subsequently asks for an assessment and the local authority is satisfied that the carer has sufficient understanding to make an informed decision about having an assessment. The duty to assess is also re-engaged if a person with parental responsibility for the carer subsequently asks for an assessment, or if the local authority is satisfied that the needs or circumstances of the carer, or any person with parental responsibility for the carer, have changed.

Section 28 – Combining needs assessments for a carer and a cared for person

89. Section 28 allows a local authority to combine a person's needs assessment with the needs assessment of his or her carer. However, the local authority may only do so if valid consent is given by or in respect of those persons, or if the circumstances are such that the requirement for valid consent may be dispensed with.
90. An adult or a child aged 16 or 17 is presumed to have capacity to give valid consent to the combining of the assessments. A child under the age of 16 can give valid consent to the combining of the assessments if the child has sufficient understanding to make an informed decision about the matter.
91. A person with parental responsibility for a child can give valid consent on behalf of a child under the age of 16, although this consent will be invalid if the child has sufficient understanding to make an informed decision about the combining of assessments and does not agree with the consent given by the person with parental responsibility.
92. Where the local authority is satisfied that an adult or a child aged 16 or 17 lacks capacity to give valid consent, such consent can be given instead by an authorised person. An 'authorised person' is defined in subsection (7) as a person authorised under the Mental Capacity Act 2005 (whether in general or specific terms) to decide whether to refuse, or ask for, a needs assessment on the adult or child's behalf.
93. Where a local authority is satisfied that an adult lacks capacity to give valid consent and that there is no authorised person who can do so, the local authority can dispense with the requirement for valid consent and combine the adult's assessment if it is satisfied that this would be in the adult's best interests.
94. Where a local authority is satisfied that a child aged 16 or 17 lacks capacity to give valid consent to the combining of the assessments and that there is no authorised person who can do so, the valid consent of a person with parental responsibility for the child is required. However, the local authority can dispense with need for this consent if it is satisfied that combining needs assessments would be in the child's best interests.

95. Yn achos plentyn o dan 16 oed nad oes ganddo ddealltwriaeth ddigonol i allu rhoi cydsyniad dilys i gyfuno'r asesiadau, mae cydsyniad dilys person sydd â chyfrifoldeb rhiant yn ofynnol. Fodd bynnag, gellir hepgor yr angen am y cydsyniad hwn os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni y byddai cyfuno'r asesiadau o anghenion yn gyson â llesiant y plentyn.

Adran 29 – Cyfuno asesiadau o anghenion ac asesiadau eraill

96. Mae adran 29 yn darparu y caiff awdurdod lleol gyfuno'r asesiadau hynny pan ymddengys fod ar rywun angen cymorth fel gofalwr a bod arno anghenion am ofal a chymorth yn ei hawl ei hun hefyd.
97. Caiff awdurdod lleol wneud asesiad o anghenion person yr un pryd ag y mae ef neu gorff arall yn gwneud asesiad statudol arall mewn perthynas â'r person hwnnw.
98. Mewn achosion o'r fath, caiff yr awdurdod lleol wneud yr asesiad statudol arall ar ran y corff arall neu ar y cyd ag ef. Os yw'r corff arall eisoes wedi trefnu i'r asesiad arall gael ei wneud ar y cyd â thrydydd parti, caiff yr awdurdod lleol wneud yr asesiad arall ar y cyd â'r corff arall a'r trydydd parti.
99. Bwriad y ddarpariaeth hon yw caniatáu i awdurdodau lleol wneud amryw asesiadau ar yr un pryd fel nad oes angen i unigolion fynd drwy gyfres o asesiadau ar wahân.

Adran 30 – Rheoliadau ynghylch asesu

100. Mae adran 30 yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru ynglŷn â chynnal asesiadau o anghenion o dan Ran 3.
101. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer adolygu asesiadau. Caiff y rheoliadau, er enghraifft, bennu pwy a all ofyn am adolygiad, o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â chais, ac o dan ba amgylchiadau y caiff wrthod gwneud hynny.
102. Mae is-adran (3) yn rhoi enghreifftiau o fathau eraill o ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn y rheoliadau. Gallai'r ddarpariaeth hon gynnwys gofynion i gynnwys pobl eraill, yn ychwanegol at y rhai a bennir yn adrannau 19, 21 a 24, yn y broses asesu. Gallai'r rheoliadau hefyd ei gwneud yn ofynnol i asesiadau gael eu cynnal mewn ffordd benodol a gallent bennu'r personau y mae asesiadau i'w gwneud ganddynt: er enghraifft, awdurdodau lleol neu bersonau neu gyrff sy'n gweithredu ar ran awdurdodau lleol. Gallai'r rheoliadau, yn ychwanegol, bennu o fewn pa derfynau amser y bydd rhaid cwblhau asesiadau a'i gwneud yn ofynnol i ganlyniadau asesiad gael eu cofnodi mewn ffordd benodol er mwyn sicrhau cysondeb. Gallai darpariaeth arall gynnwys gofyniad i awdurdodau lleol roi sylw i ystyriaethau ychwanegol wrth gynnal asesiad a phŵer i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth at ddiben yr asesiad.

Adran 31 – Rhan 3: dehongli

103. Mae adran 31 yn diffinio rhai o'r termau allweddol a ddefnyddir yn Rhan 3, sef 'gwasanaethau ataliol' a 'gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy'.

95. In the case of a child under the age of 16 who does not have sufficient understanding to be able to give valid consent to the combining of the assessments, the valid consent of a person with parental responsibility is required. However, the need for this consent can be dispensed with if the local authority is satisfied that combining the needs assessments would be consistent with the child's well-being.

Section 29 – Combining needs assessments and other assessments

96. Section 29 provides that where someone appears to need support as a carer and also appears to have needs for care and support in their own right, a local authority can combine those assessments.
97. A local authority may carry out a person's needs assessment at the same time as it or another body carries out another statutory assessment in relation to that person.
98. In such cases, the local authority may carry out the other statutory assessment on behalf of, or jointly with, the other body. If the other body has already arranged for the other assessment to be carried out jointly with a third party, the local authority may carry out the other assessment jointly with the other body and the third party.
99. This provision is designed to allow local authorities to carry out multiple assessments at the same time so that individuals do not need to undergo a series of separate assessments.

Section 30 – Regulations about assessment

100. Section 30 requires regulations to be made by the Welsh Ministers about the carrying out of needs assessments under Part 3.
101. Subsection (2) requires the regulations to make provision for the review of assessments. The regulations may, for example, specify who can request a review, the circumstances in which a local authority must comply with a request, and the circumstances in which it may refuse to do so.
102. Subsection (3) gives examples of further kinds of provision that may be made in the regulations. This provision could include requirements to involve other people, in addition to those specified in sections 19, 21 and 24, in the assessment process. The regulations could also require assessments to be carried out in a particular way and could specify the persons by whom assessments are to be carried out: for example, local authorities or persons or bodies acting on behalf of local authorities. The regulations could, in addition, set time limits within which assessments must be completed and require the results of an assessment to be recorded in a particular way so as to ensure consistency. Other provision could include a requirement for local authorities to have regard to additional considerations when carrying out an assessment and a power for local authorities to provide information for the purpose of the assessment.

Section 31 – Part 3: interpretation

103. Section 31 defines some of the key terms used in Part 3, namely 'information, advice or assistance' and 'preventative services'.

Adran 32 – Dyfarnu cymhwysra ac ystyried beth i'w wneud i ddiwallu anghenion

104. Mae adran 32 yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol, os daw asesiad i'r casgliad bod ar berson anghenion am ofal a chymorth, neu, yn achos gofawlwr, anghenion am gymorth, ddyfarnu a yw'r anghenion hynny yn bodloni'r meini prawf cymhwysra sydd i'w nodi mewn rheoliadau.
105. Os nad yw'r anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwysra, bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried a yw'n angenrheidiol diwallu anghenion y person a asesir er mwyn ei amddiffyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu rhag risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Yn achos plentyn, bydd hyn hefyd yn cynnwys amddiffyn rhag niwed neu risg o niwed. Diffinnir "camdriniaeth" a "cam-drin", "esgeulustod" a "niwed" yn adran 197(1). Os deuir i'r casgliad ei bod yn angenrheidiol diwallu'r anghenion am y rheswm hwn, bydd rhaid i'r awdurdod lleol ddiwallu'r anghenion hynny, hyd yn oed os nad yw'n bodloni'r meini prawf cymhwysra.
106. Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried hefyd a yw'r anghenion a ganfuwyd yn galw am arfer unrhyw un neu rai o'i swyddogaethau o dan y Ddeddf hon neu o dan Rannau 4 a 5 o Ddeddf Plant 1989. Er enghraifft, gall fod y gallai anghenion plentyn gael eu diwallu gan yr awdurdod lleol sy'n darparu llety yn unol â'i ddyletswydd o dan adran 76 o'r Ddeddf hon (llety i blant sydd heb rieni, neu blant sydd ar goll neu sydd wedi eu gadael etc) neu gallai fod angen i'r awdurdod lleol ystyried a oes sail dros orchymyn gofal neu orchymyn goruchwyllo neu dros gymryd camau eraill i amddiffyn y plentyn o dan Ran 5 o Ddeddf 1989.
107. Os yw'r awdurdod lleol yn dyfarnu ei fod o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion y person neu'n penderfynu arfer ei bwerau i ddiwallu anghenion, rhaid iddo fynd ymlaen i ystyried yr hyn y gellid ei wneud i ddiwallu'r anghenion a ganfuwyd. Mae adran 34 yn rhoi enghreifftiau o'r hyn y gellir ei ddarparu neu ei drefnu i ddiwallu anghenion, gan gynnwys gwneud taliadau uniongyrchol. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd ystyried p'un ai i arfer ei bwerau yn Rhan 5 o'r Ddeddf hon i godi ffi am ddiwallu'r anghenion a ganfuwyd a faint y byddai'n ei godi. Os oes ffi i fod, dim ond swm y dyfernir ei bod yn rhesymol ymarferol iddo ei dalu, gan roi sylw i ganlyniad asesiad ariannol, y bydd yn ofynnol i'r person ei dalu.
108. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd ystyried a fyddai darparu gwasanaethau ataliol, neu wybodaeth, cyngor a chynhorthwy, neu unrhyw beth arall a all fod ar gael yn y gymuned, o fudd i'r person. Mae hyn yn gymwys p'un a oes ar y person anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysra ai peidio.
109. Mae rheoliadau yn disgrifio'r anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysra. Gall rheoliadau ddisgrifio anghenion drwy gyfeirio at yr effaith y mae'r anghenion yn ei chael ar y person o dan sylw neu drwy gyfeirio at amgylchiadau'r person. Bydd y rheoliadau yn cymryd lle'r meini prawf cymhwysra lleol a gymhwysir ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol yn unol â'r canllawiau yn "Creu System Deg ac Unedig i Asesu a Rheoli Gofal" a "Trefniadau Asesu, Cynllunio ac Adolygu Integredig ar gyfer Pobl Hŷn".

Section 32 – Determination of eligibility and consideration of what to do to meet needs

104. Section 32 provides that if an assessment concludes that a person has needs for care and support, or, in the case of a carer, needs for support, the local authority must determine whether those needs meet the eligibility criteria which are to be set out in regulations.
105. If the needs do not meet the eligibility criteria, the local authority will need to consider whether it is necessary to meet the person's assessed needs in order to protect them from abuse or neglect or a risk of abuse or neglect. In the case of a child, this will also include protection from harm or risk of harm. "Abuse", "neglect" and "harm" are defined in section 197(1). If it is concluded that it is necessary to meet the needs for this reason, the local authority will be obliged to meet those needs, even if they do not meet the eligibility criteria.
106. The local authority must also consider whether the needs identified call for the exercise of any of its functions under this Act or under Parts 4 and 5 of the Children Act 1989. For example, it may be that the needs of a child could be met by the local authority providing accommodation in accordance with its duty under section 76 of this Act (accommodation for children without parents or who are lost or abandoned etc.) or there might be the need for the local authority to consider whether there are grounds for a care order or supervision order or the taking other steps to protect the child under Part 5 of the 1989 Act.
107. If the local authority determines that it is under a duty to meet the person's needs or decides to exercise its powers to meet needs, it must go on to consider what could be done to meet the identified needs. Section 34 gives examples of what can be provided or arranged to meet needs, including making direct payments. The local authority must also consider whether to exercise its powers in Part 5 of this Act to charge for meeting the identified needs and how much it would charge. If there is to be a charge, the person will only be required to pay an amount which it is determined it is reasonably practicable for them to pay, having regard to the outcome of a financial assessment.
108. The local authority must also consider whether the person would benefit from the provision of preventative services, or information, advice and assistance, or anything else that may be available in the community. This applies whether or not the person has needs that meet the eligibility criteria.
109. Regulations describe the needs which meet the eligibility criteria. The regulations can describe needs by reference to the effect the needs have on the person concerned or by reference to the person's circumstances. The regulations will replace the local eligibility criteria that local authorities currently apply in accordance with guidance in "Creating a Unified and Fair System for Assessing and Managing Care" and "Integrated Assessment, Planning and Review Arrangements for Older People".

Adran 33 – Y weithdrefn ar gyfer rheoliadau o dan adran 32

110. Mae adran 33 yn darparu ar gyfer y weithdrefn sydd i fod yn gymwys i wneud rheoliadau o dan adran 32. Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau ynghylch y meini prawf cymhwysra, rhaid iddynt ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ymddangos bod y rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt, y sefydliadau hynny y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rheini y mae'r rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.
111. Rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfnod o 12 wythnos i'r rheini yr ymgynghorwyd â hwy gyflwyno sylwadau ar y rheoliadau drafft arfaethedig ynghylch cymhwysra. Rhaid iddynt wedyn ystyried y sylwadau hynny a chyhoeddi crynodeb o'r sylwadau hynny.
112. Ar ôl yr ymgynghoriad, rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o'r rheoliadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghyd â datganiad yn rhoi manylion y gwahaniaethau rhwng y rheoliadau drafft yr ymgynghorwyd arnynt a'r rheoliadau drafft fel y'u gosodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.
113. Ni chaniateir i reoliadau ar gymhwysra gael eu gwneud ond pan fo drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo, ac ni chaniateir i'r rheoliadau drafft gael eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol tan ar ôl i gyfnod o 60 niwrnod, o'r dyddiad y gosodir y rheoliadau drafft, ddod i ben.

Adran 34 – Sut i ddiwallu anghenion

114. Unwaith y bydd awdurdod lleol wedi dyfarnu ei fod yn mynd i ddiwallu anghenion person ac yn ystyried beth y gellid ei wneud i ddiwallu'r anghenion hynny, gall geisio diwallu'r anghenion hynny mewn nifer o ffyrdd. Yn wahanol i'r fframwaith cyfreithiol presennol, nid yw'r Ddeddf yn pennu pa ddarpariaeth y mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol ei darparu, neu y cânt ei darparu.
115. Mae adran 34 yn nodi enghreifftiau o'r hyn y gellir ei ddarparu i ddiwallu anghenion person ac enghreifftiau o'r ffyrdd y caiff awdurdod lleol fynd ati i ddiwallu anghenion person. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys cymhorthion ac addasiadau a thaliadau, gan gynnwys taliadau uniongyrchol. Caiff awdurdodau lleol hefyd benderfynu naill ai ddarparu gwasanaethau eu hunain neu drefnu i'r gwasanaethau gael eu darparu gan rywun arall. Gellid diwallu anghenion person hefyd drwy ddarparu'r gwasanaethau i berson arall, er enghraifft darparu cymorth i deulu plentyn er mwyn diwallu anghenion y plentyn am ofal a chymorth.
116. Pan fo awdurdod lleol yn diwallu anghenion person drwy ddarparu neu drefnu gofal a chymorth yng nghartref y person hwnnw ei hun, rhaid i'r awdurdod lleol fodloni ei hun fod yr ymweliadau â'r cartref yn ddigon hir i ddarparu'r gofal a'r cymorth y mae eu hangen. Bydd cod ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 145, yn cynnwys canllawiau ynghylch hyd ymweliadau â chartrefi pobl.
117. Mae rhai cyfyngiadau ar yr hyn y gall awdurdod lleol ei wneud i ddiwallu anghenion person. Nodir y rhain yn adrannau 47 i 49.

Section 33 – Procedures for regulations under section 32

110. Section 33 provides for the procedure to apply to the making of regulations under section 32. When the Welsh Ministers make regulations about the eligibility criteria they must consult such persons as appear likely to be affected by the regulations, such organisations who appear to represent the interests of those likely to be affected by the regulations and any other persons they consider appropriate.
111. The Welsh Ministers must allow a period of 12 weeks for those consulted to submit comments on the proposed draft regulations on eligibility. They must then consider those comments and publish a summary of those comments.
112. Following the consultation the Welsh Ministers must lay a draft of the regulations before the National Assembly for Wales, accompanied by a statement giving details of the differences between the draft regulations as consulted on and the draft regulations as laid before the National Assembly.
113. Regulations on eligibility may only be made where a draft of the instrument has been laid before and approved by a resolution of the National Assembly, and the draft regulations may not be approved by a resolution of the National Assembly until after the expiry of a period of 60 days from the date on which the draft regulations are laid.

Section 34 – How to meet needs

114. Once a local authority has determined it is going to meet a person's needs and is considering what could be done to meet those needs, it can seek to meet those needs in a number of ways. Unlike the current legal framework, the Act does not specify the provision that local authorities may or must provide.
115. Section 34 sets out examples of what may be provided to meet a person's needs and examples of the ways in which it may meet a person's needs. The examples include aids and adaptations and payments, including direct payments. Local authorities can also decide whether to provide services itself or to arrange for the services to be provided by someone else. A person's needs could also be met by providing services to another person, for example providing support to the family of a child in order to meet the child's needs for care and support.
116. Where a local authority is supporting someone's needs by providing or arranging care and support in that person's own home, the local authority must satisfy itself that the visits to the home are of sufficient length to provide the care and support required. A code on the exercise of social services functions, issued by Welsh Ministers under section 145, will include guidelines on the lengths of visits to people's homes.
117. There are some limitations on what a local authority is able to do to meet a person's needs. These are set out in sections 47 to 49.

Adran 35 – Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn

118. Mae adran 35 yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i awdurdod lleol fod o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn yn ei ardal. Mae'n amod bod yr anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwysra a bennir o dan adran 32. Fodd bynnag, mae is-adran (3)(b) yn darparu rhagofalon i sicrhau bod awdurdodau lleol hefyd o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn os yw hynny'n angenrheidiol er mwyn amddiffyn yr oedolyn rhag cael, neu rhag risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso, hyd yn oed os nad yw anghenion yr oedolyn yn bodloni'r meini prawf cymhwysra. Diffinnir "camdriniaeth" a "cam-drin" ac "esgeulustod" yn adran 197(1).
119. Nid yw'r awdurdod lleol o dan ddyletswydd i ddiwallu unrhyw un neu rai o anghenion yr oedolyn sy'n cael eu diwallu gan ofalwr. Pe bai gofalwr yn peidio â darparu gofal a diwallu unrhyw un neu rai o anghenion yr oedolyn, byddai hyn yn ysgogi adolygiad o gynllun gofal a chymorth yr oedolyn, a gall olygu y byddai'n ofynnol wedyn i'r awdurdod lleol ddiwallu'r anghenion. Yn yr un modd, os yw'r person y gofelir amdano yn nodi nad yw am i ofalwr ddiwallu rhai neu bob un o'i anghenion, neu nad yw bellach am i'w anghenion gael eu diwallu yn y ffordd hon, gall hyn olygu y byddai'r awdurdod lleol wedyn o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion yr oedolyn ac y bydd angen iddo ystyried ffyrdd eraill o wneud hyn.
120. Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i'r awdurdod lleol ddiwallu anghenion oedolion sydd â hawlogaeth i gael gwasanaethau yn ddi-dâl neu y mae eu moddion yn peri nad oes rhaid iddynt dalu'r ffi lawn.
121. Nid oes rhaid i'r awdurdod lleol ddiwallu anghenion "hunangyllidwr": sef oedolyn yr asesir bod eu moddion uwchlaw'r terfyn ariannol fel ei fod yn atebol i dalu'r ffi lawn oni bai bod yr oedolyn yn gofyn i'r awdurdod ddiwallu ei anghenion. Yn yr achos hwnnw, bydd yr awdurdod lleol o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion yr oedolyn a gall adennill y gost lawn o ddarparu neu drefnu gwasanaethau. Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn gallu gosod ffi "broceriaeth" (gweler adran 59(3) yn Rhan 5).
122. Pan fo ffi am ofal a chymorth, mae'r awdurdod lleol hefyd o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion oedolyn am ofal a chymorth os nad oes gan yr oedolyn alluedd i drefnu i ddarparu gofal a chymorth ei hun, ac nad oes neb wedi ei awdurdodi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 neu fel arall mewn sefyllfa i wneud hynny ar ran yr oedolyn. Bydd y ddyletswydd hon yn gymwys ni waeth beth fo lefel adnoddau ariannol yr oedolyn.
123. Hyd yn oed os bodlonir yr amodau hyn, ni fydd awdurdod lleol o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion person oni fydd yr amod preswyllo yn is-adran (2) wedi ei fodloni. Mae is-adran (2) yn darparu y bydd awdurdod lleol o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion oedolyn os yw'r oedolyn yn "preswyllo fel arfer" yn ardal yr awdurdod.

Section 35 – Duty to meet care and support needs of an adult

118. Section 35 sets out the conditions that must be met for a local authority to be under a duty to meet the care and support needs of an adult in its area. It is a condition that the needs meet the eligibility criteria set under section 32. However, subsection (3)(b) provides safeguards to ensure that local authorities also have a duty to meet an adult's needs for care and support if this is necessary to protect the adult from abuse or neglect, or a risk of abuse or neglect, even if their needs do not meet the eligibility criteria. "Abuse" and "neglect" are defined in section 197(1).
119. The local authority is not under a duty to meet any of the adult's needs which are being met by a carer. If a carer was to cease providing care and to stop meeting any of the adult's needs, this would trigger a review of the adult's care and support plan, and may mean that the local authority would then be required to meet the needs. Similarly, if the person cared for indicates that they do not want some or all of their needs to be met by a carer, or no longer want their needs to be met in this way, this may mean that the local authority would then be under a duty to meet the adult's needs and will need to consider other ways of doing this.
120. Subsection (4) provides that the local authority must meet the needs of adults who are entitled to receive services without charge or whose means are such that they do not have to pay the full charge.
121. The local authority does not have to meet the needs of a "self funder": an adult whose means are assessed as being above the financial limit so that he or she is liable to pay the full charge unless the adult asks the authority to meet his or her needs. In that case, the local authority will be under a duty to meet the adult's needs and will be able to recover the cost of providing or arranging services. The local authority will also be able to impose a "brokerage" charge (see section 59(3) in Part 5).
122. Where there is a charge for care and support, the local authority is also under a duty to meet an adult's needs for care and support if the adult lacks the capacity to arrange the provision of care and support himself or herself, and there is no person authorised under the Mental Capacity Act 2005 or otherwise in a position to do so on the adult's behalf. This duty will apply regardless of the level of the adult's financial resources.
123. Even if these conditions are met, a local authority will only be under a duty to meet a person's needs if the residence condition in subsection (2) is met. Subsection (2) provides that a local authority will be under a duty to meet the needs of an adult if they are "ordinarily resident" in its area.

124. Rhaid i awdurdod lleol hefyd ddiwallu anghenion oedolion sydd o fewn ardal yr awdurdod ac nad oes ganddynt breswylfa sefydlog. Nid oes rhaid i'r awdurdod lleol ddiwallu anghenion oedolion sy'n preswyllo dros dro yn ardal yr awdurdod ond sy'n preswyllo fel arfer mewn man arall.

Adran 36 – Pŵer i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn

125. Mae adran 36 yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn heb o reidrwydd gwblhau asesiad o anghenion nac asesiad ariannol yn gyntaf. Mae'r pŵer hwn ar gael, er enghraifft, pan ystyrir bod ei angen er mwyn diwallu anghenion fel mater brys.
126. Mae'r pŵer ar gael hefyd mewn achosion pan fo asesiad wedi ei gynnal ond nid yw'r anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwysra. Yn yr amgylchiadau hyn, caiff yr awdurdod lleol, er gwaethaf hynny, benderfynu diwallu'r anghenion, er nad yw o dan ddyletswydd i wneud hynny. Os yw'r awdurdod lleol yn diwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn sy'n preswyllo fel arfer yn ardal awdurdod lleol arall, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod arall hwnnw ei fod yn gwneud hynny.

Adran 37 – Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn

127. Mae adran 37 yn pennu'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i awdurdod lleol fod o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn o fewn ei ardal.
128. Mae'n amod bod yr anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwysra a bennir o dan adran 32. Fodd bynnag, mae is-adran (3) yn darparu rhagofalon i sicrhau bod awdurdodau lleol o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn os yw hynny'n angenrheidiol er mwyn amddiffyn y plentyn rhag cael, neu rhag risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu ei niweidio mewn modd arall, hyd yn oed os nad yw ei anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwysra. Diffinnir "camdriniaeth" a "cam-drin", "esgeulustod" a "niwed" yn adran 197(1).
129. Nid yw'r awdurdod lleol o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion plentyn sy'n cael eu diwallu gan ofalwr neu gan deulu'r plentyn. Pe bai gofalwr neu deulu'r plentyn yn peidio â darparu gofal a diwallu anghenion y plentyn, byddai hyn yn ysgogi adolygiad o gynllun gofal a chymorth y plentyn, a gall olygu y byddai'n ofynnol wedyn i'r awdurdod lleol ddiwallu'r anghenion. Yn yr un modd, os yw'r plentyn yn nodi nad yw am i ofalwr ddiwallu rhai neu bob un o'i anghenion, neu nad yw bellach am i'w anghenion gael eu diwallu yn y ffordd hon, gall hyn olygu y byddai'r awdurdod lleol o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion y plentyn ac y bydd angen iddo ystyried ffyrdd eraill o wneud hyn.
130. Mae'r ddyletswydd yn ddyledus i unrhyw blentyn sydd o fewn ardal awdurdod lleol, hyd yn oed os yw'n preswyllo fel arfer yn rhywle arall. Mae'r ddyletswydd hefyd yn ddyledus i blant sy'n cael eu lletya y tu allan i ardal yr awdurdod lleol ond a oedd yn preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod cyn iddynt gael eu lletya (ac y mae'r awdurdod wedi ei hysbysu amdanynt o dan adran 120).

124. A local authority must also meet the needs of adults who are within its area and have no settled residence. The local authority does not have to meet the needs of adults who are temporarily within its area but are ordinarily resident elsewhere.

Section 36 – Power to meet care and support needs of adult

125. Section 36 confers a power on local authorities to meet the care and support needs of an adult without necessarily having first completed a needs assessment or a financial assessment. This power is available, for example, where it is considered necessary to meet needs as a matter of urgency.
126. This power is also available in cases where an assessment has been carried out but the needs do not meet the eligibility criteria. In these circumstances, the local authority may nonetheless decide to meet the needs, even though they are not under a duty to do so. If the local authority is meeting the care and support needs of an adult who is ordinarily resident in the area of another local authority, then it must notify that other authority that it is doing so.

Section 37 – Duty to meet care and support needs of a child

127. Section 37 sets out the conditions that must be met for a local authority to be under a duty to meet the care and support needs of a child in its area.
128. It is a condition that the needs meet the eligibility criteria set under section 32. However, subsection (3) provides safeguards to ensure that local authorities have a duty to meet a child's needs for care and support if this is necessary to protect the child from abuse or neglect, or a risk of abuse or neglect, or other harm or a risk of such harm, even if their needs do not meet the eligibility criteria. "Abuse", "neglect" and "harm" are defined in section 197(1).
129. The local authority is not under a duty to meet the needs of a child which are being met by a carer or by the child's family. If a carer or the child's family ceased providing care and stopped meeting the child's needs, this would trigger a review of the child's care and support plan, and may mean that the local authority would then be required to meet the needs. Similarly, if the child indicates that they do not want some or all of their needs to be met by a carer, or no longer want their needs to be met in this way, this may mean that the local authority would be under a duty to meet the child's needs and will need to consider other ways of doing this.
130. The duty is owed to any child who is within a local authority's area, even if they ordinarily resident elsewhere. The duty is also owed to children who are being accommodated outside the local authority's area but who were ordinarily resident in its area before they were accommodated (and about whom the authority has been notified under section 120).

131. Nid yw'r adran hon yn gymwys os yw'r plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru. Darperir ar wahân ar gyfer y plant hynny yn Rhan 6. (Am ystyr plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, gweler adran 74). Nid yw'r adran yn gymwys ychwaith i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn Lloegr neu'r Alban neu gan Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon.
132. Mae'n bosibl y bydd awdurdod lleol o dan ddyletswydd hefyd i ddarparu llety i blant o dan adran 76 neu adran 77 o'r Ddeddf, ac o dan ddyletswyddau eraill i ddiogelu ac amddiffyn y plentyn o dan Rannau 4 neu 5 o Ddeddf Plant 1989.

Adran 38 – Pŵer i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn

133. Mae adran 38 yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn heb o reidrwydd gwblhau asesiad o anghenion nac asesiad ariannol yn gyntaf. Mae'r pŵer hwn ar gael, er enghraifft, pan ystyrir bod ei angen er mwyn diwallu anghenion fel mater brys.
134. Mae'r pŵer hwn ar gael hefyd mewn achosion pan fo asesiad wedi ei gynnal ond nad yw'r anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwysra. Yn yr amgylchiadau hyn, caiff yr awdurdod lleol benderfynu diwallu'r anghenion beth bynnag, er nad yw o dan ddyletswydd i wneud hynny.
135. Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu arfer y pŵer hwn i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn sy'n preswyllo fel arfer yn ardal awdurdod lleol arall, yna rhaid iddo hysbysu'r awdurdod arall hwnnw ei fod yn gwneud hynny.
136. Nid yw'r adran hon yn gymwys os yw'r plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru. Darperir ar wahân ar gyfer y plant hynny yn Rhan 6. Nid yw'r adran yn gymwys ychwaith i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn Lloegr neu'r Alban neu gan Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon.

Adran 39 – Dyletswydd i gadw cyswllt â'r teulu

137. Mae adran 39 yn ailddatgan y ddarpariaeth yn mharagraff 10 o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.
138. Mae'n gosod dyletswyddau ychwanegol ar awdurdod lleol mewn perthynas â phlentyn yn ei ardal yr ystyria fod arno angen gofal a chymorth ac sy'n byw ar wahân i'w deulu, ond nad yw'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.
139. P'un a yw'r awdurdod lleol wedi dyfarnu bod gan blentyn o'r fath anghenion cymwys y mae'n rhaid eu diwallu ai peidio, rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau i alluogi'r plentyn i fyw gyda'i deulu, neu i hyrwyddo cyswllt rhwng y plentyn a'i deulu, os yw o'r farn bod hynny'n angenrheidiol er mwyn hyrwyddo llesiant y plentyn.

*These notes refer to the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4)
which received Royal Assent on 1 May 2014*

131. This section does not apply if the child is looked after by a local authority in Wales. They are separately provided for in Part 6. (For the meaning of a child who is looked after by a local authority, see section 74). Neither does the section apply to children looked after by a local authority in England or Scotland or by a Health and Social Care Trust in Northern Ireland.
132. A local authority may also have a duty to provide accommodation for children under section 76 or section 77 of the Act and may have other duties to safeguard and protect the child under Parts 4 or 5 of the Children Act 1989.

Section 38 – Power to meet care and support needs of a child

133. Section 38 confers a power on local authorities to meet the care and support needs of a child without necessarily having first completed a needs assessment or a financial assessment. This power is available, for example, where it is considered necessary to meet needs as a matter of urgency.
134. This power is also available in cases where an assessment has been carried out but the needs do not meet the eligibility criteria. In these circumstances, the local authority may nonetheless decide to meet the needs, even though they are not under a duty to do so.
135. If the local authority decides to exercise this power to meet the care and support needs of a child who is ordinarily resident in the area of another local authority, then it must notify that other authority that it is doing so.
136. This section does not apply if the child is looked after by a local authority in Wales. They are separately provided for in Part 6. Neither does the section apply to children looked after by a local authority in England or Scotland or by a Health and Social Care Trust in Northern Ireland.

Section 39 – Duty to maintain family contact

137. Section 39 is a restatement of the provision in paragraph 10 of Schedule 2 to the Children Act 1989.
138. It places additional duties on a local authority in relation to a child in its area who it considers is in need of care and support and who is living apart from their family but are not being looked after by the local authority.
139. Whether or not it has determined such a child has eligible needs which must be met, the local authority must take steps to enable the child to live with their family or to promote contact between the child and their family, if it considers this is necessary to promote their well-being.

Adrannau 40 ac 41 – Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofalwr sy'n oedolyn am gymorth

140. Mae adran 40 yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i awdurdod lleol fod o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion cymorth oedolyn sy'n ofalwr sy'n gofalu am oedolyn arall neu am blentyn anabl.
141. Mae'r cwestiwn o ran pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion cymorth gofalwr yn dibynnu ar breswylfa'r person y gofelir amdano. Hwn fydd yr awdurdod lleol a fyddai'n gyfrifol am ddiwallu anghenion y person y gofelir amdano pe bai'n gymwys yn ei hawl ei hun, naill ai fel oedolyn (gweler adran 35) neu fel plentyn (gweler adran 37).
142. Rhaid i anghenion y gofalwr sy'n oedolyn fodloni'r meini prawf cymhwysra sydd i'w pennu mewn rheoliadau o dan adran 32.
143. Mae cysylltiad rhwng y ddyletswydd i ddiwallu anghenion y gofalwr sy'n oedolyn am gymorth ac adnoddau ariannol y gofalwr sy'n oedolyn. I'r graddau y mae diwallu anghenion cymorth y gofalwr yn golygu darparu cymorth i'r gofalwr, mae adran 40(4)(a) yn darparu bod rhaid i'r awdurdod lleol ddiwallu anghenion gofalwr sydd â hawlogaeth i gael gwasanaethau yn ddi-dâl neu y mae ei foddion yn peri nad oes rhaid iddo dalu'r ffi lawn. Nid oes rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu cymorth i ofalwr sy'n oedolyn yr asesir bod ei foddion uwchlaw'r terfyn ariannol fel ei fod yn atebol i dalu'r ffi lawn (y cyfeirir atynt fel "hunangyllidwyr") oni bai bod yr oedolyn yn gofyn i'r awdurdod ddiwallu ei anghenion.
144. Mae adran 44(2) yn caniatáu i awdurdod lleol ddiwallu rhai neu bob un o anghenion gofalwr am gymorth drwy ddarparu gofal a chymorth i'r person y gofelir amdano (hyd yn oed pe na fyddai'r awdurdod fel arall o dan ddyletswydd i ddarparu'r gofal a'r cymorth hwnnw). Ond os yw'r awdurdod lleol yn dymuno diwallu anghenion y gofalwr yn y ffordd hon, ni chaiff wneud hynny oni fodlonir yr amod perthnasol yn adran 40(4)(c) neu (d). Mae adran 40(4)(b), (c) a (d) yn nodi amodau gwahanol yn dibynnu ar b'un a yw'r person y gofelir amdano yn oedolyn, yn blentyn anabl sy'n 16 neu'n 17 oed neu'n blentyn anabl o dan 16 oed. Ym mhob achos, mae ystyriaethau gwahanol yn dibynnu ar b'un a oes ffi ariannol am ddiwallu anghenion y person y gofelir amdano.
145. Mae angen ystyried yr amodau yn adran 40(4)(b), (c) a (d) ar y cyd â chynnwys adran 41, sy'n atodol i adran 40. Yr egwyddor allweddol yw bod rhaid i'r person y gofelir amdano gytuno i anghenion y gofalwr gael eu diwallu drwy ddarparu gofal a chymorth i'r person y gofelir amdano. Rhaid i'r awdurdod lleol fod wedi ei fodloni bod gan oedolyn neu blentyn anabl sy'n 16 neu'n 17 oed alluedd i wneud ei benderfyniad ei hun, ac yn achos plentyn o dan 16 oed, rhaid i'r awdurdod lleol fod wedi ei fodloni bod y plentyn yn gallu gwneud penderfyniad deallus ynghylch diwallu anghenion y gofalwr yn y ffordd hon.
146. Gwneir darpariaeth ar gyfer yr hyn sydd i ddigwydd pan na fo gan yr oedolyn neu'r plentyn anabl o dan 16 neu 17 oed alluedd neu pan na fo gan blentyn o dan 16 oed ddealltwriaeth ddigonol i wneud ei benderfyniad ei hun.

Sections 40 and 41 – Duty to meet support needs of an adult carer

140. Section 40 sets out the conditions that must be met for a local authority to be under a duty to meet the support needs of an adult carer who cares for another adult or for a disabled child.
141. The question of which local authority is responsible for meeting the support needs of a carer depends on the residence of the person cared for. This will be the local authority which would be responsible for meeting the cared for person's needs if they were eligible in their own right, either as an adult (see section 35) or a child (see section 37).
142. The adult carer's needs must meet the eligibility criteria which are to be set in regulations under section 32.
143. There is a link between the duty to meet the adult carer's needs for support and the financial resources of the adult carer. In so far as meeting the support needs of the carer involves the provision of support to the carer, section 40(4)(a) provides the local authority must meet the needs of a carer who is entitled to receive services without charge or whose means are such that they do not have to pay the full charge. The local authority does not have to provide support to an adult carer whose means are assessed as being above the financial limit such that they are liable to pay the full charge (often referred to as "self funders") unless the adult asks the authority to meet his or her needs.
144. Section 44(2) permits a local authority to meet some or all of a carer's needs for support by providing care and support to the person cared for (even if the authority would not otherwise be under a duty to provide that care and support). But if the local authority wishes to meet the carer's needs in this way, it can only do so if the relevant condition in section 40(4)(c) or (d) is met. Section 40(4)(b), (c) and (d) sets out different conditions depending on whether the person cared for is an adult, a disabled child aged 16 or 17 or a disabled child under the age of 16. In each case, there are different considerations depending on whether there is a financial charge for meeting the cared for person's needs.
145. The conditions in section 40(4)(b), (c) and (d) need to be considered in conjunction with the contents of section 41, which is supplementary to section 40. The key principle is that the cared for person must agree to the carer's needs being met by the provision of care and support to the cared for person. The local authority must be satisfied that an adult or a disabled child aged 16 or 17 has capacity to make their own decision, and in the case of a child under 16, the local authority must be satisfied that the child is able to make an informed decision about the carer's needs being met in this way.
146. Provision is made for what is to happen where the adult or disabled child aged 16 or 17 lacks capacity or where a child under the age of 16 does not have sufficient understanding to make their own decision.

147. Pan na fo gan oedolyn neu blentyn sy'n 16 neu'n 17 oed alluedd, caniateir i berson awdurdodedig roi cydsyniad. Diffinnir person awdurdodedig yn adran 41(15) fel person sydd wedi ei awdurdodi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p'un ai yn nhermau cyffredinol neu benodol) i benderfynu ar ran y person y mae'r gofalwr yn gofalu amdano p'un ai i gael yr anghenion o dan sylw wedi eu diwallu drwy ddarparu gofal a chymorth i'r person hwnnw.
148. Pan na fo gan oedolyn alluedd ac na fo person awdurdodedig, caiff yr awdurdod lleol ddiwallu anghenion y gofalwr drwy ddarparu gofal a chymorth i'r oedolyn pe byddai hyn er lles pennaf yr oedolyn.
149. Pan na fo gan blentyn anabl sy'n 16 neu'n 17 oed alluedd ac nad oes person awdurdodedig, mae'r awdurdod lleol yn gallu diwallu anghenion y gofalwr drwy ddarparu gofal a chymorth i'r plentyn anabl ar yr amod nad oes gwrthwynebiad wedi ei wneud gan berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Mae'r awdurdod lleol yn gallu diystyru unrhyw wrthwynebiad o'r fath os yw o'r farn na fyddai hyn er lles pennaf y plentyn.
150. Yn achos plentyn anabl o dan 16 oed nad oes ganddo ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cael anghenion y gofalwr wedi eu diwallu drwy ddarparu gofal a chymorth iddo, mae'r awdurdod lleol yn gallu diwallu anghenion y gofalwr drwy ddarparu gofal a chymorth i'r plentyn anabl ar yr amod nad oes gwrthwynebiad wedi ei wneud gan berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Mae'r awdurdod lleol yn gallu diystyru unrhyw wrthwynebiad o'r fath os yw o'r farn na fyddai hyn yn gyson â llesiant y plentyn.
151. Pan fo'r person y gofelir amdano yn blentyn anabl ac y byddai ffi yn cael ei gosod ar oedolyn am ddiwallu anghenion y plentyn hwnnw am ofal a chymorth, mae amod pellach sy'n ei gwneud yn ofynnol nad yw'r oedolyn yn gwrthwynebu'r ddarpariaeth o ofal a chymorth.
152. Mewn unrhyw achos pan na fo'n ddichonadwy i'r awdurdod lleol ddiwallu rhai neu bob un o anghenion y gofalwr drwy ddarparu gofal a chymorth i'r person y gofelir amdano, mae'r awdurdod lleol o dan ddyletswydd i ddod o hyd o ryw ffordd arall o ddiwallu anghenion y gofalwr am gymorth (gweler adran 44).
153. Pan fo adnoddau ariannol yr oedolyn y gofelir amdano uwchlaw'r terfyn ariannol neu pan fyddai oedolyn yn atebol i dalu'r ffi safonol am y ddarpariaeth o ofal a chymorth i blentyn anabl y gofelir amdano gan ofalwr, bydd yr awdurdod lleol yn gallu codi ffi broceriaeth ar yr oedolyn am sefydlu'r trefniadau, yn unol â'r darpariaethau yn adran 59(3) (pwerau i osod ffioedd).

Adrannau 42 a 43 - Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofalwr sy'n blentyn am gymorth

154. Mae adran 42 yn pennu'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i awdurdod lleol fod o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion cymorth gofalwr sy'n blentyn sy'n gofalu am oedolyn neu am blentyn anabl.

147. Where an adult or a child aged 16 or 17 lacks capacity, consent can be given by an authorised person. Authorised person is defined in section 41(15) as a person authorised under the Mental Capacity Act 2005 (whether in general or specific terms) to decide on behalf of the person cared for by the carer whether to have the needs in question met by the provision of care and support to that person.
148. Where an adult lacks capacity and there is no authorised person, the local authority can meet the carer's needs by providing care and support to the adult if this would be in the adult's best interests.
149. Where a disabled child aged 16 or 17 lacks capacity and there is no 'authorised person', the local authority is able to meet the carer's needs by providing care and support to the disabled child provided that no objection has been made by a person with parental responsibility for the child. The local authority is able to disregard any such objection if it thinks this would not be in the child's best interests.
150. In the case of a disabled child under the age of 16 who does not have sufficient understanding to make an informed decision about having the carer's needs met by the provision of care and support to them, the local authority is able to meet the carer's needs by providing care and support to the disabled child provided that no objection has been made by a person with parental responsibility for the child. The local authority is able to disregard any such objection if it thinks this would not be consistent with the child's well-being.
151. Where the cared for person is a disabled child and a charge would be imposed on an adult for meeting that child's needs for care and support, there is a further condition which requires the adult does not object to the provision of care and support.
152. In any case where it is not feasible for the local authority to meet some or all of the carer's needs by providing care and support to the person cared for, the local authority is under a duty to find some other way of meeting the carer's needs for support (see section 44).
153. Where the cared for adult's financial resources are above the financial limit or where an adult would be liable to pay the standard charge for the provision of care and support to a disabled child cared for by a carer, the local authority will be able to charge the adult a brokerage fee for putting in place the arrangements, in accordance with the provisions in section 59(3) (powers to impose charges).

Sections 42 and 43 – Duty to meet support needs of a child carer

154. Section 42 sets out the conditions that must be met for a local authority to be under a duty to meet the support needs of a child carer who cares for an adult or for a disabled child.

155. Bydd y cwestiwn o ran pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion cymorth gofalwr sy'n blentyn yn dibynnu ar breswylfa'r person y gofelir amdano. Yr awdurdod lleol cyfrifol fydd yr un a fyddai'n gyfrifol am ddiwallu anghenion y person y gofelir amdano pe bai'r person hwnnw yn gymwys yn ei hawl ei hun, naill ai fel oedolyn (gweler adran 35) neu fel plentyn (gweler adran 37).
156. Rhaid i anghenion y gofalwr sy'n blentyn fodloni'r meini prawf cymhwysra sydd i'w pennu mewn rheoliadau a wneir o dan adran 32.
157. Mae adran 44(2) yn caniatáu i awdurdod lleol ddiwallu rhai neu bob un o anghenion gofalwr am gymorth drwy ddarparu gofal a chymorth i'r person y gofelir amdano (hyd yn oed pe na fyddai'r awdurdod fel arall o dan ddyletswydd i ddarparu'r gofal a'r cymorth hwnnw). Ond os yw'r awdurdod lleol yn dymuno diwallu anghenion y gofalwr sy'n blentyn yn y ffordd hon, ni chaiff wneud hynny oni fodlonir 'Amod 3' fel y'i nodir yn adran 42(4). Mae adran 42(4)(a), (b) ac (c) yn nodi amodau gwahanol yn dibynnu ar b'un a yw'r person y gofelir amdano yn oedolyn, yn blentyn anabl sy'n 16 neu'n 17 oed neu'n blentyn anabl o dan 16 oed. Ym mhob achos, mae ystyriaethau gwahanol yn dibynnu ar b'un a oes ffi am ddiwallu anghenion y person y gofelir amdano.
158. Mae angen ystyried yr amodau yn adran 42(4)(a), (b) ac (c) ar y cyd â chynnwys adran 43, sy'n atodol i adran 42. Yr egwyddor allweddol yw bod rhaid i'r person y gofelir amdano gytuno i anghenion y gofalwr sy'n blentyn gael eu diwallu drwy ddarparu gofal a chymorth i'r person y gofelir amdano. Rhaid i'r awdurdod lleol fod wedi ei fodloni bod gan oedolyn neu blentyn anabl sy'n 16 neu'n 17 oed alluedd i wneud ei benderfyniad ei hun, ac yn achos plentyn o dan 16 oed, rhaid i'r awdurdod lleol fod wedi ei fodloni bod y plentyn yn gallu gwneud penderfyniad deallus ynghylch diwallu anghenion y gofalwr yn y ffordd hon.
159. Gwneir darpariaeth ar gyfer yr hyn sydd i ddigwydd pan na fo gan yr oedolyn neu'r plentyn anabl o dan 16 neu 17 oed alluedd neu pan na fo gan blentyn o dan 16 oed ddealltwriaeth ddigonol i wneud ei benderfyniad ei hun. Mae hon yn debyg i'r ddarpariaeth a wneir yn adrannau 40 ac 41 mewn perthynas â chytundeb y person y mae gofalwr sy'n oedolyn yn gofalu amdano.
160. Pan na fo gan oedolyn neu blentyn sy'n 16 neu'n 17 oed alluedd, gall cydsyniad gael ei roi gan berson awdurdodedig. Diffinnir person awdurdodedig yn adran 43(13) fel person sydd wedi ei awdurdodi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p'un ai yn nhermau cyffredinol neu benodol) i benderfynu ar ran y person y mae'r gofalwr yn gofalu amdano p'un ai i gael yr anghenion o dan sylw wedi eu diwallu drwy ddarparu gofal a chymorth i'r person hwnnw.
161. Pan na fo gan oedolyn alluedd ac na fo person awdurdodedig, mae'r awdurdod lleol yn gallu diwallu anghenion y gofalwr drwy ddarparu gofal a chymorth i'r oedolyn pe byddai hyn er lles pennaf yr oedolyn.
162. Pan na fo gan blentyn anabl sy'n 16 neu'n 17 oed alluedd ac na fo person awdurdodedig, mae'r awdurdod lleol yn gallu diwallu anghenion y gofalwr wedi eu diwallu drwy ddarparu gofal a chymorth i'r plentyn anabl ar yr amod nad oes gwrthwynebiad wedi ei wneud gan berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y

155. The question of which local authority is responsible for meeting the support needs of a child carer will depend on the residence of the person cared for. This will be the local authority which would be responsible for meeting the cared for person's needs if they were eligible in their own right, either as an adult (see section 35) or a child (see section 37).
156. The child carer's needs must meet the eligibility criteria which are to be set in regulations made t under section 32.
157. Section 44(2) permits a local authority to meet some or all of a carer's needs for support by providing care and support to the person cared for (even if the authority would not otherwise be under a duty to provide that care and support). But if the local authority wishes to meet the child carer's needs in this way, it can only do so if 'Condition 3' as set out in in section 42(4) is met. Section 42(4)(a),(b) and (c) sets out different conditions depending on whether the person cared for is an adult, a disabled child aged 16 or 17 or a disabled child under the age of 16. In each case, there are different considerations depending on whether there is a charge for meeting the cared for person's needs.
158. The conditions in section 42(4)(a),(b) and (c) need to be considered in conjunction with the contents of section 43, which is supplementary to section 42. The key principle is that the cared for person must agree to the child carer's needs being met by the provision of care and support to the cared for person. The local authority must be satisfied that an adult or a disabled child aged 16 or 17 has capacity to make their own decision, and in the case of children under 16, the local authority must be satisfied that the child is able to make an informed decision about the carer's needs being met in this way.
159. Provision is made for what is to happen where the adult or disabled child aged 16 or 17 lacks capacity or where a child under the age of 16 does not have sufficient understanding to make their own decision. This is similar to the provision which is made in sections 40 and 41 in relation to the agreement of the person cared for by an adult carer.
160. Where an adult or a child aged 16 or 17 lacks capacity, consent can be given by an authorised person. Authorised person is defined in section 43(13) as a person authorised under the Mental Capacity Act 2005 (whether in general or specific terms) to decide on behalf of the person cared for by the carer whether to have the needs in question met by the provision of care and support to that person.
161. Where an adult lacks capacity and there is no authorised person, the local authority can meet the carer's needs by providing care and support to the adult if this would be in the adult's best interests.
162. Where a disabled child aged 16 or 17 lacks capacity and there is no 'authorised person', the local authority is able to meet the carer's needs by providing care and support to the disabled child provided that no objection has been made by a person with parental responsibility for the child. The local authority is able to disregard any such objection if it thinks this would not be in the child's best interests.

plentyn. Mae'r awdurdod lleol yn gallu diystyru unrhyw wrthwynebiad o'r fath os yw o'r farn na fyddai hyn er lles pennaf y plentyn.

163. Yn achos plentyn anabl o dan 16 oed nad oes ganddo ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cael anghenion y gofalwr wedi eu diwallu drwy ddarparu gofal a chymorth iddo, mae'r awdurdod lleol yn gallu diwallu anghenion y gofalwr drwy ddarparu gofal a chymorth i'r plentyn anabl ar yr amod nad oes gwrthwynebiad wedi ei wneud gan berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Mae'r awdurdod lleol yn gallu diystyru unrhyw wrthwynebiad o'r fath os yw o'r farn na fyddai hyn yn gyson â llesiant y plentyn.
164. Gwneir darpariaeth bellach i ymdrin â'r sefyllfa pan fo'r person y gofelir amdano yn blentyn anabl ac y byddai ffi yn cael ei gosod ar oedolyn am ddiwallu anghenion y plentyn am ofal a chymorth. Yn yr achos hwn, mae amod pellach sy'n ei gwneud yn ofynnol nad yw'r oedolyn yn gwrthwynebu'r ddarpariaeth o ofal a chymorth.
165. Mewn unrhyw achos pan na fo'n ddichonadwy i'r awdurdod lleol ddiwallu rhai neu bob un o anghenion y gofalwr drwy ddarparu gofal a chymorth i'r person y gofelir amdano, mae'r awdurdod lleol o dan ddyletswydd i ddod o hyd o ryw ffordd arall o ddiwallu anghenion y gofalwr am gymorth (gweler adran 44).
166. Pan fo adnoddau ariannol yr oedolyn y gofelir amdano uwchlaw'r terfyn ariannol neu pan fyddai oedolyn yn atebol i dalu'r ffi safonol am ddarparu gofal a chymorth i blentyn anabl y mae gofalwr yn gofalu amdano, bydd yr awdurdod lleol yn gallu codi ffi broceriaeth ar yr oedolyn am sefydlu'r trefniadau, yn unol â'r darpariaethau yn adran 59(3) (pwerau i osod ffioedd).

Adran 44 - Darpariaeth atodol ynghylch y dyletswyddau i ddiwallu anghenion gofalwr

167. Mae adran 44 yn gwneud darpariaethau atodol mewn perthynas â'r dyletswyddau yn adrannau 40 a 42.
168. Os yw'n ddichonadwy gwneud hynny, caiff awdurdodau lleol ddiwallu anghenion gofalwr am gymorth drwy ddarparu gwasanaethau i'r person y gofelir amdano, hyd yn oed pe na fyddai gan y person y gofelir amdano hawlogaeth i gael gwasanaethau yn ei hawl ei hun (o dan adrannau 35 neu 37).
169. Os nad yw'n ddichonadwy i'r awdurdod lleol ddarparu gofal a chymorth i'r person y gofelir amdano, yna rhaid i'r awdurdod lleol, i'r graddau y mae'n ddichonadwy, ganfod rhyw ffordd arall o ddiwallu rhai neu bob un o anghenion y gofalwr am gymorth.

Adran 45 - Pŵer i ddiwallu anghenion gofalwr am gymorth

170. Mae adran 45 yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion cymorth gofalwr heb o reidrwydd gwblhau asesiad o anghenion nac asesiad ariannol yn gyntaf. Mae'r pŵer hwn ar gael, er enghraifft, pan ystyrir bod angen diwallu anghenion fel mater brys.

163. In the case of a disabled child under the age of 16 who does not have sufficient understanding to make an informed decision about having the carer's needs met by the provision of care and support to them, the local authority is able to meet the carer's needs by providing care and support to the disabled child provided that no objection has been made by a person with parental responsibility for the child. The local authority is able to disregard any such objection if it thinks this would not be consistent with the child's well-being.
164. Further provision is made to deal with the situation where the cared for person is a disabled child and a charge would be imposed on an adult for meeting the child's needs for care and support. In this case, there is a further condition which requires that the adult does not object to the provision of care and support.
165. In any case where it is not feasible for the local authority to meet some or all of the carer's needs by providing care and support to the person cared for, the local authority is under a duty to find some other way of meeting the carer's needs for support (see section 44).
166. Where the cared for adult's financial resources are above the financial limit or where an adult would be liable to pay the standard charge for the provision of care and support to a disabled child cared for by a carer, the local authority will be able to charge the adult a brokerage fee for putting in place the arrangements, in accordance with the provisions in section 59(3) (powers to impose charges).

Section 44 – Supplementary provision about the duties to meet carer's needs

167. Section 44 provides supplementary provisions in relation to the duties in sections 40 and 42.
168. If it is feasible to do so, local authorities may meet a carer's needs for support by providing services to the person cared for, even if the cared for person would not be entitled to receive services in their own right (under sections 35 or 37).
169. If it is not feasible for the local authority to provide care and support to the person cared for, then the local authority must, as far as it is feasible, identify some other way in which to meet some or all of the carer's needs for support.

Section 45 – Power to meet support needs of a carer

170. Section 45 confers a power on local authorities to meet the support needs of a carer without necessarily having first completed a needs assessment or carrying out a financial assessment. This power is available, for example, where it is considered necessary to meet needs as a matter of urgency.

171. Mae'r pŵer hwn ar gael hefyd mewn achosion pan fo asesiad wedi ei gynnal ond nad yw'r anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwysra. Yn yr amgylchiadau hyn, caiff yr awdurdod lleol, er gwaethaf hynny, benderfynu diwallu'r anghenion, er nad yw o dan ddyletswydd i wneud hynny.

Adran 46 – Eithriad ar gyfer personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo

172. Mae adran 46 yn gymwys mewn perthynas ag oedolion sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo o fewn ystyr adran 115 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999. Ni chaiff awdurdod lleol ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn o'r fath sydd wedi codi dim ond oherwydd bod yr oedolyn yn ddiymgeledd neu oherwydd effeithiau corfforol, disgwylieiddig neu wirioneddol, bod yn ddiymgeledd. Mae'n disodli eithriadau presennol a nodir, er enghraifft, yn adrannau 21(1A) ac (1B) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ac adran 45(4A) o Ddeddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd 1968.

Adran 47 – Eithriad ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd

173. Mae adran 47 yn nodi cyfyngiadau ar bwerau awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau iechyd.
174. Y man cychwyn (is-adran (1)) yw na chaniateir i awdurdod lleol ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth drwy ddarparu gwasanaethau gofal iechyd y mae'n ofynnol eu darparu o dan ddeddfiad iechyd (a ddiffinnir yn is-adran (10)). Mae'r gwaharddiad hwn yn gymwys hefyd mewn perthynas â phwerau awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau ataliol o dan adran 15.
175. Fodd bynnag, nid yw'r gwaharddiad hwn yn gymwys ynglŷn â darparu gwasanaethau gofal iechyd sy'n gysylltiedig â rhywbeth arall y mae'r awdurdod lleol yn ei wneud i ddiwallu anghenion person o dan adrannau 35 i 45 neu â'r ddarpariaeth o wasanaethau eraill o dan adran 15 neu sy'n ategol at hynny. Caiff awdurdodau lleol o dan amgylchiadau penodol ganiatáu i staff sydd â hyfforddiant, cymorth a goruchwyliaeth briodol ymgymryd â thasgau penodedig sy'n gysylltiedig ag iechyd wrth ddarparu gofal cymdeithasol. Enghraifft o hyn yw'r ddarpariaeth o gymorth i roi meddyginiaeth benodol.
176. Mae is-adran (3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o ran p'un a oes gan awdurdodau lleol bwerau i ddarparu mathau penodol o wasanaethau neu gyfleusterau ai peidio ac o ran p'un a yw'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal iechyd yn "gysylltiedig neu'n ategol".
177. Hyd yn oed pan fo gan awdurdod lleol y pŵer i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, fe'i gwaherddir o hyd rhag diwallu anghenion neu ddarparu gwasanaethau ataliol drwy ddarparu neu drefnu'r ddarpariaeth o ofal nyrsio gan nyrs gofrestredig. Diffinnir "gofal nyrsio" yn is-adran (10).
178. Mae is-adran (6) yn egluro nad yw'r gwaharddiad ar awdurdod lleol rhag darparu gofal nyrsio yn atal yr awdurdod rhag trefnu i ddarparu llety mewn cartref nyrsio, ar yr amod bod y corff GIG perthnasol (a bennir mewn rheoliadau) wedi cydsynio i hynny, neu fod yr achos yn un brys ac y ceir cydsyniad cyn gynted â phosibl ar ôl i'r trefniadau gael eu gwneud. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr elfen o ofal nyrsio

171. This power is also available in cases where an assessment has been carried out but the needs do not meet the eligibility criteria. In these circumstances, the local authority may nonetheless decide to meet the needs, even though they are not under a duty to do so.

Section 46- Exception for persons subject to immigration control

172. Section 46 applies in relation to adults who are subject to immigration control within the meaning of section 115 of the Immigration and Asylum Act 1999. A local authority may not meet the care and support needs of such an adult which have arisen solely because the adult is destitute or because of the physical effects, anticipated or actual, of being destitute. It replaces existing exclusions set out in, for example, sections 21(1A) and (1B) of the National Assistance Act 1948 and section 45(4A) Health Services and Public Health Act 1968.

Section 47- Exception for provision of health services

173. Section 47 sets out limitations on a local authority's powers to provide health services.
174. The starting point (subsection (1)) is that a local authority is not permitted to meet a person's needs for care and support by providing health care services which are required to be provided under a health enactment (defined in subsection (10)). This prohibition also applies in relation to a local authority's powers to provide preventative services under section 15.
175. However, this prohibition does not apply to the provision of health care services which are "incidental or ancillary" to something else that the local authority is doing to meet a person's needs under sections 35 to 45 or to the provision of other services under section 15. Local authorities can in certain circumstances allow staff with appropriate training, support and supervision to take on certain specified health related tasks whilst providing social care. An example of this is the provision of support with the administration of some medication.
176. Subsection (3) enables the Welsh Ministers to make regulations as to whether local authorities do, or do not have, powers to provide certain types of services or facilities and as to whether the provision of health care services is "incidental or ancillary".
177. Even where a local authority does have the power to provide health care services, they are still prohibited from meeting needs or providing preventative services by providing or arranging the provision of nursing care by a registered nurse. "Nursing care" is defined in subsection (10).
178. Subsection (6) makes clear the prohibition on a local authority providing nursing care does not prevent it from arranging for the provision of accommodation in a nursing home, provided consent has been obtained from the relevant NHS body (specified in regulations), or the case is an urgent one and consent is obtained as soon as possible after the arrangements are made. In these circumstances, the nursing care element will be funded by the NHS in accordance with arrangements for NHS funded nursing care.

yn cael ei chyllido gan y GIG yn unol â threfniadau ar gyfer gofal nyrsio sy'n cael ei gyllido gan y GIG.

179. Mae is-adran (8) yn galluogi rheoliadau i gael eu gwneud sy'n ei gwneud yn ofynnol i drefniadau gael eu sefydlu mewn cysylltiad â datrys anghydfodau rhwng awdurdodau lleol a chyrrff GIG.
180. Caiff rheoliadau o dan is-adran (8) hefyd ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd rhan yn y broses ar gyfer asesu anghenion gofal iechyd person a phenderfynu sut i ddiwallu'r anghenion hynny. Gellid gwneud rheoliadau o dan yr is-adran hon, er enghraifft, i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gymryd rhan yn y gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu cymhwysra am Ofal Iechyd Parhaus.
181. Mae is-adran (9) yn egluro nad yw'r adran hon yn gwahardd awdurdodau lleol rhag gwneud unrhyw beth y mae ganddynt, yn awdurdodau lleol, y pŵer i'w wneud o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae hyn yn cynnwys, yn benodol, ymrwymo i drefniadau partneriaeth gyda chyrrff GIG o dan adran 33 o Ddeddf 2006.

Adran 48 - Eithriad ar gyfer darparu tai etc

182. Mae adran 48 yn darparu ar gyfer cyfyngiadau eraill ar sut y gall awdurdodau lleol ddiwallu anghenion oedolyn am ofal a chymorth neu ddarparu gwasanaethau ataliol o dan adran 15.
183. Yn benodol, fe'u gwaherddir rhag gwneud unrhyw beth y byddai'n ofynnol i awdurdod lleol ei wneud o dan Ddeddf Tai 1996. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, na all awdurdod lleol ddiwallu anghenion at ddibenion y Ddeddf hon drwy ddarparu llety os yw'n ofynnol i'r awdurdod (neu'n ofynnol i awdurdod lleol arall) ddarparu llety o dan ei ddyletswyddau tuag at bobl ddigartref o dan Ddeddf 1996. Nid yw hyn yn rhwystro awdurdodau lleol, o dan y Ddeddf hon, rhag darparu gwasanaethau mwy penodol (megis addasiadau tai), na rhag cydweithio ag awdurdodau tai.
184. Mae'r pŵer hefyd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn pennu deddfiadau eraill, fel na fyddai modd i awdurdodau lleol wneud unrhyw beth (at ddibenion eu swyddogaethau o dan adrannau 15 neu 35 i 45) y byddai'n ofynnol i awdurdod lleol ei wneud o dan y deddfiadau penodedig.

Adran 49 - Cyfyngiadau ar ddarparu taliadau

185. Mae adran 34 (sut i ddiwallu anghenion) yn darparu bod gwneud taliadau yn un o'r ffyrdd y gall awdurdod lleol eu defnyddio i ddiwallu anghenion unigolyn am ofal a chymorth ac y gall hyn gynnwys taliadau uniongyrchol. Mae adran 49 yn gosod cyfyngiadau ar yr amgylchiadau pan ellir gwneud taliadau. Gellir gwneud taliadau o dan y cynllun ar gyfer taliadau uniongyrchol fel y'i nodir yn adrannau 50 i 53. Gellir eu gwneud pan fo anghenion person, ym marn yr awdurdod lleol, yn rhai brys ac na fyddai'n rhesymol ymarferol diwallu'r anghenion mewn unrhyw ffordd arall. Mae is-adran (1)(c) yn caniatáu i awdurdod lleol wneud taliadau wrth gontractio ar gyfer darparu gwasanaethau. Caniateir i reoliadau bennu amgylchiadau eraill pan ganiateir gwneud taliadau.

*These notes refer to the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4)
which received Royal Assent on 1 May 2014*

179. Subsection (8) enables regulations to be made requiring arrangements to be made in connection with the resolution of disputes between local authorities and NHS bodies.
180. Regulations under subsection (8) can also require local authorities to be involved in the process for assessing a person's needs for health care and deciding how those needs will be met. Regulations could be made under this subsection, for example, to require local authority involvement in the procedures for determining eligibility for Continuing Health Care.
181. Subsection (9) makes clear this section does not prohibit local authorities from doing anything that they, as local authorities, have the power to do under the National Health Service (Wales) Act 2006. This includes, in particular, entering into partnership arrangements with NHS bodies under section 33 of the 2006 Act.

Section 48 – Exception for provision of housing etc

182. Section 48 provides for other restrictions on how local authorities can meet an adult's needs for care and support or provide preventative services under section 15.
183. In particular they are prohibited from doing anything which a local authority would be required to do under the Housing Act 1996. This means, for example, that a local authority cannot meet needs for the purposes of this Act by providing accommodation if they are required (or another local authority is required) to provide accommodation under its duties towards homeless people under the 1996 Act. This does not prevent local authorities, under this Act, from providing more specific services (such as housing adaptations), or from working jointly with housing authorities.
184. The Welsh Ministers also have the power to make regulations specifying other enactments, so that local authorities would not be able to do anything (for the purposes of their functions under sections 15 or 35 to 45) which a local authority would be required to do under the specified enactments.

Section 49 - Restrictions on provision of payments

185. Section 34 (How to meet needs) provides that making payments is one of the ways that a local authority can meet an individual's needs for care and support and that this can include direct payments. Section 49 sets limits on the circumstances when payments can be made. Payments can be made under the scheme for direct payments as set out in sections 50 to 53. They can be made where, in the local authority's view, a person's needs are urgent and it would not be reasonably practicable to meet the needs in another way. Subsection (1)(c) allows a local authority to make payments in the course of contracting for the provision of services. Regulations may set out other circumstances when payments may be permitted.

186. Mae is-adran (2) yn gosod terfynau ar y graddau y gall taliadau gael eu defnyddio wrth gyflawni dyletswyddau awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau ataliol o dan adran 15.

Adran 50 – Taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion oedolyn

187. Mae adran 50 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol, neu'n caniatáu, i awdurdod lleol wneud taliadau (taliadau uniongyrchol) tuag at y costau sy'n gysylltiedig â diwallu anghenion oedolyn am ofal a chymorth, er mwyn caniatáu i'r oedolyn wneud ei drefniadau ei hun ar gyfer prynu'r gofal sy'n ofynnol.
188. Mae is-adrannau (3) a (4) yn pennu'r rhagamodau ar gyfer gwneud unrhyw daliadau o'r fath. Rhaid i berson sydd â galluedd gydsynio i gael taliadau yn hytrach na gwasanaethau. Pan na fo gan berson alluedd, ceir rhoi'r cydsyniad ar gyfer gwneud taliadau uniongyrchol mewn nifer of ffyrdd. Os oes person sydd wedi ei awdurdodi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (drwy atwrneiaeth arhosol sydd wedi ei geirio'n briodol neu drwy ei benodi yn ddirprwy gan y Llys Gwarchod) yna gall y person hwnnw gydsynio, yn dderbynydd y taliadau, neu gall gydsynio i'r taliadau gael eu gwneud i berson arall y mae'n rhaid iddo hefyd gydsynio. Os nad oes neb wedi ei awdurdodi o dan Ddeddf 2005, yna gall person sy'n fodlon bod yn dderbynydd y taliadau roi cydsyniad os yw'r amodau perthnasol eraill yn yr adran hon wedi eu bodloni.
189. Yn achos oedolyn sydd â galluedd neu sydd heb alluedd, gall taliadau gael eu gwneud os yw'n bosibl na fyddai derbynydd y taliad yn gallu rheoli'r taliad ei hun ond y byddai ganddo'r gallu i wneud hynny gyda chymorth sydd ar gael iddo. Yn y ddau achos mae angen i'r awdurdod lleol fod wedi ei fodloni bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion gofal yr oedolyn. Yn ychwanegol, pan na fo gan yr oedolyn alluedd, rhaid i'r awdurdod lleol fod wedi ei fodloni y bydd derbynydd y taliad yn gweithredu er lles pennaf yr oedolyn.

Adran 51 – Taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion plentyn

190. Mae adran 51 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol, neu'n caniatáu, i awdurdod lleol wneud taliadau (taliadau uniongyrchol) tuag at gostau diwallu anghenion plentyn am ofal a chymorth. Gellir gwneud taliadau i berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn sydd ag anghenion gofal a chymorth, neu i'r plentyn y mae arno anghenion am ofal a chymorth.
191. Rhaid i'r person y mae'r taliadau i'w gwneud iddo gydsynio i'r taliadau gael eu gwneud. Pan fo'r taliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud i oedolyn neu blentyn sy'n 16 neu'n 17 oed, rhaid i'r awdurdod lleol fod o'r farn bod gan y person sydd i gael y taliadau y galluedd i gydsynio i'r taliadau gael eu gwneud. Os yw'r person yn blentyn o dan 16 oed, rhaid i'r awdurdod lleol fod wedi ei fodloni bod ganddo ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cael taliadau uniongyrchol.
192. Ym mhob achos, rhaid i'r awdurdod lleol fod wedi ei fodloni bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion y plentyn, y bydd llesiant y plentyn yn cael ei ddiogelu a'i hyrwyddo drwy wneud y taliadau a bod gan y person sydd i gael y taliadau y gallu i'w rheoli ar ei ben ei hun neu gyda chymorth.

186. Subsection (2) sets limits on the extent to which payments can be used in the discharge of a local authority's duties to provide preventative services under section 15.

Section 50 - Direct payments to meet an adult's needs

187. Section 50 provides the Welsh Ministers with a power to make regulations that require or allow a local authority to make payments (direct payments) towards the costs associated with meeting an adult's needs for care and support so as to allow the adult to make his or her own arrangements to purchase the care required.
188. Subsections (3) and (4) set out the preconditions for any such payments to be made. A person with capacity must consent to receiving payments instead of services. Where a person does not have capacity then consent to the making of direct payments can be given in a number of ways. If there is a person authorised under the Mental Capacity Act 2005 (through an appropriately worded lasting power of attorney or through appointment as a deputy by the Court of Protection) then that person can consent, as the recipient of the payments, or can consent to the payments being made to another person who must also consent. If there is no-one authorised under the 2005 Act then a person willing to be the recipient of the payments can give consent so long as the other relevant conditions of this section are met.
189. In the case of an adult with capacity or without capacity, payments can be made if the recipient of the payment might not be able to manage the payment him or herself but is capable of doing so with support which is available. In both cases there is a need for a local authority to be satisfied that making the payments is an appropriate way of meeting the adult's care needs. Additionally, where the adult does not have capacity the local authority must be satisfied that the recipient of the payment will act in the adult's best interests.

Section 51 - Direct payments to meet a child's needs

190. Section 51 provides the Welsh Ministers with a power to make regulations that require or allow a local authority to make payments (direct payments) towards the costs of meeting a child's needs for care and support. Payments can be made to a person with parental responsibility for a child who has needs for care and support, or to the child who has needs for care and support.
191. The person to whom the payments are to be made must consent to the making of the payments. Where the direct payments are being made to an adult or a child aged 16 or 17, the local authority must believe the person who is to receive the payments has the capacity to consent to the making of the payments. Where the person is a child under the age of 16, the local authority must be satisfied they have sufficient understanding to make an informed choice about receiving direct payments.
192. In all cases the local authority must be satisfied that making the payments is an appropriate way of meeting the child's needs, that the well-being of the child will be safeguarded and promoted by the making of the payments and that the person who is to receive the payments is capable of managing them by him or herself or with support.

Adran 52 – Taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion gofalwr

193. Mae adran 52 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol, neu'n caniatáu, i awdurdod lleol wneud taliadau (taliadau uniongyrchol) tuag at gostau diwallu anghenion gofalwr am gymorth.
194. Rhaid i'r taliadau uniongyrchol gael eu gwneud i'r gofalwr ei hun y mae'n rhaid iddo gydsynio i'r taliadau gael eu gwneud. Pan fo'r gofalwr yn oedolyn, neu'n blentyn sy'n 16 neu'n 17 oed, rhaid i'r awdurdod lleol fod o'r farn bod gan y person hwnnw y galluedd i gydsynio i'r taliadau gael eu gwneud. Pan fo'r gofalwr yn blentyn o dan 16 oed, rhaid i'r awdurdod lleol fod wedi ei fodloni bod ganddo ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cael taliadau uniongyrchol.
195. Ym mhob achos, rhaid i'r awdurdod lleol fod wedi ei fodloni bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion y gofalwr a bod gan y gofalwr y gallu i reoli'r taliadau, naill ai ar ei ben ei hun neu gyda chymorth.

Adran 53 – Taliadau uniongyrchol: darpariaeth bellach

196. Mae adran 53 yn cynnwys darpariaeth bellach ynghylch y pŵer yn y tair adran flaenorol (adrannau 50 i 52) i wneud rheoliadau, ac mae'n nodi ystod eang o faterion perthynol y cânt wneud darpariaeth yn eu cylch.
197. Mae is-adrannau (3) a (4) yn darparu y ceir arfer y pwerau i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol sy'n cyfateb i'r darpariaethau a wneir mewn perthynas â ffioedd o dan Ran 5. Fel enghraifft, gallai rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer y swm y mae'n rhaid i berson ei dalu drwy ad-daliad neu gyfraniad.
198. Mae is-adran (5) yn darparu bod rhaid i reoliadau a wneir o dan adrannau 50 i 52 ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd camau penodedig i sicrhau bod 'personau perthnasol' (fel y'u diffinnir yn is-adran (6)) yn cael eu galluogi i wneud dewisiadau deallus ynghylch y defnydd o daliadau uniongyrchol.
199. Mae is-adran (7) yn darparu bod rhaid i reoliadau a wneir o dan adran 51 beidio â'i gwneud yn ofynnol i daliadau uniongyrchol a wneir i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn fod yn ddarostyngedig i ofyniad i ad-dalu costau'r awdurdod lleol pan fo'r person yn cael budd-dal o fewn categori penodedig.
200. Mae is-adrannau (9) a (10) yn darparu y gall derbynnydd taliadau uniongyrchol brynu gwasanaethau gan unrhyw berson, gan gynnwys yr awdurdod lleol ei hun ac, mewn achos o'r fath, caiff yr awdurdod lleol godi ffi er ei fod, fel arall, o dan ddyletswydd i ddiwallu'r anghenion o dan sylw.

Adran 54 – Cynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau cymorth

201. Mae adran 54 yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth ar gyfer person y mae'n ofynnol iddo ddiwallu ei anghenion. Rhaid adolygu'r cynlluniau yn gyson. Os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod amgylchiadau person wedi newid, rhaid iddo wneud asesiad newydd a diwygio'r cynllun.

Section 52 – Direct payments to meet a carer’s needs

193. Section 52 provides the Welsh Ministers with a power to make regulations that require or allow a local authority to make payments (direct payments) towards the costs of meeting a carer’s needs for support.
194. The direct payments must be made to the carer himself or herself, who must consent to the making of the payments. Where the carer is an adult, or a child aged 16 or 17 the local authority must believe he or she has the capacity to consent to the making of the payments. Where the carer is a child aged under 16 the local authority must be satisfied that they have sufficient understanding to make an informed choice about receiving direct payments.
195. In all cases the local authority must be satisfied that making the payments is an appropriate way of meeting the carer’s needs and that the carer is capable of managing the payments, whether by him or herself, or with support.

Section 53- Direct payments: further provision

196. Section 53 contains further provision about the power to make regulations in the previous three sections (sections 50 to 52) and sets out a wide range of related matters about which they can make provision.
197. Subsections (3) and (4) provide that the regulation-making powers may be exercised to make provision in relation to direct payments which corresponds to the provisions made in relation to charges under Part 5. By way of example, regulations could make provision for the amount a person must pay by way of reimbursement or contribution.
198. Subsection (5) provides that regulations made under sections 50 to 52 must require local authorities to take specified steps to ensure that ‘relevant persons’ (as defined in subsection (6)) are enabled to make informed choices about the use of direct payments.
199. Subsection (7) provides that regulations made under section 51 must not require direct payments made to meet a child’s care and support needs to be subject to a requirement to reimburse the local authority’s costs where the person is receiving a benefit within a specified category.
200. Subsections (9) and (10) provide that a recipient of direct payments can purchase services from any person, including the local authority itself and, where that is the case, the local authority may charge even though it is otherwise under a duty to meet the needs in question.

Section 54 – Care and support plans and support plans

201. Section 54 provides that a local authority must prepare and maintain a care and support plan or a support plan for a person whose needs it is required to meet. The plans must be kept under review. If the local authority believes that a person’s circumstances have changed, it must conduct a new assessment and revise the plan.

202. Rhaid i reoliadau wneud darpariaeth ynglŷn â'r modd y caiff y cynllun ei lunio, yr hyn y mae'n rhaid iddo ei gynnwys a threfniadau ar gyfer ei adolygu a'i ddiwygio. Rhaid i'r rheoliadau nodi pwy a gaiff ofyn am adolygiad o'r cynllun (ar ei ran ei hun neu ar ran eraill), pryd y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio â chais am adolygiad o'r cynllun a phryd y caiff gwrthod cais o'r fath. Mae'r adran hefyd yn nodi pwy y mae'n rhaid ei gynnwys yn y broses o lunio, adolygu a diwygio cynlluniau.
203. Caiff y broses o lunio, adolygu neu ddiwygio cynllun gofal a chymorth gysylltu â'r broses o lunio, etc cynlluniau gan gyrrff eraill ar gyfer y person o dan sylw.

Adran 55 - Rheoliadau ynghylch cynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau cymorth

204. Mae adran 55 yn nodi enghreifftiau o'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn y rheoliadau a wneir o dan adran 54(5).

Adran 56 - Hygludedd gofal a chymorth

205. Mae adran 56 yn darparu ar gyfer yr hyn sydd i ddigwydd pan fo person y mae arno anghenion am ofal a chymorth y mae'n ofynnol i awdurdod lleol eu diwallu yn symud o ardal un awdurdod lleol i un arall.
206. Rhaid i'r awdurdod lleol (yr 'awdurdod anfon') sydd o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion y person, pan gaiff ei hysbysu bod y person yn bwriadu symud i ardal awdurdod lleol arall yng Nghymru, hysbysu'r awdurdod arall hwnnw (yr 'awdurdod derbyn') am fwriad y person i symud. Rhaid iddo hefyd ddarparu copi i'r awdurdod hwnnw o gynllun gofal a chymorth y person.
207. Rhaid i'r 'awdurdod anfon' hefyd ddarparu unrhyw wybodaeth arall am y person, ynghyd â gwybodaeth am ofalwr y person, os oes un (er enghraifft copi o gynllun cymorth y gofalwr) y mae'r 'awdurdod derbyn' yn gofyn amdani.
208. Pan fo'r 'awdurdod derbyn' wedi ei fodloni bod y person yn symud i'w ardal, rhaid iddo hysbysu'r 'awdurdod anfon' am hyn a darparu gwybodaeth briodol i'r person (a'i ofalwr os oes un ganddo). Os yw'r person yn blentyn, rhaid iddo hefyd ddarparu gwybodaeth briodol i unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.
209. Rhaid i'r 'awdurdod derbyn' asesu'r person, gan dalu sylw penodol i unrhyw newid yn anghenion gofal a chymorth y person sy'n deillio o'r symud. Rhaid iddo hefyd roi sylw i'r cynllun gofal a chymorth y mae'r 'awdurdod anfon' yn ei anfon ymlaen.
210. Ar y diwrnod y mae'r person yn symud i'w ardal, os nad yw'r 'awdurdod derbyn' wedi gwneud asesiad eto, rhaid iddo ddiwallu'r anghenion gofal a chymorth a nodir yn y cynllun a luniwyd gan yr 'awdurdod anfon'. Rhaid iddo wneud hynny hyd nes y bydd wedi cwblhau ei asesiad ei hun ynghyd ag unrhyw gamau eraill y mae angen eu cymryd.
211. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach ynghylch y camau sydd i'w cymryd, y materion y mae'n rhaid i'r 'awdurdod derbyn' roi sylw iddynt ac achosion pan na fo'r dyletswyddau yn yr adran hon yn gymwys o bosibl.

202. Regulations must make provision about how the plan is prepared, what it must contain as well as what the review and revision arrangements are. The regulations must set out who can request a review of the plan (on their own behalf or on behalf of others), when the local authority must comply with a request for a review of the plan, and when it may refuse such a request. The section also sets out who must be involved in the preparation, review and revision of plans.
203. The process of preparing, reviewing or revising a care and support plan may link in with the preparation, etc. of plans by other bodies for the person in question.

Section 55 – Regulations about care and support plans and support plans

204. Section 55 sets out examples of the provision that may be made in the regulations made under section 54(5).

Section 56 – Portability of care and support

205. Section 56 provides for what is to happen when a person who has needs for care and support that a local authority is required to meet moves from the area of one local authority to another.
206. The local authority (the ‘sending authority’) that is under a duty to meet the person’s needs, must, when notified that the person intends to move to the area of another local authority in Wales, notify that other authority (the ‘receiving authority’) of the person’s intention to move. It must also provide it with a copy of the person’s care and support plan.
207. The ‘sending authority’ must also provide any other information about the person, together with information on the person’s carer, if there is one (for example a copy of the carer’s support plan) that the ‘receiving authority’ requests.
208. When the receiving authority is satisfied that the person is moving to its area, it must notify the sending authority of this and provide the person (and their carer if there is one) with appropriate information. If the person is a child, it must also provide appropriate information to any person with parental responsibility for the child.
209. The ‘receiving authority’ must assess the person, paying particular regard to any change in the person’s care and support needs arising from the move. It must also have regard to the care and support plan forwarded by the sending authority.
210. On the day that the person moves to its area, if the receiving authority has not yet carried out an assessment, it must meet the care and support needs set out in the plan that was prepared by the ‘sending authority’. It must do so until it completes its own assessment along with any other steps that need to be taken.
211. Regulations may make further provision with regard to the steps to be taken, the matters to which the receiving authority must have regard and where the duties in this section may not apply.

Adran 57 – Achosion pan fo person yn mynegi ei fod yn ffafrio llety penodol

212. Mae adran 57 yn darparu y ceir gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu neu drefnu i ddarparu'r llety y mae person yn ei ffafrio.
213. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson dalu rhai neu bob un o gostau'r llety y mae'n ei ffafrio, i'r graddau y maent yn uwch na'r costau a dynnid fel arfer wrth ddarparu llety addas.

Adran 58 – Gwarchod eiddo personau y gofelir amdanynt i ffwrdd o'u cartrefi

214. Mae adran 58 yn darparu ar gyfer gwarchod eiddo symudol person os gofelir amdano i ffwrdd o'i gartref. O dan yr amgylchiadau hyn, mae gan awdurdod lleol ddyletswydd i warchod eiddo symudol y person ac at y diben hwn, mae'n gallu mynd i mewn i fangre'r person a chymryd camau eraill er mwyn atal neu liniaru unrhyw golled neu ddifrod. Ni cheir arfer y pwerau hyn heb gael y cydsyniad angenrheidiol i'r camau gael eu cymryd.
215. Cyn arfer ei ddyletswyddau o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod lleol, yn achos oedolyn, plentyn sy'n 16 neu'n 17 oed y mae ganddo alluedd neu blentyn o dan 16 oed y mae ganddo ddealltwriaeth ddigonol, gael ei gydsyniad.
216. Pan fo'r person yn oedolyn nad oes ganddo alluedd, rhaid i'r awdurdod lleol gael cydsyniad person sydd wedi ei awdurdodi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i roi cydsyniad ar ran yr oedolyn. Pan na fo person awdurdodedig, rhaid i'r awdurdod lleol fodloni ei hun y byddai cymryd camau er lles pennaf yr oedolyn.
217. Pan fo'r person yn blentyn sy'n 16 neu'n 17 oed nad oes ganddo alluedd, rhaid i'r awdurdod lleol gael cydsyniad person sydd wedi ei awdurdodi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i roi cydsyniad ar ran y plentyn. Pan na fo person awdurdodedig, rhaid i'r awdurdod lleol gael cydsyniad person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.
218. Pan fo'r person yn blentyn sy'n 16 oed nad oes ganddo ddealltwriaeth ddigonol, rhaid i'r awdurdod lleol gael cydsyniad person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.
219. Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i gael y cydsyniad angenrheidiol, ond os nad yw wedi llwyddo i wneud hynny, nid yw'r ddyletswydd i gymryd camau rhesymol i atal neu liniaru unrhyw golled bellach yn gymwys.
220. Rhaid i swyddog sydd wedi ei awdurdodi i arfer pwerau o dan yr adran hon, os gofynnir iddo wneud hynny, roi ei awdurdodiad. Mae'n drosedd rhwystro'r pŵer rhag cael ei arfer.
221. Gall awdurdod lleol adennill treuliau rhesymol a dynnir ond dim ond oddi wrth oedolyn mewn perthynas â'r camau a gymerir i warchod eiddo'r oedolyn.

Section 57 – Cases where a person expresses preference for particular accommodation

212. Section 57 provides that regulations may be made that require the local authority to provide or arrange the provision of accommodation that meets a person's preference.
213. The regulations may make provision requiring a person to meet some or all of the costs of meeting his or her preference, in so far as they exceed the costs that would usually be incurred in providing suitable accommodation.

Section 58 – Protecting property of persons being cared for away from home

214. Section 58 provides for the protection of a person's movable property if they are being cared for away from home. In these circumstances, a local authority has a duty to protect the person's movable property and for this purpose, it is able to enter the person's premises and take other steps in order to prevent or mitigate loss or damage. These powers cannot be exercised unless the necessary consent to the taking of the steps has been obtained.
215. Before exercising their duties under this section, the local authority must, in the case of an adult, a child aged 16 or 17 who has capacity or a child under 16 who has sufficient understanding, obtain their consent.
216. Where the person is an adult who lacks capacity, the local authority must obtain the consent of a person authorised under the Mental Health Act 2005 to give consent on the adult's behalf. Where there is no authorised person, the local authority must satisfy itself that taking action would be in the adult's best interests.
217. Where the person is a child aged 16 or 17 who lacks capacity, the local authority must obtain the consent of a person authorised under the Mental Health Act 2005 to give consent on the child's behalf. Where there is no authorised person, the local authority must obtain the consent of a person with parental responsibility for the child.
218. Where the person is a child aged 16 who does not have sufficient understanding, the local authority must obtain the consent of a person with parental responsibility for the child.
219. The local authority must take reasonable steps to obtain the necessary consent, but if it has not been able to do so, the duty to take reasonable steps to prevent or mitigate loss no longer applies.
220. An officer authorised to exercise powers under this section, must if requested to do so, produce his or her authorisation. It is an offence to obstruct the exercise of the power.
221. A local authority can recover reasonable expenses incurred but only from an adult in relation to the steps taken to protect the adult's property.

Adran 59 – Pŵer i osod ffioedd

222. Mae adran 59 yn darparu y caiff awdurdod lleol osod ffi am ddarparu neu drefnu i ddarparu gofal a chymorth neu gymorth. Ni chaiff ffi o'r fath fod yn ffi am ddim mwy na'r costau a dynnir gan yr awdurdod lleol wrth ddiwallu'r anghenion y mae'r ffi yn cael ei chodi amdanynt. Mae is-adran (3) yn cynnwys eithriad i'r cynigiad hwn, sy'n caniatáu i awdurdod lleol godi swm ychwanegol o dan yr amgylchiadau a nodir yn yr is-adran. Mae pŵer yr awdurdod lleol i osod ffi yn ddarostyngedig i reoliadau a wneir o dan adrannau 61 a 62 ac i'r dyletswyddau yn adrannau 63, 66 a 67.

Adran 60 – Personau y caniateir i ffioedd gael eu gosod arnynt

223. Mae adran 60 yn nodi'r personau y caniateir i ffioedd gael eu gosod arnynt am ddarparu gofal a chymorth (neu, pan fo'n berthnasol, cymorth).

224. Pan fo gofal a chymorth yn cael eu darparu i oedolyn (p'un ai i ddiwallu anghenion yr oedolyn ei hun neu i ddiwallu anghenion gofalwr yr oedolyn), caniateir i'r ffi gael ei gosod ar yr oedolyn hwnnw.

225. Pan fo gofal a chymorth yn cael eu darparu i blentyn (p'un ai i ddiwallu anghenion y plentyn ei hun neu i ddiwallu anghenion gofalwr y plentyn), caniateir i'r ffi gael ei gosod ar unrhyw oedolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Pan fo anghenion plentyn yn cael eu diwallu drwy ddarparu rhywbeth i oedolyn, caniateir i'r ffi gael ei gosod ar yr oedolyn hwnnw.

226. Pan fo'r ffi mewn cysylltiad â chymorth a ddarperir i ofalwr, caniateir i ffi gael ei gosod ar ofalwr sy'n oedolyn, neu yn achos gofalwr sy'n blentyn, ar unrhyw oedolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

Adran 61 – Rheoliadau ynghylch arfer pŵer i osod ffi

227. Mae adran 61 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch y ffordd y mae awdurdodau lleol yn arfer eu pwerau i godi ffi am wasanaethau gofal cymdeithasol. Mae is-adrannau (2) a (3) yn cynnwys enghreifftiau o'r ddarpariaeth y gellid ei gwneud yn y rheoliadau. Er enghraifft, gellid gwneud darpariaeth i bennu'r uchafsymiau y gellir eu codi am ddarparu gwasanaethau ar gyfer person, yr amgylchiadau pan ellid gosod ffi neu'r defnydd o unrhyw fformiwla i benderfynu'r ffi.

Adran 62 – Rheoliadau yn datgymhwyso pŵer i osod ffi

228. Mae adran 62 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n datgymhwyso pŵer awdurdod lleol i osod ffi ac a gaiff ei gwneud yn ofynnol, yn hytrach, i'r awdurdod lleol ddarparu gofal a chymorth neu gymorth yn rhad ac am ddim.

Adran 63 – Dyletswydd i gynnal asesiad ariannol

229. Mae adran 63 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gynnal asesiad ariannol o adnoddau person pan fo wedi dod i'r casgliad y bydd yn diwallu ei anghenion am ofal a chymorth neu gymorth.

Section 59 – Power to impose charges

222. Section 59 provides that a local authority may impose a charge for providing or arranging the provision of care and support or support. Such a charge can only be for costs the local authority incurs in meeting the needs for which the charge is made. Subsection (3) contains an exception to this proposition, which allows a local authority to charge an additional sum in the circumstances set out within the subsection. The local authority's power to impose a charge is subject to regulations made under sections 61 and 62 and to the duties in sections 63, 66 and 67.

Section 60 – Persons upon whom charges may be imposed

223. Section 60 sets out the persons upon whom charges may be imposed for the provision of care and support (or, where relevant, support).

224. Where care and support is provided to an adult (whether to meet the adult's own needs or to meet the needs of the adult's carer), the charge may be imposed on that adult.

225. Where care and support is provided to a child (whether to meet the child's own needs or to meet the needs of the child's carer), the charge may be imposed on any adult with parental responsibility for the child. Where a child's needs are met by the provision of something to an adult, the charge may be imposed on that adult.

226. Where the charge is in respect of support provided to a carer, a charge can be imposed on an adult carer, or in the case of a child carer, on any adult with parental responsibility for the child.

Section 61 - Regulations about the exercise of a power to impose a charge

227. Section 61 allows the Welsh Ministers to make regulations about the way that local authorities exercise their powers to charge for social care services. Subsections (2) and (3) contain examples of the provision that could be made in the regulations. For example, provision could be made to specify the maximum amounts that can be charged for the provision of services for a person, the circumstances in which a charge could be imposed or the use of any formula to determine the charge.

Section 62 – Regulations disapplying a power to impose a charge

228. Section 62 provides the Welsh Ministers with a power to make regulations that disapply a local authority's power to impose a charge and which may instead require the local authority to provide care and support or support free of charge.

Section 63 – Duty to carry out a financial assessment

229. Section 63 requires a local authority to carry out a financial assessment of a person's resources when it has concluded that it will meet their needs for care and support or support.

Adran 64 – Rheoliadau am asesiadau ariannol

230. Mae adran 64 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch y ffordd y mae asesiadau ariannol i'w cynnal gan awdurdod lleol. Rhaid i'r rheoliadau ddarparu ar gyfer cyfrifo incwm a chyfalaf person cymwys. Hefyd, cânt ddarparu ar gyfer y graddau y mae'r naill neu'r llall i'w ystyried neu i'w ddiystyru wrth gyfrifo'r ffioedd sydd i'w gosod, yr amgylchiadau pan ystyrir bod gan berson adnoddau ariannol uwchlaw trothwy penodedig a'r amgylchiadau pan fydd rhaid, neu pan ganiateir, cynnal asesiad ariannol newydd.

Adran 65 – Rheoliadau'n datgymhwyso'r ddyletswydd i gynnal asesiad ariannol

231. Mae adran 65 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n nodi'r amgylchiadau pan ddatgymhwysir y ddyletswydd i gynnal asesiad ariannol.

Adran 66 – Dyfarniad ynghylch gallu person i dalu ffi

232. Mae adran 66 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddyfarnu, yng ngoleuni'r asesiad ariannol y mae wedi ei gynnal yn unol â gofynion rheoliadau a wneir o dan adran 64, a yw'n rhesymol ymarferol i berson dalu ei ffi safonol am y gwasanaeth ac, os nad ydyw, pa swm y mae'n rhesymol ymarferol i'r person ei dalu (os oes un). Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth bellach ynglŷn â dyfarnu ynghylch y gallu i dalu ffi am ofal a chymorth neu gymorth.

Adran 67 – Dyletswydd i roi effaith i ddyfarniad ynghylch gallu i dalu ffi

233. Mae adran 67 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi effaith i'r dyfarniad ynghylch gallu person i dalu ffi (fel y'i dyfarnwyd yn unol â gofynion adran 66 ac unrhyw rheoliadau a wneir o dan yr adran honno). Mae is-adran (2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi'r amgylchiadau pan nad yw'r ddyletswydd hon yn gymwys.

Adran 68 – Cytundebau ar daliadau gohiriedig

234. Mae adran 68 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch yr amgylchiadau pan ganiateir i berson y mae ei anghenion yn cael eu diwallu gan awdurdod lleol, neu y mae ei anghenion yn mynd i gael eu diwallu (yn unol ag adrannau 35 i 45), wneud trefniadau gyda'r awdurdod lleol hwnnw i ohirio unrhyw ffioedd a osodir ar y person mewn cysylltiad â darparu'r gwasanaethau hynny. Gelwir trefniant a wneir o dan yr adran hon yn "gytundeb ar daliadau gohiriedig". Caiff y rheoliadau a gaiff Gweinidogion Cymru eu gwneud o dan yr adran hon bennu, er enghraifft, a ganiateir i log gael ei godi a hyd y cytundeb ar daliadau gohiriedig.

Adran 69 – Codi ffi am wasanaethau ataliol a chynhorthwy

235. Mae adran 69 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch gallu awdurdod lleol i osod ffi am ddarparu gwasanaethau ataliol a chynhorthwy (a ddarperir yn unol ag adrannau 15 a 17). Mae is-adran (2) yn atal y rheoliadau hynny rhag gwneud darpariaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i berson dalu ffi o dan yr adran hon os oes ffi eisoes wedi ei gosod yn unol ag adran 59, ac yn atal y ffi rhag cwmpasu unrhyw beth ac eithrio'r gost o ddarparu'r gwasanaethau neu'r cynhorthwy y mae'r ffi yn ymwneud ag ef. Mae is-adran (2) hefyd yn atal ffi rhag cael ei gosod ar blentyn am wasanaethau a ddarperir yn unol ag adrannau 15 a 17.

Section 64 – Regulations about financial assessments

230. Section 64 requires the Welsh Ministers to make regulations about the way that financial assessments are to be undertaken by a local authority. The regulations must provide for the calculation of an eligible person's income and capital. They can also provide for the extent to which either is to be regarded or disregarded in the calculation of charges to be imposed, the circumstances in which a person will be deemed as having financial resources above a set threshold and circumstances in which a new financial assessment must or may be carried out.

Section 65 – Regulations disapplying the duty to carry out a financial assessment

231. Section 65 provides the Welsh Ministers with power to make regulations that set out the circumstances in which the duty to carry out a financial assessment is disapplied.

Section 66– Determination as to a person's ability to pay a charge

232. Section 66 requires a local authority to determine, in light of the financial assessment it has undertaken in accordance with the requirements of regulations made under section 64, whether it is reasonably practicable for a person to pay its standard charge for the service and, if not, how much it is reasonably practicable for the person to pay (if anything). Subsection (3) requires the Welsh Ministers to make regulations which make further provision regarding how to determine the ability to pay a charge for care and support or support.

Section 67 – Duty to give effect of determination as to ability to pay a charge

233. Section 67 requires a local authority to give effect to the determination of a person's ability to pay a charge (as determined in accordance with the requirements of section 66 and any regulations made under that section). Subsection (2) allows the Welsh Ministers to make regulations which set out the circumstances in which this duty does not apply.

Section 68 – Deferred payment agreements

234. Section 68 provides the Welsh Ministers with a power to make regulations about the circumstances in which a person whose needs are being met by a local authority, or whose needs are going to be met (in accordance with sections 35 to 45) may enter into arrangements with that local authority to defer any charges that will be imposed upon the person in respect of the provision of such services. An arrangement made under this section is known as a "deferred payment agreement". The regulations which may be made by the Welsh Ministers under this section may specify, for example, whether interest can be charged and the duration of the deferred payment agreement.

Section 69 – Charging for preventative services and assistance

235. Section 69 provides the Welsh Ministers with power to make regulations about a local authority's ability to impose a charge for the provision of preventative services and assistance (provided in accordance with sections 15 and 17). Subsection (2) prevents such regulations from making provision which would require a person to pay a charge under this section if a charge has already been imposed in accordance with section 59, and prevents the charge from covering anything other than the cost of providing the services or the assistance to which the charge relates. Subsection (2) also prevents the imposition of a charge upon a child for services provided in accordance with sections 15 and 17.

Adran 70 – Adennill costau, llog etc

236. Mae adran 70 yn darparu ar gyfer adennill ffioedd a osodir gan awdurdod lleol o dan y Rhan hon, ynghyd ag unrhyw gostau a dynnir wrth geisio adennill ffioedd o'r fath. Ni chaiff yr awdurdod lleol adennill ffioedd pe gellid bod wedi ymrwymo i gytundeb ar daliadau gohiriedig, oni bai bod yr awdurdod wedi ceisio ymrwymo i un ond bod y person y mae'r arian yn ddyledus arno wedi gwrthod gwneud hynny. Mae is-adran (3) yn caniatáu i awdurdod lleol geisio adennill arian sy'n ddyledus iddo drwy'r llysoedd ynadon (yn ogystal ag yn y llysoedd sifil). Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau yn unol ag is-adran (8) i wneud darpariaeth bellach, er enghraifft, mewn perthynas â dyddiadau ad-dalu a chodi llog.

Adran 71 – Creu arwystl dros fuddiant mewn tir

237. Mae adran 71 yn caniatáu i awdurdod lleol, o dan yr amgylchiadau priodol, greu arwystl dros fuddiant person mewn tir os yw'r person hwnnw yn methu â thalu swm y gall awdurdod lleol ei adennill o dan y Rhan hon, er mwyn sicrhau bod y swm sy'n ddyledus ganddo yn cael ei dalu.

Adran 72 – Trosglwyddo asedau i osgoi ffioedd

238. Mae adran 72 yn gwneud darpariaeth ynglŷn ag adennill ffioedd a osodir yn unol â'r Rhan hon pan fo unigolyn wedi trosglwyddo asedau i berson arall er mwyn osgoi talu ffioedd am wasanaethau i ddiwallu angen am ofal a chymorth neu gymorth. Pan fo'r trosglwyddiad wedi ei wneud am y rhesymau neu o dan yr amgylchiadau a nodir yn is-adran (1), caiff y person y trosglwyddwyd yr asedau iddo ddod yn atebol i wneud y taliad i'r awdurdod lleol. Mae is-adran (7) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu'r achosion pan na osodir atebolrwydd am y ffioedd ar y trosglwyddai.

Adran 73 – Adolygiadau sy'n ymwneud â chodi ffioedd

239. Mae adran 73 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch rhwymedigaeth awdurdod lleol i gynnal adolygiad o benderfyniad a wneir ynglŷn â'r ffioedd a osodir o dan adran 59, dyfarniad a wneir yn unol ag adran 66 neu benderfyniadau sy'n ymwneud ag atebolrwydd o dan adran 72.

240. Caiff y rheoliadau hynny hefyd gynnwys darpariaeth i bennu'r weithdrefn sydd i'w dilyn, yn ogystal â phwy a gaiff ofyn am yr adolygiad a'r cyfnod o amser y mae cais am adolygiad i'w wneud ynddo.

RHAN 6 - PLANT SY'N DERBYN GOFAL A PHLANT SY'N CAEL EU LLETYA

241. Mae'r Rhan hon yn disodli'r mwyafrif o bwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu cymorth i blant a theuluoedd a nodir yn Rhan 3 o Ddeddf Plant 1989 ('Deddf 1989') ac Atodlen 2 iddi. Bydd Rhan 3 o Ddeddf 1989 ac Atodlen 2 iddi yn parhau i fod yn gymwys o ran awdurdodau lleol yn Lloegr ond ni fyddant yn gymwys bellach o ran Cymru.

242. Nid yw'r hawliau a'r dyletswyddau sydd wedi eu cynnwys yn adran 17 o Ddeddf 1989 – darparu gwasanaethau i blant mewn angen, eu teuluoedd ac eraill – wedi ei hailadrodd yn y Rhan hon ond maent wedi eu cynnwys yn y ddarpariaeth a wneir yn Rhannau 2, 3 a 4 o'r Ddeddf, er nad yw'r cysyniad o blentyn "mewn angen" wedi ei ailadrodd yn y Ddeddf hon.

Section 70 – Recovery of charges, interest etc

236. Section 70 provides for the recovery of charges imposed by a local authority under this Part, together with any costs incurred while seeking to recover such charges. The local authority cannot recover charges if a deferred payment agreement could have been entered into, unless the authority has tried to enter one but the person owing money has refused to do so. Subsection (3) allows a local authority to seek recovery of monies owed to it via the magistrates courts (as well as in the civil courts). Regulations may be made by the Welsh Ministers in accordance with subsection (8) to make further provision, for example, in relation to due dates for repayment and charging interest.

Section 71 – Creation of a charge over an interest in land

237. Section 71 allows a local authority, in appropriate circumstances, to create a charge over a person's interest in land if that person fails to pay a sum recoverable to a local authority under this Part, in order to secure payment of the sum due.

Section 72 – Transfer of assets to avoid charges

238. Section 72 makes provision about the recovery of charges imposed in accordance with this Part where an individual has transferred assets to another person in order to avoid charges for services to meet a need for care and support or support. Where the transfer has been undertaken for the reasons or in the circumstances set out in subsection (1), the person to whom the assets have been transferred may become liable for making the payment to the local authority. Subsection (7) gives the Welsh Ministers power to make regulations which specify the cases in which liability for the charges will not be imposed upon the transferee.

Section 73 – Reviews relating to charging

239. Section 73 requires the Welsh Ministers to make regulations about a local authority's obligation to undertake a review of a decision made about the charges imposed under section 59, a determination made in accordance with section 66 or decisions relating to liability under section 72.

240. Such regulations may also include provision to specify the procedure to be followed, as well as who can request the review and the time period in which a request for a review is to be made.

PART 6 - LOOKED AFTER AND ACCOMMODATED CHILDREN

241. This Part replaces the majority of the powers and duties of local authorities in Wales to provide support for children and families set out in Part 3 of, and Schedule 2 to, the Children Act 1989 ('the 1989 Act'). Part 3 and Schedule 2 to the 1989 Act will continue to apply in relation to local authorities in England but will no longer apply in relation to Wales.

242. The rights and duties which contained in section 17 of the 1989 Act – provision of services for children in need, their families and others - are not replicated in this Part but are contained within the provision made in Parts 2, 3 and 4 of the Act, although the concept of a child "in need" is not replicated within this Act.

243. Mae'r cysyniad o lesiant fel sail ar gyfer gwneud penderfyniadau arni mewn cysylltiad â phlant, sy'n mynd drwy gydol Deddf 1989 wedi ei ddisodli yn y Ddeddf hon gyda'r gofyniad i hyrwyddo "llesiant" y plentyn. Mae llesiant wedi ei ddiffinio yn adran 2 o'r Ddeddf ac mae'n gymwys mewn perthynas â phlant ac oedolion at ddibenion y Ddeddf; mae'n cynnwys unrhyw un neu rai o'r wyth mater a nodir yn adran 2(2) ac mewn perthynas â phlentyn bydd hefyd yn cynnwys -
- (a) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol y plentyn, a
 - (b) "llesiant" y plentyn fel y diffinnir y gair hwnnw at ddibenion Deddf Plant 1989.

Adran 74 - Plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol

244. Mae adran 74 yn darparu'r dehongliad o'r termau allweddol a ddefnyddir yn y Rhan hon, yn benodol y diffiniad o "derbyn gofal" mewn perthynas â phlentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol.

Adran 75 - Dyletswydd gyffredinol awdurdod lleol i sicrhau digon o lety i blant sy'n derbyn gofal

245. Mae adran 75 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol i ddarparu llety i'r plant sy'n derbyn gofal ganddo o fewn ardal yr awdurdod lleol a hwnnw'n llety sy'n diwallu anghenion y plentyn. (O ran lleoliadau y tu allan i ardal, caiff Gweinidogion Cymru osod gofynion mewn rheoliadau, a wneir yn rhinwedd adrannau 87 a 90. Mae'r adrannau hynny yn eu tro yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ac yn nodi enghreifftiau o'r ffordd y caiff y pŵer hwnnw ei ddefnyddio i wneud darpariaeth ynghylch lleoli plant sy'n derbyn gofal y tu allan i ardal yr awdurdod lleol).
246. Mae adran 75(3) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i fantais cael ystod o lety ar gael, a nifer digonol o rieni maeth neu gartrefi plant.

Adran 76 - Llety i blant sydd heb rieni, neu blant sydd ar goll neu sydd wedi eu gadael etc

247. Mae adran 76 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddarparu llety i unrhyw blentyn y mae'n ymddangos bod arno angen llety oherwydd nad oes person â chyfrifoldeb rhiant i ofalu amdano, neu sydd ar goll neu wedi ei adael, neu y mae'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant drosto wedi ei atal, am ba reswm bynnag, rhag darparu llety neu ofal i'r plentyn. Mae'n darparu ymhellach, os yw awdurdod lleol yn darparu llety mewn ardal ac nad yr ardal honno yw ardal yr awdurdod lleol y mae'r plentyn fel arfer yn byw ynddi, yna y gall yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal arall honno gymryd drosodd y gwaith o ddarparu llety.
248. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd ddarparu llety i blentyn sydd wedi cyrraedd 16 oed, pe byddai methu â gwneud hynny yn andwyo llesiant y plentyn yn ddifrifol.
249. Ni chaiff awdurdod lleol ddarparu llety ar gyfer plentyn os yw unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn gwrthwynebu ac yn fodlon ac yn gallu darparu llety neu drefnu bod llety yn cael ei ddarparu. Gall person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn hefyd symud y plentyn ar unrhyw adeg o'r llety a

243. The concept of welfare as a basis upon which decisions are made in respect of children which runs through the 1989 Act is replaced in this Act with the requirement to promote the child's "well-being". Well-being is defined in section 2 of the Act and applies in relation to both children and adults for the purposes of the Act; it includes any of the eight matters set out in section 2(2) and in relation to a child will also include the child's -
- (a) physical, intellectual, emotional, social and behavioural development; and
 - (b) "welfare" as that word is interpreted for the purposes of the Children Act 1989.

Section 74 - Child or young person looked after by a local authority

244. Section 74 provides the interpretation of key terms used in this Part, in particular, the definition of "looked after" in relation to a child who is looked after by a local authority.

Section 75 - General duty of local authority to secure sufficient accommodation for looked after children

245. Section 75 places a general duty on local authorities to provide children it looks after with accommodation within the local authority area that meets the child's needs. (As to placements out of area, requirements may be imposed by the Welsh Ministers in regulations, made by virtue of sections 87 and 90. Those sections respectively provide Welsh Ministers with a regulation making power and set out examples of the way in which that power may be used to make provision about placement of looked after children outside the local authority's area).
246. Section 75(3) requires a local authority to have regard to the benefits of having a range of accommodation available and sufficient numbers of foster parents or children's homes.

Section 76 - Accommodation for children without parents or who are lost or abandoned etc

247. Section 76 requires a local authority to provide accommodation for any child that appears to need it as a result of having no person with parental responsibility to look after them, or who is lost or abandoned, or the person with parental responsibility for them is prevented, for whatever reason, from providing the child with accommodation or care. It further provides that if a local authority is providing accommodation in an area which is not the local authority area where the child normally lives, then the local authority for that other area can take over the provision of accommodation.
248. The local authority must also provide accommodation to a child who has reached the age of 16, if failure to do so would seriously prejudice his or her well-being.
249. A local authority may not provide accommodation for a child if any person with parental responsibility for the child objects and is willing and able to provide accommodation or can arrange for it to be provided. A person with parental responsibility for a child can also remove the child at any time from the accommodation provided by the local authority. These powers of a person with

ddarperir gan yr awdurdod lleol. Nid yw'r pwerau hyn sydd gan berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn gymwys yn achos plentyn sy'n 16 oed neu drosodd ac sy'n cytuno i lety gael ei ddarparu iddo o dan yr adran hon. Nid ydynt yn arferadwy ychwaith os oes unrhyw un neu rai o'r canlynol yn cytuno i'r plentyn gael ei letya felly: person sydd â gorchymyn preswyllo mewn perthynas â'r plentyn; gwarcheidwad arbennig y plentyn (a benodwyd yn unol ag adran 14A o Ddeddf Plant 1989); person sydd â gofal am y plentyn yn rhinwedd Gorchymyn gan yr Uchel Lys.

Adran 77 - Llety i blant sy'n cael eu hamddiffyn gan yr heddlu, neu sydd o dan gadwad neu ar remánd etc

250. Mae adran 77 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu llety i blant:
- sy'n cael eu symud o'u cartrefi neu sy'n cael eu cadw oddi yno o dan Ran 5 o Ddeddf Plant 1989;
 - sy'n ddarostyngedig i'w hamddiffyn gan yr heddlu o dan adran 46(3)(f) o Ddeddf Plant 1989;
 - y gofynnir i'r awdurdod lleol eu derbyn o dan adran 38(6) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984;
 - sydd ar remánd yn rhinwedd paragraff 4 o Atodlen 1 neu baragraff 6 o Atodlen 8 i Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000;
 - sydd ar remánd yn rhinwedd paragraff 21 o Atodlen 2 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008;
 - sydd ar remánd yn rhinwedd paragraff 10 o'r Atodlen i Ddeddf Troseddau Stryd 1959; neu sy'n ddarostyngedig i orchymyn adsefydlu ieuenctid sy'n gosod gofyniad preswyllo neu faethu.
251. Pan fo awdurdod lleol yn tynnu costau o ganlyniad i symud plentyn o dan Ran 5 o Ddeddf Plant 1989, ei gadw'n gaeth o dan adran 38 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 neu pan na ddarperir llety i'r plentyn gan yr awdurdod lleol, na chan y bwrdd iechyd lleol na'r Ymddiriedolaeth GIG (neu gan gyrff cyfatebol yn Lloegr), gellir adennill y costau hyn oddi ar yr awdurdod lleol lle y mae'r plentyn yn preswyllo fel arfer.

Adran 78 - Prif ddyletswydd awdurdod lleol mewn perthynas â phlentyn sy'n derbyn gofal

252. Mae adran 78 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn ddiogelu a hyrwyddo llesiant y plentyn. Mae gan yr awdurdod lleol hefyd rwymedigaethau i ddefnyddio gwasanaethau sydd ar gael i blant y mae eu rhieni eu hunain yn gofalu amdanynt er budd y plentyn, pan fo'n rhesymol i'r awdurdod wneud hynny.
253. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, cyn iddo wneud unrhyw benderfyniad am blentyn y mae'n gofalu amdano, neu'n bwriadu gofalu amdano, yn ogystal â'i ddyletswydd i roi sylw i'r ystyriaethau yn adrannau 6 a 7 o'r Ddeddf (sy'n nodi dyletswyddau hollgyffredinol awdurdod lleol wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf), roi sylw i farn, dymuniadau a theimladau unrhyw un sy'n berthnasol ym marn yr awdurdod ac ystyried crefydd, hil, diwylliant ac iaith y plentyn.

parental responsibility for the child do not apply in the case of a child who is 16 or over and who agrees to being provided with accommodation under this section. Nor are they exercisable if any of the following agree to child being so accommodated: a person with a residence order in relation to the child; the child's special guardian (appointed in accordance with section 14A of the Children Act 1989); a person who has care of the child by virtue of a High Court Order.

Section 77 - Accommodation for children in police protection or detention or on remand etc

250. Section 77 requires the local authority to provide accommodation for children:

- a. who are removed or kept away from home under Part 5 of the Children Act 1989;
- b. subject to police protection under section 46(3)(f) of the Children Act 1989;
- c. whom it is requested to receive under section 38(6) of the Police and Criminal Evidence Act 1984;
- d. who are remanded by virtue of paragraph 4 of Schedule 1 or paragraph 6 of Schedule 8 to the Powers of Criminal Courts (Sentencing) Act 2000;
- e. who are remanded by virtue of paragraph 21 of Schedule 2 to the Criminal Justice and Immigration Act 2008;
- f. who are remanded by virtue of paragraph 10 of the Schedule to the Street Offences Act 1959; or subject to a youth rehabilitation order imposing a residence or fostering requirement.

251. Where costs are incurred by a local authority as a result of a child being removed under Part 5 of the Children Act 1989, being detained under section 38 of the Police and Criminal Evidence Act 1984, or where the child is not provided with accommodation by the local authority, or by a local health board or NHS Trust (or by equivalent bodies in England), those costs are recoverable from the local authority where the child is ordinarily resident.

Section 78 - Principal duty of a local authority in relation to looked after children

252. Section 78 requires a local authority looking after a child to safeguard and promote the child's well-being. A local authority also has obligations to make use of services for the benefit of a looked after child, that are available for children cared for by their own parents, where it is reasonable to do so.

253. Subsection (3) requires a local authority, before it makes any decision about a child whom it is or is proposing to look after, in addition to its duty to have regard to the considerations within sections 6 and 7 of the Act (which set out the overarching duties of a local authority when exercising functions under the Act), to have regard to the views, wishes and feelings of anyone the authority deems relevant and to take in to account the child's religion, race, culture and language.

254. Caiff awdurdod lleol arfer ei ddyletswyddau mewn cysylltiad a phlentyn mewn modd nad yw yn unol â'i ddyletswyddau o dan yr adran hon (neu adran 6) os ymddengys ei bod yn angenrheidiol iddo wneud hynny er mwyn amddiffyn aelodau o'r cyhoedd rhag niwed difrifol.

Adran 81 - Y ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya a'u cynnal

255. Mae adran 81 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn wneud trefniadau ar gyfer lletya'r plentyn mewn lleoliad sy'n gyson â'i lesiant. Mae is-adran (6) yn cynnwys diffiniad o "lleoliad".
256. Mae is-adrannau (2) a (3) yn disgrifio'r lleoliadau y mae rhaid i awdurdod leol roi blaenoriaeth uwch iddynt, oni bai bod lleoliadau o'r fath yn anghydnaws â lesiant y plentyn neu nad ydynt yn rhesymol ymarferol. Rhaid i awdurdod lleol sy'n methu â lleoli plentyn yn unol ag is-adrannau (2) a (3) leoli'r plentyn yn y "lleoliad mwyaf priodol" sydd ar gael yn lle hynny.
257. Mae is-adrannau (7), (8) a (9) gynnwys materion y mae rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw iddynt wrth benderfynu beth yw lleoliad priodol.
258. Os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni y dylai'r plentyn gael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu rhaid iddo roi sylw i'r gofynion yn is-adrannau (10), (11) a (12) sy'n galluogi'r plentyn, o dan amgylchiadau priodol, i gael ei leoli gyda'i ddarpar rieni mabwysiadol.
259. Mae is-adran (13) yn rhoi pŵer i'r awdurdod lleol i benderfynu ar delerau'r trefniadau y mae'n eu gwneud ar gyfer lleoli plentyn o dan yr adran hon, gan gynnwys trefniadau o ran talu.
260. Mae is-adran (13) hefyd yn rhoi pŵer i'r awdurdod lleol i benderfynu ar y telerau ar gyfer gosod plentyn gyda'i ddarpar riant mabwysiadol o dan yr adran hon; caiff wneud taliadau i bersonau o'r fath. Mae'r pŵer hwn yn ddarostyngedig i orchymyn o dan adran 49 o Ddeddf Plant 2004. Mae adran 49 o Ddeddf 2004 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth i osod lefel y taliadau i'w gwneud i rieni maeth.

Adran 83 - Cynlluniau gofal a chymorth

261. Mae adran 83 yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i unrhyw gynllun gofal a chymorth (a lunnir o dan adran 54) ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol gael ei adolygu a'i gynnal o dan yr adran hon. Rhaid i'r awdurdod lleol gynnal asesiad newydd a diwygio'r cynllun os yw o'r farn bod amgylchiadau'r plentyn wedi newid mewn ffordd sy'n effeithio ar y cynllun presennol.
262. Os nad oes gan y plentyn gynllun gofal a chymorth pan ddaw yn blentyn sy'n derbyn gofal am y tro cyntaf, rhaid i'r awdurdod drefnu ar gyfer llunio cynllun o'r fath. Rhaid cynnwys y plentyn y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef, ynghyd ag unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhyant dros y plentyn, wrth lunio, adolygu neu ddiwygio'r cynllun.

254. A local authority may exercise its duties with respect to a child otherwise than in accordance with its duties under this section (or section 6) if it is necessary to do so for the purposes of protecting members of the public from serious injury.

Section 81 - Ways in which looked after children are to be accommodated and maintained

255. Section 81 requires a local authority looking after a child to make arrangements for accommodating the child in a placement which is consistent with their well-being. Subsection (6) contains a definition of “placement”.
256. Subsections (2) and (3) describe the placements to which a local authority must give preference, unless such placements are not compatible with the child’s well-being or are not reasonably practicable. A local authority which is unable to place a child in accordance with subsections (2) and (3) must instead place the child in the “most appropriate placement” available.
257. Subsections (7), (8) and (9) contain matters to which the local authority must have regard when determining what an appropriate placement is.
258. If the local authority is satisfied that the child should be placed for adoption it must have regard to the requirements in subsections (10), (11) and (12) which enable the child, in appropriate circumstances, to be placed with their prospective adoptive parents.
259. Subsection (13) gives the local authority power to determine the terms of arrangements that it makes for the placement of a child under this section, including arrangements about payment.
260. Subsection (13) also gives power to the local authority to determine the terms upon which a child is placed with its prospective adoptive parent under this section; it may make payments to such persons. This power is subject to an order under section 49 of the Children Act 2004. Section 49 of the 2004 Act gives the Welsh Ministers power to make provision to set the level of payments to be made to foster parents.

Section 83 - Care and support plans

261. Section 83 requires that any care and support plan (prepared under section 54) for a child looked after by a local authority must be reviewed and maintained under this section. The local authority must carry out a new assessment and revise the plan if it believes the circumstances of the child have changed in such a way as to affect the existing plan.
262. If the child does not have a care and support plan when he or she first becomes looked after, the authority must arrange for one to be prepared. The child to whom the plan relates, together with anyone with parental responsibility for that child, must be involved in the preparation, review or revision of a plan.

263. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau (yn unol ag is-adran (5)) ynghylch llunio'r cynlluniau, eu cynnwys, eu hadolygu a'u diwygio; nodi manylion y personau hynny y caniateir iddynt wneud cais am adolygiad o'r cynllun a'r amgylchiadau pan gaiff awdurdod lleol wrthod cais o'r fath a phan na chaiff wneud hynny.
264. Os oes cynlluniau eraill sy'n cael eu llunio ar gyfer y plentyn gan gyrff eraill, caniateir i'r cynlluniau hynny gael eu cynnwys gyda'r cynllun gofal a chymorth. Mae is-adran (9) yn caniatáu i unrhyw ran o gynllun gofal a chymorth a gynhelir o dan yr adran hon gael ei thrin fel cynllun a lunnir o dan adran 31A o Ddeddf Plant 1989 (cynlluniau gofal sy'n ymwneud â cheisiadau ar gyfer gorchmynion gofal) at ddibenion y Ddeddf honno.

Adran 85 – Cyfraniadau tuag at gynhaliaeth plant sy'n derbyn gofal

265. Mae adran 85 yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n gwneud darpariaeth sy'n nodi'r amgylchiadau pan gaiff yr awdurdod lleol ofyn am gyfraniadau oddi wrth oedolion tuag at gynhaliaeth plentyn sy'n derbyn gofal. Mae'r ddarpariaeth yn Atodlen 1, ar y cyfan, yn ailddatgan y ddarpariaeth yn Rhan 3 o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989; fodd bynnag, mae paragraff 1 o Atodlen 1 yn atal gofyn am unrhyw gyfraniad oddi wrth berson sydd o dan 18 oed (p'un ai'r plentyn sy'n derbyn gofal neu'r rhiant neu'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn o'r fath yw'r person hwnnw).

Adran 86 – Cartrefi plant sy'n cael eu darparu, eu cyfarparu a'u cynnal gan Weinidogion Cymru

266. Mae adran 86 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i benderfynu ar ba delerau y caiff awdurdod lleol leoli plentyn sy'n derbyn gofal ganddo mewn cartref plant sy'n cael ei ddarparu, ei gyfarparu a'i gynnal gan Weinidogion Cymru (yn unol â phwerau o dan adran 82(5) o Ddeddf Plant 1989).

Adran 87 – Rheoliadau ynghylch plant sy'n derbyn gofal

267. Mae adran 87 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth bellach ynghylch y ffordd y mae'n rhaid i awdurdod lleol arfer ei ddyletswyddau mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal ganddo.
268. Mae adrannau 88 i 94 yn cynnwys enghreifftiau o'r math o ddarpariaeth y caiff rheoliadau o'r fath ei gwneud.

Adran 88 – Rheoliadau ynghylch amodau lle y caniateir i blentyn sydd mewn gofal fyw gyda rhiant etc

269. Mae adran 88 yn cynnwys enghraifft o'r ffordd y gellid defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 87 i osod gofynion ar awdurdodau lleol ynghylch yr amgylchiadau pan gaiff plant sy'n derbyn gofal gael ei leoli gyda'i rhiant neu berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant. Caiff rheoliadau o'r fath gynnwys gofynion ynghylch prosesau'r awdurdod lleol ar gyfer gwneud penderfyniadau; gofynion ynghylch goruchwyllo'r plentyn neu archwilio'r plentyn yn feddygol; neu'r amgylchiadau pan ganiateir symud plant o'r man lle y mae'r plentyn yn byw.

263. The Welsh Ministers must make regulations (in accordance with subsection (5)) about the preparation, content, review and revision of the plans; to set out the detail of those persons who may request a review of the plan and the circumstances in which a local authority may and may not, refuse such a request.
264. If other plans are being prepared for the child by other bodies, those plans may be included with the care and support plan. Subsection (9) allows any part of a care and support plan maintained under this section to be treated as a plan prepared under section 31A of the Children Act 1989 (care plans relating to applications for care orders) for the purposes of that Act.

Section 85 - Contributions towards maintenance of looked after children

265. Section 85 introduces Schedule 1 which makes provision setting out the circumstances in which the local authority can seek contributions from adults towards the maintenance of a looked after child. The provision in Schedule 1 is, for the most part, a restatement of the provision in Part 3 of Schedule 2 to the Children Act 1989; however paragraph 1 of Schedule 1 prevents any contribution being sought from a person under the age of 18 (whether they are the child who is looked after or the parent or person with parental responsibility for such a child).

Section 86 - Children's homes provided, equipped and maintained by the Welsh Ministers

266. Section 86 provides the Welsh Ministers with a power to determine the terms upon which a local authority places a child it is looking after in a children's home that is provided, equipped and maintained by the Welsh Ministers (in accordance with powers under section 82(5) of the Children Act 1989).

Section 87 - Regulations about looked after children

267. Section 87 provides the Welsh Ministers with a power to make regulations to make further provision about the way in which a local authority must exercise its duties in relation to children that it looks after.
268. Sections 88 to 94 contain examples of the sort of provision that such regulations may make.

Section 88 - Regulations about conditions under which a child in care is allowed to live with a parent etc

269. Section 88 contains an example of the way in which the regulation making power in section 87 could be used to impose requirements on local authorities about the circumstances in which a looked after child may be placed with their parent or other person with parental responsibility. Such regulations may include requirements about a local authority's decision making processes; requirements about the supervision or medical examination of the child; or circumstances in which children can be removed from the place where the child is living.

Adran 89 - Rheoliadau ynghylch lleoliadau o'r math a grybwyllir yn adran 81(6)(d)

270. Mae adran 89 yn cynnwys enghraifft o'r ffordd y gellid defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 87 i wneud darpariaeth ynghylch lleoliadau a wneir yn unol â "threfniadau eraill" a ganiateir yn rhinwedd adran 81(6)(d). Caiff rheoliadau o'r fath bennu'r personau y mae'n rhaid eu hysbysu am unrhyw drefniadau arfaethedig gan gynnwys unrhyw newidiadau i'r trefniadau hynny; cyfleoedd y personau hynny i gyflwyno sylwadau; cadw cofnodion a threfniadau goruchwylio awdurdodau lleol.

Adran 90 - Rheoliadau ynghylch lleoliadau y tu allan i ardal

271. Mae adran 90 yn cynnwys enghraifft o'r ffordd y gellid defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 87 i osod gofynion ar awdurdod lleol y mae'n rhaid eu dilyn cyn iddo leoli plentyn sy'n derbyn gofal y tu allan i ardal yr awdurdod ac ar gyfer sicrhau llesiant y plentyn pe bai lleoliad o'r fath y tu allan i ardal yn digwydd.

Adran 91 - Rheoliadau ynghylch osgoi amharu ar addysg

272. Mae adran 91 yn cynnwys enghraifft o'r ffordd y gellid defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 87 i osod gofynion ar awdurdod lleol wrth wneud unrhyw benderfyniad ynglŷn â lleoli plentyn pan fydd y plentyn ym mhedwerydd cyfnod allweddol ei addysg, fel y darperir ar ei gyfer o dan Ran 7 o Ddeddf Addysg 2002.

Adran 92 - Rheoliadau ynghylch lleoli plant gyda rhieni maeth awdurdod lleol a darpar fabwysiadwyr

273. Mae adran 92 yn cynnwys enghraifft o'r ffordd y gellid defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 87 i wneud darpariaeth ynghylch lleoli plant sy'n derbyn gofal mewn gofal maeth neu gyda darpar fabwysiadwyr. Caiff y rheoliadau gynnwys darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol bod trefniadau'n cael eu gwneud ynghylch iechyd ac addysg y plentyn; neu fod unrhyw lety y lleolir y plentyn ynddo yn ddarostyngedig i'w arolygu gan yr awdurdod lleol.

Adran 93 - Rheoliadau sy'n darparu ar gyfer cymeradwyo rhieni maeth awdurdod lleol

274. Mae adran 93 yn cynnwys enghraifft o'r ffordd y gellid defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 87 i wneud darpariaeth ynghylch cymeradwyo rhieni maeth gan yr awdurdod lleol. Caiff rheoliadau o'r fath, er enghraifft:

- a) cynnwys darpariaeth sy'n pennu na chaniateir i blentyn gael ei leoli gyda rhieni maeth hyd nes bo'r awdurdod lleol wedi cymeradwyo eu penodiad fel rhieni maeth;
- b) cynnwys darpariaeth ynghylch sefydlu gweithdrefn annibynnol i adolygu'r broses o gymeradwyo rhieni maeth, gan gynnwys sefydlu panel a gynullir gan Weinidogion Cymru;
- c) gwneud darpariaeth ynghylch dyletswyddau a phwerau panel o'r fath;
- d) gwneud darpariaeth ynghylch penodi aelodau o'r panel a'r modd y cânt eu talu a'r trefniadau ar gyfer adolygu penderfyniad y panel a'r gweithdrefnau ar gyfer monitro adolygiadau o'r fath; ac
- e) gwneud darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gontractio gyda sefydliad arall i arfer adolygiad annibynnol o benderfyniadau o'r fath.

Section 89 - Regulations about placements of a kind mentioned in section 81(6)(d)

270. Section 89 contains an example of the way in which the regulation making power in section 87 could be used to make provision about placements which are made in accordance with “other arrangements” that are permitted by virtue of section 81(6)(d). Such regulations may specify the persons to be notified of any proposed arrangements including any changes to those arrangements; those persons’ opportunities to make representations; record keeping and local authorities’ supervision arrangements.

Section 90 - Regulations about placements out of area

271. Section 90 contains an example of the way in which the regulation making power in section 87 could be used to impose requirements upon a local authority that must be followed before it places a looked after child outside the authority’s area and for ensuring the child’s well-being should such an out of area placement be made.

Section 91 - Regulations about the avoidance of disruption in education

272. Section 91 contains an example of the way in which the regulation making power in section 87 could be used to impose requirements upon a local authority when making any decision regarding a child’s placement when the child is in the fourth key stage of education as provided for under Part 7 of the Education Act 2002.

Section 92 - Regulations about the placing of children with local authority foster parents and prospective adopters

273. Section 92 contains an example of the way in which the regulation making power in section 87 could be used to make provision about the placement of looked after children in foster care or with prospective adopters. The regulations may contain provision to require arrangements to be made about the child’s health and education; or that any accommodation in which a child is placed is subject to inspection by the local authority.

Section 93 - Regulations providing for approval of local authority foster parents

274. Section 93 contains an example of the way in which the regulation making power in section 87 could be used to make provision about the approval of foster parents by the local authority. Such regulations may for example:

- a) contain provision which specifies that a child may not be placed with foster parents until the local authority has approved their appointment as foster parents;
- b) contain provision about the establishment of an independent procedure for reviewing the approval of foster parents including establishing a panel constituted by the Welsh Ministers;
- c) make provision regarding the duties and powers such a panel may have;
- d) make provision regarding the appointment of members to the panel and how they are paid and arrangements for the review of a determination of a panel and procedures for monitoring such reviews; and
- e) make provision which enables the Welsh Ministers to contract with another organisation to exercise an independent review of such determinations.

Adran 94 – Rheoliadau ynghylch trefniadau asiantaeth

275. Mae adran 94 yn cynnwys enghraifft o'r ffordd y gellid defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 87 i wneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau pan gaiff awdurdod lleol wneud trefniadau gyda sefydliadau neu bersonau eraill i gyflawni dyletswyddau'r awdurdod lleol a osodwyd gan y rheoliadau.

Adran 95 – Hyrwyddo a chynnal cyswllt rhwng plentyn a theulu

276. Mae adran 95 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol hyrwyddo cyswllt rhwng plentyn y mae'n gofalu amdano a rhieni'r plentyn, eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, perthnasau a ffrindiau'r plentyn ac unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â'r plentyn, cyhyd â bod hynny yn gyson â llesiant y plentyn a'i bod yn rhesymol ymarferol gwneud hynny. Rhaid i'r awdurdod hefyd sicrhau bod rhieni'r plentyn ac eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn cael eu hysbysu'n rheolaidd am y man lle y mae'r plentyn yn cael ei letya. Yn yr un modd, rhaid i'r personau hynny sicrhau eu bod yn hysbysu'r awdurdod lleol am unrhyw newidiadau i'w cyfeiriad.

277. Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn drosedd i riant neu berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn sy'n derbyn gofal fethu â hysbysu'r awdurdod lleol am ei gyfeiriad.

278. Mae adran 95 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sy'n cymryd drosodd y cyfrifoldeb am ddarparu llety i blentyn oddi ar awdurdod lleol arall, hysbysu rhieni'r plentyn ac unrhyw un arall sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Nid yw'n ofynnol, fodd bynnag, i awdurdod lleol wneud hynny pe bai hynny yn peryglu llesiant y plentyn oni bai bod y plentyn o dan 16 oed ac yn cael ei letya o dan drefniadau gwirfoddol a wnaed yn rhinwedd adran 76.

Adran 96 – Ymweliadau'r teulu â'r plant neu ymweliadau â'r teulu gan blant: treuliau

279. Mae adran 96 yn rhoi pŵer i awdurdod lleol i wneud taliadau mewn perthynas â threuliau teithio, cynhaliaeth a threuliau eraill. Caiff taliadau o'r fath gael eu gwneud i riant neu i unrhyw un sy'n gysylltiedig â phlentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol pan fo'r person hwnnw yn ymweld â'r plentyn. Caiff yr awdurdod wneud taliadau hefyd i blentyn neu i unrhyw berson ar ran plentyn, pan fo plentyn yn ymweld â'i rieni neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r plentyn. Dim ond os byddai gwneud yr ymweliad hebddynt yn achosi caledi ariannol gormodol ac os yw'r amgylchiadau yn cyfiawnhau taliadau o'r fath y gall taliadau gael eu gwneud.

Adran 97 – Dyletswydd awdurdod lleol i sicrhau ymweliadau a chyswllt â phlant sy'n derbyn gofal a phlant eraill

280. Mae adran 97 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i sicrhau ymweliadau a chyswllt rhwng cynrychiolydd yr awdurdod a phlentyn sy'n derbyn gofal ganddo; plentyn a arferai dderbyn gofal ganddo; neu gategorïau eraill o blant a bennir mewn rheoliadau y caniateir eu gwneud o dan is-adran (2). Rhaid i gynrychiolydd yr awdurdod lleol drefnu i ddarparu cyngor, cymorth a chynhorthwy i'r plentyn. Caiff rheoliadau a wneir o dan yr adran hon hefyd wneud darpariaeth ynghylch amllder yr ymweliadau; yr amgylchiadau pan ganiateir i ymweliadau ddigwydd; a swyddogaethau cynrychiolwyr.

Section 94 - Regulations about agency arrangements

275. Section 94 contains an example of the way in which the regulation making power in section 87 could be used to make provision about the circumstances in which a local authority may make arrangements with other organisations or persons to discharge the local authority's duties imposed by the regulations.

Section 95 - Promotion and maintenance of contact between child and family

276. Section 95 requires a local authority to promote contact between a child whom it looks after and the child's parents, others with parental responsibility for the child, the child's relatives, friends and anyone else connected to the child, provided this is consistent with the child's well-being and it is reasonably practicable to do so. The authority must also ensure the child's parents and others with parental responsibility for the child are kept informed of where the child is accommodated. Similarly, those persons must ensure they keep the local authority informed of any changes to their address.
277. Subsection (6) makes it an offence for a parent or other person with parental responsibility for a looked after child to fail to keep the local authority informed of his or her address.
278. Section 95 further requires a local authority which is taking over the responsibility for providing accommodation to a child from another local authority, to inform the child's parents and anyone else who has parental responsibility for the child. A local authority however is not required to do so if that would prejudice the child's well-being unless that child is under 16 years of age and accommodated under voluntary arrangements made by virtue of section 76.

Section 96 - Family visits to or by children: expenses

279. Section 96 gives a local authority power to make payment of travel, subsistence and other expenses. Such payments may be made to a parent or anyone connected with a child the local authority looks after when that person visits the child. The authority may also make payments to a child or to any person on a child's behalf, when a child visits their parents or anyone connected with the child. Payments can only be made if, without them, making the visit would cause undue financial hardship and if the circumstances warrant such payments.

Section 97 - Duty of local authority to ensure visits to, and contact with, looked after children and other children

280. Section 97 imposes a duty upon a local authority to ensure visits to, and contact between, a representative of the authority and a child it looks after; a child it used to look after; or other categories of children specified in regulations which may be made under subsection (2). The local authority's representative must arrange for the provision of advice, support and assistance to the child. The regulations made under this section may also make provision about the frequency of visits; the circumstances in which visits can take place; and the functions of representatives.

281. Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sicrhau bod gan ei gynrychiolydd y sgiliau a'r profiad priodol i gyflawni'r swyddogaethau.
282. Mae'r adran hon yn ailddatgan, i raddau helaeth, ddarpariaeth a wneir gan adran 23ZA o Ddeddf Plant 1989; fodd bynnag mae'r pŵer gwneud rheoliadau o fewn is-adran (1)(c) hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau categorïau ychwanegol o blant y byddai'r ddyletswydd y darperir ar ei chyfer yn yr adran hon yn gymwys iddynt ac mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau o'r fath wneud darpariaeth ynghylch pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gyflawni'r dyletswyddau mewn perthynas â phlant o'r fath.

Adran 98 – Ymwelwyr annibynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

283. Mae adran 98 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol benodi person annibynnol i ymweld ag unrhyw blentyn y mae'r awdurdod yn gofalu amdano, os yw'r plentyn yn dod o fewn categori a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, neu pe byddai gwneud hynny'n fuddiol i'r plentyn.
284. Rhaid i berson a benodir yn ymwelydd o dan yr adran hon ymgyfeillio â'r plentyn a'i gynghori a chaiff hawlio gan yr awdurdod dreuliau a dynnwyd ganddo wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon.
285. Daw penodiad yr ymwelydd annibynnol i ben unwaith y bydd y plentyn yn peidio â derbyn gofal gan yr awdurdod; pan fydd yr ymwelydd yn ymddiswyddo; neu os bydd yr awdurdod lleol yn terfynu'r penodiad. Ni chaniateir penodi ymwelydd o dan yr adran hon os oes gan blentyn ddealltwriaeth ddigonol a'i fod yn gwrthwynebu bod y penodiad hwnnw yn cael ei wneud. Os yw'r plentyn yn gwrthwynebu cael ymwelydd penodol, nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol benodi person arall.
286. Caiff rheoliadau y caniateir eu gwneud o dan is-adran (9) bennu'r amgylchiadau pan fo person i'w ystyried fel un sy'n annibynnol.

Adran 99 – Penodi swyddog adolygu annibynnol

287. Mae adran 99 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol benodi swyddog adolygu annibynnol i adolygu achos pob plentyn sy'n derbyn gofal ganddo. Rhaid penodi'r swyddog adolygu annibynnol cyn i achos y plentyn gael ei adolygu gyntaf yn unol ag adran 102. Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i swyddog adolygu annibynnol fod yn berson sy'n dod o fewn categori a nodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Adran 100 – Swyddogaethau'r swyddog adolygu annibynnol

288. Mae adran 100 yn nodi swyddogaethau'r swyddogion adolygu annibynnol. Mae is-adran (1)(d) yn caniatáu i Weindogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhagnodi swyddogaethau ychwanegol i swyddogion adolygu annibynnol ac mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gydweithredu â swyddog adolygu annibynnol mewn achos pan nad yw'r swyddog adolygu annibynnol yn swyddog i'r awdurdod.

281. Subsection (6) requires a local authority to ensure that its representative has the appropriate skills and experience to perform the functions.
282. This section largely restates provision made by section 23ZA of the Children Act 1989; however the regulation making power within subsection (1)(c) also permits the Welsh Ministers to specify in regulations additional categories of children to whom the duty provided for within this section would apply and subsection (2) requires such regulations to make provision about which local authority is responsible for discharging the duties in relation to such children.

Section 98 - Independent visitors for looked after children

283. Section 98 requires a local authority to appoint an independent person to visit any child whom the authority looks after, if the child falls within a category specified in regulations made by the Welsh Ministers, or if it would be in the child's interests.
284. A person appointed as a visitor under this section must befriend and advise the child and may claim expenses from the authority that have been incurred in the exercise of their functions under this section.
285. The independent visitor's appointment comes to an end once the child ceases to be looked after by the authority; when he or she resigns; or if the local authority terminates the appointment. A visitor may not be appointed under this section if a child has sufficient understanding and objects to the making of such an appointment. If the child objects to having a particular visitor, the local authority is not required to appoint another person.
286. Regulations which may be made under subsection (9) may specify the circumstances in which a person is to be regarded as independent.

Section 99 - Appointment of independent reviewing officer

287. Section 99 requires a local authority to appoint an independent reviewing officer (IRO) to review the case of each child it looks after. The IRO must be appointed before the child's case is first reviewed in accordance with section 102. Subsection (4) provides that an IRO must be a person who falls within a category set out in regulations made by the Welsh Ministers.

Section 100 - Functions of the independent reviewing officer

288. Section 100 sets out the functions of IROs. Subsection (1)(d) allows the Welsh Ministers to make regulations which prescribe additional functions for IROs and subsection (4) requires a local authority to co-operate with an IRO in the event that he or she is not an officer of the authority.

Adran 101 – Achosion a atgyfeirir

289. Mae adran 101 yn bŵer i'r Arglwydd Ganghellor i wneud rheoliadau i estyn swyddogaethau "swyddog achosion teuluol Cymru" (sydd wedi ei ddiffinio yn adran 197 o'r Ddeddf) mewn perthynas ag achosion a atgyfeirir o dan adran 100(3). Caiff rheoliadau a wneir o dan yr adran hon hefyd wneud darpariaeth ynghylch y modd y mae swyddog achosion teuluol Cymru yn arfer ei swyddogaethau. Caiff rheoliadau a wneir o dan yr adran hon ond gael eu gwneud gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru. Mae'r adran hon yn ailddatgan darpariaeth a wnaed gan adran 25C o Ddeddf Plant 1989.

Adran 102 – Adolygu achosion ac ymchwilio i sylwadau

290. Mae adran 102 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i achos plentyn sy'n derbyn gofal gael ei adolygu. Mae is-adran (2) yn cynnwys enghreifftiau o faterion y caniateir eu cynnwys mewn rheoliadau o'r fath.

Adran 103 – Ymgyfeillio â phlant sy'n derbyn gofal, eu cynghori a'u cynorthwyo

291. Mae adran 103 yn cynnwys dyletswydd sy'n eu gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ymgyfeillio â phlentyn y mae wedi peidio â gofalu amdano, ei gynghori a'i gynorthwyo, gyda'r bwriad o hyrwyddo llesiant y plentyn.

Adran 104 – Pobl ifanc sydd â'r hawlogaeth i gael cymorth o dan adrannau 105 i 115

292. Mae adran 104 yn nodi'r categorïau gwahanol o bobl ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol neu a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol at ddibenion y Ddeddf hon. Mae gan bob categori hawlogaeth i gael cymorth o fath gwahanol neu ar lefel wahanol. Mae is-adran (2) yn cynnwys disgrifiad o'r chwe chategori gwahanol.

293. Mae person ifanc categori 1 yn blentyn sy'n 16 neu'n 17 oed, sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol ac sydd wedi bod yn derbyn gofal gan awdurdod lleol (yng Nghymru neu yn Lloegr) am gyfnod (sydd wedi ei bennu mewn rheoliadau), a ddechreuodd ar ôl iddo gyrraedd oedran sydd wedi ei bennu mewn rheoliadau ac a ddaeth i ben ar ôl i'r plentyn gyrraedd 16 oed. Mae'r diffiniad hwn yn ailddatgan y diffiniad o "eligible child" ym mharagraff 19B(2) o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.

294. Mae person ifanc categori 2 yn blentyn sy'n 16 neu'n 17 oed, nad yw'n derbyn gofal mwyach gan awdurdod lleol (yng Nghymru nac yn Lloegr) ond a arferai fod yn berson ifanc categori 1. Mae'r diffiniad o berson ifanc categori 2 yn atgynhyrchu'r diffiniad o "relevant child" yn adran 23A o Ddeddf Plant 1989.

295. Mae person ifanc categori 3 yn person ifanc sy'n 18 oed neu drosodd, a arferai fod yn berson ifanc categori 2 ac a fyddai'n parhau i fod felly pe bai o dan 18 oed; neu a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol pan gyrhaeddodd 18 oed, ac a oedd, yn union cyn i'r gofal a ddarparwyd ddod i ben, yn berson ifanc categori 1. Mae'r diffiniad o berson ifanc categori 3 yn ailddatgan y diffiniad o "former relevant child" yn adran 23C o Ddeddf Plant 1989.

Section 101 - Referred cases

289. Section 101 is a power for the Lord Chancellor to make regulations to extend the functions of a “Welsh family proceedings officer” (defined in section 197 of the Act) in relation to cases which are referred under section 100(3). Regulations made under this section may also make provision about the way that a Welsh family proceedings officer exercises his or her functions. Regulations made under this section may only be made with the consent of the Welsh Ministers. This section restates provision made by section 25C of the Children Act 1989.

Section 102 - Review of cases and inquiries into representations

290. Section 102 gives the Welsh Ministers power to make regulations which require the review of a case of a looked after child. Subsection (2) contains examples of matters which may be included in such regulations.

Section 103 - Befriending, advising and assisting looked after children

291. Section 103 contains a duty which requires a local authority to befriend, advise and assist a child whom it has ceased looking after, with the intention of promoting the child’s well-being.

Section 104 - Young people entitled to support under sections 105 to 115

292. Section 104 sets out the different categories of young people who are or who were being looked after by a local authority for the purposes of this Act. Each category is entitled to differing types or levels of support. Subsection (2) contains a description of the six different categories.
293. A category 1 young person is a child aged 16 or 17 who is being looked after by a local authority and who has been looked after by a local authority (in Wales or England) for a period (specified in regulations), which began after he or she reached an age specified in regulations and ended after the child had reached the age of 16. This definition restates the definition of an eligible child in paragraph 19B(2) of Schedule 2 to the Children Act 1989 .
294. A category 2 young person is a child aged 16 or 17, who is no longer looked after by a local authority (in Wales or England) but who used to be a category 1 young person. The definition of a category 2 young person replicates that of a relevant child in section 23A of the Children Act 1989.
295. A category 3 young person is a young person who is aged 18 or over, and who used to be a category 2 young person and would continue to be so if he or she were under the age of 18; or who was being looked after by a local authority when he or she reached the age of 18, and, immediately before ceasing to be looked after, was a category 1 young person. The definition of a category 3 young person restates that of a former relevant child in section 23C of the Children Act 1989.

296. Mae person ifanc categori 4 yn berson ifanc categori 3 sydd o dan 25 oed (neu oedran llai a bennir mewn rheoliadau) ac y mae'r dyletswyddau o dan adrannau 105, 106, 107(3) a (10) a 110 wedi peidio â bod yn gymwys iddo, ac sydd hefyd wedi hysbysu'r awdurdod lleol ei fod yn dilyn, neu ei fod yn dymuno dilyn, addysg neu hyfforddiant. Mae'r diffiniad o berson ifanc categori 4 yn cwmpasu'r bobl ifanc hynny y gwneir darpariaeth ar eu cyfer o fewn adran 23CA o Ddeddf Plant 1989 (personau sy'n gymwys i gael cynhorthwy pellach i ddilyn addysg neu hyfforddiant). Bydd pobl ifanc o'r fath yn gallu cael cyngor a chynhorthwy yn rhinwedd "ailgysylltu" ag awdurdod lleol at ddibenion ceisio dilyn addysg neu hyfforddiant.
297. Mae person ifanc categori 5 yn berson ifanc sy'n 16 oed ond nad yw eto yn 21 oed, y mae gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig mewn grym mewn cysylltiad ag ef (neu, os yw'r person yn 18 oed neu drosodd, yr oedd gorchymyn mewn grym pan gyrhaeddodd 18 oed). Bydd gan berson ifanc categori 5 yr hawlogaeth i gael yr un cymorth gan awdurdod lleol â'r hyn ddarperir i berson sy'n gymwys i gael cyngor a chynhorthwy o dan adran 24A o Ddeddf Plant 1989 (ar y sail ei fod yn berson sy'n gymwys i gael cyngor a chynhorthwy yn rhinwedd adran 24(1A)) o Ddeddf Plant 1989).
298. Mae person ifanc categori 6 yn berson ifanc nad yw eto wedi cyrraedd 21 oed; sy'n preswyllo yng Nghymru; ac sydd, er nad yw'n derbyn gofal nac yn cael ei letya na'i faethu ar hyn o bryd, wedi bod yn derbyn gofal neu wedi ei letya neu ei faethu am gyfnod pan oedd rhwng 16 a 18 oed. Nid yw'r categori hwn yn cynnwys unrhyw un y mae modd ei gwmpasu gan y diffiniad o berson ifanc categori 5. Bydd gan berson ifanc categori 6 yr hawlogaeth i gael yr un cymorth gan awdurdod lleol â'r hyn a ddarperir i berson sy'n gymwys i gael cyngor a chynhorthwy o dan adran 24A yn rhinwedd adran 24(1B) o Ddeddf Plant 1989.
299. Mae is-adrannau (3) a (4) yn darparu eglurhad o'r term "yn derbyn gofal, wedi ei letya neu ei faethu" at ddibenion y diffiniad o berson ifanc categori 6.
300. Mae is-adran (5) yn egluro pa awdurdod lleol yw'r "awdurdod lleol cyfrifol" a'r "awdurdod lleol sy'n gyfrifol" at ddibenion darparu cymorth i bob un o'r categorïau o'r rhai sy'n gadael gofal a ddisgrifir yn is-adran (2).
301. Caiff rheoliadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru yn unol â'r pŵer yn is-adran (6) i bennu categorïau ychwanegol o berson ifanc sydd â hawlogaeth i gael cymorth o dan Ran 6 neu i addasu categorïau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys y rhai nad ydynt i'w trin fel pe baent yn dod o fewn categori penodol ac i ddarparu ar gyfer pa awdurdod lleol fyddai'r "awdurdod lleol sy'n gyfrifol" am unrhyw bersonau ifanc ychwanegol a bennir felly.

Adran 105 - Cadw mewn cysylltiad

302. Mae adran 105 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i gadw mewn cysylltiad â phersonau sy'n dod o fewn y diffiniad o berson ifanc categori 2 neu gategori 3, p'un a yw'r person hwnnw yn bresennol yn gorfforol o hyd yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw o hyd ai peidio. Os yw'r awdurdod lleol yn colli cysylltiad â pherson ifanc categori 2 neu gategori 3, rhaid iddo gymryd camau rhesymol i ailsefydlu'r cyswllt, ac yn achos person ifanc categori 2, rhaid iddo

296. A category 4 young person is a category 3 young person who is under 25 (or a lower age specified in regulations) and for whom the duties under sections 105, 106, 107(3) and (10) and 110 have ceased to apply, and who has also informed the local authority that he or she is pursuing or wishes to pursue education or training. The definition of a category 4 young person captures those young persons for whom provision is made within section 23CA of the Children Act 1989 (persons who qualify for further assistance to pursue education or training). Such young persons will be able to obtain advice and assistance by virtue of “reconnecting” with a local authority for the purposes of seeking to pursue education or training.
297. A category 5 young person is a young person who is 16 but not yet 21 in respect of whom a special guardianship order is in force (or if the person is 18 or over, an order was in force when he or she reached 18). A category 5 young person will be entitled to the same support from a local authority as that provided for a person qualifying for advice and assistance under section 24A of the Children Act 1989 (on the basis that he or she is a person who qualifies for advice and assistance by virtue of section 24(1A) of the Children Act 1989).
298. A category 6 young person is a young person who has not yet attained the age of 21; is residing in Wales; and who, whilst not currently being looked after, accommodated or fostered, has been looked after, accommodated or fostered for a period when they were between the ages of 16 and 18. This category does not include anyone capable of being captured by the definition of a category 5 young person. A category 6 young person will be entitled to the same support from a local authority as that provided to persons qualifying for advice and assistance under section 24A by virtue of section 24(1B) of the Children Act 1989.
299. Subsections (3) and (4) provide clarification of the terms “looked after”, “accommodated and “fostered” for the purposes of the definition of a category 6 young person.
300. Subsection (5) clarifies which local authority is the “responsible local authority” for the purposes of providing support to each of the categories of care leaver described in subsection (2).
301. Regulations may be made by the Welsh Ministers in accordance with the power in subsection (6) to specify additional categories of young person entitled to support under Part 6 or to modify existing categories, including those not to be treated as falling within a particular category and to provide for which local authority would be the responsible local authority for any additional young persons so specified.

Section 105 - Keeping in touch

302. Section 105 requires a local authority to take reasonable steps to keep in touch with persons who fall within the definition of a category 2 or 3 young person, whether or not that person is still physically present in that local authority’s area. If the local authority loses contact with a category 2 or 3 young person, it must take reasonable steps to re-establish contact, and in the case of a category 2 young person, must continue to do so until it succeeds. Subsection (4) specifies the circumstances when the duties under this section to category 3 young persons cease.

barhau i wneud hynny hyd nes y bydd yn llwyddo. Mae is-adran (4) yn pennu'r amgylchiadau pan fo'r dyletswyddau o dan yr adran hon mewn perthynas â phersonau ifanc categori 3 yn dod i ben.

303. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i ailsefydlu'r cyswllt â pherson ifanc categori 6 (a oedd yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol) os yw'r awdurdod lleol wedi colli cysylltiad â'r person hwnnw. Mae'r adran hon yn ailddatgan darpariaeth a wnaed gan adrannau 23B a 23C o Ddeddf Plant 1989 (mewn cysylltiad â phersonau ifanc categori 2 a chategori 3) ac adran 24 (mewn cysylltiad â phersonau ifanc categori 6).

Adran 106 – Cynghorwyr personol

304. Mae adran 106 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol drefnu bod person ifanc sy'n dod o fewn y diffiniad o berson ifanc categori 1, 2, 3 neu 4, yn cael cynghorydd personol. Caiff swyddogaethau cynghorydd personol gael eu pennu mewn rheoliadau. Mae'r adran hon yn ailddatgan darpariaeth a wnaed ym mharagraff 19C o Atodlen 2 (mewn cysylltiad â phersonau ifanc categori 1), adrannau 23B (mewn cysylltiad â phersonau ifanc categori 2); 23C (mewn cysylltiad â phersonau ifanc categori 3); a 23CA (mewn cysylltiad â phersonau ifanc categori 4) o Ddeddf Plant 1989.

Adran 107 – Asesiadau a chynlluniau llwybr: cyffredinol

305. Mae adran 107 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gynnal asesiad er mwyn dyfarnu pa gyngor a chymorth y mae eu hangen ar berson ifanc categori 1, tra bo'n derbyn gofal ac ar ôl iddo beidio â derbyn gofal. Mae'r ddarpariaeth hon yn ailddatgan y dyletswydd sydd wedi ei chynnwys ym mharagraff 19B(4) o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.
306. Mae is-adrannau (2), (3) a (4) yn gymwys i berson ifanc sy'n berson ifanc categori 2 neu gategori 3 nad oes cynllun llwybr eisoes ar waith ar ei gyfer, ac i berson ifanc categori 4. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r awdurdod lleol gynnal asesiad i ddyfarnu pa gyngor a chymorth arall y byddai'n briodol i'r awdurdod lleol eu darparu i'r person ifanc. Yn dilyn asesiad, rhaid i'r awdurdod lleol lunio cynllun llwybr a'i adolygu'n gyson. Mae'r ddarpariaeth hon yn ailddatgan y rhwymedigaethau sydd wedi eu cynnwys yn adrannau 23B, 23C a 23CA o Ddeddf Plant 1989.
307. Mae diben a chynnwys gofynnol cynllun llwybr wedi eu pennu yn is-adran (7) sydd hefyd yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i ychwanegu materion i'w cynnwys mewn cynllun llwybr. Mae'r is-adran hon yn ailddatgan darpariaeth a wnaed yn adran 23E, paragraff 19B(4) o Atodlen 2, ac adrannau 23C(3)(b) a 23CA(3)(a) o Ddeddf Plant 1989.
308. Caiff rheoliadau ynghylch asesiadau y caniateir i Weinidogion Cymru eu gwneud, yn unol â'r pŵer yn is-adran (8), gynnwys darpariaeth ynghylch materion megis â phwy y dylid ymgynghori; y dull ar gyfer cynnal asesiadau a'u hamseriad a chadw cofnodion. Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu cynllun llwybr yn gyson, ac mae is-adran (11) yn darparu y ceir cynnal asesiad(au) neu adolygiad(au) yn unol â'r adran hon ar yr un adeg ag unrhyw asesiad neu adolygiad arall.

303. Subsection (5) requires a local authority to take reasonable steps to re-establish contact with a category 6 young person (who was looked after by the local authority) if the local authority has lost touch with that person. This section restates provision made by sections 23B and 23C of the Children Act 1989 (in respect of category 2 and 3 young persons) and section 24 (in respect of category 6 young persons).

Section 106 - Personal advisers

304. Section 106 requires a local authority to arrange for a young person who falls within the definition of a category 1, 2, 3 or 4 young person, to have a personal adviser. The functions of a personal adviser may be specified in regulations. This section restates provision made in paragraph 19C of Schedule 2 (in respect of category 1 young persons); sections 23B (in respect of category 2 young persons); 23C (in respect of category 3 young persons); and 23CA (in respect of category 4 young persons) of the Children Act 1989.

Section 107 - Pathway assessments and plans: general

305. Section 107 requires a local authority to carry out an assessment to determine what advice and support is required by a category 1 young person both while he or she is being looked after and after he or she ceases to be looked after. This provision restates the duty contained in paragraph 19B(4) of Schedule 2 to the Children Act 1989.
306. Subsections (2), (3) and (4) apply to a young person who is a category 2 or 3 young person who does not already have a pathway plan in place, and to a category 4 young person. In such cases, the local authority must carry out an assessment to determine the advice and other support it would be appropriate for the local authority to provide to the young person. Following assessment, the local authority must prepare a pathway plan and keep it under review. This provision restates the obligations contained in sections 23B, 23C and 23CA of the Children Act 1989.
307. The purpose and required content of a pathway plan are specified in subsection (7) which also contains a regulation making power for the Welsh Ministers to add matters to be included in a pathway plan. This subsection restates provision made in section 23E, paragraph 19B(4) of Schedule 2, and sections 23C(3)(b) and 23CA(3)(a) of the Children Act 1989.
308. Regulations about assessments which may be made by the Welsh Ministers, in accordance with the power in subsection (8), may contain provision about matters such as who is to be consulted; the manner and timing of such assessments and record keeping. The local authority must regularly review a pathway plan, and subsection (11) provides that assessment(s) or review(s) carried out in accordance with this section can be carried out at the same time as any other assessment or review.

Adran 108 - Aseidiadau a chynlluniau llwybr: trefniadau byw ôl-18

309. Mae adran 108 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, pan fydd yn ymgymryd ag asesiad neu'n llunio, cynnal neu adolygu cynllun llwybr plentyn sy'n derbyn gofal ganddo yn unol â'i rwymedigaethau o dan adran 107, ganfod a yw'r plentyn sy'n derbyn gofal a'i riant (rieni) maeth yn dymuno gwneud trefniant byw ôl-18. Mae "trefniant byw ôl-18" wedi ei ddiffinio yn is-adran (3). Pan ddymunir trefniant o'r fath, rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu cyngor a chymorth i hwyluso trefniadau o'r fath oni bai na fyddai trefniant byw ôl-18 yn gyson â llesiant y person ifanc.

Adran 109 - Cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 2

310. Mae adran 109 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am berson ifanc categori 2 ddiogelu a hyrwyddo ei lesiant, ac (i'r graddau y bo'n ofynnol) darparu cymorth i'r person ifanc drwy ei gynnal, drwy ddarparu llety addas iddo ac unrhyw gymorth arall a bennir mewn rheoliadau. Caniateir darparu cymorth ar ffurf da neu mewn arian parod. Caiff rheoliadau y caniateir i Weinidogion Cymru eu gwneud yn unol â'r pŵer i wneud rheoliadau yn is-adran (1)(c) hefyd ddiffinio "llety addas", a gwneud darpariaeth ynghylch addasrwydd landlordiaid neu addasrwydd darparwyr eraill llety y mae awdurdod lleol yn ei ddarparu neu yn ei sicrhau ar ffurf cymorth o dan yr adran hon. Mae hyn yn ailddatgan y ddarpariaeth yn adran 23B o Ddeddf Plant 1989.

Adran 110 - Cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 3

311. Mae adran 110(1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi cymorth i berson ifanc categori 3 (i'r graddau y bo'n ofynnol i'w lesiant) drwy gyfrannu at dreuliau a dynnir gan y person ifanc i'w alluogi i fyw yn agos i'r man lle y mae, neu y bydd, yn cael ei gyflogi neu'n chwilio am waith cyflogedig. Mewn achosion pan fo, neu pan fydd, person ifanc yn derbyn addysg neu hyfforddiant, rhaid i'r awdurdod lleol (i'r graddau y bo'n ofynnol i lesiant ac anghenion addysg neu hyfforddiant y person ifanc) gyfrannu at y treuliau a dynnwyd wrth fyw yn agos i'r man lle y mae, neu y bydd, yn cael addysg neu hyfforddiant a gwneud grant i alluogi'r person ifanc i astudio neu hyfforddi. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd wneud unrhyw beth arall yr ystyria'r awdurdod yn briodol i roi cymorth i berson ifanc categori 3. Gall y cynhorthwy a ddarperir fod ar ffurf da neu mewn arian parod.

312. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol fonitro unrhyw drefniant byw ôl-18 sydd yn ei le a darparu cyngor a chymorth i gynnal y trefniant hwnnw (gan gynnwys darparu cymorth ariannol i gyn-riant maeth).

313. Os yw'r person ifanc categori 3 yn dilyn cwrs addysg bellach neu uwch lawnamser yna mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol dalu'r "swm perthnasol" i'r person ifanc hwnnw yn unol â'i gynllun llwybr. Rhaid i awdurdod lleol ddarparu llety yn ystod y gwyliau i berson ifanc categori 3 sydd mewn addysg bellach neu uwch lawnamser pan nad yw llety yn ystod y tymor ar gael. Mae adran 116 yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth atodol ynghylch rhoi cymorth i bobl ifanc mewn addysg bellach neu uwch, gan gynnwys, er enghraifft, y pŵer i bennu'r "swm perthnasol" ac i ddiffinio termau megis "gwyliau" neu "llawnamser".

Section 108 - Pathway assessments and plans: post-18 living arrangements

309. Section 108 requires a local authority, when it is undertaking an assessment, or preparing, maintaining or reviewing the pathway plan of a child it looks after in accordance with its obligations under section 107, to ascertain whether the looked after child and their foster parent(s) wish to make a post-18 living arrangement. A “post-18 living arrangement” is defined in subsection (3). Where such an arrangement is desired, the local authority must provide advice and support to facilitate such arrangements unless a post-18 living arrangement would not be consistent with the young person’s well-being.

Section 109 - Support for category 2 young people

310. Section 109 requires the local authority that is responsible for a category 2 young person to safeguard and promote his or her well-being, and (to the extent that it is required) support the young person by maintaining him or her, providing suitable accommodation and any other support set out in regulations. Support may be provided in kind or in cash. Regulations which may be made by the Welsh Ministers in accordance with the regulation making power in subsection (1)(c) may also define “suitable accommodation”, and make provision about the suitability of landlords or other providers of accommodation that a local authority provides or secures by way of support under this section. This restates the provision in section 23B of the Children Act 1989.

Section 110 - Support for category 3 young people

311. Section 110(1) requires a local authority to support a category 3 young person (to the extent that their well-being requires it) by contributing to expenses incurred by the young person to enable them to live near their place of work or where they will be seeking employment. In cases where a young person is or will be receiving education or training, the local authority must (to the extent that the young person's well-being and education or training needs require it) contribute to expenses incurred in living near the place where they are, or will be, receiving education or training and make a grant to enable the young person to study or train. The local authority must also do anything else it considers appropriate to support a category 3 young person. Assistance may be provided in kind or in cash.
312. Subsection (2) requires a local authority to monitor any post-18 living arrangement that is in place and to provide advice and support to maintain that arrangement (including providing financial support to the former foster parent).
313. If the category 3 young person is pursuing full-time further or higher education then subsection (6) requires the local authority to pay “the relevant amount” to that young person in accordance with their pathway plan. A local authority must provide accommodation during the vacation for a category 3 young person who is pursuing full-time further or higher education when term-time accommodation is unavailable. Section 116 contains a regulation making power for the Welsh Ministers to make supplementary provision about support for young persons in further or higher education, including, for example, the power to specify the “relevant amount” and to define terms such as “vacation”, or “full-time”.

314. Os na ddarperir llety yna rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu digon o arian i'r person ifanc i sicrhau'r llety y mae ei angen. Mae'r is-adran hon yn ailddatgan, yn rhannol, ddarpariaeth a wnaed yn adran 23C o Ddeddf Plant 1989.

Adran 111 – Dyletswyddau yn dod i ben mewn perthynas â phobl ifanc categori 3

315. Mae adran 111 yn nodi pa bryd y daw dyletswyddau'r awdurdod cyfrifol tuag at berson ifanc categori 3 i ben.

Adran 112 – Cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 4

316. Mae adran 112(1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi cymorth i berson ifanc categori 4 (i'r graddau y bo'n ofynnol i'w anghenion addysg neu hyfforddiant) drwy gyfrannu at dreuliau a dynnir gan y person ifanc i'w alluogi i fyw yn agos i'r man lle y mae, neu y bydd, yn derbyn addysg neu hyfforddiant a thrwy wneud grant i alluogi'r person ifanc i dalu treuliau sy'n gysylltiedig â'i addysg neu hyfforddiant.
317. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol, pan fo person ifanc categori 4 yn dilyn addysg uwch, dalu'r swm perthnasol iddo yn unol â'i gynllun llwybr. Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu llety yn ystod y gwyliau i berson ifanc categori 4 sydd mewn addysg bellach neu uwch lawnamser pan nad yw ei lety yn ystod y tymor ar gael. Os nad yw llety o'r fath yn cael ei ddarparu yna rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu digon o arian i'r person ifanc i sicrhau'r llety y mae ei angen. Mae adran 116 yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth atodol ynghylch rhoi cymorth i bobl ifanc mewn addysg bellach neu uwch, gan gynnwys, er enghraifft, y pŵer i bennu'r "swm perthnasol" ac i ddiffinio termau megis "gwyliau" neu "llawnamser".
318. Mae'r adran hon yn ailddatgan darpariaeth a wnaed gan adran 23CA o Ddeddf Plant 1989.

Adran 113 – Dyletswyddau yn dod i ben mewn perthynas â phobl ifanc categori 4

319. Mae adran 113 yn nodi pa bryd y daw dyletswyddau'r awdurdod cyfrifol tuag at berson ifanc categori 4 i ben.

Adran 114 – Cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 5 a phobl ifanc a fu gynt yn bobl ifanc categori 5

320. Mae adran 114 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ystyried a yw amodau penodedig yn cael eu bodloni gan bersonau ifanc sy'n bersonau ifanc categori 5 neu a fu gynt yn bersonau ifanc categori 5 i ddyfarnu graddau a natur ei rwymedigaethau i ddarparu cymorth i bobl ifanc o'r fath. Yr amodau (a bennir yn is-adran (2)) yw bod angen cymorth ar y person ifanc ac nad oes gan bwy bynnag yr oedd yn derbyn gofal ganddo y cyfleusterau angenrheidiol i'w gynghori nac i ymgyfeillio ag ef. Os yw'r amodau hyn yn gymwys, yna rhaid i'r awdurdod lleol gynghori'r person ifanc neu ymgyfeillio ag ef a chaiff ddarparu cymorth.
321. Mae is-adran (4) yn nodi'r math o gymorth y caiff yr awdurdod cyfrifol ei ddarparu i berson ifanc categori 5. Caiff y cymorth fod ar ffurf cyfrannu at dreuliau a dynnir gan y person ifanc er mwyn ei alluogi i fyw yn agos i'r man lle y mae, neu y bydd, yn cael ei gyflogi neu'n chwilio am waith cyflogedig, neu lle y mae, neu y bydd, yn derbyn addysg neu hyfforddiant. Caiff yr awdurdod lleol wneud grant i alluogi'r

314. If accommodation is not provided then the local authority must provide the young person with enough money to secure the accommodation needed. This section restates, in part, provision made in section 23C of the Children Act 1989.

Section 111 - Cessation of duties in relation to category 3 young people

315. Section 111 sets out when the responsible authority's duties towards a category 3 young person cease.

Section 112 - Support for category 4 young people

316. Section 112 (1) requires a local authority to support a category 4 young person (to the extent that their educational or training needs require it) by contributing to expenses incurred by the young person to enable them to live near where he or she is, or will be, receiving education or training and by making a grant to enable the young person to meet expenses connected with their education or training.
317. Subsection (2) requires the local authority, where a category 4 young person is pursuing higher education, to pay the relevant amount to him or her in accordance with their pathway plan. Local authorities must provide accommodation during the vacation to a category 4 young person who is pursuing full-time further or higher education when their term-time accommodation is unavailable. If such accommodation is not provided then the local authority must provide the young person with enough money to secure the accommodation needed. Section 116 contains a regulation making power for the Welsh Minister to make supplementary provision about support for young persons in further or higher education, including, for example, the power to specify the "relevant amount" and to define terms such as "vacation", or "full-time".
318. This section restates provision made by section 23CA of the Children Act 1989.

Section 113 - Cessation of duties in relation to category 4 young people

319. Section 113 sets out when the responsible authority's duties towards a category 4 young person cease.

Section 114 - Support for category 5 young people and former category 5 young people

320. Section 114 requires a local authority to consider whether specified conditions are met by young persons who are category 5 or former category 5 young persons to determine the extent and nature of its obligations to provide support to such young persons. The conditions (specified in subsection (2)) are that the young person needs support, and that whoever was looking after the young person does not have the necessary facilities to advise or befriend them. If these conditions apply then the local authority must advise or befriend the young person and may provide support.
321. Subsection (4) sets out the type of support the responsible local authority may provide to a category 5 young person. Support may take the form of contributing to expenses incurred by the young person to enable them to live near their place of work or where they will be seeking employment, or where they are or will be receiving education or training. The local authority may make a grant to enable the young person to meet expenses connected with their education or training. Support may be provided in kind or in cash. Local authorities must provide accommodation

person ifanc i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â'i addysg neu hyfforddiant. Caniateir i'r cymorth gael ei ddarparu ar ffurf da neu mewn arian parod. Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu llety yn ystod y gwyliau i berson ifanc categori 5 sy'n dilyn addysg bellach neu uwch lawnamser pan nad yw llety yn ystod y tymor ar gael. Os nad yw llety'n cael ei ddarparu yna rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu digon o arian i'r person ifanc i sicrhau'r llety y mae ei angen.

322. Mae is-adran (6) yn rhoi pŵer i awdurdod lleol i ddiystyru unrhyw amhariad ar raglen addysg y person ifanc os yw wedi ei fodloni y bydd y person ifanc yn ailgydio yn y rhaglen cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

323. Mae'r adran hon yn ailddatgan darpariaeth a wnaed yn adrannau 24A a 24B o Ddeddf Plant 1989.

Adran 115 – Cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 6 a phobl ifanc a fu gynt yn bobl ifanc categori 6

324. Mae adran 115 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ystyried a yw amodau penodedig yn cael eu bodloni gan bersonau ifanc sy'n bersonau ifanc categori 6 neu a fu gynt yn bersonau ifanc categori 6 penodol, i ddyfarnu graddau a natur ei rwymedigaethau i ddarparu cymorth i bobl ifanc o'r fath. Yr amodau (a bennir yn is-adran (2)) yw bod angen cymorth ar y person ifanc; ac ar gyfer y rhai sy'n dod o fewn y diffiniad o berson ifanc categori 6 yn rhinwedd adran 104(3)(b) i (e), nad oes gan bwy bynnag yr oedd y person ifanc yn derbyn gofal ganddo y cyfleusterau angenrheidiol i'w gynghori nac i ymgufeillio ag ef. Os yw'r amodau hyn yn gymwys, yna rhaid i'r awdurdod lleol gynghori'r person ifanc neu ymgufeillio ag ef a chaiff ddarparu cymorth.

325. Mae is-adran (5) yn nodi'r math o gymorth y caiff awdurdod lleol ei ddarparu. Gall y cymorth fod ar ffurf cyfrannu at dreuliau a dynnir gan y person ifanc categori 6 er mwyn ei alluogi i fyw yn agos i'r man lle y mae, neu y bydd, yn cael ei gyflogi neu'n chwilio am waith cyflogedig neu lle y mae, neu y bydd, yn derbyn addysg neu hyfforddiant. Caiff yr awdurdod lleol hefyd wneud grant i alluogi'r person ifanc i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â'i addysg neu hyfforddiant; neu drwy ddarparu llety mewn amgylchiadau eraill. Caiff cymorth fod ar ffurf da neu mewn arian parod.

326. Mae is-adran (7) yn rhoi pŵer i awdurdod lleol i ddiystyru unrhyw amhariad ar raglen addysg y person ifanc os yw wedi ei fodloni y bydd y person ifanc yn ailgydio yn y rhaglen cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

327. Mae is-adran (8) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddarparu llety yn ystod y gwyliau i berson ifanc categori 6 sy'n dilyn addysg bellach neu uwch lawnamser pan nad yw ei llety yn ystod y tymor ar gael. Os nad yw llety'n cael ei ddarparu yna rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu digon o arian i'r person ifanc i sicrhau'r llety y mae ei angen.

328. Mae'r adran hon yn ailddatgan darpariaeth a wnaed yn adrannau 24A a 24B o Ddeddf Plant 1989.

during the vacation to a category 5 young person who is pursuing full-time further or higher education when term-time accommodation is unavailable. If accommodation is not provided then the local authority must provide the young person with enough money to secure the accommodation needed.

322. Subsection (6) gives a local authority power to disregard any interruption in the young person's programme of education if it is satisfied the young person will resume the programme as soon as reasonably practicable.
323. This section restates provision made in sections 24A and 24B of the Children Act 1989.

Section 115 - Support for category 6 young people and former category 6 young people

324. Section 115 requires a local authority to consider whether specified conditions are met by young persons who are category 6 young persons or certain former category 6 young persons, to determine the extent and nature of its obligations to provide support to such young persons. The conditions (specified in subsection (2)) are that the young person needs support; and for those who fall within the definition of a category 6 young person by virtue of section 104(3)(b) to (e), that whoever was looking after the young person does not have the necessary facilities to advise or befriend them. If these conditions apply then the local authority must advise or befriend the young person and may provide support.
325. Subsection (5) sets out the type of support that may be provided by a local authority. Support can take the form of contributing to expenses incurred by the category 6 young person to enable them to live near their place of work or where they will be seeking employment or where they are or will be receiving education or training. The local authority may also make a grant to enable the young person to meet expenses connected with their education or training; or by providing accommodation in other circumstances. Support may be in kind or in cash.
326. Subsection (7) gives a local authority power to disregard any interruption in the young person's programme of education if it is satisfied that the young person will resume the programme as soon as reasonably practicable.
327. Subsection (8) requires the local authority to provide accommodation during the vacation for a category 6 young person who is pursuing full-time further or higher education when their term-time accommodation is unavailable. If accommodation is not provided then the local authority must provide the young person with enough money to secure the accommodation needed.
328. This section restates provision made in sections 24A and 24B of the Children Act 1989.

Adran 116 - Darpariaeth atodol ynghylch cymorth ar gyfer pobl ifanc mewn addysg bellach neu uwch

329. Mae adran 116 yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaeth bellach ynghylch y cymorth y mae'n rhaid i awdurdod lleol, neu y caiff awdurdod lleol, ei ddarparu i bersonau ifanc sy'n gadael gofal ac sy'n dilyn addysg bellach neu uwch.

Adran 117 - Codi ffi am ddarpariaeth o dan adrannau 109 i 115

330. Mae adran 117 yn cynnwys pŵer i awdurdod lleol i osod ffi am gymorth (ac eithrio am ddarparu cyngor) y mae'n ei ddarparu yn unol ag adrannau 109 i 115 o'r Ddeddf. Dim ond ar berson ifanc sy'n derbyn y cymorth ac sydd dros 18 oed y caniateir gosod ffi o'r fath, neu ar berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros berson ifanc sy'n derbyn y cymorth pan fo'r person ifanc hwnnw o dan 18 oed. Mae is-adran (3) yn darparu nad yw oedolyn yn atebol am dalu ffi o'r fath os yw'n cael budd-daliad/budd-daliadau o'r math a bennir mewn rheoliadau (y caniateir eu gwneud gan Weinidogion Cymru yn unol â'r pwerau sydd wedi eu cynnwys yn is-adran (3)).
331. Mae is-adrannau (5) a (6) yn darparu bod y pŵer i wneud rheoliadau sydd wedi ei gynnwys yn Rhan 5 o'r Ddeddf (yn adrannau 61 neu 62) yn gymwys i ffioedd o dan yr adran hon, a chaiff rheoliadau hefyd gymhwyso unrhyw ddarpariaeth a wneir yn adrannau 63 i 68 ac adrannau 70 i 73 neu odanynt (gyda neu heb addasiad) i ffi a osodir o dan yr adran hon.

Adran 118 - Gwybodaeth

332. Mae adran 118(1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sydd â dyletswyddau i berson ifanc yn rhinwedd adrannau 105, 114 neu 115 hysbysu awdurdod lleol arall (yng Nghymru neu yn Lloegr) os yw'r person ifanc yn bwriadu byw, neu'n byw, yn ardal yr awdurdod lleol arall hwnnw.
333. Mae is-adran (2) yn cynnwys rhwymedigaethau pellach i roi gwybod am symudiadau plentyn sy'n cael ei letya yng Nghymru mewn mathau penodedig o lety, er enghraifft mewn llety a ddarperir gan neu ar ran corff ieuchyd.

Adran 119 - Defnyddio llety i gyfyngu ar ryddid

334. Mae adran 119(1) yn darparu na chaniateir i blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol (yng Nghymru neu yn Lloegr) gael ei leoli, ac os yw wedi ei leoli, na chaniateir iddo gael ei gadw, mewn llety diogel yng Nghymru, oni bai ei bod yn ymddangos fod gan y plentyn hanes o ddianc a'i fod yn debygol o ddioddef niwed o bwys, neu fod y plentyn yn debygol o anafu ei hun neu eraill os yw'n cael ei gadw mewn llety o unrhyw fath arall.
335. Mae is-adran (2) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i nodi'r cyfnod hwyaf y ceir cadw plentyn mewn llety diogel heb awdurdod y llys, a hefyd y cyfnod hwyaf y caiff llys awdurdodi cadw plentyn mewn llety diogel yng Nghymru. Mae'r adran hefyd yn darparu ar gyfer dyfarniadau a gorchmynion gan y llys mewn perthynas â defnyddio llety diogel.

Section 116 - Supplementary provision about support for young persons in further or higher education

329. Section 116 contains a power for the Welsh Ministers to make regulations to make further provision about the support a local authority must or may provide for young persons who leave care and pursue higher or further education.

Section 117 - Charging for provision under sections 109 to 115

330. Section 117 contains a power for a local authority to impose a charge for support (other than the provision of advice) which it provides in accordance with sections 109 to 115 of the Act. Such a charge may only be imposed on the young person receiving the support if he or she is over 18, or on a person with parental responsibility for a young person receiving the support where that young person is under the age of 18. Subsection (3) provides that an adult is not liable to pay such a charge if they are in receipt of such benefit(s) as may be specified in regulations (which may be made by the Welsh Ministers in accordance with powers contained in subsection (3)).
331. Subsections (5) and (6) provide that the power to make regulations contained in Part 5 of the Act (in sections 61 or 62) applies to charges under this section, and that regulations may also apply any provision made in or under sections 63 to 68 and sections 70 to 73 (with or without modification) to a charge imposed under this section.

Section 118 - Information

332. Section 118 (1) requires a local authority that has duties towards a young person by virtue of sections 105, 114 or 115 to inform another local authority (in Wales or England) if the young person intends to live, or is living in, that other local authority's area.
333. Subsection (2) contains further obligations requiring notification of the movements of a child who is accommodated in Wales in specified types of accommodation, for example in accommodation provided by or on behalf of a health body.

Section 119 - Use of accommodation for restricting liberty

334. Section 119 (1) provides that a child looked after by a local authority (in Wales or England) may not be placed, and if placed may not be kept, in secure accommodation in Wales unless it appears that the child has a history of absconding and is likely to suffer significant harm or that the child is likely to injure himself or others if kept in any other form of accommodation.
335. Subsection (2) gives the Welsh Ministers power to make regulations to set out the maximum period in which a child can be held in secure accommodation without the court's authority, and also a maximum period for which the court may authorise a child to be kept in secure accommodation in Wales. The section also provides for determinations and orders by the court relating to the use of secure accommodation.

336. Mae is-adran (7) yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau o ran cymhwyso ac addasu'r adran hon i blentyn o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau, ac o ran dyfarniadau mewn perthynas â lleoli a chadw plant o ddisgrifiadau penodedig mewn llety diogel.
337. Mae is-adran (10) yn darparu bod yr adran hon yn ddarostyngedig i adran 76(5), sy'n ymwneud â hawl person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn i symud y plentyn o lety a ddarperir gan neu ar ran awdurdod lleol.
338. Mae'r adran hon wedi ei seilio ar ddarpariaeth a wnaed yn adran 25 o Ddeddf Plant 1989.

Adran 120 - Asesu plant y mae llety'n cael ei ddarparu iddynt gan awdurdodau iechyd ac awdurdodau addysg

339. Mae adran 120 yn ei gwneud yn ofynnol i "awdurdod lletya" (sef bwrdd iechyd lleol, Ymddiriedolaeth GIG neu awdurdod lleol wrth arfer ei swyddogaethau addysg) sy'n lletya plentyn yng Nghymru am gyfnod di-dor o 3 mis neu fwy, neu sy'n bwriadu gwneud hynny, hysbysu swyddog priodol yn yr awdurdod lleol yng Nghymru neu yn Lloegr lle'r oedd y plentyn yn preswyllo fel arfer. Os nad oes gan y plentyn breswylfa sefydlog, rhaid hysbysu yn lle hynny swyddog priodol yn yr awdurdod lleol yng Nghymru neu yn Lloegr lle y mae'r llety y mae'r plentyn wedi ei leoli ynddo. Mae dyletswydd debyg yn codi pan fo'r awdurdod lletya yn peidio â lletya'r plentyn mwyach. Mae "swyddog priodol" wedi ei ddiffinio yn is-adran (4).
340. Bydd ar "swyddog priodol" i awdurdod lleol a hysbysir felly ddyletswydd wedyn i asesu p'un a oes ar y plentyn anghenion o ran gofal a chymorth (yn unol ag adran 21) a rhaid iddo hefyd ystyried a ddylai'r awdurdod lleol arfer unrhyw swyddogaethau eraill o dan y Ddeddf hon neu o dan Ddeddf Plant 1989.
341. Mae is-adran (6) yn datgymhwyso'r rhwymedigaeth i gynnal asesiad o blant sy'n blant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru, yr Alban, neu Loegr neu (mewn perthynas â Gogledd Iwerddon) gan Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd unrhyw anghenion sydd ar blant o'r fath am ofal a chymorth yn cael eu diwallu gan yr awdurdod lleol neu gan yr Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n gyfrifol amdanynt.
342. Mae'r adran hon wedi ei seilio ar ddarpariaeth a wnaed yn adran 85 o Ddeddf Plant 1989.

Adran 121 - Asesu plant sy'n cael eu lletya mewn cartrefi gofal neu ysbytai annibynnol

343. Mae adran 121 yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n rhedeg cartref gofal neu ysbyty yng Nghymru lle y mae plentyn wedi ei letya am gyfnod o 3 mis o leiaf (neu y mae'n fwriad i letya'r plentyn yn y fath fodd), hysbysu'r swyddog priodol (fel y'i diffinnir yn adran 120(4)) yn yr awdurdod lleol lle y lleolir y cartref gofal neu'r ysbyty annibynnol, ac unwaith eto hysbysu'r swyddog priodol pan fo'n rhoi'r gorau i letya'r plentyn. Bydd dyletswydd wedyn ar y swyddog priodol i asesu'r plentyn (yn unol ag adran 21) i ddyfarnu a ddylai'r awdurdod lleol arfer unrhyw un neu rai o'i swyddogaethau o dan y Ddeddf hon neu Ddeddf Plant 1989.

336. Subsection (7) contains a power for the Welsh Ministers to make regulations as to the application and modification of this section to a child of a description specified in the regulations, and as to determinations relating to the placing and keeping of children of specified descriptions in secure accommodation.
337. Subsection (10) provides this section is subject to section 76(5), which is concerned with the right of a person with parental responsibility for a child to remove the child from accommodation provided by or on behalf of a local authority.
338. This section is based on provision made in section 25 of the Children Act 1989.

Section 120 - Assessment of children accommodated by health authorities and education authorities

339. Section 120 requires an “accommodating authority” (that is a local health board, an NHS Trust or a local authority in the exercise of education functions) that accommodates a child in Wales for a consecutive period of 3 months or more, or intends to do so, to notify an appropriate officer of the Welsh or English local authority where the child was ordinarily resident. If the child has no settled place of residence, an appropriate officer of the Welsh or English local authority where the accommodation in which the child is placed, must be notified instead. A similar duty arises when the accommodating authority ceases to accommodate the child. “appropriate officer” is defined in subsection (4).
340. The appropriate officer of a local authority so notified then has a duty to assess whether the child has needs for care and support (in accordance with section 21) and must also consider whether the local authority should exercise any other functions under this Act or the Children Act 1989.
341. Subsection (6) disapplies the obligation to undertake an assessment of children who are children looked after by a local authority in Wales, Scotland or England or (in relation to Northern Ireland) by a Health and Social Care Trust. Any needs of such children for care and support will be met by the local authority or Health and Social Care Trust that is responsible for them.
342. This section is based on provision made in section 85 of the Children Act 1989.

Section 121 - Assessment of children accommodated in care homes or independent hospitals

343. Section 121 requires a person who carries on a care home or hospital in Wales where a child is accommodated for a period of at least 3 months (or where is intended that the child be so accommodated), to notify the appropriate officer (as defined in section 120(4)) of the local authority in which the care home or independent hospital is located, and again notify the appropriate officer when it ceases to accommodate the child. The appropriate officer then has a duty to assess the child (in accordance with section 21) to determine if the local authority should exercise any of its functions under this Act or the Children Act 1989.

344. Mae is-adran (4) yn datgymhwysu'r rhwymedigaeth i gynnal asesiad o blant sy'n blant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru, yr Alban, neu Loegr neu (mewn perthynas â Gogledd Iwerddon) gan Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd unrhyw anghenion sydd ar blant o'r fath am ofal a chymorth yn cael eu diwallu gan yr awdurdod lleol neu gan yr Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n gyfrifol amdanynt.
345. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn drosedd os yw'r person sy'n gyfrifol am hysbysu'r swyddog priodol o dan yr adran hon yn methu â gwneud hynny (heb esgus rhesymol).
346. Mae is-adran (6) yn rhoi pŵer i berson sydd wedi ei awdurdodi gan awdurdod lleol i gael mynediad i gartref gofal neu ysbyty annibynnol er mwyn gweld a yw'r rhwymedigaethau sydd wedi eu cynnwys yn yr adran hon wedi eu bodloni. Mae'n drosedd i rwystro person o'r fath wrth iddo arfer ei bŵer mynediad.
347. Mae'r adran hon wedi ei seilio ar ddarpariaeth a wnaed yn adran 86 o Ddeddf Plant 1989.

Adran 122 - Ymwelwyr â phlant yr hysbysir awdurdod lleol amdanynt o dan adran 120 neu 121

348. Mae adran 122 yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog priodol (fel y'i diffinnir yn adran 120(4)), wneud trefniadau, yn unol â rheoliadau, i blentyn sy'n cael ei letya o dan adrannau 120 a 121 (ac yr hysbyswyd y swyddog mewn perthynas â'i lety) gael ymweliad gan gynrychiolydd o'r awdurdod lleol. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch, er enghraifft, amllder yr ymweliadau a'r amgylchiadau pan ellir gwneud ymweliadau.
349. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sicrhau bod gan y cynrychiolydd sy'n ymweld â phlentyn sy'n cael ei letya fel y disgrifir yn adrannau 120 a 121 y sgiliau angenrheidiol i wneud y gwaith.
350. Mae'r adran hon wedi ei seilio ar ddarpariaeth a wnaed yn adran 86A o Ddeddf Plant 1989.

Adran 123 - Gwasanaethau i blant yr hysbysir awdurdod lleol amdanynt o dan adran 120 neu 121

351. Mae adran 123 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant yr hysbyswyd ef amdanynt o dan adran 120 neu 121. Rhaid i'r gwasanaethau gael eu darparu gyda golwg ar hyrwyddo cyswllt rhwng y plentyn a'i deulu. Mae unrhyw ddyletswyddau o'r fath yn ychwanegol at unrhyw ddyletswydd i gadw cyswllt â'r teulu sydd gan yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y lletyir y plentyn ynnddi o dan adran 39 (dyletswydd i gadw cyswllt â'r teulu).

Adran 124 - Trefniadau i helpu plant i fyw y tu allan i Loegr a Chymru

352. Mae adran 124 hon yn darparu na chaiff awdurdod lleol drefnu i blentyn yn ei ofal fyw y tu allan i Loegr neu Gymru heb gymeradwyaeth y llys.
353. Mae is-adran (3) yn gwneud darpariaeth ynghylch yr ystyriaethau y dylai llys eu cadw mewn cof cyn gwneud dyfarniad o dan is-adran (1).

344. Subsection (4) disapplies the obligation to undertake an assessment of children who are children looked after by a local authority in Wales, Scotland or England or (in relation to Northern Ireland) a Health and Social Care Trust. Any needs of such children for care and support will be met by the local authority or Health and Social Care Trust that is responsible for them.
345. Subsection (5) makes it an offence if the person responsible for notifying the appropriate officer under this section fails to do so (without reasonable excuse).
346. Subsection (6) gives a person authorised by a local authority the power to enter a care home or independent hospital to establish whether obligations contained in this section have been complied with. It is an offence to obstruct such a person in the exercise of their power of entry.
347. This section is based on provision made in section 86 of the Children Act 1989.

Section 122 - Visitors for children notified to local authority under section 120 or 121

348. Section 122 requires the appropriate officer (as defined in section 120(4)) to make arrangements, in accordance with regulations, for a child who is being accommodated under sections 120 and 121 (and in respect of whose accommodation the officer has been notified) to be visited by a representative of the local authority. The regulations may make provision about, for example, the frequency of visits and the circumstances in which visits can be made.
349. Subsection (5) requires a local authority to ensure the representative who visits a child who is being accommodated as described in sections 120 and 121, has the necessary skills to do the job.
350. This section is based on provision made in section 86A of the Children Act 1989.

Section 123 - Services for children notified to a local authority under section 120 or 121

351. Section 123 requires a local authority to provide services for children in respect of whom they have been notified under section 120 or 121. The services must be provided with a view to promoting contact between the child and their family. Such duties are in addition to any duty to maintain family contact that the local authority for the area in which the child is accommodated may have under section 39 (duty to maintain family contact).

Section 124 - Arrangements to assist children to live outside England and Wales

352. Section 124 provides that a local authority may only arrange for a child in its care to live outside England or Wales with the approval of the court.
353. Subsection (3) makes provision about the considerations which a court should have in mind before making a determination under subsection (1).

354. Mae is-adrannau (4) a (5) yn cynnwys darpariaeth i ddelio â sefyllfaoedd pan gaiff llys hepgor cydsyniad sy'n ofynnol o dan is-adran (3), megis pan fo wedi ei fodloni nad oes gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol i gydsynio neu i wrthod cydsynio.
355. Mae adran 124 hefyd yn gwneud darpariaeth o ran effaith cymeradwyaeth y llys yn ystod cyfnod apelio ac yn datgymhwyso'r adran i amgylchiadau pan fo awdurdod lleol yn lleoli plentyn i gael ei fabwysiadu gyda'i ddarpar fabwysiadwyr.
356. Mae'r adran hon wedi ei seilio ar ddarpariaeth a wnaed ym mharagraff 19 o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.

Adran 125 – Marwolaeth plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol

357. Mae adran 125 yn nodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu cymryd yn achos marwolaeth plentyn sy'n derbyn gofal ganddo.
358. Mae'r adran hefyd yn cynnwys pŵer i awdurdod lleol drefnu claddu neu amlosgi plentyn sydd wedi marw tra ei fod yn derbyn gofal (ar yr amod bod yr amodau a nodir yn is-adrannau (1)(c) a (3) wedi eu bodloni).
359. Caiff yr awdurdod lleol hefyd wneud unrhyw daliadau a ganiateir drwy ddarpariaeth a wneir yn is-adran (1)(d) (ar yr amod bod yr amodau a nodir yn is-adran (2) wedi eu bodloni).
360. Caiff yr awdurdod lleol hefyd adennill unrhyw gostau a dynnir ganddo o dan yr adran hon oddi ar berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn sydd o dan 16 oed ac sydd wedi marw (is-adrannau (4) a (5)).
361. Mae'r adran hon wedi ei seilio ar ddarpariaeth a wnaed ym mharagraff 20 o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.

Adran 126 – Oedolion sy'n wynebu risg

362. Mae adran 126 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i gynnal ymchwiliad pan fo'n amau bod person yn "oedolyn sy'n wynebu risg".
363. Mae oedolyn sy'n wynebu risg yn un sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso, y mae arno anghenion am ofal a chymorth ac nad yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso (neu'r risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso) o ganlyniad i'r anghenion hynny. Mae "camdriniaeth" a "cam-drin" ac "esgeulustod" wedi eu diffinio yn adran 197(1) (dehongli), ac i gael ystyr "gofal a chymorth" gweler adran 4.
364. Rhaid i'r awdurdod lleol wneud pa ymholiadau bynnag y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol i'w helpu i benderfynu a ddylid cymryd camau. Gallai camau o'r fath gynnwys darparu gofal a chymorth o dan y Ddeddf hon neu gymryd camau i amddiffyn yr oedolyn o dan ddeddfwriaeth arall, megis Deddf Iechyd Meddwl 1983 neu Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Bydd yr egwyddorion yn adrannau 6 a 7 yn gymwys i'r ffordd y mae'r awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon. Golyga hyn fod rhaid i'r awdurdod, er enghraifft, roi sylw i farn, dymuniadau a theimladau'r oedolyn cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

*These notes refer to the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4)
which received Royal Assent on 1 May 2014*

- 354. Subsections (4) and (5) contain provision to deal with situations where a court may dispense with consent required under subsection (3), such as where it is satisfied that a child does not have sufficient understanding to give or withhold their consent.
- 355. Section 124 also makes provision as to the effect of the court's approval during an appeal period and disapplying the section to circumstances in which a local authority is placing a child for adoption with his or her prospective adopters.
- 356. This section is based on provision made in paragraph 19 of Schedule 2 to the Children Act 1989.

Section 125 - Death of children being looked after by local authorities

- 357. Section 125 sets out the action that a local authority must take in the event of the death of a child that it is looking after.
- 358. This section also contains power for a local authority to arrange for the burial or cremation of a child who has died whilst being looked after (provided that the conditions set out in subsections (1)(c) and (3) are fulfilled).
- 359. The local authority may make such payments as are permitted by provision made in subsection (1)(d) (provided that the conditions set out in subsection (2) are fulfilled).
- 360. The local authority may also seek to recover any costs incurred under this section from a person with parental responsibility for a child under the age of 16 who has died (subsections (4) and (5)).
- 361. This section is based on provision made in paragraph 20 of Schedule 2 to the Children Act 1989.

Section 126 - Adults at risk

- 362. Section 126 places a duty on a local authority to carry out an investigation where it suspects that a person is an "adult at risk".
- 363. An adult at risk is one who is experiencing or at risk of abuse or neglect, has needs for care and support and is unable to protect himself or herself against the abuse or neglect (or the risk of abuse or neglect) as a result of those needs. "Abuse" and "neglect" are defined in section 197(1) (interpretation), and for the meaning of "care and support" see section 4.
- 364. The local authority must make whatever enquiries it thinks necessary to help it decide whether action should be taken. Such action could include the provision of care and support under this Act or taking steps to protect the adult under other legislation, such as the Mental Health Act 1983 or the Mental Capacity Act 2005. The principles in sections 6 and 7 will apply to the way the local authority exercises its functions under this section. This means that it must, for example, have regard to the adult's views, wishes and feelings as far as reasonably practicable.

365. Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu y dylid cymryd camau, disgwylir y bydd yn sicrhau bod cynllun gweithredu yn cael ei lunio. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i reoliadau a wneir o dan adran 54 (cynlluniau gofal a chymorth) ddarparu ar gyfer cofnodi casgliadau ymholiadau'r awdurdod lleol (er enghraifft, ei benderfyniad i gymryd y camau a gofnodwyd yn y cynllun gweithredu) fel rhan o gynllun gofal a chymorth yr oedolyn.

Adran 127 - Gorchmynion amddiffyn a chynorthwyo oedolion

366. Mae adran 127 yn galluogi ceisiadau i gael eu gwneud i lysoedd ynadon am orchmynion amddiffyn a chynorthwyo oedolyn. Diben gorchmynion o'r fath yw galluogi swyddog awdurdodedig i siarad yn breifat gyda pherson yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg er mwyn canfod a yw'r oedolyn yn rhydd i wneud penderfyniadau ei hunan, asesu a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg a phenderfynu a ddylid cymryd camau yn ei gylch ai peidio, ac os felly, pa gamau y dylid eu cymryd.
367. Caiff ceisiadau am orchmynion o'r fath gael eu gwneud gan swyddog awdurdodedig sy'n unigolyn a awdurdodwyd gan yr awdurdod lleol i gyflawni swyddogaethau o dan yr adran hon. Caiff rheoliadau osod cyfyngiadau ar bwylly caniateir ei awdurdodi o dan yr adran hon, er enghraifft, drwy ei gwneud yn ofynnol i gael cymwysterau neu brofiad penodol.
368. Pan fo gorchmyn amddiffyn a chynorthwyo oedolion mewn grym, mae gan swyddog awdurdodedig, cwnstabl heddlu (os ystyrir bod ei angen) ac unrhyw berson arall a bennir yn y gorchmyn bŵer i fynd i mewn i'r fangre lle y mae'r oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg yn byw, at y dibenion a nodir yn is-adran (2). Mae is-adran (7) yn darparu y caiff y cwnstabl ddefnyddio grym rhesymol (er enghraifft, i gael mynediad i'r fangre lle y mae'r oedolyn sy'n wynebu risg yn byw) os oes angen defnyddio grym o'r fath er mwyn i ddibenion y gorchmyn gael eu cyflawni.
369. Mae is-adran (4) yn nodi ar ba sail y ceir caniatáu gorchmyn. Mae is-adran (5) yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ei bennu ym mhob gorchmyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn. Caiff ynadon heddwch hefyd osod amodau eraill i orchmynion.

Adran 128 - Dyletswydd i hysbysu am oedolion sy'n wynebu risg

370. Mae adran 128 yn ei gwneud yn ofynnol i 'bartner perthnasol' awdurdod lleol (fel y'i diffinnir yn adran 162) hysbysu'r awdurdod lleol os yw'n amau bod person yn ei ardal yn oedolyn sy'n wynebu risg (neu os yw'r person yn ardal awdurdod lleol arall, bod yr awdurdod lleol hwnnw yn hysbysu'r awdurdod lleol arall). Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd i awdurdod lleol hysbysu awdurdod lleol arall (yng Nghymru neu yn Lloegr) os yw oedolyn y mae'n amau ei fod yn wynebu risg yn byw yn ardal yr awdurdod arall hwnnw neu'n symud iddi.

Adran 129 - Diddymu pŵer awdurdod lleol i symud personau y mae arnynt angen gofal a sylw

371. Mae adran 129 yn datgymhwyso o ran Cymru adran 47 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 sy'n rhoi i awdurdodau lleol y pŵer i symud person y mae angen gofal arno o'i gartref.

365. If the local authority decides that action should be taken, it is expected that it will ensure that an action plan is drawn up. Subsection (3) provides that regulations made under section 54 (care and support plans) must provide for the conclusions of the local authority's enquiries (for example, its decision to take the action recorded in the action plan) to be recorded as part of the adult's care and support plan.

Section 127 - Adult protection and support orders

366. Section 127 enables applications to be made to magistrates' courts for adult protection and support orders. The purpose of such orders is to enable an authorised officer to speak in private to a person suspected of being an adult at risk to establish whether he or she can make decisions freely, to assess whether the person is an adult at risk and to establish whether any action should be taken, and if so, what action.
367. Applications for such orders may be made by an authorised officer who is an individual authorised by the local authority to perform functions under this section. Regulations can place restrictions on who may be authorised under this section, for example, by requiring particular qualifications or experience.
368. When an adult protection and support order is in force the authorised officer, a police constable (if considered necessary) and any other person specified in the order has the power to enter the premises where the suspected adult at risk is living, for the purposes set out in subsection (2). Subsection (7) provides that the constable may use reasonable force (for example, to gain access to the premises where the adult at risk lives) if such force is necessary to enable the purposes of the order to be fulfilled.
369. Subsection (4) sets out the grounds on which an order may be granted. Subsection (5) sets out what must be specified in every adult protection and support order. Justices of the peace may also attach other conditions to orders.

Section 128 - Duty to report adults at risk

370. Section 128 requires a 'relevant partner' of a local authority (as defined in section 162) to inform the authority if they suspect a person in its area is an adult at risk (or if the person is in the area of another local authority, to inform that other authority). It also requires a local authority to inform another local authority (in Wales or in England) if an adult they suspect to be at risk is living or moving to the area of that other authority.

Section 129 - Abolition of local authority's power to remove persons in need of care and attention

371. Section 129 disapplies in relation to Wales section 47 of the National Assistance Act 1948 which gives local authorities the power to remove a person in need of care from their home.

Adran 130 – Dyletswydd i hysbysu am blant sy'n wynebu risg

372. Mae adran 130 yn ei gwneud yn ofynnol i 'partner perthnasol' awdurdod lleol (tîm troseddwr ifanc neu bartner perthnasol fel y'i diffinnir yn adran 162) hysbysu'r awdurdod os yw'n amau bod plentyn yn ei ardal yn blentyn sy'n wynebu risg (neu os yw'r plentyn yn ardal awdurdod lleol arall, bod yr awdurdod lleol hwnnw yn hysbysu'r awdurdod lleol arall).
373. Mae plentyn sy'n wynebu risg yn un sy'n cael, neu'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed a bod arno anghenion am ofal a chymorth. Mae "camdriniaeth" a "cam-drin", "esgeulustod" a "niwed" wedi eu diffinio yn adran 197(1) (dehongli) ac i gael ystyr "gofal a chymorth" gweler adran 4. Mae adran 130 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol hysbysu awdurdod lleol arall (yng Nghymru neu yn Lloegr) os yw plentyn y mae'n amau ei fod yn wynebu risg yn byw yn ardal yr awdurdod lleol arall hwnnw neu'n symud i'r ardal honno.
374. Yn rhannol, ailddatganiad yw hyn o'r ddyletswydd ym mharagraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.

Adran 131 – Canllawiau ynghylch oedolion sy'n wynebu risg a phlant sy'n wynebu risg

375. Mae adran 131 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol sy'n llywodraethu'r trefniadau sydd wedi eu cynnwys yn adrannau 126, 127, 128 a 130 o'r Ddeddf. Rhaid ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn dyroddi canllawiau o'r fath.

Adran 132 – Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

376. Mae adran 132(1) yn darparu ar gyfer sefydlu Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Yn y Ddeddf, cyfeirir at y Bwrdd fel y Bwrdd Cenedlaethol. Dyletswyddau cyffredinol y Bwrdd Cenedlaethol yw darparu cymorth a chynghor i Fyrddau Diogelu (a sefydlir o dan adran 134) er mwyn sicrhau eu heffeithiolrwydd, adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau diogelu ar gyfer plant ac oedolion yng Nghymru a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynglŷn â sut i wella trefniadau diogelu. Rhaid i'r Bwrdd Cenedlaethol adrodd i Weinidogion Cymru am drefniadau diogelu yng Nghymru.

Adran 133 – Rheoliadau am y Bwrdd Cenedlaethol

377. Mae adran 133 yn darparu y ceir gwneud rheoliadau mewn perthynas â'r Bwrdd Cenedlaethol ac yn darparu enghreifftiau o'r materion y caniateir i'r rheoliadau fynd i'r afael â hwy.

Adran 134 – Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion

378. Mae adran 134 yn darparu bod rhaid i reoliadau bennu ym mha ardaloedd yng Nghymru y bydd Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion ("ardaloedd Byrddau Diogelu"). Bydd gan y Byrddau hyn (y cyfeirir atynt ar y cyd fel "Byrddau Diogelu") y partneriaid hynny a nodir yn is-adran (2), a bydd gan bob un ohonynt fuddiant mewn diogelu plant ac oedolion.

Section 130 – Duty to report children at risk

372. Section 130 requires a ‘relevant partner’ of a local authority (a youth offending team or a relevant partner as defined in section 162) to inform the authority if they suspect that a child in its area is a child at risk (or if the child is in the area of another local authority, to inform that other authority).
373. A child at risk is one who is experiencing or is at risk of abuse, neglect or other kinds of harm, and has care and support needs. “Abuse”, “harm” and “neglect” are defined in section 197(1) (interpretation), and for the meaning of “care and support” see section 4. Section 130 also requires a local authority to inform another local authority (in Wales or in England) if a child they suspect to be at risk is living or moving to the area of that other authority.
374. This is, in part, a restatement of the duty in paragraph 4 of Schedule 2 to the Children Act 1989.

Section 131 – Guidance about adults at risk and children at risk

375. Section 131 provides the Welsh Ministers with a power to publish guidance governing arrangements covered in sections 126, 127, 128 and 130 of the Act. The Secretary of State must be consulted before such guidance is issued.

Section 132 – The National Independent Safeguarding Board

376. Section 132 (1) provides for the establishment of a National Independent Safeguarding Board. The Board is referred to within the Act as the National Board. The National Board’s general duties are to provide support and advice to Safeguarding Boards (established under section 134) to ensure their effectiveness, report on the adequacy and effectiveness of safeguarding arrangements for children and adults in Wales and to make recommendations to the Welsh Ministers regarding how to improve safeguarding arrangements. The National Board must report to the Welsh Ministers about safeguarding arrangements in Wales.

Section 133 – Regulations about the National Board

377. Section 133 provides that regulations may be made regarding the National Board and provides examples of the matters that may be addressed in the regulations.

Section 134 - Safeguarding Children Boards and Safeguarding Adults Boards

378. Section 134 provides that regulations must be made specifying the areas in Wales where there are to be Safeguarding Children Boards and Safeguarding Adults Boards (“Safeguarding Board areas”). These Boards (collectively referred to as “Safeguarding Boards”) will have those partners set out in subsection (2), all of whom have an interest in safeguarding children and adults.

379. Rhaid i Weinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori â'r partneriaid hyn, bennu mewn rheoliadau pwy fydd y partner arweiniol ar gyfer Bwrdd Diogelu Oedolion a phwy fydd y partner arweiniol ar gyfer Bwrdd Diogelu Plant. Rhaid i'r partneriaid arweiniol wedyn sefydlu Byrddau Diogelu yn ardal y Bwrdd Diogelu sydd i gynnwys cynrychiolydd o'i bartneriaid (y ddau a grybwyllir yn is-adran (2) neu a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan is-adran (6)(b)).
380. Mae hefyd yn bosibl i Fwrdd Diogelu gynnwys cynrychiolwyr personau neu gyrrff eraill yr ystyria'r Bwrdd y dylent gael eu cynrychioli ac sy'n ymwneud â gweithgareddau neu sydd â swyddogaethau mewn perthynas â phlant neu oedolion yn yr ardal Bwrdd Diogelu o dan sylw.

Adran 135 – Swyddogaethau a gweithdrefnau Byrddau Diogelu

381. Mae is-adran (1) yn pennu amcanion Bwrdd Diogelu Plant. Yr amcanion hyn yw amddiffyn plant yn ei ardal sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed ac atal plant yn ei ardal rhag dod yn rhai sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed. Mae "camdriniaeth" a "cam-drin", "esgeulustod" a "niwed" wedi eu diffinio yn adran 197(1).
382. Mae is-adran (2) yn nodi amcanion Bwrdd Diogelu Oedolion. Yr amcanion hyn yw amddiffyn oedolion yn ei ardal sydd ag anghenion am ofal a chymorth ac sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, eu cam-drin neu eu hesgeuluso a hefyd atal oedolion sydd ag anghenion am ofal a chymorth rhag dod yn rhai sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.
383. Mae Bwrdd Diogelu o dan ddyletswydd i gyflawni ei amcanion drwy gydgyssylltu a sicrhau effeithiolrwydd y cyfraniadau a wneir gan bob un o'r partneriaid. Rhaid i reoliadau wneud darpariaeth bellach mewn perthynas â swyddogaethau'r Byrddau Diogelu gan gynnwys ffyrdd o roi cyfle i blant neu oedolion i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd. Caiff Bwrdd Diogelu gydweithredu â Bwrdd Diogelu arall a chaiff weithredu ar y cyd â Byrddau Diogelu eraill. Caiff Bwrdd Diogelu Plant a Bwrdd Diogelu Oedolion ffurfio cyd-fwrdd.

Adran 136 – Byrddau Diogelu: cynlluniau ac adroddiadau blynyddol

384. Mae adran 136 yn darparu bod rhaid i Fwrdd Diogelu, cyn dechrau blwyddyn ariannol newydd (sy'n dod i ben ar 31 Mawrth bob blwyddyn), gyhoeddi cynllun blynyddol sy'n nodi e raglen waith am y flwyddyn sy'n dod. Cyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn, rhaid i Fwrdd Diogelu gyhoeddi adroddiad ar y modd yr arferwyd ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, a rhaid i'r adroddiad gynnwys asesiad ynghylch i ba raddau y cyflawnwyd y cynigion a nodwyd yn ei gynllun blynyddol. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth bellach ynghylch ffurf a chynnwys cynlluniau ac adroddiadau o dan yr adran hon.

Adran 137 – Cyflenwi gwybodaeth ar gais Byrddau Diogelu

385. Mae adran 137 yn darparu y caiff Bwrdd Diogelu ofyn i berson neu gorff ddarparu gwybodaeth iddo, neu i berson neu gorff arall a bennir ganddo. Rhaid cyflwyno'r cais am wybodaeth i "person neu gorff cymhwysol", a hynny at y diben o gynorthwyo'r Bwrdd Diogelu i arfer ei swyddogaethau. Diffinnir "person neu gorff

379. After consulting with these partners, the Welsh Ministers must specify in regulations who will be the lead partner for a Safeguarding Adults Board and who will be the lead partner for a Safeguarding Children Board. The lead partners must then establish Safeguarding Boards in the Safeguarding Board area which are to include representative of its partners (both those mentioned in subsection (2) or specified in regulations made under subsection (6)(b)).
380. It is also possible for a Safeguarding Board to include representatives of other persons or bodies that the Board considers should be represented and who are involved in activities or have functions relating to children or adults in the Safeguarding Board area in question.

Section 135 – Functions and procedures of Safeguarding Boards

381. Subsection (1) sets out the objectives of a Safeguarding Children Board. These are to protect children in its area who are experiencing or are at risk of abuse, neglect or other harm and to prevent children in its area from becoming at risk of abuse, neglect or other harm. “Abuse”, “harm” and “neglect” are defined in section 197(1).
382. Subsection (2) sets out the objectives of a Safeguarding Adults Board. These are to protect adults in its area who have needs for care and support and who are experiencing, or are at risk of, abuse or neglect, and also to prevent adults with needs for care and support from becoming at risk of abuse or neglect.
383. A Safeguarding Board is under a duty to achieve its objectives by coordinating and ensuring the effectiveness of the contributions made by each partner. Regulations must make further provision regarding the functions of the Safeguarding Boards including how children or adults can be involved in its work. A Safeguarding Board may co-operate with another Safeguarding Board and may act jointly with other Safeguarding Boards. A Safeguarding Children Board and a Safeguarding Adults Board may form a joint Board.

Section 136 – Safeguarding Boards: annual plans and reports

384. Section 136 provides that a Safeguarding Board must, before the start of a new financial year (which ends on 31 March each year), publish an annual plan setting out its programme of work for the year ahead. Before 31 July each year, a Safeguarding Board must publish a report on how it has exercised its functions in the preceding financial year which must include an assessment of the extent to which it has implemented proposals that were set out in its annual plan. The Welsh Ministers may make regulations making further provision about the form and content of plans and reports under this section.

Section 137 – Supply of information requested by Safeguarding Boards

385. Section 137 provides that a Safeguarding Board may ask a person or a body to provide information to it or another person or body that it specifies. The information request must be made to a “qualifying person or body” and must be for the purpose of assisting the Safeguarding Board in the exercise of its functions. A “qualifying person or body” is defined in subsection (7) and means a person or body whose activities or functions are considered by the Safeguarding Board to be such that the person or body is likely to have information relevant to the exercise of a function of the Safeguarding Board.

cymhwysol" yn is-adran (7) fel person neu gorff yr ystyria'r Bwrdd Diogelu fod ei weithgareddau neu ei swyddogaethau yn peri bod y person neu'r corff yn debygol o feddu ar wybodaeth sy'n berthnasol i arfer un o swyddogaethau'r Bwrdd Diogelu.

386. Mae'r adran hon yn darparu porth statudol i alluogi personau i ddarparu gwybodaeth yn gyfreithlon i Fwrdd Diogelu pan ofynnir iddynt wneud hynny. Gall prosesu data personol wrth gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae rheolwr y data yn ddarostyngedig iddi, ac eithrio rhwymedigaeth a osodir gan contract, ddarparu sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 (gweler Atodlen 1 (paragraff (a) o'r egwyddor diogelu data gyntaf) ac Atodlen 2, paragraff 3 o'r Ddeddf honno).
387. Mae'r person neu'r corff cymhwysol o dan ddyletswydd i gydymffurfio â chais am wybodaeth a wneir gan Fwrdd Diogelu o dan yr adran hon, oni bai bod y person neu'r corff cymhwysol yn ystyried y byddai gwneud hynny yn anghydnaws â'u dyletswyddau eu hunain neu'n cael effaith andwyol ar arfer eu pwerau neu eu dyletswyddau. Rhaid i berson neu gorff cymhwysol sy'n penderfynu peidio â chydymffurfio â'r cais ddarparu i'r Bwrdd Diogelu a wnaeth y cais resymau ysgrifenedig dros ei benderfyniad.

Adran 138 – Cyllido Byrddau Diogelu

388. Mae adran 138 yn darparu y caiff partner Bwrdd Diogelu wneud taliadau tuag at wariant a dynnir gan y Bwrdd Diogelu. Caiff ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau, llety neu adnoddau eraill hefyd. Rhaid ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn y gwneir rheoliadau o dan is-adran (3) i'r graddau y mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud gan yr heddlu neu'r gwasanaethau prawf yn rhinwedd eu swydd fel partneriaid Bwrdd Diogelu.

Adran 139 – Byrddau Diogelu: materion atodol

389. Rhaid i Fwrdd Diogelu gydweithredu â'r Bwrdd Cenedlaethol a darparu gwybodaeth iddo, os gofynnir am hynny gan y Bwrdd Cenedlaethol. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach ynghylch swyddogaethau partneriaid Bwrdd Diogelu mewn perthynas â'r Byrddau Diogelu y maent wedi eu cynrychioli arnynt. Mae partner Bwrdd Diogelu o dan ddyletswydd i roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru ac mae pob partner hefyd o dan ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y Bwrdd Diogelu y mae wedi ei gynrychioli arno yn gweithredu'n effeithlon.

Adran 140 – Byrddau Diogelu Cyfun

390. Mae adran 140 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ei gwneud yn ofynnol bod Bwrdd Diogelu Plant a Bwrdd Diogelu Oedolion yn uno i greu un Bwrdd. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phartneriaid Bwrdd Diogelu y mae'r cynigion yn ymwneud â hwy, yr Ysgrifennydd Gwladol a phersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol cyn gwneud gorchymyn (gweler adran 141).

Adran 142 – Dehongli Rhan 7

391. Mae adran 142 yn darparu diffiniadau o'r termau allweddol at ddiben y Rhan hon.

386. This section provides a statutory gateway to enable persons to lawfully provide information to Safeguarding Boards when requested. The processing of personal data in compliance with a legal obligation to which the data controller is subject, other than an obligation imposed by contract, can provide a lawful basis for processing data under the Data Protection Act 1998 (see Schedule 1 (paragraph (a) of the first data protection principle) and Schedule 2, paragraph 3 of that Act).
387. The qualifying person or body is under a duty to comply with a request for information made by a Safeguarding Board under this section, unless the qualifying person or body considers that doing so would be incompatible with their own duties or have an adverse effect on the exercise of their powers or duties. A qualifying person or body who decides not to comply with the request must provide the Safeguarding Board which made the request with written reasons for their decision.

Section 138 – Funding of Safeguarding Boards

388. Section 138 provides that a Safeguarding Board partner may make payments towards expenditure incurred by the Safeguarding Board. It may also provide staff, goods, services, accommodation or other resources. The Secretary of State must be consulted before regulations are made under subsection (3) insofar as the regulations require payments to be made by the police or probation services in their capacity as Safeguarding Board partners.

Section 139 – Safeguarding Boards: supplementary

389. A Safeguarding Board must co-operate with the National Board and provide information to it, if requested by the National Board. Regulations may make further provision about the functions of Safeguarding Board partners relating to the Safeguarding Boards on which they are represented. A Safeguarding Board partner is under a duty to have regard to any guidance given by the Welsh Ministers and each partner is also under a duty to take all reasonable steps to ensure the Safeguarding Board on which it is represented operates efficiently.

Section 140 – Combined Safeguarding Boards

390. Section 140 provides that the Welsh Ministers may, by order, require a Safeguarding Children Board and a Safeguarding Adults Board to combine, creating a single Board. The Welsh Ministers must consult Safeguarding Board partners to which the proposals relate, the Secretary of State and other persons they consider appropriate before making an order (see section 141).

Section 142 – Interpretation of Part 7

391. Section 142 provides definitions of key terms for the purpose of this Part.

Adran 143 – Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

392. Mae adran 143 yn cyflwyno Atodlen 2, sy'n cynnwys rhestr o ddeddfiadau y mae swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol wedi eu nodi a'u disgrifio ynddynt. Mae'r adran hefyd yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru ddiwygio'r Atodlen drwy ychwanegu, dileu neu ddiwygio eitemau drwy isdeddfwriaeth.

Adran 144 – Cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol

393. Mae adran 144 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol benodi cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ac yn darparu y caiff dau neu ragor o awdurdodau lleol benodi cyfarwyddwr ar gyfer y ddau neu'r cwbl o'r awdurdodau hynny os yw hynny'n briodol. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau darpariaeth ddigonol o staff i gynorthwyo'r cyfarwyddwr i gyflawni ei swyddogaethau, a rhaid i Weinidogion Cymru bennu'r cymwyseddau y mae'n rhaid i ddarpar gyfarwyddwr meddu arnynt er mwyn ei benodi i'r swydd, naill ai ar ffurf cod neu mewn rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf. Ar hyn o bryd, mae'r cymwyseddau y mae'n rhaid i gyfarwyddwr feddu arnynt wedi eu cynnwys mewn canllawiau a ddyroddwyd o dan adran 7A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970.

Adran 145 – Y pŵer i ddyroddi codau

394. Mae adran 145 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddyroddi a chyhoeddi un neu ragor o godau ymarfer ynghylch arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan y Ddeddf. Caiff cod gynnwys canllawiau ynglŷn â nodau ac amcanion, ynghyd â gosod gofynion y mae'n rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â hwy. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gyhoeddi pob cod a rhoi ar gael unrhyw fersiynau o'r cod sydd wedi eu dirymu neu eu disodli.

Adran 146 – Dyroddi, cymeradwyo a dirymu codau

395. Mae adran 146 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar drafft o unrhyw cod neu god diwygiedig ac yn pennu, os bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno bwrw ymlaen â'r cod drafft yn dilyn yr ymgynghoriad, fod rhaid ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru am gyfnod o 40 niwrnod. Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cod drafft, ni chaniateir ei ddyroddi. Heb benderfyniad o'r fath, caiff y cod ei gyhoeddi ar yr un ffurf ag y cafodd ei osod. Caiff Gweinidogion Cymru ddirymu cod mewn cod dilynol a wneir yn unol â'r adran hon neu drwy gyfarwyddyd; os dirymir cod drwy gyfarwyddyd, yna rhaid i'r cyfarwyddyd hefyd gael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Adran 147 – Gwyo oddi wrth ofynion mewn codau

396. Mae adran 147 yn galluogi awdurdod lleol i arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn ffordd nad yw'n glynu wrth y gofynion a nodir mewn cod, ar yr amod ei fod o'r farn bod rheswm da iddo wneud hynny, bod ganddo bolisi amgen yn ei le, a bod polisi wedi ei nodi mewn datganiad polisi a ddyroddir o dan yr adran hon.

Adran 148 – Datganiadau polisi: gofynion a phwerau ategol

397. Mae adran 148 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad polisi a ddyroddir o dan adran 147 esbonio sut y mae polisi'r awdurdod lleol yn wahanol i'r gofyniad yn y cod, pam y mae'n cynnig gwneud pethau yn wahanol a pha bryd y bydd y polisi sydd yn y

Section 143 – Social services functions of local authorities

392. Section 143 introduces Schedule 2, which contains a list of enactments in which the social services functions of local authorities are set out and described. The section also makes provision for the Welsh Ministers to amend the Schedule by adding, removing or amending entries by way of secondary legislation.

Section 144 – Directors of social services

393. Section 144 requires every local authority to appoint a director of social services and provides that two or more local authorities may appoint a director for both or all of those authorities if appropriate. The local authority must ensure the adequate provision of staff to assist the director in delivering his or her functions and the Welsh Ministers must specify the competencies which a potential director must possess in order to be appointed to the post, either by means of a code or in regulations made under the Act. Currently, the competencies a director must possess are contained in guidance issued under section 7A of the Local Authority Social Services Act 1970.

Section 145 – Power to issue codes

394. Section 145 gives the Welsh Ministers power to issue and publish one or more codes of practice on the exercise of social services functions under the Act. A code may include guidelines about aims and objectives, as well as imposing requirements with which local authorities must comply. The Welsh Ministers must publish each code and must make available any versions of the code which have been revoked or replaced.

Section 146 – Issue, approval and revocation of codes

395. Section 146 requires the Welsh Ministers to consult on a draft of any code or revised code and stipulates that, if the Welsh Ministers wish to proceed with the draft code following the consultation, it must be laid before the National Assembly for Wales for 40 days. If the National Assembly resolves not to approve the draft code, it cannot be issued. In the absence of such a resolution, the code is published in the same form in which it was laid. The Welsh Ministers may revoke a code in a subsequent code made in accordance with this section or by direction; if a code is revoked by direction then the direction must also be laid before the National Assembly.

Section 147 – Departure from requirements in codes

396. Section 147 enables a local authority to exercise its social services functions in a way that does not adhere to the requirements set out in a code, provided that it considers it has good reason to do so, it has an alternative policy in place, and that policy is set out in a policy statement issued under this section.

Section 148 – Policy statements: requirements and ancillary powers

397. Section 148 requires a policy statement issued under section 147 to explain how the local authority's policy differs from the requirement in the code, why it is proposing to do things differently, and when the policy covered in the statement comes in to effect. The section also stipulates that the statements must be published and that copies must be sent to the Welsh Ministers.

datganiad yn cael effaith. Mae'r adran hefyd yn pennu bod rhaid i'r datganiadau gael eu cyhoeddi a rhaid i gopiâu gael eu hanfon at Weinidogion Cymru.

Adran 149 - Cyfarwyddiadau i'w gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â chodau ymarfer

398. Mae adran 149 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol i gydymffurfio â'r cod os ydynt o'r farn na fydd datganiad polisi amgen yr awdurdod yn cyflawni yn ddigonol ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Fel y nodir mewn man arall yn y Rhan hon, rhaid rhoi'r cyfarwyddyd ar ffurf ysgrifenedig a chaniateir iddo gael ei ddirymu drwy gyfarwyddyd diweddarach a rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio ag ef.

Adran 150 - Y seiliau dros ymyrryd

399. Mae adran 150 yn nodi'r seiliau sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn awdurdod lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r adran yn cynnwys tair sail, sef bod yr awdurdod lleol:

- a) wedi methu neu'n debygol o fethu wrth arfer dyletswydd sy'n swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol;
- b) wedi gweithredu neu'n bwriadu gweithredu'n afresymol wrth arfer swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol; neu
- c) yn methu neu'n debygol o fethu â chyflawni swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol yn unol â safon ddigonol.

400. Mae'r adran hon yn deillio'n rhannol o adran 7D o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 (sy'n gymwys mewn perthynas â'r modd y mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol i oedolion). Fodd bynnag, mae'r seiliau dros ymyrryd yn ehangach na'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd mewn cysylltiad â'r modd y mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas ag oedolion. Maent yn adlewyrchu, yn lle hynny, y seiliau ehangach dros ymyrryd sy'n gymwys ar hyn o bryd mewn perthynas â'r modd y mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn cysylltiad â phlant (o dan adrannau 496 i 497B o Ddeddf Addysg 1996 ac adran 50 o Ddeddf Plant 2004). Bydd y seiliau ehangach hyn dros ymyrryd bellach yn gymwys mewn perthynas â'r modd y mae awdurdod lleol yn arfer pob un o'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, p'un a yw'r swyddogaethau hynny i'w harfer mewn perthynas ag oedolion neu â phlant.

Adran 151 - Hysbysiad rhybuddio

401. Mae adran 151 yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi hysbysiad rhybuddio i awdurdod lleol os ydynt wedi eu bodloni bod unrhyw un neu rai o'r seiliau yn adran 150 yn bodoli. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad bennu'r seiliau dros ymyrryd, y rhesymau pam y mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y seiliau'n bodoli, y camau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu cymryd i ddelio â'r seiliau hynny, y cyfnod y mae'n rhaid cymryd y camau ynddo, a'r camau y bydd Gweinidogion Cymru â'u bryd ar eu cymryd os na fydd yr awdurdod lleol yn cymryd y camau sy'n ofynnol. Mae is-adran (3) yn cynnwys gofynion i Weinidogion Cymru hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y camau y maent wedi eu cymryd o dan y ddarpariaeth hon.

Section 149 – Directions to require compliance with codes of practice

398. Section 149 allows the Welsh Ministers to direct a local authority to comply with the code if they consider that the authority's alternative policy statement will not adequately deliver its social services functions. As set out elsewhere in this Part, the direction must be given in writing and may be revoked by a later direction and the local authority must comply with it.

Section 150 – Grounds for intervention

399. Section 150 sets out the grounds on which the Welsh Ministers may intervene in a local authority's exercise of its social services functions. The section contains three grounds, namely that the local authority:

- a) has failed or is likely to fail in the exercise of a duty that is a social services function;
- b) has acted or is proposing to act unreasonably in the exercise of a social services function; or
- c) is failing or is likely to fail to perform a social services function to an adequate standard.

400. This section is derived, in part, from section 7D of the Local Authority Social Services Act 1970 (which applies in relation to a local authority's exercise of its adult social services functions). However, the grounds for intervention are wider than those that are currently available in respect of a local authority's exercise of its social services functions in relation to adults. They reflect, instead, the broader grounds for intervention that currently apply in relation to a local authority's exercise of its social services functions in respect of children (under sections 496 to 497B of the Education Act 1996 and section 50 of the Children Act 2004). These broader grounds for intervention will now apply in relation to a local authority's exercise of all its social services functions, irrespective of whether those functions are to be exercised in relation to adults or to children.

Section 151 – Warning notice

401. Section 151 permits the Welsh Ministers to give a warning notice to a local authority if they are satisfied any of the grounds in section 150 exist. Subsection (2) requires the notice to specify the grounds for intervention, the reasons why the Welsh Ministers consider the grounds to exist, the action the local authority must take to deal with the grounds, the period within which the action must be taken and the action the Welsh Ministers will be minded to take if the local authority does not take the required action. Subsection (3) contains requirements for the Welsh Ministers to notify the National Assembly for Wales of the actions they have taken under this provision.

Adran 152 – Pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd

402. Mae adran 152 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ymyrryd yn y modd y mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol os oes hysbysiad rhybuddio wedi ei roi ac nad yw'r awdurdod wedi cymryd y camau gofynnol (is-adran (2)).
403. Mae is-adran (3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ymyrryd yn y modd y mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol heb roi hysbysiad rhybuddio yn unol ag adran 151 pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un neu rai o'r seiliau a nodir yn adran 150 yn bodoli a bod rheswm ganddynt dros gredu bod seiliau iechyd a diogelwch y mae angen ymyrraeth ar frys arnynt neu ei bod yn annhebygol bod yr awdurdod lleol yn gallu cydymffurfio neu sicrhau cydymffurfedd â'r hysbysiad rhybuddio.
404. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'n gyson yr amgylchiadau sydd wedi rhoi'r pŵer i ymyrryd iddynt.
405. Mae is-adrannau (4) ac (8) yn cynnwys gofynion i Weinidogion Cymru hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y camau y maent wedi eu cymryd mewn perthynas ag arfer eu pŵer o dan yr adran hon a hysbysu'r Cynulliad yn gyson am y materion hynny.

Adran 153 – Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gael gwasanaethau cynghori

406. Mae adran 153 yn darparu, pan fo gan Weinidogion Cymru y pŵer i ymyrryd o dan adran 152, y cânt gyfarwyddo'r awdurdod lleol (y maent yn ymyrryd mewn cysylltiad â'r modd y mae'n arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) i ymrwymo i gontract gyda pherson neu gorff penodedig (neu berson neu gorff sy'n dod o fewn dosbarth penodedig) i ddarparu gwasanaethau penodedig o natur gynghorol. Caiff y cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol bod y contract â'r person neu'r corff hwnnw yn cynnwys telerau ac amodau penodedig (is-adrannau (3) a (4)).

Adran 154 – Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan bersonau eraill ar ran yr awdurdod

407. Mae adran 154 yn darparu, pan fo gan Weinidogion Cymru y pŵer i ymyrryd o dan adran 152, y cânt gyfarwyddo'r awdurdod lleol i sicrhau bod y swyddogaethau, y maent yn barnu bod ymyrryd yn angenrheidiol mewn cysylltiad â hwy, i'w cyflawni gan berson arall. Caiff y cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol bod y contract gyda'r person arall hwnnw yn cynnwys telerau ac amodau penodedig (is-adran (3)).

Adran 155 – Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan Weinidogion Cymru neu enwebai

408. Mae adran 155 yn darparu, pan fo gan Weinidogion Cymru y pŵer i ymyrryd o dan adran 152, y cânt gyfarwyddo bod y swyddogaethau, y maent yn barnu bod ymyrryd yn angenrheidiol mewn cysylltiad â hwy, i'w cyflawni ganddynt hwy eu hunain neu gan berson a enwebir ganddynt, Mae is-adran (3) yn egluro bod rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio ag unrhyw arweiniad a roddir gan Weinidogion Cymru neu eu henwebai.

Section 152 – Power of Welsh Ministers to intervene

402. Section 152 provide the Welsh Ministers with a power to intervene in a local authority's exercise of its social services functions if a warning notice has been given and the authority has not taken the required action (subsection (2)).
403. Subsection (3) provides the Welsh Ministers with a power to intervene in the exercise of a local authority's social services functions without serving a warning notice in accordance with section 151 where the Welsh Ministers are satisfied that one or more of the grounds set out in section 150 exist and have reason to believe that there are health and safety grounds that require urgent intervention or that the local authority is unlikely to be able to comply or secure compliance with the warning notice.
404. Subsection (5) requires the Welsh Ministers to keep under review the circumstances which have given them the power to intervene.
405. Subsection (4) and (8) contain requirements for the Welsh Ministers to advise the National Assembly for Wales of the actions they have taken in relation to the exercise of their power under this section and to keep the Assembly apprised of those matters.

Section 153 – Power to require a local authority to obtain advisory services

406. Section 153 provides that where the Welsh Ministers have the power to intervene under section 152 they may direct the local authority (in respect of whose exercise of its social services functions they are intervening) to enter in to a contract with a specified person or body (or a person or body falling within a specified class) to provide specified services of an advisory nature. The direction may require the contract with that person or body to contain specified terms and conditions (subsections (3) and (4)).

Section 154 – Power to require performance of functions by other persons on behalf of authority

407. Section 154 provides that where the Welsh Ministers have the power to intervene under section 152, they can direct the local authority to ensure the functions in respect of which they deem intervention to be necessary are to be delivered by another person. The direction may require the contract with that other person to contain specified terms and conditions (subsection (3)).

Section 155 – Power to require performance of functions by Welsh Ministers or nominee

408. Section 155 provides that where the Welsh Ministers have the power to intervene under section 152 they can direct the functions in respect of which they deem intervention to be necessary are delivered by themselves or by a person nominated by them. Subsection (3) clarifies that the local authority must comply with any instructions given by the Welsh Ministers or their nominee.

Adran 156 - Pŵer i gyfarwyddo bod swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol eraill yn cael eu harfer

409. Mae adran 156 yn galluogi cyfarwyddyd a ddyroddir o dan adran 154 neu 155 i ymwneud â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol eraill yn ychwanegol at y rheini y mae'r seiliau dros ymyrryd yn ymwneud â hwy, pan fo Gweinidogion Cymru wedi dyfarnu ei bod yn hwylus gwneud hynny. Mae is-adran (2) yn cynnwys enghraifft o'r materion y caiff Gweinidogion Cymru roi sylw iddynt wrth benderfynu a ddylai cyfarwyddyd fod yn gymwys i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ychwanegol.

Adran 157 - Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau

410. Mae adran 157 yn darparu, pan fo gan Weinidogion Cymru y pŵer i ymyrryd o dan adran 152, fod ganddynt bŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau neu gymryd unrhyw gamau eraill er mwyn delio â'r seiliau dros ymyrryd.

Adran 158 - Ymyrryd: dyletswydd i adrodd

411. Mae adran 158 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw gyfarwyddyd y maent yn ei wneud o dan adrannau 153, 154, 155 neu 157 ac i hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyson am y camau y mae'r awdurdod lleol yn eu cymryd i gydymffurfio â'r cyfarwyddyd.

Adran 159 - Cyfarwyddiadau

412. Mae adran 159 yn cynnwys darpariaeth gyffredinol ynghylch cyfarwyddiadau ac arweiniad o dan Ran 6. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, neu swyddog i awdurdod, sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd neu arweiniad o'r fath gydymffurfio ag ef ac mae'n nodi'r modd y caiff cyfarwyddyd gael ei orfodi.

Adran 160 - Dyletswydd i gydweithredu

413. Mae adran 160 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gydweithredu a chynorthwyo Gweinidogion Cymru (ac unrhyw berson a restrir yn is-adran (2)) wrth iddo arfer swyddogaethau yn unol â'r Rhan hon o'r Ddeddf.

Adran 161 - Pwerau mynd i mewn ac arolygu

414. Mae adran 161 yn rhoi pŵer i'r personau a bennir yn is-adran (2) i fynd i mewn i fangre awdurdod lleol ac arolygu a gwneud copïau o unrhyw gofnodion neu ddogfennau eraill a gedwir gan yr awdurdod, ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r awdurdod y mae'r person o'r farn eu bod yn berthnasol i gyflawniad ei swyddogaethau o dan Ran 8 o'r Ddeddf.

415. Mae pŵer hwn yn cynnwys pŵer i arolygu a chopïo dogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth am unigolion preifat. Mae'r pŵer yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a ganlyn:

- a) dim ond mewn mangre awdurdod lleol y gellir ei arfer;
- b) dim ond i gofnodion a dogfennau a gedwir gan yr awdurdod lleol y mae'n gymwys (ac nid yw'n gymwys i gofnodion neu ddogfennau a gedwir gan unigolion preifat); ac

Section 156 – Power to direct exercise of other social services functions

409. Section 156 enables a direction issued under section 154 or 155 to relate to other social services functions in addition to those to which the grounds for intervention relate, where the Welsh Ministers have determined that it is expedient to do so. Subsection (2) contains an example of the matters to which the Welsh Ministers may have regard in deciding whether a direction should apply to additional social services functions.

Section 157 – General power to give directions and take steps

410. Section 157 provides that where the Welsh Ministers have the power to intervene under section 152, they have a general power to give directions or take any other steps in order to deal with the grounds for intervention.

Section 158 – Intervention: duty to report

411. Section 158 requires the Welsh Ministers to lay before the National Assembly for Wales any direction they make under section 153, 154, 155, or 157 and to keep the National Assembly apprised of the steps taken by the local authority to comply with the direction.

Section 159 – Directions

412. Section 159 contains general provision about directions and instructions under Part 6. It requires a local authority, or an officer of an authority, that is subject to such a direction or instruction to comply with it and sets out the manner in which a direction may be enforced.

Section 160 – Duty to co-operate

413. Section 160 requires a local authority to co-operate and give assistance to the Welsh Ministers (and or to any person listed in subsection (2)) when they are exercising functions in accordance with this Part of the Act.

Section 161 – Powers of entry and inspection

414. Section 161 gives the persons specified in subsection (2) a power to enter local authority premises and to inspect and take copies of any records or other documents kept by the local authority, and any other documents containing information relating to the authority which the person considers relevant to the exercise of his or her functions under Part 8 of the Act.
415. This power includes a power to inspect and copy documents containing information about private individuals. The power is subject to the following limitations:
- a) it can only be exercised in a local authority premises;
 - b) it applies only to records and documents kept by the local authority (and does not apply to records or documents kept by private individuals); and

- c) nid yw'n arferadwy oni bai bod y person sy'n arfer y pŵer o'r farn bod yr wybodaeth yn berthnasol i gyflawniad ei swyddogaethau o dan Ran 8 o'r Ddeddf.

416. Ni fwriedir i'r pŵer a ddarperir gan yr adran hon gael ei arfer er mwyn cael mynediad i ddogfennau a gedwir gan unigolion preifat (os byddant, er bo hynny'n annhebygol iawn, yn cadw dogfennau sy'n bodloni'r meini prawf.).

Adran 162 - Trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad: oedolion y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth a gofalwyr

417. Mae adran 162 yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad rhwng yr awdurdod lleol, pob un o 'bartneriaid perthnasol' yr awdurdod a chyrff eraill sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n berthnasol i oedolion y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad rhwng swyddogion yr awdurdod. Mae'r trefniadau i'w gwneud gyda'r bwriad o wella llesiant oedolion sydd ag anghenion am ofal a chymorth a gofalwyr. Bydd angen i drefniadau ganolbwyntio hefyd ar wella ansawdd y gofal a'r cymorth ac amddiffyn oedolion sy'n cael neu sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

418. Caiff pob partner perthnasol ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau, llety, sefydlu a chynnal cronfa gyfun a rhannu gwybodaeth â'i gilydd. Mae 'cronfa gyfun' wedi ei ffurfio o gyfraniadau'r awdurdod a'r partneriaid perthnasol ac y caniateir gwneud taliadau ohoni wrth gyflawni swyddogaethau. Rhaid i'r awdurdod lleol a'i bartneriaid perthnasol hefyd roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

419. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer oedolion a gofalwyr yn adlewyrchu darpariaethau presennol Deddf Plant 2004 mewn perthynas â phlant. Mae adran 25 o Ddeddf 2004 yn galluogi'r partneriaid perthnasol fel y'u diffiniwyd yn y Ddeddf honno i sefydlu a chynnal cronfa gyfun neu i ddarparu staff, nwyddau a chymorth i bartner arall at ddibenion y trefniadau cydweithredu o dan yr adran honno.

420. Gallai enghraifft pan ganiateir i gronfa gyfun gael ei defnyddio er budd oedolion gynnwys cyllido gweithwyr cymorth iechyd ychwanegol i gefnogi pobl a arferai gamddefnyddio sylweddau neu i ddatblygu gwasanaeth gwybodaeth a chymorth ar gyfer gofalwyr.

Adran 163 - Trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad: plant

421. Mae adran 163 yn gwneud diwygiadau i adran 25 o Ddeddf Plant 2004 (cydweithrediad i wella llesiant: Cymru). Gwneir y diwygiadau hyn er mwyn sicrhau bod y ddyletswydd bresennol yn Neddf 2004 i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad er mwyn gwella llesiant plant yn gydnaws â'r ddyletswydd newydd yn adran 162 o'r Ddeddf hon (Trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad: oedolion y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth a gofalwyr). Yn benodol, yn lle'r diffiniad presennol o "well-being" yn adran 25 o Ddeddf 2004 mewnol y diffiniad sydd yn adran 2 o'r Ddeddf hon ynghyd â diffiniad newydd o "care and support".

- c) it is exercisable only if the person exercising the power considers the information is relevant to the exercise of his or her functions under Part 8 of the Act.

416. The power provided by this section is not intended to be exercised in order to obtain access to documents held by private individuals (in the unlikely event they hold documents which fulfil the criteria).

Section 162 – Arrangements to promote co-operation: adults with needs for care and support and carers

417. Section 162 provides that a local authority must make arrangements to promote cooperation between the local authority, each of the authority's 'relevant partners' and other bodies who are engaged in activities relevant to adults in need of care and support and carers in need of support. The local authority must also make arrangements to promote co-operation between the officers of the authority. The arrangements are to be made with a view to improving the well-being of adults with needs for care and support and carers. Arrangements also need to focus on improving the quality of care and support and protecting adults who are experiencing or at risk of abuse or neglect.
418. All relevant partners may provide staff, goods, services, accommodation, establish and maintain a pooled fund and share information with one another. A 'pooled fund' is made up of contributions from the authority and the relevant partners out of which payments can be made in the discharge of functions. The local authority and its relevant partners must also have regard to any guidance given by the Welsh Ministers.
419. This provision for adults and carers mirrors the existing provisions of the Children Act 2004 in relation to children. Section 25 of the 2004 Act enables relevant partners as defined in that Act to establish and maintain a pooled fund or provide staff, goods and support to another partner for the purposes of the cooperation arrangements under that section.
420. An example where a pooled fund may be used to benefit adults could include the funding of additional health support workers to support people recovering from substance misuse or the development of an information and support service for carers.

Section 163 – Arrangements to promote co-operation: children

421. Section 163 makes amendments to section 25 of the Children Act 2004 (co-operation to improve well-being: Wales). These amendments are made to ensure the existing duty in the 2004 Act to make arrangements to promote co-operation to improve the well-being of children is aligned with the new duty in section 162 of this Act (Arrangements to promote cooperation: adults with needs for care and support and carers). In particular, the definition of "well-being" in section 2 of this Act is imported into section 25 of the 2004 Act in place of the current definition, together with a new definition of "care and support".

Adran 164 - Dyletswydd i gydweithredu a darparu gwybodaeth wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol

422. Mae adran 164 yn darparu, os yw'r awdurdod lleol, wrth arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, yn gofyn i bartner perthnasol am ei gydweithrediad neu am ddarparu gwybodaeth, rhaid i'r partner perthnasol wneud hynny, oni fyddai'n anghydnaws â'i ddyletswyddau ei hun neu fel arall yn cael effaith andwyol ar ei swyddogaethau ei hun. Rhaid i bartner perthnasol sy'n gwrthod cydweithredu neu ddarparu gwybodaeth roi rhesymau ysgrifenedig i'r awdurdod lleol yn esbonio ei benderfyniad i wrthod. Mae'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a phartneriaid perthnasol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

Adran 165 - Hyrwyddo integreiddio gofal a chymorth â gwasanaethau iechyd etc

423. Mae adran 165 yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol gyda golwg ar integreiddio darpariaeth o ofal a chymorth â'r ddarpariaeth iechyd a'r ddarpariaeth sy'n ymwneud ag iechyd, pan fyddai hynny'n hyrwyddo, yn ei ardal, lesiant plant, oedolion y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth a gofalgwyr y mae arnynt anghenion am gymorth a chyfrannu at atal neu oedi anghenion am ofal a chymorth ac anghenion cymorth neu wella ansawdd gofal a chymorth a chymorth, gan gynnwys y canlyniadau sydd i'w cyflawni.

424. Mae "darpariaeth gofal a chymorth", "darpariaeth iechyd" a "darpariaeth sy'n ymwneud ag iechyd" wedi eu diffinio yn is-adrannau (2), (3) a (4) yn eu tro.

Adran 166 - Trefniadau partneriaeth

425. Mae adran 166 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu trefniadau partneriaeth sydd i'w gwneud rhwng awdurdodau lleol neu rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol. Mae'r trefniadau partneriaeth ar gyfer cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol neu swyddogaethau BIL neu Ymddiriedolaeth GIG. Rhaid i reoliadau bennu ffurf y trefniant partneriaeth a rhaid iddynt wneud darpariaeth ar gyfer gweithredu a rheoli'r trefniant ac ar gyfer rhannu gwybodaeth.

426. Gall awdurdodau lleol a BILlau sefydlu partneriaethau ffurfiol gyda chyllidebau cyfun neu hebddynt o dan ddeddfwriaeth bresennol. Mae adran 33 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn caniatáu i gyrff GIG ac awdurdodau lleol ddatblygu partneriaethau ffurfiol ac yn galluogi'r partneriaid i ddirprwyo swyddogaethau o un i'r llall gyda rhai cyfyngiadau. Bydd y pwerau yn yr adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo trefniadau partneriaeth ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol yng Nghymru. Er enghraifft, mae angen i rai gwasanaethau gael eu comisiynu a'u darparu ar y lefel ranbarthol neu genedlaethol oherwydd bod nifer y bobl a fyddai'n elwa ar wasanaethau o'r fath yn fach ac mae eu hanghenion yn gymhleth iawn.

Section 164 – Duty to co-operate and provide information in the exercise of social services functions

422. Section 164 provides that if the local authority requests the cooperation of, or information from, a relevant partner in exercising its social services functions, the relevant partner must do so unless it is incompatible with its own duties or would otherwise have an adverse effect on its own functions. The relevant partner refusing to co-operate or provide information must give written reasons to the local authority explaining its decision to refuse. The section also requires local authorities and relevant partners to have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers.

Section 165 – Promoting integration of care and support with health services etc

423. Section 165 provides that a local authority must exercise its social services functions with a view to integrating care and support provision with health provision and health-related provision where this would promote, in its area, the well-being of children, adults with needs for care and support and carers with needs for support and contribute to the prevention or delay of care and support needs and support needs or improve the quality of care and support and support including the outcomes to be achieved.
424. “Care and support provision”, “health provision” and “health-related provision” are defined in subsections (2), (3) and (4) respectively.

Section 166 – Partnership arrangements

425. Section 166 enables the Welsh Ministers to make regulations which specify partnership arrangements to be made between local authorities or between local authorities and Local Health Boards. The partnership arrangements are for carrying out social services functions or LHB or NHS Trust functions. The regulations must specify the form of the partnership arrangement and must make provision for the operation and management of the arrangement and for sharing information.
426. Local authorities and LHBs can establish formal partnerships with or without pooled budgets under existing legislation. Section 33 of the National Health Service (Wales) Act 2006 allows NHS bodies and local authorities to develop formal partnerships and enables the partners to delegate functions from one to another with certain restrictions. The powers in this section will enable the Welsh Ministers to direct partnership arrangements at local, regional and national level in Wales. There are some services, for example, which need to be commissioned and provided at the regional or national level because the numbers of people who would benefit from such services are small and their needs very complex.

Adran 167 – Adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth

427. Mae adran 167 yn darparu y caiff awdurdod lleol a BILL dalu tuag at sefydlu a gweithredu trefniadau partneriaeth drwy wneud taliadau yn uniongyrchol neu i 'gronfa gyfun'. Cânt hefyd ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau, llety ac adnoddau eraill i'r bartneriaeth neu mewn cysylltiad â hi. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach ynghylch cyllido'r trefniadau partneriaeth.

Adran 168 – Byrddau partneriaeth

428. Mae adran 168 yn darparu y caniateir gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Partneriaeth gael ei sefydlu mewn cysylltiad â threfniadau partneriaeth a wneir o dan reoliadau o dan adran 166. Caiff y rheoliadau ddarparu ar gyfer aelodaeth y Bwrdd; talu cydnabyddiaeth ariannol; amcanion a swyddogaethau'r Bwrdd; gweithdrefnau; a threfniadau adrodd.

Adran 169 – Canllawiau ynghylch trefniadau partneriaeth

429. Mae adran 169 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynghylch trefniadau partneriaeth a bod rhaid i aelodau Bwrdd Partneriaeth ac eraill sy'n ymrwymo i drefniadau partneriaeth roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath ac i'r datganiad o ganlyniadau llesiant a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 5.

Adran 170 – Gwasanaeth mabwysiadu: trefniadau ar y cyd

430. Mae adran 170 yn darparu ar gyfer gwneud trefniadau gweithio ar y cyd mewn perthynas â gwasanaethau mabwysiadu. Mae gwasanaeth mabwysiadu wedi ei ddiffinio yn adran 2(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 drwy gyfeirio at y gwasanaethau a gynhelir gan awdurdod lleol o dan adran 3(1) o'r Ddeddf honno. Mae adran 170 yn mewnosod adran 3A newydd yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Effaith hyn yw caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo dau neu ragor o awdurdodau lleol i gydweithio i ddarparu agweddau penodedig ar eu gwasanaeth mabwysiadu. Caiff trefniadau ar y cyd o'r fath roi cyfarwyddyd i sefydlu cronfa gyfun, pennu trefniadau staffio a lletya, rhoi cyfarwyddyd i sefydlu panel mabwysiadu a'r prosesau i'w dilyn ar gyfer datrys anghydfodau a chwynion.

Adran 171 – Cwynion ynghylch gwasanaethau cymdeithasol

431. Mae adran 171 yn rhoi i Weinidogion Cymru bwerau i wneud rheoliadau sy'n sefydlu gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion ynghylch gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y rhain yn disodli'r darpariaethau cyfredol ynghylch gweithdrefnau cwynion ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol Cymru o dan adrannau 114 a 115 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003, sydd wedi eu datgymhwyso i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru.

432. Mae is-adran (1) yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau ynghylch ystyried cwynion sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'n nodi'r mathau o gwynion y caiff rheoliadau wneud darpariaeth ar eu cyfer. Mae'r rhain yn cynnwys cwynion ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau gan awdurdod lleol neu berson arall o dan drefniant partneriaeth a wnaed gan yr awdurdod o dan adran 33 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, neu adran 75 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 mewn perthynas â swyddogaethau corff GIG, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Y bwriad

Section 167 – Resources for partnership arrangements

427. Section 167 provides that a local authority and a LHB may pay towards the establishment and operation of partnership arrangements by making payments directly or in to a 'pooled fund'. They may also provide staff, goods, services, accommodation and other resources for the partnership or in connection with it. Regulations may make further provision about the funding of partnership arrangements.

Section 168 – Partnership boards

428. Section 168 provides that regulations may be made that require a Partnership Board to be established in respect of partnership arrangements made under regulations under section 166. The regulations may provide for the membership of the Board; payment of remuneration; Board objectives and functions; procedures; and reporting arrangements.

Section 169 – Guidance about partnership arrangements

429. Section 169 provides the Welsh Ministers must issue guidance about partnership arrangements and that Partnership Board members and others entering into partnership arrangements must have regard to any such guidance and to the statement of well-being outcomes issued by the Welsh Ministers under section 5.

Section 170 – Adoption service: joint arrangements

430. Section 170 provides for joint working arrangements to be made in relation to adoption services. An adoption service is defined in section 2(1) of the Adoption and Children Act 2002 by references to the services maintained by a local authority under section 3(1) of that Act. Section 170 inserts a new section 3A in to the Adoption and Children Act 2002. The effect is to allow the Welsh Ministers to direct two or more local authorities to work together to provide specified aspects of their adoption service. Such joint arrangements may direct the establishment of a pooled fund, specify staffing and accommodation arrangements, direct the establishment of an adoption panel and the processes to follow for resolving disputes and complaints.

Section 171 – Complaints about social services

431. Section 171 gives regulation making powers to the Welsh Ministers to establish procedures for making complaints about social services. These will replace the current provisions about complaints procedures for Welsh local authority social services under sections 114 and 115 of the Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003, which are disapplied in so far as they relate to Wales.

432. Subsection (1) gives the Welsh Ministers the power to make regulations about the consideration of complaints relating to local authority social services. It sets out the types of complaints for which the regulations may make provision. These include complaints about the provision of services by a local authority or other person under a partnership arrangement made by the authority under section 33 of the National Health Service (Wales) Act 2006, or section 75 of the National Health Service Act 2006 in relation to the functions of an NHS body, so far as exercisable in relation to Wales. The intention is that a person receiving both health and social services from a local authority under such an arrangement will be able to complain to that local authority even if the complaint is about health services which it provides.

yw y bydd modd i berson sy'n cael gwasanaethau iechyd yn ogystal â gwasanaethau cymdeithasol gan awdurdod lleol o dan drefniant o'r fath gwyno wrth yr awdurdod lleol hwnnw hyd yn oed os bydd y gwyn yn ymwneud â gwasanaethau iechyd a ddarperir gan yr awdurdod.

433. Mae is-adran (2) yn caniatáu i'r rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y person neu'r corff a fydd yn ystyried cwyn. Rhagwelir y rhoddir y rôl hon i'r awdurdod lleol o dan sylw, a cham cyntaf y broses fydd i'r awdurdod geisio datrys y mater yn anffurfiol. Os nad yw'r ymgais yn llwyddiannus, caiff ei ddilyn gan ymchwiliad ffurfiol.
434. Mae is-adran (3) yn darparu ar gyfer atgyfeirio cwynion, neu unrhyw fater a godir gan gwyn, i fan arall. Mae'n gwneud darpariaeth benodol sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu, mewn rheoliadau, y ceir atgyfeirio materion at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") i'w hystyried o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Gwneir hyn gyda'r bwriad o godi'r ymwybyddiaeth ymhlith achwynwyr o'u hawl i gwyno wrth yr Ombwdsmon. Caiff y rheoliadau hefyd ddarparu y ceir atgyfeirio'r gwyn neu'r mater a godir gan y gwyn at unrhyw gorff arall ar gyfer penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau.
435. Mae is-adran (4) yn atal y rheoliadau rhag gwneud darpariaeth ynghylch ystyried cwynion a sylwadau y gellir eu gwneud o dan adrannau 174 neu 176 o'r Ddeddf hon. Mae gweithdrefn ar wahân yn cael ei chynnal o dan adran 174 ar gyfer cwynion a sylwadau eraill sy'n ymwneud â grwpiau penodedig o blant a phobl ifanc. (Mae hyn yn adlewyrchu'r gwahaniaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng y cwynion y caniateir eu hystyried o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 a'r sylwadau y caniateir eu hystyried o dan Ran III o Ddeddf Plant 1989, gyda'r darpariaethau hynny'n cael eu hailddatgan i raddau helaeth yn y Ddeddf hon).

Adran 172 – Cwynion ynghylch gwasanaethau cymdeithasol: materion atodol

436. Mae adran 172 yn nodi enghreifftiau pellach o'r math o ddarpariaeth y caniateir ei gwneud mewn rheoliadau o dan adran 171. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff y rheoliadau bennu materion megis pwy a gaiff wneud cwyn ac wrth bwy, y mathau o gwynion y caniateir ac na chaniateir eu gwneud, a'r weithdrefn ar gyfer gwneud ac ystyried cwyn. Caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i daliad gael ei wneud mewn perthynas ag ystyried cwyn (is-adran (3)). Mae is-adran (4) yn darparu y caiff rheoliadau wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau neu gyrff sy'n ymdrin â chwynion roi gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd ynghlŷn â'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn o dan y rheoliadau. Caiff y rheoliadau awdurdodi dangos neu ddatgelu gwybodaeth neu ddogfennau (is-adran (5)). Pan na fyddai'n bosibl, oherwydd dyletswyddau cyfrinachedd o dan y gyfraith gyffredin, ddatgelu gwybodaeth berthnasol ynghlŷn â chwyn i'r corff sydd i'w hystyried o dan y rheoliadau, neu i'r corff y mae'r gwyn i'w hatgyfeirio ato ar gyfer ei hystyried o dan ddarpariaethau eraill, caiff y rheoliadau wneud y datgeliad yn gyfreithlon. Ni fydd y ddarpariaeth hon yn drech na dulliau diogelu penodol Deddf Diogelu Data 1998, sy'n gwahardd datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn heb gydsyniad yr unigolyn hwnnw oni fydd datgelu'r wybodaeth yn angenrheidiol am un neu ragor o'r rhesymau a bennir yn y Ddeddf Diogelu Data.

433. Subsection (2) allows the regulations to make provision about the person or body who will consider a complaint. It is envisaged that this role will be given to the local authority concerned, and that the first stage of the process will be for the authority to attempt to resolve the matter informally. If this attempt is unsuccessful, this may be followed by a formal investigation.
434. Subsection (3) provides for complaints, or any matter raised by a complaint, to be referred elsewhere. It makes specific provision enabling the Welsh Ministers to provide in regulations that matters may be referred to the Public Services Ombudsman for Wales (“the Ombudsman”) to consider under the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005. This is intended to raise awareness amongst complainants of their right to complain to the Ombudsman. The regulations may also provide that the complaint or matter raised by the complaint may be referred to any other body so that it can decide whether to take any action.
435. Subsection (4) prevents the regulations from making provision about the consideration of complaints and representations which are capable of being made under sections 174 or 176 of this Act. A separate procedure is being maintained under section 174 for complaints and other representations relating to specified groups of children and young people. (This reflects a distinction that currently exists between the complaints which may be considered under the Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003 and the representations which may be considered under Part III of the Children Act 1989, those provisions being largely restated in this Act).

Section 172 – Complaints about social services: supplementary

436. Section 172 sets out further examples of the kind of provision that may be made in regulations under section 171. Subsection (2) provides that the regulations may specify such matters as who may make a complaint and to whom it may be made, the kinds of complaints which may or may not be made, and the procedure for making and considering a complaint. The regulations may require the making of a payment in relation to the consideration of a complaint (subsection (3)). Subsection (4) provides that the regulations may make provision requiring persons or bodies handling complaints to make information available to the public about the procedures to be followed under the regulations. The regulations may authorise the production or disclosure of information or documents (subsection (5)). Where it would not be possible, owing to common law duties of confidentiality, to disclose relevant information about a complaint to the body which is to consider it under the regulations, or to the body to which a complaint is to be referred for consideration under other provisions, the regulations may make the disclosure lawful. This will not override the specific protections of the Data Protection Act 1998, which prohibit the disclosure of information relating to an individual without the consent of that individual unless the disclosure is necessary for one or more of the reasons specified in the Data Protection Act.

437. Mae is-adran (6) yn darparu y caiff rheoliadau a wneir o dan adran 171 wneud darpariaeth ar gyfer sefyllfaoedd pan fo'r gŵyn yn codi materion sydd i'w hystyried o dan y rheoliadau a hefyd o dan weithdrefn gwyno arall. Caiff y rheoliadau, er enghraifft, ganiatáu i'r gŵyn gael ei gwneud o dan y rheoliadau a darparu bod yr agweddau hynny ar y gŵyn sy'n codi materion a ystyrir o dan y weithdrefn gwyno arall i'w trin fel pe baent wedi eu codi mewn cwyn a wnaed o dan y weithdrefn honno (e.e. caiff y rheoliadau ddarparu y ceir gwneud cwyn o dan adran 171 ynghylch gwasanaethau GIG a gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol, a bod yr elfennau hynny o'r gŵyn sy'n ymwneud â gwasanaethau GIG i'w trin fel pe baent wedi eu codi mewn cwyn a wnaed o dan weithdrefn gwyno'r GIG). Yn y modd hwn, bydd modd i'r achwynydd wneud ei gŵyn i un corff, yn lle gorfod gwneud dwy gŵyn ar wahân, a bydd un gŵyn yn gallu ysgogi dwy weithdrefn gwyno ar wahân. Rhagwelir y bydd y ddwy weithdrefn wedi hynny yn gweithredu ochr yn ochr â'i gilydd, cyn belled ag y bo modd, er mwyn iddynt ymddangos i'r achwynydd fel un weithdrefn.

Adran 173 – Cymorth i achwynwyr

438. Mae adran 173 yn darparu y ceir gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynorthwyo pobl sy'n gwneud cwyn o dan reoliadau a wneir o dan adran 171. Caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau eirioli i alluogi pobl i wneud cwynion a chânt bennu gwahanol grwpiau neu fathau o bersonau y dylid darparu cynhorthwy iddynt. Diben y ddarpariaeth hon yw galluogi Gweinidogion Cymru i dargedu'r cynhorthwy at grwpiau a nodir fel y rhai â'r angen mwyaf am eiriolaeth a chymorth arall. Caiff y rheoliadau hefyd gynnwys darpariaeth ynglŷn â rhoi cyhoeddusrwydd i unrhyw drefniadau ar gyfer darparu cynhorthwy o'r fath.

Adran 174 – Sylwadau sy'n ymwneud â phlant penodol etc

439. Mae adran 174 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sefydlu gweithdrefn ar gyfer ystyried sylwadau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc penodol a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Mae'n atgynhyrchu i raddau helaeth ddarpariaethau adran 26(3) i (3C) o Ddeddf Plant 1989 sydd i'w datgymhwyso o ran Cymru. Mae'r sylwadau y caniateir eu hystyried o dan y weithdrefn hon yn dod o fewn tri chategori:

- a) Sylwadau ynghylch y swyddogaethau awdurdod lleol a ganlyn, naill ai mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol neu mewn perthynas â phlant nad ydynt yn derbyn gofal ond y gall fod arnynt anghenion am ofal a chymorth:
 - i. swyddogaethau sy'n arferadwy o dan Rannau 3 i 6 o'r Ddeddf hon (ac eithrio swyddogaethau sy'n arferadwy mewn perthynas â phlentyn fel gofalwr);
 - ii. swyddogaethau sy'n arferadwy mewn perthynas â phlentyn o dan Ran 7 o'r Ddeddf hon, a;
 - iii. swyddogaethau o dan Ran 4 neu 5 o Ddeddf Plant 1989 ond a bennir mewn rheoliadau.

Caiff sylwadau o'r fath gael eu cyflwyno gan y personau a restrir yn is-adran (3).

437. Subsection (6) provides that regulations made under section 171 may make provision for situations in which a complaint raises matters which fall to be considered both under the regulations and also under another complaints procedure. The regulations may, for example, allow the complaint to be made under the regulations and provide that those aspects of the complaint which raise matters considered under the other complaints procedure are to be treated as having been raised in a complaint made under that procedure (e.g. the regulations may provide that a complaint may be made under section 171 about both NHS and local authority social services, and that those elements of the complaint that relate to NHS services are to be treated as having been raised in a complaint made under the NHS complaints procedure). In this way, the complainant will be able to make his or her complaint to a single body, instead of having to make two separate complaints, and a single complaint will be able to trigger two separate complaints procedures. It is envisaged that the two procedures will then operate in parallel, as far as possible, so they appear to the complainant to be a single procedure.

Section 173 – Assistance for complainants

438. Section 173 provides that regulations may be made that require local authorities to assist people making a complaint under regulations made under section 171. The regulations may require local authorities to provide advocacy services to enable people to make complaints and may specify different groups or types of persons who should be provided with such assistance. The purpose of this provision is to enable the Welsh Ministers to target the assistance at groups who are identified as having the greatest need for advocacy and other support. The regulations may also include provision about publicising any arrangements for the provision of such assistance.

Section 174 – Representations relating to certain children etc

439. Section 174 requires a local authority to establish a procedure for considering representations that relate to certain children and young people and those who look after them. It replicates to a large extent the provisions of section 26(3) to (3C) of the Children Act 1989 which are to be disapplied in relation to Wales. The representations that may be considered under this procedure fall into three categories:

- a) Representations about the following local authority functions relating either to children looked after by the local authority or to children who are not looked after but who may have needs for care and support:
 - i. functions exercisable under Parts 3 to 6 of this Act (other than functions which are exercisable in relation to a child as a carer);
 - ii. functions exercisable in relation to a child under Part 7 of this Act, and;
 - iii. functions under Part 4 or 5 of the Children Act 1989 but specified in regulations.

Such representations may be made by the persons listed in subsection (3).

- b) Sylwadau ynghylch swyddogaethau awdurdod lleol o dan adran 14F o Ddeddf Plant 1989 a bennwyd mewn rheoliadau. Mae adran 14F yn darparu bod rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu, o fewn eu hardal, gwasanaethau cynnal gwarcheidiaeth arbennig (megis cwnsela, cyngor a gwybodaeth). Caiff sylwadau o'r fath gael eu cyflwyno gan y personau a restrir yn is-adran (4).
 - c) Sylwadau ynghylch swyddogaethau awdurdod lleol o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, sydd wedi eu pennu mewn rheoliadau ac a gyflwynir gan y personau a bennir yn is-adran (5).
440. Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sicrhau bod y weithdrefn a sefydlir ganddo o dan yr adran hon yn gwarantu y bydd sylwadau'n cael eu hystyried gan un person o leiaf, nad yw'n aelod o'r awdurdod lleol o dan sylw nac yn swyddog iddo, a bydd un neu ragor o bobl o'r fath hefyd yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau dilynol ynghylch y camau i'w cymryd. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod lefel ddigonol o annibyniaeth yn rhan annatod o'r broses, er mwyn rhoi sylw digonol i safbwyntiau plant a phobl ifanc a allai fod yn agored i niwed. Gall rheoliadau ddatgymhwyso'r gofyniad hwn mewn sefyllfaoedd pan ystyrir, neu pan drafodir, sylwadau at ddibenion ceisio datrys materion yn anffurfiol (gweler is-adran (8)). Mae is-adran (9) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i'r weithdrefn a sefydlir ganddo o dan yr adran hon.

Adran 175 – Sylwadau sy'n ymwneud â phlant penodol etc: darpariaeth bellach

441. Mae adran 175 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, wrth ystyried sylwadau, gydymffurfio â'r gofynion a osodir arno o dan adrannau 174(6) i (8) (gofynion gweithdrefnol a'r gofyniad i sylwadau gynnwys ystyriaeth gan berson nad yw'n aelod o'r awdurdod lleol o dan sylw nac yn swyddog iddo). Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol fonitro'r camau a gymerwyd ganddo i sicrhau cydymffurfedd.
442. Rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganfyddiadau'r person a fu'n ystyried y sylwadau a ystyriwyd o dan adran 174, a rhaid iddo hysbysu'r person a wnaeth y sylw, y person y mae'r sylw yn ymwneud ag ef (os yw'n wahanol), ac unrhyw berson arall y mae'n ymddangos i'r awdurdod yr effeithir arno yn ôl pob tebyg, am benderfyniad yr awdurdod lleol a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. Pan fo'r sylw yn ymwneud â phlentyn, neu pan fo'n ymddangos bod y sylw yn effeithio'n uniongyrchol ar blentyn, rhaid hysbysu'r plentyn am benderfyniad a chamau arfaethedig yr awdurdod lleol os oes ganddo ddealltwriaeth ddigonol.

Adran 176 – Sylwadau sy'n ymwneud â phlant a fu gynt yn derbyn gofal etc

443. Mae adran 176 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sefydlu gweithdrefn ar gyfer ystyried sylwadau gan gategoriâu penodol o blant a phobl ifanc ynghylch cyflawni ei swyddogaethau o dan Rannau 3 i 7 o'r Ddeddf, mewn perthynas â'r plant a'r bobl ifanc hynny. Mae hyn yn atgynhyrchu, i raddau helaeth, y ddarpariaeth sydd ar hyn o bryd yn adran 24D o Ddeddf Plant 1989, sydd i'w datgymhwyso o ran Cymru.

*These notes refer to the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4)
which received Royal Assent on 1 May 2014*

- b) Representations about local authority functions under section 14F of the Children Act 1989 which have been specified in regulations. Section 14F provides that local authorities must make arrangements for the provision within their area of special guardianship support services (such as counselling, advice and information). Such representations may be made by the persons listed in subsection (4).
- c) Representations about local authority functions under the Adoption and Children Act 2002 which have been specified in regulations and that are made by persons specified in subsection (5).

440. Subsection (6) requires the local authority to ensure that the procedure it establishes under this section guarantees that representations will be considered by at least one person who is not a member or officer of the local authority concerned and that one or more such persons will also participate in any subsequent discussions about the action to be taken. This is to ensure there is a sufficient degree of independence built into the process to ensure that the views of potentially vulnerable children and young people are given adequate weight. The regulations can disapply this requirement in situations where representations are being considered or discussed for the purposes of trying to resolve matters informally (see subsection (8)). Subsection (9) requires a local authority to publicise the procedure it establishes under this section.

Section 175 – Representations relating to certain children etc: further provision

- 441. Section 175 requires a local authority, in considering representations, to comply with the requirements imposed on it under sections 174(6) to (8) (procedural requirements and the requirement for representations to include consideration by a person who is not a member or officer of the local authority concerned). The Welsh Ministers may, by regulations, require the local authority to monitor the steps it has taken to ensure compliance.
- 442. A local authority must have regard to the findings of the person who considered the representations considered under section 174, and must notify the person who made the representation, the person to whom the representation relates (if different), and any other person who appears to the authority to be likely to be affected, about the local authority's decision and its reasons for that decision. Where the representation relates to, or appears to directly affect a child they must be notified about the local authority's decision and proposed actions if they have sufficient understanding.

Section 176 – Representations relating to former looked after children etc

- 443. Section 176 requires a local authority to establish a procedure for considering representations by certain categories of children and young persons about the discharge of its functions under Parts 3 to 7 of the Act, in relation to those children and young persons. It replicates, to a large extent, the provision currently contained in section 24D of the Children Act 1989, which is to be disapplied in relation to Wales.

444. Y plant a'r bobl ifanc y caiff eu sylwadau eu hystyried o dan y weithdrefn hon yw'r rhai a ddisgrifir yn y Ddeddf fel pobl ifanc categori 2, 3, 4, 5 neu 6 (gweler y nodiadau i adran 104 o'r Ddeddf). Yn eu hanfod mae'r rhain yn blant hŷn (16 neu 17 oed) sy'n derbyn gofal neu a fu gynt yn derbyn gofal gan awdurdod lleol a phobl ifanc (18 oed neu'n hŷn) sydd fel rheol yn rhai sy'n gadael gofal. Diffinnir plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn adran 74 o'r Ddeddf fel plentyn sydd yng ngofal yr awdurdod lleol neu y darperir llety iddo gan yr awdurdod wrth i'r awdurdod arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol penodedig.
445. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau a gaiff osod gofynion ynghylch y weithdrefn y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ei sefydlu o dan yr adran hon, a chânt bennu terfynau amser ar gyfer cyflwyno sylwadau. Mae awdurdod lleol o dan ddyletswydd i roi cyhoeddusrwydd i'r weithdrefn a sefydlir ganddo o dan yr adran hon a rhaid i'r awdurdod gydymffurfio ag unrhyw ofynion gweithdrefnol a nodir yn y rheoliadau.

Adran 177 – Rhoi ystyriaeth bellach i sylwadau

446. Mae adran 177 yn darparu y ceir gwneud rheoliadau ynghylch rhoi ystyriaeth bellach i sylwadau (gan gynnwys cwynion) a ystyriwyd gan awdurdod lleol o dan adran 174 neu 176. Mae hyn yn atgynhyrchu'r ddarpariaeth sydd wedi ei chynnwys yn adran 26ZB o Ddeddf Plant 1989.
447. Mae is-adrannau (2) a (3) yn darparu enghreifftiau o'r math o ddarpariaeth y caniateir iddi gael ei chynnwys yn y rheoliadau hyn.
448. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff rheoliadau ganiatáu cyfeirio sylw, neu unrhyw fater a godir gan sylw, i fan arall. Caiff rheoliadau ganiatáu cyfeirio sylw neu fater at yr Ombwdsmon er mwyn iddo ystyried p'un ai i ymchwilio iddo o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Caiff y rheoliadau hefyd ganiatáu cyfeirio sylw at unrhyw gorff arall ar gyfer penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau.

Adran 178 – Cynhorthwy i bersonau sy'n cyflwyno sylwadau

449. Mae adran 178 yn darparu bod awdurdod lleol o dan ddyletswydd i wneud trefniadau i ddarparu cynhorthwy i blant sy'n cyflwyno sylwadau o dan adrannau 174 a 176 yn eu tro. Rhaid i'r awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i'r trefniadau hyn ar gyfer cynorthwyo. Mae'r ddarpariaeth hon yn atgynhyrchu'r ddarpariaeth yn adran 26A o Ddeddf Plant 1989 (sydd i'w datgymhwyso o ran Cymru). Rhaid i'r cynhorthwy a ddarperir o dan yr adran hon gynnwys cynhorthwy ar ffurf cynrychiolaeth ac felly bydd yn darparu ar gyfer cymorth eiriolwr ar gyfer gwneud sylwadau. Gwneir hyn er mwyn cynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed i gyflwyno eu sylwadau. Rhaid i reoliadau gael eu gwneud ynghylch y trefniadau hyn ar gyfer cynorthwyo. Rhaid i'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod pobl penodedig neu gategoriâu penodedig o bobl wedi eu hatal rhag darparu'r cynhorthwy. Caiff y rheoliadau hefyd osod gofynion eraill, megis dyletswydd ar yr awdurdod lleol i fonitro'r camau a gymerir ganddo i gydymffurfio â'r gofynion a osodir gan neu o dan adran 178.

444. The children and young persons whose representations may be considered under this procedure are those who are described in the Act as category 2, 3, 4, 5 or 6 young persons (see notes to section 104 of the Act). They are essentially older children (aged 16 or 17) who are looked after or were formerly looked after by a local authority and young people (aged 18 or older) who are generally care leavers. A child looked after by a local authority is defined in section 74 of the Act as a child who is in the local authority's care or who is provided with accommodation by the authority in the exercise of specified social services functions.
445. The Welsh Ministers have the power to make regulations which may impose requirements about the procedure that must be established by the local authority under this section and specify time limits for the making of representations. A local authority is under a duty to give publicity to the procedure which it establishes under this section and must comply with any procedural requirements set out in the regulations.

Section 177 – Further consideration of representations

446. Section 177 provides that regulations may be made about the further consideration of representations (including complaints) which have been considered by a local authority under section 174 or 176. This replicates the provision contained in section 26ZB of the Children Act 1989.
447. Subsections (2) and (3) provide examples of the kind of provision which may be contained in these regulations.
448. Subsection (4) provides that the regulations may allow a representation, or any matter raised by a representation, to be referred elsewhere. The regulations may allow a representation or matter to be referred to the Ombudsman so that he or she can consider whether to investigate it under the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005. The regulations may also allow a representation to be referred to any other body so that it can decide whether to take any action.

Section 178 – Assistance for persons making representations

449. Section 178 provides that a local authority is under a duty to make arrangements to provide assistance to children who make representations under sections 174 and 176 respectively. The local authority must give publicity to these assistance arrangements. This provision replicates the provision in section 26A of the Children Act 1989 (which is to be disapplied in relation to Wales). The assistance provided under this section must include assistance by way of representation and will therefore provide for advocacy support in the making of representations. This is in order to assist vulnerable children and young persons to make their representations. Regulations must be made about these arrangements for assistance. The regulations must require local authorities ensure that certain people or categories of people are prevented from providing the assistance. The regulations may also impose other requirements, such as a duty on the local authority to monitor the steps it takes to comply with the requirements imposed by or under section 178.

Adran 179 – Ymchwilio i gwynion am ofal cymdeithasol a gofal lliniarol a drefnir neu a ariennir yn breifat

450. Mae adran 179 yn rhoi effaith i Atodlen 3 i'r Ddeddf hon. Mae'n mewnosod Rhan 2A, Rhan 2B ac Atodlen 3A newydd yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 sy'n rhoi i'r Ombwdsmon bwerau i ymchwilio i gwynion ynghylch mathau penodol o ofal cymdeithasol a gofal lliniarol.

Adran 180 – Gwasanaethau eiriol annibynnol ar gyfer cwynion am ofal lliniarol a drefnir neu a ariennir yn breifat

451. Mae adran 180 hon yn diwygio adran 187 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (Deddf 2006). Mae adran 187 o Ddeddf 2006 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i drefnu bod gwasanaethau eirioli annibynnol yn cael eu darparu (hynny yw, gwasanaethau sy'n darparu cynhorthwy i unigolion sy'n gwneud neu'n bwriadu gwneud cwynion) mewn perthynas â chwynion ynghylch gwasanaethau iechyd penodedig. Mae'r diwygiadau i adran 187 o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau eirioli annibynnol gael eu trefnu, yn ychwanegol, i (i) cwynion a wneir o dan weithdrefnau a weithredir gan ddarparwyr gofal lliniarol annibynnol, a (ii) cwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (Deddf 2005) mewn perthynas â darparwyr gofal lliniarol annibynnol. Mae ystyr "independent palliative care provider" wedi ei nodi yn Neddf 2005 (fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 3 i'r Ddeddf hon).

Adran 181 – Darparu gwasanaethau eirioli

452. Caiff gwasanaethau eirioli gael eu darparu gan awdurdod lleol mewn amryw o wahanol gyd-destunau ac o dan ddarpariaethau gwahanol y Ddeddf. Cânt gael eu darparu gan awdurdod lleol yn unol â'i ddyletswydd o dan adran 178 o'r Ddeddf (Cynhorthwy i bersonau sy'n cyflwyno sylwadau) neu yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 173 (Cynhorthwy i achwynwyr). Caiff gwasanaethau eirioli eu darparu hefyd fel modd o ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth (gweler adran 34(2)(e)). Caiff gwasanaethau eirioli, yn ychwanegol, gael eu trefnu gan awdurdod lleol fel modd o gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15 (Gwasanaethau ataliol) ac adran 17 (Darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy).

453. Mae adran 181 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gosod dyletswydd ychwanegol ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau eirioli i bobl y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth. Gall y rheoliadau nodi'r bobl y dylai gwasanaethau o'r fath gael eu cynnig iddynt a rhoi manylion yr amgylchiadau penodol pan fydd y gwasanaethau hynny yn cael eu rhoi ar gael. Bydd rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn cael eu defnyddio i dargedu personau sydd ag anghenion am ofal a chymorth mewn amgylchiadau pan fydd darparu eiriolwr yn cynorthwyo'r person i gyfleu ei safbwyntiau a'i anghenion. Gellid ei arfer, er enghraifft, i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau eirioli i berson y gofynnir iddo ystyried symud i lety preswyl neu, fel arall, i newid llety, efallai oherwydd bod cartref yn cau neu oherwydd penderfyniad ariannol arall a wnaed gan yr awdurdod lleol.

Section 179 – Investigation of complaints about privately arranged or funded social care and palliative care

450. Section 179 gives effect to Schedule 3 of this Act. This inserts a new Part 2A, Part 2B and Schedule 3A in to the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 which gives the Ombudsman powers to investigate complaints about certain kinds of social care and palliative care.

Section 180 – Independent advocacy services for complaints about privately arranged or funded palliative care

451. Section 180 amends section 187 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (the 2006 Act). Section 187 of the 2006 Act places a duty on the Welsh Ministers to arrange the provision of independent advocacy services (that is, services providing assistance to individuals making or intending to make complaints) in relation to complaints about certain specified health services. The amendments to section 187 of the 2006 Act require independent advocacy services to be arranged, in addition, for (i) complaints made under procedures operated by independent palliative care providers, and (ii) complaints made to the Public Services Ombudsman for Wales under the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 (the 2005 Act) in relation to independent palliative care providers. The meaning of the term “independent palliative care provider” is set out in the 2005 Act (as amended by Schedule 3 to this Act).

Section 181 – Provision of advocacy services

452. Advocacy services may be provided by a local authority in a range of different contexts and under different provisions of the Act. They may be provided by a local authority in accordance with its duty under section 178 of the Act (Assistance for persons making representations) or in accordance with regulations made under section 173 (Assistance for complainants). Advocacy services may also be provided as a means of meeting a person’s needs for care and support (see section 34(2)(e)). Advocacy services may, in addition, be arranged by a local authority as a means of fulfilling its duties under section 15 (Preventative services) and section 17 (Provision of information, advice and assistance).
453. Section 181 enables the Welsh Ministers to make regulations which impose an additional duty on local authorities to provide advocacy services to people who need care and support. The regulations can set out the people to whom such services should be offered and detail the specific circumstances in which those services are to be made available. Regulations made under this section will be used to target persons with needs for care and support in circumstances where the provision of an advocate will assist a person to articulate their views and their needs. It could be exercised, for example, to require local authorities to provide advocacy services to a person who is being asked to consider moving into residential care or to otherwise change accommodation, perhaps because of a home closure or other financial decision taken by the local authority.

454. Caiff y rheoliadau hefyd osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi cyhoeddusrwydd i'w trefniadau ar gyfer rhoi gwasanaethau eirioli ar gael, er mwyn gwneud yn siŵr nad yw pobl yn cael eu rhwystro rhag eu defnyddio oherwydd diffyg eglurder neu ddealltwriaeth am yr hyn sydd ar gael. Mae'r ddarpariaeth hon yn ategu'r dyletswyddau a roddir ar awdurdodau lleol o dan adran 17 i sefydlu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i roi gwybodaeth a chynngor am ofal a chymorth i bobl, ynghyd â'u cynorthwyo i gael gafael ar y gwasanaethau hynny.

Adran 182 - Darparu gwasanaethau eirioli: cyfyngiadau

455. Mae adran 182 yn gosod cyfyngiadau ar y dibenion y caiff rheoliadau o dan adran 181 ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau eirioli gael eu darparu ar eu cyfer. Mae'r cyfyngiadau hyn yn atal rheoliadau o dan adran 181 rhag gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau eirioli pan fo gofyniad yn bodoli eisoes i ddarparu gwasanaethau eirioli at y diben hwnnw, p'un ai o dan y Ddeddf hon neu mewn deddfwriaeth gyfredol. Y nod yw osgoi neilltuo sawl eiriolwr i unigolyn at yr un diben, ac osgoi dyblygu wrth ddarparu gwasanaethau eirioli. Mae is-adran (2) yn darparu, pan fo gwasanaethau eirioli yn cael eu darparu o dan adrannau 15, 17, 35, 36, 37 neu 38 o'r Ddeddf hon, na fydd unrhyw rwymedigaeth a osodir gan reoliadau o dan adran 181 i ddarparu gwasanaethau eirioli mewn cysylltiad â'r un materion yn gymwys. Pan fo gwasanaethau eirioli i'w darparu o dan fwy nag un ddarpariaeth yn y Ddeddf yr arfer gorau fel arfer yw bod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu gan un eiriolwr. Bydd y dull hwn o weithredu yn rhoi llai o bwysau ar awdurdodau lleol hefyd.

Adran 183 - Rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau eirioli mewn cartrefi gofal

456. Ystyrir bod cael gafael ar eiriolwr yn arbennig o bwysig i bobl sy'n cyllido eu gofal eu hunain mewn cartref gofal, oherwydd mae'n bosibl nad ydynt yn cael cefnogaeth gweithiwr cymdeithasol na chyswllt â'r gwasanaethau eraill a ddarperir gan awdurdod lleol. Mae adran 183 yn diwygio adran 22 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 i ddarparu diogelwch i'r perwyl hyn. Gwneir hyn drwy ddarparu pwerau i Weinidogion Cymru osod rhwymedigaeth drwy reoliadau ar ddarparwyr cofrestredig a rheolwyr cartrefi gofal yng Nghymru i wneud trefniadau bod personau sy'n cael eu lletya mewn sefydliadau o'r fath yn ymwybodol o unrhyw wasanaethau eirioli a all fod ar gael iddynt o dan adran 181 o'r Ddeddf hon.

Adran 184 - Ymchwil a darparu gwybodaeth

457. Mae adran 184 yn nodi pwerau Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i wneud, comisiynu neu gynorthwyo i wneud, ymchwil i faterion penodedig. Yn ogystal, mae'n gosod gofynion ar awdurdodau lleol, BILlau a sefydliadau gwirfoddol i ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru o fewn paramedrau penodol wedi eu diffinio.
458. Mae'r adran hon, i raddau helaeth, yn adlewyrchu'r dull o weithredu sydd yn adran 83 o Ddeddf Plant 1989, ac, mewn perthynas â phlant, mae'n ailddatgan yn rhannol y ddarpariaeth honno.

454. The regulations may also place a duty on local authorities to publicise their arrangements for making advocacy services available, so as to make sure that uptake is not hindered by a lack of clarity or understanding of what is available. This provision supplements the duties placed on local authorities under section 17 to establish an information, advice and assistance service to provide people with information and advice relating to care and support, along with assistance in accessing it.

Section 182 - Provision of advocacy services: restrictions

455. Section 182 places restrictions on the purposes for which regulations under section 181 may require advocacy services to be provided. These restrictions prevent regulations under section 181 from imposing a duty on local authorities to provide advocacy services where there is already a requirement to provide advocacy services for that purpose, whether under this Act or in current legislation. The aim is to avoid multiple advocates being assigned to an individual for the same purpose, and to avoid duplication in the provision of advocacy services. Subsection (2) provides that where advocacy services are being provided under sections 15, 17, 35, 36, 37 or 38 of this Act any obligation imposed by regulations under section 181 to provide advocacy services in respect of the same matters will not apply. Where advocacy services are to be provided under more than one provision of the Act it will usually be best practice for these services to be provided by a single advocate. This approach will also be less burdensome on local authorities.

Section 183 - Publicising advocacy services in care homes

456. Access to an advocate is considered to be particularly important for people who fund their own care in a care home, as they may not be supported by a social worker or have contact with other services provided by a local authority. Section 183 amends section 22 of the Care Standards Act 2000 to provide suitable safeguards in this regard. This is done by providing the Welsh Ministers with powers to place an obligation by way of regulations on registered providers and managers of care homes in Wales to make arrangements for persons accommodated within such establishments to be made aware of any advocacy services that may be available to them under section 181 of this Act.

Section 184 - Research and provision of information

457. Section 184 sets out the powers of the Welsh Ministers, local authorities and Local Health Boards to conduct, commission or assist in the conduct of research into specified matters. Additionally it places requirements on local authorities, LHBs and voluntary organisations to provide information to the Welsh Ministers within certain defined parameters.
458. This section to a large extent mirrors the approach in section 83 of the Children Act 1989 and, in relation to children, is a partial re-statement of that provision.

459. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, BILlau a phartner arweiniol Bwrdd Diogelu (a ragnodir gan reoliadau o dan adran 134) ddarparu gwybodaeth iddynt. Gall Gweinidogion Cymru hefyd ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gwirfoddol ddarparu gwybodaeth am yr oedolion sydd wedi eu lletya ganddynt. Mae pŵer cyfatebol Gweinidogion Cymru yn achos plant sydd wedi eu lletya gan sefydliadau gwirfoddol yn adran 83 o Ddeddf Plant 1989.
460. Gall Gweinidogion Cymru ofyn am wybodaeth gan awdurdodau lleol sy'n golygu bod modd adnabod plant unigol (gweler is-adran (9)). Fodd bynnag, dim ond os oes angen yr wybodaeth er mwyn llywio'r broses o adolygu a datblygu polisi ac arfer sy'n ymwneud â llesiant plant, neu'r broses o wneud ymchwil sy'n ymwneud â llesiant plant, y ceir gofyn amdani. Mae'n bosibl y bydd angen gwybodaeth lle y mae modd adnabod plant er mwyn i Weinidogion Cymru allu paru'r data y maent wedi eu cael drwy nifer o ffynonellau, ac yna asesu'r data mewn ffordd fwy ystyrlon. Er enghraifft, gall data cyrhaeddiad addysgol plant gynnwys ar adegau wybodaeth sy'n ei gwneud yn hawdd adnabod plant, megis cyfeirnodau disgyblion. Yng nghydestun datblygu polisi ac arfer sy'n ymwneud â llesiant plant, mae'n bosibl y bydd Gweinidogion Cymru am ystyried cyrhaeddiad addysgol carfannau penodol o blant, megis plant sy'n derbyn gofal. Caiff gwybodaeth am blant hefyd gael ei defnyddio i hysbysu Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru. Nid yw manylion plant unigol wedi eu cynnwys mewn adroddiadau o'r fath a chaiff eu data eu prosesu'n ddiogel gan Weinidogion Cymru yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.
461. Rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru grynoded o'r wybodaeth a ddarperir iddynt o dan yr adran hon mewn adroddiad blynyddol, ond rhaid i'r crynodeb hwnnw beidio â chynnwys unrhyw wybodaeth sy'n golygu bod modd adnabod plentyn unigol, neu sy'n caniatáu i blentyn unigol gael ei adnabod.

Adran 185 - Oedolion mewn carchar, llety cadw ieuenctid neu lety mechnïaeth etc

462. Mae adran 185 yn gwneud darpariaeth o ran preswylfa arferol, at ddibenion y Ddeddf hon, oedolion sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn carchar neu lety cadw ieuenctid neu y mae ofynnol iddynt breswyllo mewn "mangre a gymeradwywyd" neu mewn mangre arall o ganlyniad i amod o roi mechnïaeth mewn achos troseddol. Mae'r oedolion hynny i'w trin at ddibenion y Ddeddf hon fel pe baent yn preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol lle y maent wedi eu cadw'n gaeth neu y mae'n ofynnol iddynt breswyllo.
463. Ystyr hyn yw mai'r awdurdod lleol y mae'r carchar, y llety cadw ieuenctid, y fangre a gymeradwywyd neu'r llety arall wedi ei leoli yn ei ardal fydd yn gyfrifol am gynnal asesiadau ac am ddarparu gofal a chymorth i ddiwallu anghenion cymwys yr oedolion sy'n cael eu cadw'n gaeth yno neu y mae'n ofynnol iddynt breswyllo yno. Ni fydd preswylfa arferol flaenorol oedolyn yn cael ei ystyried.

459. This section enables the Welsh Ministers to require local authorities, LHBs and the lead partner of a Safeguarding Board (prescribed by regulations under section 134) to provide them with information. The Welsh Ministers can also require voluntary organisations to provide information about adults that they accommodate. The equivalent power of the Welsh Ministers in the case of children accommodated by voluntary organisations is in section 83 of the Children Act 1989.
460. The Welsh Ministers can request information from local authorities that identifies individual children (see subsection (9)). However, this is only if the information is needed to inform the review and development of policy and practice relating to the well-being of children, or for the conduct of research about the well-being of children. Identifying information may be needed so that the Welsh Ministers can match data received from a number of sources, and can then assess the data more meaningfully. For example, children's educational attainment data may sometimes include identifying information such as pupil reference numbers. The Welsh Ministers, in the context of developing policy and practice relating to the well-being of children, may wish to consider the educational attainment of certain cohorts of children, such as looked after children. Information about children may also be used to inform the Wales Children in Need Census. Details of individual children are not included in such reports and their data is processed securely by the Welsh Ministers in accordance with the Data Protection Act 1998.
461. The Welsh Ministers must lay a summary of the information provided to them under this section in an annual report to the National Assembly for Wales, but that summary must not contain any information that identifies a child or that allows a child to be identified.

Section 185 - Adults in prison, youth detention accommodation or bail accommodation etc

462. Section 185 makes provision as to the ordinary residence, for the purposes of this Act, of adults detained in prison or in youth detention accommodation or who are required to reside at "approved premises" or at other premises as a result of a condition of bail in criminal proceedings. These adults are to be treated for the purposes of this Act as ordinarily resident in the local authority area in which they are detained or required to reside.
463. This means that it is the local authority in whose area the prison, youth detention accommodation, approved premises or other premises are located that will be responsible for undertaking assessments and for providing care and support to meet eligible needs for the adults detained or required to reside there. An adult's previous ordinary residence will not be a consideration.
464. If, therefore, it appears to a local authority that an adult in prison, in youth detention accommodation or resident in approved premises or other premises in its area may have needs for care and support, the duty to undertake an assessment in accordance with section 19 will apply. Where such an adult has needs which satisfy the eligibility criteria, there may be a duty to meet those needs.

464. Felly, os ymddengys i awdurdod lleol fod ar oedolyn sydd mewn carchar, mewn llety cadw ieuenctid, neu sy'n preswyllo mewn mangre a gymeradwywyd neu mewn llety arall yn yr ardal, anghenion am ofal a chymorth, bydd y ddyletswydd i gynnal asesiad yn unol ag adran 19 yn gymwys. Pan fo ar oedolyn o'r fath anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyso, caniateir dyletswydd i ddiwallu'r anghenion hynny.
465. Mae'r adran hon ac adran 187 yn datgymhwyso darpariaethau penodol o'r Ddeddf hon mewn perthynas ag oedolyn sydd wedi ei gadw'n gaeth mewn carchar neu mewn llety cadw ieuenctid neu y mae'n ofynnol iddo fyw mewn mangre a gymeradwywyd. Os nad yw darpariaeth wedi ei datgymhwyso neu ei haddasu, bydd yn gymwys yn un ffordd ag y mae i unrhyw oedolyn arall sy'n preswyllo yn ardal yr awdurdod lleol. Er enghraifft bydd y trefniadau o ran codi ffioedd am ofal a chymorth i oedolion sydd wedi eu cadw'n gaeth yr un peth ag ar gyfer oedolion eraill sy'n preswyllo yn yr ardal.
466. Mae is-adrannau (4), (5) a (6) yn nodi'r adrannau sydd wedi eu datgymhwyso mewn perthynas ag oedolion sydd wedi eu cadw'n gaeth mewn carchar neu mewn llety cadw ieuenctid neu sy'n preswyllo mewn mangre a gymeradwywyd.
467. Mae is-adran (7) yn cyfeirio at adran 187 sy'n cynnwys addasiadau pellach i ddarpariaethau'r Ddeddf hon i blant ac oedolion sydd wedi eu cadw'n gaeth neu'n preswyllo mewn mangre a gymeradwywyd.
468. Mae'r termau "llety cadw ieuenctid", "mangre a gymeradwywyd" a "mechnïaeth mewn achos troseddol" wedi eu diffinio yn adran 188.

Adran 186 – Plant mewn llety cadw ieuenctid, carchar neu lety mechnïaeth etc

469. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phlant sydd wedi eu cadw'n gaeth mewn llety cadw ieuenctid neu mewn carchar, neu y mae'n ofynnol iddynt breswyllo mewn "mangre a gymeradwywyd" neu mewn mangre arall o ganlyniad i amod o roi mechnïaeth mewn achos troseddol. Yn aml, bydd gan blant o'r fath berthynas sefydledig â'u hawdurdod lleol, felly er mwyn sicrhau parhad y gofal, yr awdurdod lleol hwnnw fydd yn gyfrifol yn gyffredinol am gynnal unrhyw asesiadau, diwallu unrhyw anghenion, etc sy'n ofynnol o dan y Ddeddf hon (sy'n wahanol i'r sefyllfa ar gyfer oedolion sydd wedi eu cadw'n gaeth mewn llety cadw ieuenctid neu mewn carchar, neu y mae'n ofynnol iddynt breswyllo mewn mangre a gymeradwywyd neu mewn mangre arall o ganlyniad i amod o roi mechnïaeth mewn achos troseddol).
470. Caiff plentyn dderbyn gofal gan awdurdod lleol yn unol â gorchymyn a wnaed o dan Ddeddf Plant 1989 (adran 31) neu, yn union cyn iddo gael ei gollfarnu o drosedd, gall fod wedi bod yn cael gwasanaethau gan awdurdod lleol o dan Ran 4 o'r Ddeddf hon. Mae'r ddarpariaeth a wneir gan yr adran hon yn cydnabod cyfrifoldebau parhaus yr awdurdod lleol y mae'r plentyn yn preswyllo fel arfer yn ei ardal (p'un ai o dan y Ddeddf hon, neu o dan Ddeddf Plant 1989).

465. This section and section 187 disapply certain provisions of this Act in relation to an adult who is detained in prison or in youth detention accommodation or who is required to live in approved premises. If a provision is not disapplied or modified, it will apply in the same way as to any other adult resident in the local authority's area. For example, charging arrangements for care and support for adults who are detained will be the same as for other adults resident in the area.
466. Subsections (4), (5) and (6) set out the sections which are disapplied in relation to adults who are detained in prison or youth detention accommodation or who are residing in approved premises.
467. Subsection (7) contains a signpost to section 187 which contains further modifications of the provisions of this Act to both children and adults who are detained or residing in approved premises.
468. The terms "approved premises", "bail in criminal proceedings", "prison" and "youth detention accommodation" are defined in section 188.

Section 186 - Children in youth detention accommodation, prison or bail accommodation etc

469. This section makes provision in relation to children who are detained in youth detention accommodation or in prison, or who are required to reside at "approved premises" or at other premises as a result of a condition of bail in criminal proceedings. Such children will often have an established relationship with their local authority, so in order to ensure continuity of care, that local authority will generally be responsible for carrying out any assessments, meeting any needs, etc. required under this Act (unlike the position for adults who are detained in youth detention accommodation or in prison, or who are required to reside at approved premises or at other premises as a result of a condition of bail in criminal proceedings).
470. A child may be looked after by a local authority in accordance with an order made under the Children Act 1989 (section 31) or immediately before being convicted may have been receiving services from a local authority under Part 4 of this Act. The provision made by this section recognises the continuing responsibilities of the local authority in which such a child is ordinarily resident (whether under this Act, or under the Children Act 1989).

471. Fodd bynnag, yn achos plentyn sydd wedi ei gadw'n gaeth mewn llety cadw ieuentid neu mewn carchar yng Nghymru, neu y mae'n ofynnol iddo breswyllo mewn mangre a gymeradwywyd neu mewn mangre arall o ganlyniad i amod o roi mechniaeth mewn achos troseddol, ac:
- a) nad yw'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, a
 - b) nad oes darpariaeth benodol wedi ei gwneud ar ei gyfer yn y darpariaethau hyn (neu o fewn adrannau 21, 37 a 38).
- yr awdurdod lleol y mae'r plentyn wedi ei gadw'n gaeth yn ei ardal neu y mae'n ofynnol iddo breswyllo yno sydd o dan ddyletswydd i gynnal unrhyw asesiad sy'n ofynnol gan y Ddeddf hon, i ddiwallu unrhyw anghenion etc.
472. Mae plentyn sydd wedi ei gadw'n gaeth mewn llety cadw ieuentid neu mewn carchar neu y mae'n ofynnol iddo breswyllo mewn mangre a gymeradwywyd neu mewn mangre arall, wedi ei ddiffinio fel "plentyn perthnasol" gan is-adran (1).
473. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn glir, os yw plentyn perthnasol wedi bod yn cael gwasanaethau gan yr awdurdod lleol sy'n gartref iddo o dan Ran 4 o'r Ddeddf hon, neu ei fod yn blentyn sy'n derbyn gofal neu sy'n preswyllo fel arfer mewn awdurdod lleol yng Nghymru, yna y bydd yn cael ei drin fe pe bai o fewn ardal yr awdurdod lleol sy'n gartref iddo. Yr awdurdod lleol lle y mae ei gartref fydd yn gyfrifol am gynnal unrhyw asesiad o anghenion o dan y Ddeddf hon, am ddiwallu anghenion etc.
474. Mae is-adrannau (3) a (4) yn datgymhwyso rhai o ddarpariaethau'r Ddeddf hon mewn cysylltiad â phlentyn sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn llety cadw ieuentid neu mewn carchar neu y mae'n ofynnol iddo breswyllo mewn mangre a gymeradwywyd. Mae angen gwneud hyn er mwyn sicrhau bod y cydbwysedd o ran bod yn gyfrifol am blentyn o'r fath yn cael ei addasu er mwyn rhoi ystyriaeth i'r ffaith bod y plentyn yn cael ei gadw'n gaeth neu i'r gofyniad preswyllo. Er enghraifft, mae adran 81 (Y ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya a'u cynnal) wedi ei datgymhwyso oherwydd y bydd llety yn cael ei ddarparu i blentyn perthnasol.
475. Mae is-adran (5) yn datgymhwyso adran 119 (Defnyddio llety i gyfyngu ar ryddid) mewn perthynas â phlant sydd wedi eu collfarnu o drosedd ac wedi ei gadw'n gaeth mewn llety cadw ieuentid neu mewn carchar neu y mae'n ofynnol iddo breswyllo mewn mangre a gymeradwywyd, neu sydd wedi ei remandio i lety cadw ieuentid yn unol ag adran 91 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.
476. Mae is-adrannau (6) a (7) yn cynnwys darpariaeth ynghylch plentyn sydd wedi ei gadw'n gaeth mewn llety cadw ieuentid neu mewn carchar neu y mae'n ofynnol iddo breswyllo mewn mangre a gymeradwywyd ac yr oedd llety'n cael ei ddarparu iddo gan awdurdod lleol yn Lloegr yn unol ag adran 20 o Ddeddf Plant 1989 yn union cyn iddo gael ei gollfarnu. Bydd yr awdurdod lleol yn Lloegr a ddarparodd lety o'r fath i'r plentyn yn parhau yn gyfrifol am y plentyn yn unol ag adran 23ZA o Ddeddf Plant 1989 a rheoliadau a wnaed o dan yr adran honno. Yn unol â hynny, os bydd angen gofal a chymorth ar blentyn o'r fath pan fydd yn cael ei gadw'n gaeth

471. However, in the case of a child who is detained in youth detention accommodation or in prison in Wales, or who is required to reside at approved premises or at other premises as a result of a condition of bail in criminal proceedings in Wales, and:
- a) who is not ordinarily resident in Wales, and
 - b) for whom no specific provision is made within these provisions (or within sections 21, 37 and 38),
- it is the local authority in whose area the child is detained or required to reside that is under a duty to carry out any assessment required by this Act, to meet any needs etc.
472. A child detained in youth detention accommodation or in prison or required to reside in approved premises or other premises is defined as a “relevant child” by subsection (1).
473. Subsection (2) makes it clear that if a relevant child has been receiving services from their home local authority under Part 4 of this Act, or is a looked after child or is ordinarily resident in a local authority in Wales, then he or she will be treated as though they are within the area of their home local authority. It is that home local authority that will be responsible for undertaking any assessment of needs under this Act, for meeting needs etc.
474. Subsections (3) and (4) disapply certain provisions of this Act in respect of a child detained in youth detention accommodation or in prison or required to reside in approved premises. This is necessary to ensure the balance of responsibilities for such a child is adjusted to take account of their detention or the residence requirement. For example, section 81 (Ways in which looked after children are to be accommodated and maintained), is disapplied because a relevant child will be provided with accommodation.
475. Subsection (5) disapplies section 119 (Use of accommodation for restricting liberty) in relation to children who have been convicted of an offence and detained in youth detention accommodation or prison or required to reside in approved premises, or who are remanded to youth detention accommodation in accordance with section 91 of the Legal Aid, Sentencing and Punishment of Offenders Act 2012.
476. Subsections (6) and (7) contain provision about children who are detained in youth detention accommodation or in prison or who are required to reside in approved premises and who were, immediately before conviction, provided with accommodation by a local authority in England in accordance with section 20 of the Children Act 1989. The local authority in England which provided the child with such accommodation will retain responsibility for the child in accordance with section 23ZA of the Children Act 1989 and with the regulations made under that section. Accordingly, if such a child requires care and support whilst detained in youth detention accommodation or in prison or required to reside in approved premises, it will be their “home” local authority who will be responsible for the provision of such care.

mewn llety cadw ieuenctid neu mewn carchar neu pan fydd yn ofynnol iddo breswyllo mewn mangre a gymeradwywyd, yr awdurdod lleol sy'n "gartref" iddo fydd yn gyfrifol am ddarparu gofal o'r fath.

477. Mae is-adran (8) yn cyfeirio at adran 187 sy'n cynnwys addasiadau pellach i ddarpariaethau'r Ddeddf hon i blant ac oedolion sydd wedi eu cadw'n gaeth neu sy'n preswyllo mewn mangre a gymeradwywyd.
478. Mae'r termau "carchar", "llety cadw ieuenctid", "mangre a gymeradwywyd" a "mechniaeth mewn achos troseddol" oll wedi eu diffinio yn adran 188.
479. Bydd plentyn a oedd, yn union cyn ei gollfarnu a'i gadw'n gaeth neu cyn ei bod yn ofynnol iddo breswyllo mewn mangre a gymeradwywyd yng Nghymru, yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yn Lloegr (yn unol ag adran 31 o Ddeddf Plant 1989) yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol a fu'n gofalu amdano ddiwethaf. Mae ei statws fel plentyn sy'n derbyn gofal yn parhau a bydd yr awdurdod lleol yn Lloegr, sef yr awdurdod lleol cyfrifol at ddibenion Deddf Plant 1989, yn parhau i fod yn gyfrifol am unrhyw ofal a chymorth y mae euangen ar y plentyn pan fydd wedi ei gadw'n gaeth mewn llety cadw ieuenctid neu mewn carchar neu pan fydd yn ofynnol iddo breswyllo mewn mangre a gymeradwywyd yng Nghymru.
480. Mae cyfrifoldebau awdurdod lleol sy'n "gartref" i blentyn o'r fath wedi eu nodi yn Neddf Plant 1989 (cymhwyso'r dyfarniad yn achos R. (on the application of the Howard League for Penal Reform) v the Secretary of State for the Home Department and the Department of Health (CO/1806/2002) ("dyfarniad Munby")).
481. Mae rhwymedigaethau a phwerau'r awdurdod lleol yng Nghymru y mae'r carchar, y llety cadw ieuenctid neu'r fangre a gymeradwywyd wedi ei lleoli yn ei ardal, i gynnal asesiad o anghenion, neu i ddarparu gofal a chymorth, i blant o'r fath, wedi eu datgymhwyso gan adrannau 21(8), 37(6) a 38(4) o'r Ddeddf hon.

Adran 187 – Personau mewn carchar, llety cadw ieuenctid neu llety mechniaeth etc

482. Mae adran 187 yn datgymhwyso rhai darpariaethau o'r Ddeddf i bersonau sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn carchar, llety cadw ieuenctid neu, ar ôl cael eu collfarnu o drosedd, y mae rhaid iddynt breswyllo mewn "mangre a gymeradwywyd". Mae'r darpariaethau sydd wedi eu datgymhwyso gan yr adran hon wedi eu datgymhwyso mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.
483. Mae is-adran (1) yn atal person o'r fath rhag bod yn ofalwr at ddibenion y Ddeddf hon.
484. Mae is-adran (2) yn atal person o'r fath rhag cael taliad uniongyrchol yn unol â rheoliadau a wneir o dan adrannau 50 a 51 tuag at gostau diwallu anghenion cymwys y person hwnnw am ofal a chymorth.
485. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn glir na chaiff person o'r fath mynegi ei fod yn ffafrio llety penodol (yn unol ag adran 57) ac eithrio pan fo person o'r fath yn cael ei ryddhau.

477. Subsection (8) contains a signpost to section 187 which contains further modifications of the provisions of this Act to both children and adults who are detained or residing in approved premises.
478. The terms “approved premises”, “bail in criminal proceedings”, “prison” and “youth detention accommodation” are all defined in section 188.
479. A child who, immediately before conviction and detention or being required to reside in approved premises in Wales, was being looked after by a local authority in England (in accordance with section 31 of the Children Act 1989) will remain the responsibility of the local authority that last looked after them. Their looked after status continues and the local authority in England, which is the responsible local authority for the purposes of the Children Act 1989, will continue to be responsible for any care and support the child requires whilst detained in youth detention accommodation or in prison or required to reside in approved premises in Wales.
480. The responsibilities of such a child’s “home” local authority are set out in the Children Act 1989 (applying the judgement in the case of *R. (on the application of the Howard League for Penal Reform) v the Secretary of State for the Home Department and the Department of Health (CO/1806/2002)* (the “Munby judgement”).
481. The obligations and powers of the local authority in Wales in whose area the prison, youth detention accommodation or approved premises are located, to undertake an assessment of needs, or to provide care and support, to such children are disapplied by sections 21(8), 37(6) and 38(4) of this Act.

Section 187 - Persons in prison, youth detention accommodation or bail accommodation

482. Section 187 disapplies certain provisions of the Act to persons detained in prison, youth detention accommodation or who are, having been convicted of an offence, required to reside in “approved premises”. The provisions which are disapplied by this section are disapplied in relation to both children and adults.
483. Subsection (1) prevents such a person being a carer for the purposes of this Act.
484. Subsection (2) prevents such a person receiving a direct payment in accordance with regulations made under sections 50 and 51 towards the costs of meeting that person’s eligible needs for care and support.
485. Subsection (3) makes clear that such persons may not express a preference for particular accommodation (in accordance with section 57) except where such a person is being released.

486. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn glir nad yw dyletswydd awdurdod lleol i ddiogelu eiddo person (yn unol ag adran 58) yn gymwys i berson sydd mewn carchar, mewn llety cadw ieuenctid neu sy'n preswyllo mewn mangre a gymeradwywyd.

Adran 188 – Dehongli adrannau 185 i 187

487. Mae adran 188 yn adran ddehongli sy'n diffinio termau perthnasol a ddefnyddir yn adrannau 185 i 187.
488. Mae is-adran (2) yn darparu, os yw person yn absennol dros dro o garchar, llety cadw ieuenctid, mangre a gymeradwywyd neu fangre arall, y tybir ei fod yn cael ei gadw'n gaeth neu'n ddarostyngedig i ofyniad preswyllo am y cyfnod hwn. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, os bydd person yn absennol dros dro o'r man lle y'i cedwir yn gaeth i gael triniaeth mewn ysbyty yn ardal awdurdod lleol arall, ni fydd hynny'n effeithio ar yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gofal a chymorth iddo.

Adran 189 – Methiant darparwr: dyletswydd dros dro ar awdurdod lleol

489. Mae adran 189 yn gosod dyletswydd newydd ar awdurdod lleol yng Nghymru i gymryd camau os bydd person sydd wedi ei gofrestru o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 ("person cofrestredig") yn methu â darparu'r llety neu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu fel arfer o fewn ardal yr awdurdod lleol oherwydd methiant busnes.
490. Yn amgylchiadau o'r fath, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd dros dro i ddiwallu anghenion oedolion yr oedd y person cofrestredig yn darparu llety neu wasanaethau ar eu cyfer. Mae'r ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau o'r fath ond yn para am ba hyd bynnag y mae'r awdurdod lleol yn ei ystyried yn angenrheidiol.
491. Mae is-adrannau (4) i (7) yn cynnwys darpariaeth ynghylch gallu'r awdurdod o godi ffi neu i adennill costau oddi wrth awdurdod lleol arall am ddarparu gwasanaethau a ddarperir o ganlyniad i ddyletswydd dros dro a osodir gan is-adran (2).
492. Mae is-adran (8) yn gwneud darpariaeth ynghylch sut i ddatrys anghydfodau ynghylch cymhwyso'r adran hon. Mae'r weithdrefn y cyfeirir ati yn yr is-adran hon ond yn gymwys pan fo'r awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â'r anghydfod yng Nghymru. Mae unrhyw anghydfod sy'n cynnwys awdurdod lleol neu Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r tu allan i Gymru i'w drin yn unol â'r gofynion a nodir yn Rhan 1 o Ddeddf Gofal 2014 ac Atodlen 1 iddi.
493. Mae Rhan 1 o Ddeddf Gofal 2014 hefyd yn gosod dyletswydd dros dro ar awdurdod lleol yng Nghymru i gymryd camau i ddiwallu anghenion oedolion am ofal a chymorth (neu gymorth) os bydd person cofrestredig yn methu â darparu llety neu wasanaethau eraill o ganlyniad i fethiant busnes, pan fo'r oedolion hynny wedi eu lleoli yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru gan:
- a) awdurdod lleol yn Lloegr;
 - b) awdurdod lleol yn yr Alban;
 - c) Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon.

486. Subsection (4) makes clear that a local authority's duty to protect a person's property (in accordance with section 58) does not apply to people in prison, youth detention accommodation or resident in approved premises.

Section 188 – Interpretation of sections 185 to 187

487. Section 188 is an interpretation section which defines relevant terms used in sections 185 to 187.
488. Subsection (2) provides that if a person is temporarily absent from prison, youth detention accommodation, approved premises or other premises they are deemed to be detained or subject to a residence requirement for this period of time. This means, for example, that if a person is temporarily away from their place of detention in order to receive treatment at a hospital in another local authority area, the local authority which is responsible for the provision of their care and support will not be affected.

Section 189 – Provider failure: temporary duty on local authority

489. Section 189 imposes a new duty on a local authority in Wales to take action in the event that a person registered under the Care Standards Act 2000 (a "registered person") becomes unable to provide the accommodation or services that it normally provides within the area of the local authority as a result of business failure.
490. In such circumstances, the local authority has a temporary duty to meet the needs of the adults for whom the registered person was providing accommodation or services. The duty to provide such services lasts only for as long as the local authority considers it necessary.
491. Subsections (4) to (7) contain provision about the authority's ability to charge or recover costs from another local authority for the provision of services provided as a result of the temporary duty imposed by subsection (2).
492. Subsection (8) makes provision about how disputes regarding application of this section should be resolved. The procedure referred to in this subsection applies only where the local authorities involved in the dispute are within Wales. Any dispute which involves a local authority or Health and Social Care Trust from outside Wales will be dealt with in accordance with the requirements set out in Part 1 of and Schedule 1 to the Care Act 2014.
493. Part 1 of the Care Act 2014 also places a temporary duty on a local authority in Wales to take action to meet adults' needs for care and support (or support) in the event that a registered person becomes unable to provide accommodation or other services as a result of business failure, where those adults have been placed in the area of a Welsh local authority by:
- a) a local authority in England;
 - b) a local authority in Scotland;
 - c) a Health and Social Care Trust in Northern Ireland.

494. Yn unol â hynny, bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael eu gosod o dan yr un ddyletswydd dros dro mewn perthynas â phersonau yn eu hardaloedd sydd mewn llety neu sy'n derbyn gwasanaethau a drefnwyd gan (neu o ganlyniad i daliad uniongyrchol a ddarparwyd gan) awdurdodau lleol yn Lloegr neu'r Alban neu gan Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon.
495. Mae Deddf Gofal 2014 hefyd yn cynnwys darpariaethau i ymdrin ag anghydfodau ynghylch lleoliadau ar draws ffiniau.
496. Mae'r dyletswyddau dros dro a osodir gan y Ddeddf hon (a chan Ddeddf 2014) os bydd methiant busnes ond yn gymwys mewn perthynas â gwasanaethau neu lety a ddarperir ar gyfer oedolion. Mae nifer o gamau diogelu statudol eisoes yn bodoli yn achos methiant darparwr sy'n diwallu anghenion plant am ofal a chymorth (neu gymorth) drwy ddarparu gwasanaethau neu lety (er enghraifft gwneir darpariaeth o dan Ddeddf Plant 1989 ac mewn is-ddeddfwriaeth sy'n nodi'r gofynion am barhad yn y ddarpariaeth o ofal a lleoliadau gofal).

Adran 190 – Methiant darparwr: eithriad i'r ddyletswydd dros dro

497. Mae adran 190 yn nodi'r eithriadau i'r ddyletswydd dros dro a osodir gan adran 189. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU i sefydlu dull cydlynol o ddiogelu pobl sy'n agored i niwed yn achos methiant busnes. Mae adran 190 yn egluro nad yw'n ofynnol i awdurdod lleol ddiwallu anghenion fel y'u hamlinellir yn adran 189 cyn i'r methiant busnes gael ei ganfod.

Adran 191 – Methiant darparwr: atodol

498. Mae adran 191 yn darparu ar gyfer materion ychwanegol mewn perthynas â'r ddyletswydd newydd yn adran 189. Yn benodol, mae is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau at ddibenion yr adran hon ac adran 189 i bennu ystyr "methiant busnes" neu "methu â gwneud rhywbeth oherwydd methiant busnes".

Adran 192 – Diwygio Deddf Cymorth Gwladol 1948

499. Mae adran 192 yn darparu ar gyfer diwygio adran 49 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948. Mae adran 49 o Ddeddf 1948 yn gymwys pan fo swyddog i'r awdurdod lleol wedi ei benodi yn ddirprwy gan y Llys Gwarchod. Mae'n darparu pŵer penodol i'r awdurdod lleol i dalu'r treuliau a dynnwyd gan y swyddog mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau fel dirprwy. Effaith y diwygiad yw na fydd yn pŵer penodol hwn yn gymwys i awdurdod lleol yng Nghymru. Bydd awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n dymuno talu treuliau dirprwy a benodwyd gan Lys yn gallu dibynnu ar eu pwerau cyffredinol o dan adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Adran 193 – Adennill costau rhwng awdurdodau lleol

500. Mae adran 193 yn casglu ynghyd y trefniadau ar gyfer adennill costau rhwng awdurdodau lleol sydd i'w cael ar hyn o bryd yn adran 32 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 (mewn perthynas ag oedolion) ac adran 29 o Ddeddf Plant 1989 (mewn perthynas â phlant).
501. Mae'n nodi'r amgylchiadau pan fo awdurdod lleol sy'n darparu gofal a chymorth i berson nad yw'n preswyllo fel arfer yn ei ardal yn gallu adennill costau gwneud hynny oddi wrth yr awdurdod lleol lle y mae'r person yn preswyllo fel arfer.

*These notes refer to the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4)
which received Royal Assent on 1 May 2014*

494. Accordingly, local authorities in Wales will be placed under the same temporary duty in respect of persons within their area who are in accommodation or receiving services arranged by (or as a result of a direct payment provided by) local authorities in England or Scotland or by a Health and Social Care Trust in Northern Ireland.
495. The Care Act 2014 also contains provisions to deal with disputes about such cross-border placements.
496. The temporary duties imposed in the event of a business failure by this Act (and by the Care Act 2014) only apply in relation to services or accommodation provided for adults. A number of statutory safeguards are already in existence in the event of the failure of a provider which is meeting a child's needs for care and support (or support) by providing services or accommodation (for example provision is made under the Children Act 1989 and in secondary legislation which sets out the requirements for continuity in the provision of care and care settings).

Section 190 – Provider failure: exception to temporary duty

497. Section 190 sets out the exceptions to the temporary duty imposed by section 189. The Welsh Government is working with other UK administrations to establish a coherent approach to safeguarding vulnerable people in the event of business failure. Section 190 makes it clear that a local authority is not required to meet needs as outlined in section 189 prior to business failure being established.

Section 191 – Provider failure: supplementary

498. Section 191 provides for additional matters in relation to the new duty at section 189. In particular, subsection (7) requires the Welsh Ministers to make regulations for the purposes of this section and section 189 to specify what is meant by “business failure” and “being unable to do something because of business failure”.

Section 192 – Amendment of the National Assistance Act 1948

499. Section 192 provides for an amendment to section 49 of the National Assistance Act 1948. Section 49 of the 1948 Act applies where an officer of the local authority is appointed by the Court of Protection as a deputy. It provides a specific power for the local authority to pay the expenses incurred by the officer in connection with the exercise of their functions as a deputy. The effect of the amendment will be that this specific power will not apply to a local authority in Wales. Local authorities in Wales who wish to pay the expenses of a Court appointed deputy will be able to rely on their general powers under section 2 of the Local Government Act 2000.

Section 193 – Recovery of costs between local authorities

500. Section 193 brings together the arrangements for the recovery of costs between local authorities which are currently found in section 32 of the National Assistance Act 1948 (in relation to adults) and section 29 of the Children Act 1989 (in relation to children).
501. It sets out the circumstances in which a local authority providing care and support to a person who is not ordinarily resident in its area is able to recover the costs of doing so from the local authority in which the person is ordinarily resident.

502. Mae'r adran hon yn nodi'r amgylchiadau pan fo awdurdod lleol yn gallu adennill costau a dynnwyd wrth gydymffurfio â chais a wneir o dan adran 164 am ei gydweithrediad neu am wybodaeth.
503. Mae'r adran hefyd yn nodi'r amgylchiadau pan fo hawl gan yr awdurdod lleol sy'n darparu llety ar gyfer plentyn sy'n preswyllo fel arfer yn ardal awdurdod lleol arall i adennill y costau oddi wrth awdurdod lleol arall hwnnw.

Adran 194 – Preswylfa arferol

504. Mae is-adran (1) yn nodi pryd y mae oedolyn i'w drin fel pe bai'n preswyllo fel arfer, os yw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddiwallu ei anghenion am ofal a chymorth yn gwneud trefniadau i'r oedolyn fyw mewn llety o fath penodol. O ganlyniad i'r trefniadau hyn, mae'n bosibl y bydd yr oedolyn yn symud i ardal arall. Yn y sefyllfa hon, effaith y ddarpariaeth hon yw y caiff yr oedolyn ei drin, at ddibenion y Ddeddf hon, fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol a wnaeth y trefniadau (ac nid yn yr ardal y mae wedi symud iddi).
505. Pan fo trefniadau wedi eu gwneud i'r oedolyn gael ei letya yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, bydd y darpariaethau yn Atodlen 1 i Ddeddf Gofal 2014 yn gymwys, os yw'r darpariaethau hynny wedi cychwyn cyn yr adran hon. Os nad ydynt, bydd adran 24 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â lleoliadau yn Lloegr yn unig, ac effaith hynny yw y bydd awdurdod lleol yng Nghymru yn parhau'n gyfrifol am oedolion sydd wedi eu lleoli mewn cartref gofal yn Lloegr.
506. Caiff rheoliadau bennu'r mathau o lety y mae is-adran (1) yn gymwys iddynt a chânt wneud darpariaeth ynghylch a oes ar oedolyn angen am fath penodol o lety. Er enghraifft, gellid gwneud darpariaeth mewn rheoliadau i'r darpariaethau yn is-adran (1) fod yn gymwys os yw'r oedolyn wedi ei leoli mewn cartref gofal yn unig.
507. Mae is-adran (4) yn gymwys i oedolion a phlant. Os yw person yn cael ei dderbyn i'r ysbyty neu unrhyw lety arall a ddarperir o dan ddeddfiad iechyd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, mae'r person hwnnw i'w drin at ddibenion y Ddeddf hon fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn yr ardal lle'r oedd yn preswyllo fel arfer cyn iddo gael ei dderbyn. Mae hyn yn golygu y bydd yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal honno yn parhau i fod yn gyfrifol am ddiwallu anghenion y person am ofal a chymorth. Gwneir darpariaeth hefyd ar gyfer beth fydd yn digwydd os oedd y person heb breswylfa sefydlog cyn i'r llety gael ei ddarparu.
508. Mae is-adran (6) yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phreswylfa arferol plentyn. Effaith y ddarpariaeth hon yw y caiff preswylfa arferol y plentyn ei ddyfarnu heb roi unrhyw sylw i unrhyw gyfnodau pan oedd y plentyn yn byw mewn mathau penodol o fannau, gan gynnwys ysgolion a llety awdurdod lleol. Er enghraifft, pan fo awdurdod lleol yn gwneud trefniadau i blentyn gael ei letya y tu allan i'w ardal, ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar statws preswyllo arferol y plentyn.
509. Mae'r ddarpariaeth a wneir gan yr adran hon yn seiliedig ar ddarpariaeth a wnaed yn adran 24 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ac adran 105 o Ddeddf Plant 1989.

- 502. The section sets out the circumstances in which a local authority can recover expenses incurred in complying with a request for its cooperation or for information made under section 164.
- 503. The section also sets out the circumstances in which a local authority which is providing accommodation for a child who is ordinarily resident in the area of another local authority is entitled to recover the costs from that other local authority.

Section 194 – Ordinary residence

- 504. Subsection (1) sets out where an adult is to be treated as ordinarily resident, if the local authority which is responsible for meeting their needs for care and support makes arrangements for the adult to live in accommodation of a particular type. As a consequence of these arrangements, the adult may move to another area. In this situation, the effect of this provision is that the adult will be treated, for the purposes of this Act, as being ordinarily resident in the area of the local authority which made the arrangements (and not in the area to which they move).
- 505. Where arrangements are made for the adult to be accommodated in England, Scotland or Northern Ireland, the provisions in Schedule 1 to the Care Act 2014 will apply, if those provisions are commenced before this section. If not, section 24 of the National Assistance Act 1948 will continue to apply in relation to placements in England only, the effect of which is that a local authority in Wales will retain responsibility for adults who are placed in a care home in England.
- 506. Regulations may specify the types of accommodation to which subsection (1) applies and may make provision about whether an adult has a need for a particular type of accommodation. For example, provision could be made in regulations for the provisions in subsection (1) to apply only where the adult is accommodated in a care home.
- 507. Subsection (4) applies to both adults and children. If a person is admitted to hospital or any other accommodation provided under a health enactment in Wales, England, Scotland or Northern Ireland, that person is to be treated for the purposes of this Act as ordinarily resident in the area in which he or she was ordinarily resident before admission. This means that the local authority for that area will continue to be responsible for meeting the person's needs for care and support. Provision is also made for what happens if the person was of no settled residence before the accommodation was provided.
- 508. Subsection (6) makes provision in relation to a child's ordinary residence. The effect of this provision is that the child's ordinary residence is determined without having regard to any periods in which the child was living in certain types of places, including schools and local authority accommodation. For example, where a local authority makes arrangements for a child to be accommodated outside its area, this will have no effect on the child's ordinary residence status.
- 509. The provision made by this section is based on provision which is made in section 24 of the National Assistance Act 1948 and section 105 of the Children Act 1989.

Adran 195 - Anghydfodau ynghylch preswylfa arferol a hygludedd gofal a chymorth

510. Mae adran 195 yn darparu i Weinidogion Cymru neu berson a benodir ganddynt ddatrys anghydfodau ynghylch ble y mae person yn preswyl fel arfer yng Nghymru ac ynghylch cymhwyso adran 56 (Hygludedd gofal a chymorth) i berson. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach, er enghraifft, i sicrhau bod anghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu tra bo'r anghydfod yn cael ei ddatrys, ac i nodi'r weithdrefn ar gyfer atgyfeirio'r anghydfod at Weinidogion Cymru neu berson penodedig (gan gynnwys y camau y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol eu cymryd cyn y gwneir atgyfeiriad). Mae'r adran hon yn deillio o ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud yn adran 32 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ac adran 30 o Ddeddf Plant 1989.

Adran 196 - Gorchmynion a rheoliadau

511. Mae adran 196 yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â gwneud gorchmynion a rheoliadau o dan y Ddeddf hon, gan gynnwys gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer eu gwneud.

Adran 197 - Dehongli cyffredinol a mynegai o ymadroddion a ddiffiniwyd

512. Mae'r adran hon yn cynnwys diffiniad o'r termau a ddefnyddir yn y Ddeddf hon a mynegai o dermau a ddiffinnir mewn darpariaethau eraill yn y Ddeddf.

Adran 198 - Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc

513. Mae adran 198 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth atodol, cysylltiedig neu ganlyniadol neu sy'n gwneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed, er mwyn rhoi effaith lawn i ddarpariaeth yn y Ddeddf neu o ganlyniad i ddarpariaeth yn y Ddeddf.

514. Gellir defnyddio'r pŵer hwn, er enghraifft, i ddiddymu darpariaethau am wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru sy'n cael eu disodli gan ddarpariaeth yn y Ddeddf hon, ac i wneud unrhyw ddiwygiadau canlyniadol sy'n deillio o ddiddymiad o'r fath.

Atodlen 1 - Cyfraniadau tuag at gynhaliath plant sy'n derbyn gofal

515. Mae Atodlen 1 (a gyflwynir gan adran 85) yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff awdurdod lleol adennill cyfraniadau gan oedolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn sy'n derbyn gofal tuag at y gost o gynnal y plentyn hwnnw. Nid yw oedolyn a all fod fel arall yn atebol i wneud cyfraniad yn atebol i gyfrannu os yw'n derbyn unrhyw fudd-dal, lwfans neu daliad arall (caiff disgrifiadau o fudd-daliadau, lwfansau neu daliad o'r fath gael eu pennu mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru).

516. Nid oes unrhyw atebolrwydd i gyfrannu at gynhaliath plentyn sy'n derbyn gofal pan fo'r plentyn yn byw gyda rhiant (ar ôl cael ei leoli yno yn unol â threfniadau a wneir o dan adran 81).

Section 195 - Disputes about ordinary residence and portability of care and support

510. Section 195 provides for the Welsh Ministers or a person appointed by them to settle disputes about where a person is ordinarily resident in Wales and about the application of section 56 (Portability of care and support) to a person. Regulations may make further provision, for example, to ensure that care and support needs are met while the dispute is being resolved, and to set out the procedure for referring the dispute to the Welsh Ministers or appointed person (including the steps the local authorities are required to take before a referral is made). This section derives from provision which is made in section 32 of the National Assistance Act 1948 and section 30 of the Children Act 1989.

Section 196 - Orders and regulations

511. Section 196 makes further provision in relation to the making of orders and regulations under this Act, including the National Assembly for Wales procedure for their making.

Section 197 - General interpretation and index of defined expressions

512. This section contains definitions of terms used in the Act and an index of terms defined in other provisions of the Act.

Section 198 - Power to make consequential and transitional provision etc

513. Section 198 enables the Welsh Ministers to make regulations which make supplementary, incidental or consequential provision or which make transitional or savings provision, in order to give full effect to a provision of the Act or as a consequence of a provision of the Act.
514. This power can be used, for example, to repeal provisions about social services in Wales that are being replaced by provision in this Act, and to make any consequential amendments arising from such repeal.

Schedule 1 - Contributions towards maintenance of looked after children

515. Schedule 1 (which is introduced by section 85) sets out the circumstances in which a local authority may recover contributions towards the cost of maintaining a looked after child from an adult with parental responsibility for that child. An adult who may otherwise be liable to make a contribution is not liable to contribute if he or she is in receipt of any benefit, allowance or other payment (descriptions of such benefits, allowances or payment may be specified in regulations made by the Welsh Ministers).
516. There is also no liability to contribute to the maintenance of a looked after child where the child is living with a parent (having been placed there in accordance with arrangements made under section 81).

517. Rhaid nodi unrhyw gyfraniadau a geisir gan oedolyn yn unol â'r Atodlen hon mewn hysbysiad ysgrifenedig, a rhaid ei gyflwyno i'r unigolyn perthnasol. Rhaid i'r hysbysiad bennu swm y cyfraniad wythnosol y gwneir cais amdano a'r trefniadau ar gyfer talu. Ni chaiff y cyfraniad wythnosol fod uwchlaw'r swm y byddai'r awdurdod lleol yn ei dalu fel arfer i rieni maeth awdurdod lleol i letya plentyn tebyg na'r swm y mae'r awdurdod lleol yn ystyried y byddai'n rhesymol ymarferol i'r oedolyn ei gyfrannu.
518. Caiff hysbysiadau eu cyflwyno yn bersonol drwy eu rhoi i'r oedolyn perthnasol neu eu hanfon drwy'r post wedi eu cofrestru neu eu cofnodi. Caiff oedolyn perthnasol gyflwyno hysbysiad i'r awdurdod lleol i dynnu ei gytundeb i gyfrannu at y gost o gynnal y plentyn yn ôl. Mewn achosion o'r fath, caiff yr awdurdod lleol wneud cais i'r llys am orchymyn cyfrannu. Ni chaiff gorchymynion o'r fath bennu cyfraniad wythnosol sydd uwchlaw'r swm a nodir yn yr hysbysiad cyfrannu a rhaid iddynt roi sylw i fodd yr oedolyn perthnasol.
519. Caiff rheoliadau y caniateir i Weinidogion Cymru eu gwneud (yn unol â'r pŵer ym mharagraff 5 o'r Atodlen) ddarparu ar gyfer yr ystyriaethau y mae rhaid i awdurdodau lleol roi sylw iddynt wrth benderfynu p'un ai i geisio adennill cyfraniadau a pha drefniadau ar gyfer talu a ddylai fod, ac ar gyfer y gweithdrefnau i'w dilyn wrth ddod i gytundeb gyda'r oedolyn perthnasol neu awdurdodau lleol eraill.
520. Mae'r Atodlen yn gwneud darpariaeth bellach o ran dirymu, amrywio a gorfodi gorchymynion cyfrannu.
521. Mae gorchymyn cyfrannu a wnaed gan lys ynadon ar hyn o bryd yn orfodadwy fel gorchymyn cynhaliaeth llys ynadon (yn unol â darpariaeth a wneir gan adran 150(1) o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980) (gweler paragraff 4(1) o'r Atodlen). Ar ôl i adran 17 ac Atodlenni 10 ac 11 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 ("Deddf 2013") gychwyn, bydd awdurdodaeth llysoedd sirol ac ynadon mewn perthynas ag achosion teuluol yn trosglwyddo i'r llys teuluol newydd. Mae paragraff 4(2) yn cadarnhau, ar ôl i'r darpariaethau perthnasol yn Neddf 2013 gychwyn, y bydd is-baragraff (1) o'r Atodlen yn peidio â bod yn gymwys.
522. O ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol a wnaed gan Ddeddf 2013 i sefydlu'r llys teuluol newydd, bydd gorchymyn cyfrannu a wneir o dan yr Atodlen hon yn parhau i fod yn orfodadwy yn unol â Rheolau Achosion Teuluol 2010 ond, ar ôl i'r darpariaethau sy'n effeithio ar drosglwyddo awdurdodiad gychwyn, byddant yn orfodadwy o fewn y llys teuluol newydd (gweler paragraff 91 o Atodlen 10 i Ddeddf 2013, sy'n diwygio Deddf Llysoedd 2003).

Atodlen 2 – Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol

523. Mae Atodlen 2 yn rhestru'r swyddogaethau awdurdod lleol hynny sy'n swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol at ddibenion y Ddeddf hon ac yn rhoi disgrifiad cyffredinol ohonynt. Cyflwynir yr Atodlen gan adran 143 o'r Ddeddf, sydd hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio eitemau yn yr Atodlen hon ac ychwanegu neu ddileu eitemau drwy Orchymyn.

517. Any contributions sought from an adult in accordance with this Schedule must be set out in a written notice, which must be served on the relevant individual. The notice must specify the amount of the weekly contribution which is being sought and the arrangements for payment. The weekly contribution may not exceed the amount the local authority would normally pay local authority foster parents to accommodate a similar child or the amount the local authority considers that it would be reasonably practicable for the adult to contribute.
518. Service of notices may be undertaken by way of personal delivery to the relevant adult or by registered or recorded delivery post. A relevant adult may serve notice on the local authority to withdraw his or her agreement to contribute towards the cost of maintaining the child. In such cases, the local authority may apply to the courts for a contribution order. Such orders may not specify a weekly contribution greater than that which is set out in the contribution notice and must have regard to the relevant adult's means.
519. Regulations which may be made by the Welsh Ministers (in accordance with the power in paragraph 5 of the Schedule) may provide for the considerations which a local authority must take into account when deciding whether to seek to recover contributions and what the arrangements for payment should be, and for the procedures to be followed in reaching agreements with the relevant adult or other local authorities.
520. The Schedule makes further provision for the revocation, variation and enforcement of contribution orders.
521. A contribution order made by a magistrates' court is currently enforceable as a magistrates' court maintenance order (in accordance with provision made by section 150(1) of the Magistrates' Court Act 1980) (see paragraph 4(1) of the Schedule). Upon the commencement of section 17 and Schedules 10 and 11 to the ("the 2013 Act"), the jurisdiction of the county and magistrates' courts in relation to family proceedings will be transferred to the new family court. Paragraph 4(2) confirms that upon the commencement of the relevant provisions of the 2013 Act, sub-paragraph (1) of the Schedule will cease to apply.
522. As a result of legislative changes made by the 2013 Act to establish the new family court, a contribution order made under this Schedule will continue to be enforceable in accordance with the Family Proceedings Rules 2010 but will, upon the commencement of the provisions effecting the transfer of jurisdiction, be enforceable within the new family court (see paragraph 91 of Schedule 10 to the 2013 Act, which amends the Courts Act 2003).

Schedule 2 – Social services functions

523. Schedule 2 lists, and gives a general description of, those functions of a local authority which are social services functions for the purposes of this Act. The Schedule is introduced by section 143 of the Act, which also gives the Welsh Ministers the power to amend entries in this Schedule and to add or remove entries by way of an Order.

Atodlen 3 – Ymchwilio i gwynion ynghylch gofal cymdeithasol a gofal lliniarol a drefnir neu a ariennir yn breifat

524. Mae paragraffau 1 a 2 yn mewnosod Rhan 2A a 2B newydd yn Ndeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ("Deddf 2005").
525. Mae'r adran 34A newydd yn nodi'r tri mater y mae Rhan 2A yn gymwys iddynt: (1) y camau a gymerir gan ddarparwr cartref gofal mewn cysylltiad â darparu llety, gofal nyrsio neu ofal personol mewn cartref gofal yng Nghymru; (2) y camau a gymerir gan ddarparwr gofal cartref mewn cysylltiad â darparu gofal cartref yng Nghymru; a (3) y camau a gymerir gan ddarparwr gofal lliniarol annibynnol mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth gofal lliniarol yng Nghymru. Nid yw Rhan 2A yn gymwys i gwynion y gellir ymdrin â hwy o dan Ran 2 o Ddeddf 2005 nac i faterion a ddisgrifir yn yr Atodlen 3A newydd i Ddeddf 2005. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio Atodlen 3A (materion sydd wedi eu heithrio o ystyriaeth yr Ombwdsmon) drwy orchymyn ond rhaid iddynt ymgynghori â'r Ombwdsmon cyn gwneud hynny. Rhaid i orchymyn o'r fath gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo. Mae'r termau a ddefnyddir yn yr adran hon wedi eu diffinio yn adrannau 34R i 34T.
526. Mae adran 34B yn adlewyrchu'r dull cyffredinol a ddefnyddiwyd yn adran 2 o Ddeddf 2005. Yn rhinwedd adran 34B(1) ni chaiff yr Ombwdsmon ymchwilio i gwyn sy'n ymwneud â mater y mae Rhan 2A o Ddeddf 2005 yn gymwys iddi oni bai:
- a) bod y gwyn wedi ei chyflwyno iddo'n briodol neu wedi ei chyfeirio ato'n briodol; a
 - b) cyn i'r Ombwdsmon ystyried y gwyn, bod y mater wedi cael ei ddwyn i sylw'r darparwr y mae'r gwyn yn ymwneud ag ef. Hefyd, rhaid bod y darparwr wedi cael cyfle rhesymol i ystyried y mater ac ymateb iddo.
527. Yn achos cwynion ynghylch darparwyr gofal lliniarol annibynnol, mae un amod ychwanegol, sef rhaid bod y darparwr gofal lliniarol annibynnol wedi cael arian cyhoeddus o fewn y tair blynedd cyn dyddiad y weithred y mae'r gwyn yn ymwneud â hi. Diffinnir "public funding" yn is-adran (3) a'i ystyr yw arian oddi wrth Weinidogion Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, Ymddiriedolaeth GIG neu gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys arian grant a ddarperir gan Weinidogion Cymru i'r gwasanaeth gofal lliniarol annibynnol.
528. Mae adrannau 34B(4) a 34E yn nodi'r amgylchiadau pan gyflwynir cwyn yn briodol i'r Ombwdsmon. Mae adran 34B(5) ac adran 34F yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff cwyn ei chyfeirio'n briodol at yr Ombwdsmon gan ddarparwr y mae'r gwyn yn ymwneud ag ef. Mae adran 34B(7) yn galluogi'r Ombwdsmon i ymchwilio i gwyn hyd yn oed os nad yw'r gofynion penodol o ran y ffordd y mae cwyn i'w chyflwyno neu ei chyfeirio wedi cael eu bodloni, a hynny os yw'r Ombwdsmon o'r farn ei bod yn rhesymol gwneud hynny. Mae adrannau 34B(8) a (9) yn rhoi disgresiwn eang i'r Ombwdsmon o ran a ddylid dechrau ymchwiliad, parhau ag ymchwiliad neu ei derfynu. Mae adran 34B(10) yn ei gwneud yn glir y caiff yr Ombwdsmon ddechrau ymchwiliad neu barhau ag ef hyd yn oed os yw'r gwyn wedi ei thynnu yn ôl. Gall hyn fod yn briodol, er enghraifft, pan fo'r achwynydd 'arweiniol' wedi gwneud

Schedule 3 – Investigation of complaints about privately arranged or funded social care and palliative care

524. Paragraphs 1 and 2 insert a new Part 2A and 2B into the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 (“the 2005 Act”).
525. New section 34A sets out the three matters to which Part 2A applies: (1) action taken by a care home provider in connection with the provision of accommodation, nursing or personal care in a care home in Wales; (2) action taken by a domiciliary care provider in connection with the provision of domiciliary care in Wales; and (3) action taken by an independent palliative care provider in connection with the provision of a palliative care service in Wales. Part 2A does not apply to complaints which may be dealt with under Part 2 of 2005 Act or to matters described in new Schedule 3A to the 2005 Act. The Welsh Ministers may by order amend Schedule 3A (matters excluded from the Ombudsman’s consideration) but must consult the Ombudsman before doing so. Such an order must be laid before and approved by a resolution of the National Assembly for Wales. The terms used in this section are defined in sections 34R to 34T.
526. Section 34B mirrors the general approach taken in section 2 of the 2005 Act. By virtue of section 34B(1) the Ombudsman may only investigate a complaint relating to a matter to which Part 2A of the 2005 Act applies if:
- a) the complaint has been duly made or referred to him/her; and
 - b) prior to the Ombudsman considering the complaint, the matter must have been brought to the attention of the provider to whom the complaint relates. The provider must also have been given a reasonable opportunity to consider the matter and to respond.
527. In the case of complaints about independent palliative care providers there is an additional condition that the independent palliative care provider must have received public funding within three years preceding the date of the action to which the complaint relates. “Public funding” is defined in subsection (3) and means funding from the Welsh Ministers, a Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006, an NHS Trust or a county council or county borough council in Wales. This could, for example, cover grant funding provided by the Welsh Ministers to the independent palliative care service.
528. Sections 34B(4) and 34E set out the circumstances in which a complaint is duly made to the Ombudsman. Section 34B(5) and section 34F set out the circumstances in which a complaint is duly referred to the Ombudsman by a provider to whom it relates. Section 34B(7) enables the Ombudsman to investigate a complaint even if the specific requirements as to the way a complaint is to be made or referred have not been fulfilled if the Ombudsman considers it reasonable to do so. Sections 34B(8) and (9) provide the Ombudsman with a wide discretion as to whether to begin, continue or discontinue an investigation. Section 34B(10) makes clear that the Ombudsman may begin or continue an investigation even if the complaint has been withdrawn. This may be appropriate, for example, where a ‘lead’ complainant has made a complaint about a provider’s action which has also affected other persons, but has subsequently withdrawn his or her ‘lead’ complaint. In such cases, the Ombudsman may consider it appropriate to begin or to continue an investigation,

cwyn am gamau gan ddarparwr sydd hefyd wedi effeithio ar bersonau eraill, ond y mae wedi tynnu ei gŵyn 'arweiniol' yn ôl. Mewn achosion o'r fath, caiff yr Ombwdsmon ystyried ei bod yn bridol dechrau ymchwiliad neu barhau ag ymchwiliad, er gwaetha'r ffaith bod y gŵyn 'arweiniol' wedi ei thynnu yn ôl, er mwyn diogelu buddiannau'r personau eraill.

529. Mae adran 34C yn adlewyrchu adran 3 o Ddeddf 2005 ac yn rhoi pŵer eang i'r Ombwdsmon i gymryd camau i ddatrys cwynion a wnaed o dan Ran 2A o Ddeddf 2005 heb fynd ymlaen i ymchwiliad ffurfiol. Mae'r pŵer hwn ar gael i'r Ombwdsmon ei ddefnyddio yn lle'r pŵer i ymchwilio o dan y Ran hon neu'n ychwanegol at y pŵer hwnnw.
530. Mae adran 34D yn seiliedig ar adran 4 o Ddeddf 2005. Mae'n rhestru'r personau y caniateir iddynt wneud cwyn i'r Ombwdsmon o dan Ran 2A o Ddeddf 2005. Caiff person wneud cwyn os yw'n aelod o'r cyhoedd (y person a dramgwyddir, sef "the person aggrieved") sy'n honni ei fod wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i gamweinyddu neu fethiant yn y gwasanaeth (yn ôl y digwydd), neu os yw wedi ei awdurdodi i weithredu ar ran person o'r fath neu os ymddengys i'r Ombwdsmon ei bod yn briodol gweithredu ar ran person o'r fath. Fodd bynnag, nid unigolion yn unig sy'n gallu cwyno i'r Ombwdsmon: caiff cwmnïau a sefydliadau gwyno i'r Ombwdsmon hefyd am anghyfiawnder neu galedi y mae aelodau o'r cyhoedd wedi ei ddioddef, ar yr amod bod yr amodau yn is-adran (1) wedi eu bodloni. Mae gan yr Ombwdsmon yr hawl i ddyfarnu a yw gofynion adran 34D wedi eu bodloni mewn achos penodol.
531. Mae adran 34E yn ei gwneud yn ofynnol i gwynion i'r Ombwdsmon gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig (sy'n cynnwys drwy ddulliau electronig). Fodd bynnag, o dan adran 34B(7), caiff yr Ombwdsmon benderfynu derbyn cwyn a gyflwynwyd ar ffurf nad yw'n ysgrifenedig os yw'n credu ei bod yn rhesymol iddo wneud hynny. Er enghraifft, os oes gan y person a dramgwyddir anabledd sy'n ei gwneud yn anodd iddo wneud ei gŵyn ar ffurf ysgrifenedig, mae gan yr Ombwdsmon ddisgresiwn i dderbyn cwyn lafar yn lle hynny.
532. Mae adran 34E(2) yn darparu mai'r terfyn amser (y cyfnod a ganiateir, sef "the permitted period") ar gyfer gwneud cwyn i'r Ombwdsmon yw:
- a) pan fo'r person a dramgwyddir wedi cael ei hysbysu am y mater cyn y dyddiad y daw adran 34B i rym, y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar y dyddiad y daw'r adran i rym; a
 - b) mewn unrhyw achos arall, y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y cafodd y person a dramgwyddir ei hysbysu gyntaf am y mater.
533. Eto, o dan adran 34B(7), mae gan yr Ombwdsmon ddisgresiwn i ystyried cwyn a gyflwynir y tu allan i'r terfyn amser hwnnw os yw'n ystyried ei bod yn rhesymol gwneud hynny o dan amgylchiadau'r achos. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd bŵer i wneud rheoliadau sy'n addasu'r modd y mae Deddf 2005 yn gymwys i gyn-ddarparwyr cartrefi gofal yng Nghymru, cyn-ddarparwyr gofal cartref yng Nghymru a chyn-ddarparwyr gofal lliniarol annibynnol yng Nghymru (gweler y diwygiadau a wneir i adran 42 o Ddeddf 2005 gan baragraff 29 o Atodlen 3A i'r Ddeddf hon). Rhagwelir y caiff y pŵer hwn gael ei ddefnyddio i amrywio, er

despite the withdrawal of the 'lead' complaint, so as to protect the interests of the other persons.

529. Section 34C mirrors section 3 of the 2005 Act and provides the Ombudsman with a wide power to take steps to resolve complaints made under Part 2A of the 2005 Act without proceeding to formal investigation. The power is available to the Ombudsman to use instead of, or in addition to, the power to investigate under this Part.
530. Section 34D is based on section 4 of the 2005 Act. It lists the persons who may make a complaint to the Ombudsman under Part 2A of the 2005 Act. A person may make a complaint if he or she is a member of the public ("the person aggrieved") who claims to have sustained injustice or hardship as a result of maladministration or service failure (as the case may be), or if he or she has been authorised to act on such a person's behalf, or otherwise appears to the Ombudsman to be appropriate to act on such a person's behalf. However, it is not only individuals who can complain to the Ombudsman: companies and organisations can also complain to the Ombudsman about injustice or hardship suffered by members of the public, provided that the conditions in subsection (1) are satisfied. The Ombudsman has the power to decide whether the requirements of section 34D have been met in a particular case.
531. Section 34E requires complaints to the Ombudsman to be made in writing (which includes by electronic means). However, under section 34B(7), the Ombudsman may decide to accept a complaint made otherwise than in writing if he or she thinks it reasonable to do so. For example, if the person aggrieved has a disability which makes it difficult for that person to make his or her complaint in writing, the Ombudsman has discretion to accept an oral complaint instead.
532. Section 34E(2) provides that the time-limit ("the permitted period") for making a complaint to the Ombudsman is:
- a) where the person aggrieved has notice of the matter before the date on which section 34B comes into force, the period of 12 months beginning with the date on which the section comes into force; and
 - b) in any other case, the period of 12 months beginning with the day on which the person aggrieved first had notice of the matter.
533. Again, under section 34B(7), the Ombudsman has discretion to consider a complaint made outside that time limit if he/she considers that in the circumstances of the case it is reasonable to do so. The Welsh Ministers also have a power to make regulations modifying the application of the 2005 Act to former care home providers in Wales, former domiciliary care providers in Wales and former independent palliative care providers in Wales (see the amendments made to section 42 of the 2005 Act by paragraph 29 of Schedule 3 to this Act). It is anticipated this power may be used to vary, for example, the time-limit in respect of which complaints about the actions of such persons must be made to Ombudsman.

- enghraifft, y terfyn amser ar gyfer gwneud cwynion i'r Ombwdsmon ynghylch gweithredoedd personau o'r fath.
534. Yn ddarostyngedig i'r gofynion datganiedig penodol yn Neddf 2005, mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu ar ei weithdrefnau ei hun, ac yn benodol, mae adran 34E(3) yn darparu mai mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu a yw gofynion adran 34E wedi eu bodloni mewn achos penodol.
535. O dan adran 34F gall darparwr gyfeirio cwyn at yr Ombwdsmon a gyflwynwyd i'r darparwr. Fodd bynnag, dim ond os yw'r gwyn wedi ei gwneud i'r darparwr gan berson y byddai hawlogaeth wedi bod ganddo i wneud y gwyn honno'n uniongyrchol i'r Ombwdsmon y caiff y darparwr wneud hynny. Rhaid i'r gwyn fod wedi ei gwneud hefyd i'r darparwr cyn diwedd y cyfnod a ganiateir y cyfeirir ato yn adran 34E(2). Pan fo darparwr yn cyfeirio cwyn at yr Ombwdsmon, rhaid iddi fod yn ysgrifenedig a rhaid iddi gael ei chyfeirio cyn diwedd blwyddyn sy'n dechrau ar y diwrnod y gwnaed y gwyn i'r darparwr. O dan adran 34B(7) caiff yr Ombwdsmon, at ddibenion derbyn cwyn sydd wedi ei chyfeirio, ddiystyru'r naill neu'r llall (neu'r ddau) o'r terfynau amser hynny os yw o'r farn ei bod yn rhesymol iddo wneud hynny.
536. Mae adran 34G yn darparu bod rhaid i'r Ombwdsmon lunio datganiad o resymau mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad y mae'n ei wneud i beidio â dechrau ymchwiliad neu i derfynu ymchwiliad. Caiff penderfyniad o'r fath ei wneud, er enghraifft, pan fo'r Ombwdsmon wedi datrys cwyn drwy ddulliau amgen o dan adran 34C ac felly wedi penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad ffurfiol.
537. O dan adran 34G(2), rhaid i'r Ombwdsmon anfon copi o'r datganiad hwnnw at:
- a) y person a gyflwynodd y gwyn iddo; a
 - b) y darparwr y mae'r gwyn yn ymwneud ag ef.
538. O dan adran 34G(3) caiff yr Ombwdsmon hefyd anfon copi o'r datganiad at unrhyw berson arall.
539. Caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o'r fath os yw gofynion adran 34G(4) wedi eu bodloni. Ni chaiff yr Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o'r fath oni bai ei fod o'r farn bod cyhoeddi er budd y cyhoedd. Wrth ddod i gasgliad, rhaid i'r Ombwdsmon ystyried buddiannau'r person a dramgwyddir ac unrhyw bersonau eraill y mae'n credu eu bod yn briodol.
540. Mae adran 34G(7) ac (8) yn gwahardd yr Ombwdsmon rhag anfon datganiad allan neu gyhoeddi datganiad:
- a) sy'n enwi unrhyw berson (ac eithrio'r darparwr y mae'r gwyn yn ymwneud ag ef); neu
 - b) sy'n cynnwys gwybodaeth sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn debygol o beri i berson o'r fath gael ei adnabod ac y gall yr wybodaeth honno, ym marn yr Ombwdsmon, gael ei hepgor o'r datganiad heb amharu ar ei effeithiolrwydd,

534. Subject to the particular express requirements in the 2005 Act, it is for the Ombudsman to decide his or her own procedures and, in particular, section 34E(3) provides that it is for the Ombudsman to decide whether the requirements of section 34E have been met in a particular case.
535. Under section 34F a provider can refer to the Ombudsman a complaint which has been made to the provider. However, the provider may do so only if the complaint has been made to the provider by a person who would have been entitled to make that complaint directly to the Ombudsman. The complaint must also have been made to the provider before the end of the “permitted period” referred to in section 34E(2). Where a provider refers a complaint to the Ombudsman, the referral must be in writing and must occur before the end of one year beginning on the day on which the complaint was made to the provider. Under section 34B(7) the Ombudsman may, for the purposes of accepting a referred complaint, disregard either (or both) of those time-limits if he/she considers that it is reasonable to do so.
536. Section 34G provides that the Ombudsman must prepare a statement of reasons in relation to any decision by him/her not to begin, or to discontinue, an investigation. Such a decision may be made, for example, where the Ombudsman has resolved a complaint through alternative means under section 34C and therefore decided not to undertake a formal investigation.
537. Under section 34G(2), the Ombudsman must send a copy of that statement to:
- a) the person who made the complaint to him/her; and
 - b) the provider to whom the complaint relates.
538. Under section 34G(3) the Ombudsman may also send a copy of the statement to any other person.
539. The Ombudsman may publish such a statement if the requirements of section 34G(4) are met. The Ombudsman may only publish such a statement if he/she considers that it is in the public interest to do so. In reaching his/her view, the Ombudsman must take account of the interests of the person aggrieved and any other persons he/she thinks appropriate.
540. Sections 34G(7) and (8) prohibits the Ombudsman from sending out or publishing a statement that:
- a) names any person (other than the provider to whom the complaint relates); or
 - b) includes information which, in the opinion of the Ombudsman, is likely to identify such a person and which, in the opinion of the Ombudsman, can be omitted from the statement without impairing its effectiveness,

oni bai bod yr Ombwdsmon yn ystyried ei bod er budd y cyhoedd i gynnwys enw o'r fath neu fanylion o'r fath sy'n peri i'r person gael ei adnabod. Nid yw'r gwaharddiad hwn yn gymwys mewn perthynas â'r fersiwn o'r datganiad a anfonir at yr achwynydd.

541. Mae adran 34H(3) yn darparu, yn ddarostyngedig i'r gofynion yn is-adrannau (1) a (2) o'r adran honno, mai mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu ar y weithdrefn ar gyfer cynnal ymchwiliad. Gallai'r Ombwdsmon, er enghraifft, sefydlu gweithdrefnau gwahanol ar gyfer mathau gwahanol o gwynion a gallai, mewn unrhyw achos penodol, wyro oddi wrth weithdrefnau sefydledig o'r fath pe bai'n ystyried bod hynny'n briodol.
542. Mae adran 34H(4)(a) yn ei gwneud yn glir y caiff yr Ombwdsmon wneud unrhyw ymholiadau y mae'n credu eu bod yn briodol. Mae adran 34H(4)(b) yn darparu mai mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu a gaiff person gael ei gynrychioli'n gyfreithiol neu ei gynrychioli mewn rhyw fodd arall (er enghraifft gan eiriolwr annibynnol).
543. Mae adran 34H(6) yn rhoi pŵer i'r Ombwdsmon i wneud taliadau tuag at dreuliau'r personau sy'n ei gynorthwyo mewn ymchwiliad, yr amod bod y costau hynny wedi eu tynnu'n briodol, ac i dalu lwfansau penodol. Mater i'r Ombwdsmon yw dyfarnu a yw'n briodol gwneud taliadau o'r fath neu osod unrhyw amodau ar daliadau o'r fath.
544. Mae adran 34I yn rhoi pwerau eang i'r Ombwdsmon i'w gwneud yn ofynnol i ddangos gwybodaeth neu ddogfennau mewn perthynas ag ymchwiliad (adran 34I(2) a (3)) ac i'w gwneud yn ofynnol i bersonau penodol ddarparu iddo unrhyw gyfleusterau y mae'n gofyn amdanynt a hynny'n rhesymol (adran 34I(4)). Mae'n bosibl y bydd angen yr ail ddarpariaeth, er enghraifft, os yw'r Ombwdsmon yn ei gwneud yn ofynnol i galedwedd neu feddalwedd gyfrifiadur benodol gael ei defnyddio i weld dogfennau neu wybodaeth a ddarperir.
545. Man gan yr Ombwdsmon yr un pwerau â'r Uchel Lys mewn perthynas â chymryd tystiolaeth oddi wrth dystion (adran 34I(3)).
546. Mae adran 34I(5) yn darparu diogelwch i'r rheini y caiff yr Ombwdsmon ei gwneud yn ofynnol iddynt roi tystiolaeth neu ei gwneud yn ofynnol iddynt ddangos gwybodaeth neu ddogfennau. Ni chaiff yr Ombwdsmon ei gwneud yn ofynnol i berson o'r fath roi unrhyw dystiolaeth neu ddangos unrhyw ddogfennau na allai'r person hwnnw gael ei orfodi i'w rhoi neu eu dangos gerbron yr Uchel Lys.
547. Mae adran 34I(6) yn rhwystro'r Goron rhag dal gwybodaeth yn ôl ar y sail bod yr wybodaeth yn ddarostyngedig i rwymedigaeth i'w chadw'n gyfrinachol neu ar y sail bod cyfyngiad ar ei datgelu.
548. Effaith adran 34I(7), mewn perthynas â phŵer yr Ombwdsmon i'w gwneud yn ofynnol bod tystiolaeth yn cael ei rhoi neu fod gwybodaeth neu ddogfennau'n cael eu dangos, yw na all y Goron ddibynnu ar naill ai ei breintiau arbennig na'i himiwneddau i drechu hawl yr Ombwdsmon i weld gwybodaeth o'r fath o dan adran 34I(5).

unless the Ombudsman considers that it is in the public interest to include such a name or identifying particulars. This prohibition does not apply in relation to the version of the statement sent to the complainant.

541. Section 34H(3) provides that subject to the requirements in subsections (1) and (2) of that section, it is for the Ombudsman to decide the procedure for conducting an investigation. The Ombudsman could, for example, establish different procedures for different types of complaints and he/she could, in any particular case, depart from any such established procedures if he/she considered it appropriate.
542. Section 34H(4)(a) makes it clear that the Ombudsman may make such inquiries as he/she thinks appropriate. Section 34H(4)(b) provides that it is for the Ombudsman to decide whether a person may be legally represented or be represented in some other way (for example by an independent advocate).
543. Section 34H(6) empowers the Ombudsman to make payments towards the expenses of persons assisting him/her in an investigation, provided they are properly incurred, and to pay certain allowances. It is for the Ombudsman to determine whether it is appropriate to make such payments or to impose any conditions on such payments.
544. Section 34I confers wide powers on the Ombudsman to require the production of information or documents in relation to an investigation (section 34I(2) and (3)) and to require certain persons to provide him/her with any facilities he/she may reasonably require (section 34I(4)). The latter provision may be needed, for example, if the Ombudsman requires the use of certain computer hardware or software to view documents or information provided.
545. The Ombudsman has the same powers as the High Court in relation to the taking of evidence from witnesses (section 34I(3)).
546. Section 34I(5) provides protection for those from whom the Ombudsman may require evidence or the production of information or documents. Such a person cannot be required by the Ombudsman to give any evidence or produce any documents which that person could not be compelled to give or produce before the High Court.
547. Section 34I(6) prevents information from being withheld by the Crown on the ground that it is subject to an obligation to keep it secret or a restriction on its disclosure.
548. The effect of section 34I(7) is that, in relation to the Ombudsman's power to require evidence or the production of information or documents, the Crown cannot rely on either its special privileges or immunities to defeat the Ombudsman's right of access to such information under section 34I(5).

549. Mae adrannau 34J(1) a (2) yn galluogi'r Ombwdsmon i ardystio i'r Uchel Lys fod person, yn ei farn ef, wedi ei rwystro'r Ombwdsmon (neu aelod o'i staff) heb esgus cyfreithlon wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau o dan Ran 2A neu fod y person wedi ymddwyn mewn modd a fyddai'n gyfystyr â chyflawni dirmyg llys, pe bai'r weithred honno wedi ei gwneud mewn perthynas ag achos yn yr Uchel Lys.
550. Os yw'r Ombwdsmon yn dyroddi tystysgrif o'r fath, yna caiff yr Uchel Lys ymchwilio i'r mater ac os yw'r Uchel Lys yn darganfod bod y person o dan sylw wedi rhwystro'r Ombwdsmon, caiff yr Uchel Lys ymdrin â'r person fel pe bai wedi cyflawni dirmyg mewn perthynas â'r Uchel Lys (adran 34J(4)).
551. Mae adran 34K(2) yn darparu bod rhaid i'r Ombwdsmon lunio adroddiad ar ei ganfyddiadau ar ôl cynnal ymchwiliad a bod rhaid iddo anfon copi o'r adroddiad hwnnw at y personau a bennir yn adran 34K(3), oni bai ei fod yn penderfynu cyflwyno adroddiad o dan y weithdrefn amgen a nodir o dan adran 34N. Caiff yr Ombwdsmon hefyd anfon copi o'r adroddiad at unrhyw bersonau eraill y mae'n credu eu bod yn briodol.
552. Caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi ei adroddiad os yw gofynion adran 34K(5) wedi eu bodloni. Dim ond os yw'r Ombwdsmon yn ystyried bod cyhoeddi adroddiad o'r fath er budd y cyhoedd y caiff wneud hynny. Wrth ddod i'w gasgliad, rhaid i'r Ombwdsmon roi sylw i fuddiannau'r person a dramgwyddir ac unrhyw bersonau eraill y mae'n credu eu bod yn briodol.
553. Mae adrannau 34K(8) a (9) yn gwahardd yr Ombwdsmon rhag anfon adroddiad allan neu gyhoeddi adroddiad:
- a) sy'n enwi unrhyw berson (ac eithrio'r darparwr y mae'r gwyn yn ymwneud ag ef); neu
 - b) sy'n cynnwys gwybodaeth sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn debygol o beri i unrhyw berson gael ei adnabod ac y gellir, ym marn yr Ombwdsmon, ei hepgor o'r adroddiad heb amharu ar ei effeithiolrwydd,

oni bai bod yr Ombwdsmon yn ystyried ei bod er budd y cyhoedd i gynnwys enw o'r fath neu fanylion o'r fath sy'n peri i'r person gael ei adnabod. Nid yw'r gwaharddiad hwn yn gymwys mewn perthynas â'r fersiynau o'r adroddiad a anfonir at yr achwynydd neu at Weinidogion Cymru. Wrth ddod i'w gasgliad o ran a fyddai er budd y cyhoedd i gynnwys yr wybodaeth hon yn y fersiynau eraill o'r adroddiad, rhaid i'r Ombwdsmon roi sylw i fuddiannau'r person a dramgwyddir ac unrhyw bersonau eraill y mae'n credu eu bod yn briodol.

554. Mae adran 34L yn darparu y caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi hysbysiad ynghylch adroddiad ymchwiliad mewn papur newydd, neu gyfrwng ddarlledu/electronig arall. Rhaid i unrhyw benderfyniad i gyhoeddi hysbysiad o'r fath ystyried budd y cyhoedd, buddiannau'r person a dramgwyddir ac unrhyw bersonau eraill y mae'r Ombwdsmon yn credu eu bod yn briodol (gweler adran 34L(4)). Caiff yr hysbysiad (ymhlith pethau eraill) gynnwys y materion a bennir yn adran 34L(2). Rhaid i'r darparwr y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef ad-dalu'r costau rhesymol ar gyfer trefnu i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi i'r Ombwdsmon, os yw'r Ombwdsmon yn gofyn iddo wneud hynny.

549. Sections 34J(1) and (2) enable the Ombudsman to certify to the High Court that, in his/her opinion, a person has without lawful excuse obstructed the Ombudsman (or a member of his/her staff) in the discharge of his/her functions under Part 2A or that the person has acted in a way that, if the act was done in relation to High Court proceedings, would amount to a contempt of court.
550. If the Ombudsman issues such a certificate then the High Court may inquire into the matter and if the High Court finds that the person concerned has obstructed the Ombudsman, the High Court may deal with the person as if he/she had committed contempt in relation to the High Court (section 34J(4)).
551. Section 34K(2) provides that after conducting an investigation the Ombudsman must, unless he/she decides to report under the alternative procedure set out under section 34N, prepare a report on his/her findings and send a copy of that report to the persons specified in section 34K(3). The Ombudsman may also send a copy of the report to any other persons he or she thinks appropriate.
552. The Ombudsman may publish his/her report if the requirements of section 34K(5) are met. The Ombudsman may only publish such a report if he/she considers that it is in the public interest to do so. In reaching his/her view, the Ombudsman must have regard to the interests of the person aggrieved and any other persons he/she thinks appropriate.
553. Sections 34K(8) and (9) prohibit the Ombudsman from sending out or publishing a report that:
- a) names any person (other than the provider to whom the complaint relates); or
 - b) includes information which, in the opinion of the Ombudsman, is likely to identify any person and which, in the opinion of the Ombudsman, can be omitted from the report without impairing its effectiveness,
- unless the Ombudsman considers that it is in the public interest to include such a name or identifying particulars. This prohibition does not apply in relation to the versions to the report that are sent to the complainant or the Welsh Ministers. In reaching his or her view as to whether it would be in the public interest to include this information in the other versions of the report, the Ombudsman must have regard to the interests of the person aggrieved and any other persons he/she thinks appropriate.
554. Section 34L provides the Ombudsman may publish a notice about an investigation report in a newspaper or other broadcast/electronic media. Any decision to publish such a notice must take account of the public interest, the interests of the person aggrieved and any other persons the Ombudsman thinks appropriate (see section 34L(4)). The notice may (amongst other things) include the matters specified in section 34L(2). The provider to whom the report relates must reimburse the Ombudsman for the reasonable costs of arranging the publication of the notice, if requested to do so by the Ombudsman.

555. Mae adran 34M yn darparu, os yw'r Ombwdsmon, yn dilyn ymchwiliad, yn adrodd (o dan adran 34K) bod y person a dramgwyddir wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r camau gweithredu yr ymchwilir iddynt, fod rhaid i'r darparwr o dan sylw ystyried adroddiad yr Ombwdsmon a'i hysbysu am y camau y mae'r darparwr wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd mewn ymateb i hynny ac yn ogystal am y cyfnod amser y cymerir y camau hyn ynddo. Rhaid i'r darparwr o dan sylw wneud yr hysbysiad o fewn un mis gan ddechrau ar y diwrnod y mae'r darparwr yn cael yr adroddiad neu unrhyw gyfnod hwy a bennir gan yr Ombwdsmon yn ôl ei ddisgresiwn.
556. Mae adran 34N yn darparu nad yw'r weithdrefn adrodd lawn o dan adrannau 34K i 34M yn gymwys os yw'r Ombwdsmon yn penderfynu adrodd o dan y weithdrefn amgen a nodir yn yr adran hon. Os yw'r Ombwdsmon, ar ôl ymchwiliad, yn dod i'r casgliad a ganlyn ynghylch y person a dramgwyddir:
- nad yw wedi dioddef anghyfiawnder na chaledi o ganlyniad i'r camau gweithredu yr ymchwilir iddynt; neu
 - y mae wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o'r fath ac mae'r darparwr y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef yn cytuno o fewn y cyfnod a ganiateir (fel y'i diffinnir yn adran 34N(3)) i weithredu argymhellion yr Ombwdsmon,
- yna caiff yr Ombwdsmon benderfynu cyflwyno adroddiad o dan y weithdrefn amgen o dan adran 34N. Fodd bynnag, dim ond os yw wedi ei fodloni nad yw budd y cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol iddo gyflwyno adroddiad o dan y weithdrefn adrodd lawn a nodir yn adrannau 34K i 34M y caiff yr Ombwdsmon wneud hynny.
557. Mae adroddiad o dan y weithdrefn amgen yn yr adran hon yn ddarostyngedig i gyfyngiadau tebyg mewn cysylltiad ag enwi unigolion neu beri iddynt gael eu hadnabod i'r rhai sy'n gymwys i adroddiad o dan adran 34K (adran 34N(9) a (10)).
558. O dan adran 34O, caiff yr Ombwdsmon ddyroddi adroddiad arbennig mewn tri achos:
- Mae'r Ombwdsmon wedi dod i'r casgliad mewn adroddiad ar ymchwiliad bod y person wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater yr ymchwiliwyd iddo ond:
 - nid yw'r Ombwdsmon wedi cael ei hysbysu gan y darparwr, yn unol ag adran 34M (Y camau i'w cymryd ar ôl cael adroddiad ymchwiliad), am y camau y mae'r darparwr wedi eu cymryd/yn bwriadu eu cymryd, neu am y cyfnod ar gyfer cymryd unrhyw gamau bwriadedig, neu
 - nid yw'r Ombwdsmon, ar ôl cael ei hysbysu am faterion o'r fath yn unol ag adran 34M, wedi ei fodloni gan y camau/camau bwriadedig neu'r cyfnod ar gyfer cymryd y camau, neu nid yw wedi ei fodloni bod y camau wedi eu cymryd cyn diwedd y cyfnod a ganiateir.

555. Section 34M provides that if, following an investigation, the Ombudsman reports (under section 34K) that the person aggrieved has sustained injustice or hardship as a consequence of the action investigated, the provider concerned must consider the Ombudsman's report and notify him/her of the action that the provider has taken or proposes to take in response and also of the time within which such action will be taken. The provider concerned must make the notification within one month starting on the day the provider receives the report or such longer period as the Ombudsman in his/her discretion specifies.
556. Section 34N provides that the full reporting procedure under sections 34K to 34M does not apply if the Ombudsman decides to report under the alternative procedure set out in this section. If, after an investigation, the Ombudsman concludes that the person aggrieved:
- a) has not sustained injustice or hardship as a consequence of the action investigated; or
 - b) has sustained such injustice or hardship and the provider to whom the complaint relates agrees within the permitted period (as defined in section 34N(3)) to implement the Ombudsman's recommendations,

then the Ombudsman may decide to report under the alternative procedure under section 34N. However, the Ombudsman may do so only if he/she is satisfied that the public interest does not require him/her to report under the full reporting procedure set out in sections 34K to 34M.

557. A report under the alternative procedure in this section is subject to similar restrictions with respect to naming or identifying individuals to those which apply to a report under section 34K (section 34N(9) and (10)).
558. Under section 34O, the Ombudsman may issue a special report in three cases:
- I. The Ombudsman has concluded in an investigation report that the person has sustained injustice or hardship as a result of the matter investigated but:
 - i. the Ombudsman has not been notified by the provider, in accordance with section 34M (Action following receipt of investigation reports), about the action that the provider has taken/proposes to take, or about the period within which when any proposed action is to be taken, or
 - ii. the Ombudsman, having been notified about such matters in accordance with section 34M, is not satisfied with the action/proposed action or the period within which it is to be taken, or is not satisfied that the action has been taken before the end of the permitted period.

- II. Mae'r Ombwdsmon wedi llunio adroddiad o dan adran 34N(2) (Y weithdrefn amgen) ac nid yw wedi ei fodloni bod y darparwr wedi gweithredu ei argymhellion o fewn y cyfnod a ganiateir; ac
- III. Mae'r ombwdsmon wedi dod i'r casgliad, wrth ddatrys cwyn o dan adran 34C (dull amgen o ddatrys cwynion), fod y person a dramgwyddir wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi, bod y darparwr wedi cytuno i gymryd camau penodol ac nad yw'r Ombwdsmon wedi ei fodloni bod y darparwr wedi cymryd y camau hynny cyn diwedd y cyfnod a ganiateir.
559. Mae adran 34P(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon nodi, mewn adroddiad arbennig, y ffeithiau sy'n rhoi'r hawl iddo lunio'r adroddiad a gwneud pa argymhellion bynnag y mae'n credu eu bod yn briodol mewn cysylltiad â'r camau y mae'n credu y dylid eu cymryd i unioni'r anghyfiawnder neu'r caledi a ddioddefwyd gan y person a dramgwyddir ac i atal anghyfiawnder neu galedi tebyg rhag cael ei achosi eto. Mae adrannau 34P(2) a (3) yn nodi'r personau y mae'n rhaid anfon yr adroddiad arbennig atynt. Mae'r gofynion sy'n gymwys pan fo'r Ombwdsmon eisoes wedi ystyried y mater mewn adroddiad llawn o dan adran 34K yn wahanol i'r rhai sy'n gymwys pan fo eisoes wedi ystyried y mater o dan y weithdrefn amgen o dan adran 34N neu drwy broses ddatrys amgen o dan adran 34C.
560. Mae adrannau 34P(4) i (10) yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas ag adroddiadau arbennig. Yn benodol, mae adroddiad arbennig yn ddarostyngedig i gyfyngiadau tebyg mewn cysylltiad ag enwi unigolion neu beri iddynt gael eu hadnabod i'r rhai sy'n gymwys i adroddiad o dan adran 34K.
561. Mae adran 34Q yn rhoi'r pŵer i'r Ombwdsmon gyhoeddi hysbysiad am adroddiad arbennig mewn papur newydd neu drwy gyfryngau darlledu ac electronig. Wrth ddyfarnu a ddylid cyhoeddi, rhaid i'r Ombwdsmon ystyried budd y cyhoedd, buddiannau'r person a dramgwyddir a buddiannau unrhyw berson arall y mae'r Ombwdsmon yn credu ei fod yn briodol. Os yw'r Ombwdsmon yn gofyn i ddarparwr y mae adroddiad yn ymwneud ag ef ad-dalu'r costau rhesymol i'r Ombwdsmon am drefnu i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, rhaid iddo wneud hynny. Os yw darparwr yn methu â gwneud hynny, caiff yr Ombwdsmon adennill y costau hyn fel dyled sifil.
562. Mae adran 34R yn darparu diffiniadau o "care home" a "care home provider" drwy gyfeirio at Ddeddf Safonau Gofal 2000 (gweler adrannau 3 a 121(9) o'r Ddeddf honno i gael diffiniad o gartref gofal). Mae hefyd yn darparu bod camau darparwr cartref gofal yn cynnwys camau a gymerir gan staff y darparwr ac eraill sy'n gweithredu ar ran y darparwr.
563. Mae adran 34S yn darparu diffiniadau o "domiciliary care" a "domiciliary care provider". Mae hefyd yn darparu bod camau gweithredu darparwr gofal cartref yn cynnwys camau a gymerir gan staff y darparwr ac eraill sy'n gweithredu ar ran y darparwr.

- II. The Ombudsman has prepared a report under section 34N(2) (Alternative procedure) and is not satisfied that the provider has implemented his or her recommendations within the permitted period; and
 - III. The Ombudsman has concluded, in resolving a complaint under section 34C (alternative resolution of complaints), that the person aggrieved has sustained injustice or hardship, the provider has agreed to take particular action and the Ombudsman is not satisfied that the provider has taken that action before the end of the permitted period.
559. Section 34P(1) requires the Ombudsman to set out, in a special report, the facts that entitle him/her to prepare the report and to make whatever recommendations that he or she thinks appropriate, with respect to the action he/she thinks should be taken to remedy the injustice or hardship suffered by the person aggrieved, and to prevent similar injustice or hardship being caused again. Sections 34P(2) and (3) set out the persons to whom the special report must be sent. The requirements that apply where the Ombudsman previously considered the matter in a full report under section 34K differ from those that apply where he/she previously considered the matter under the alternative procedure under section 34N or by means of an alternative resolution process under section 34C.
560. Sections 34P(4) to (10) makes further provision with regard to special reports. In particular, a special report is subject to similar restrictions with respect of naming or identifying individuals to those which apply to a report under section 34K.
561. Section 34Q provides the Ombudsman with the power to publish a notice about a special report in a newspaper or by means of broadcast and electronic media. In determining whether to publish, the Ombudsman must take into account the public interest, the interests of the person aggrieved and the interests of any other person the Ombudsman considers appropriate. A provider to whom a report relates must, if requested to do so by the Ombudsman, reimburse the Ombudsman for the reasonable costs of arranging publication. If a provider fails to do so, the Ombudsman may recover these costs as a civil debt.
562. Section 34R provides definitions of “care home” and “care home provider” by reference to the Care Standards Act 2000 (see sections 3 and 121(9) of that Act for the definition of a care home). It also provides that a care home provider’s actions include actions taken by the provider’s staff and others acting on the provider’s behalf.
563. Section 34S provides definitions of “domiciliary care” and “domiciliary care provider”. It also provides that a domiciliary care provider’s actions include actions taken by the provider’s staff and others acting on the provider’s behalf.

564. Mae adran 34T yn darparu diffiniadau o "palliative care service" ac "independent palliative care provider". Nid yw'r term "palliative care" wedi ei ddiffinio. Fodd bynnag, fe'i defnyddir ar y cyfan i ddisgrifio lliniaru poen y rhai sydd â chyflyrau terfynol, lleddfu ar y boen heb ymdrin ag union achos y cyflwr a gwella ansawdd bywyd yn gyffredinol i bersonau sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd. Fel arfer disgrifir cyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd fel y rhai sy'n debygol o fyrhau disgwyliad oes person.
565. Wrth benderfynu p'un a yw math penodol o ofal yn gyfystyr â gofal lliniarol ai peidio, rhagwelir y bydd yr Ombwdsmon yn rhoi rhywfaint o bwys i'r diffiniad o "palliative care" a ddefnyddir gan Sefydliad Iechyd y Byd. Mae'r diffiniad hwn yn darparu bod "*palliative care is an approach that improves the quality of life of patients and their families facing the problem associated with life-threatening illness, through the prevention and relief of suffering by means of early identification and impeccable assessment and treatment of pain and other problems, physical, psychosocial and spiritual*". Mae'n debygol iawn hefyd y rhoddir pwys i ddiffiniad y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), sy'n darparu bod "*palliative care is the active holistic care of patients with advanced progressive illness. Management of pain and other symptoms and provision of psychological, social and spiritual support is paramount. The goal of palliative care is achievement of the best quality of life for patients and their families. Many aspects of palliative care are also applicable earlier in the course of the illness in conjunction with other treatments*".
566. Mae gwasanaeth gofal lliniarol yn wasanaeth y mae ei brif bwrpas yn golygu darparu gofal lliniarol. Felly ni fwriedir i'r term gynnwys gwasanaethau sy'n darparu elfen o ofal lliniarol, ond pan fo gofal o'r fath yn gysylltiedig â'r prif wasanaeth a ddarperir. Fodd bynnag, bwriedir iddo gynnwys ystod eang o wasanaethau gofal lliniarol sy'n amrywio o wasanaethau yn y gymuned i ysbytai gofal lliniarol. Mae adran 34T yn darparu bod camau darparwr gofal lliniarol annibynnol yn cynnwys camau a gymerir gan staff y darparwr ac eraill sy'n gweithredu ar ran y darparwr.
567. Mae Rhan 2B yn gymwys i gwynion a wnaed o dan Ran 2 o Ddeddf 2005 (cwynion sy'n ymwneud ag awdurdodau rhestredig), ynghyd ag i gwynion a wnaed o dan Ran 2A o'r Ddeddf honno (cwynion sy'n ymwneud â phersonau eraill ynghylch gofal cymdeithasol a gofal lliniarol). Mae Rhan 2B yn ailddatgan, gyda mân addasiadau, y ddarpariaeth a oedd wedi ei chynnwys cyn hynny yn adrannau 25 i 27 a 32 o Ddeddf 2005.
568. Mae adran 34U(1) a (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon ymgynghori ag ombwdsmon penodedig arall pryd bynnag y bo'n meddwl bod cwyn yn ymwneud â mater a allai fod yn destun ymchwiliad gan yr ombwdsmon arall hwnnw. Mae'r ombwdsmyr eraill y mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon ymgynghori â hwy wedi eu pennu yn adran 34U(7). Mae gan Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, bŵer i ddiwygio'r rhestr hon o ombwdsmyr penodedig.

564. Section 34T provides definitions of “palliative care service” and “independent palliative care provider”. The term “palliative care” is not defined. However, it is generally used to describe the alleviation of pain of those with terminal conditions, the relief of pain without dealing with the cause of the condition and the general improvement in the quality of life of persons with life limiting conditions. Life limiting conditions are normally described as those in which a person’s life expectancy is likely to be shortened as a result of a condition or illness.
565. In deciding whether a particular form of care amounts to palliative care or not, it is anticipated that the Ombudsman will give some weight to the definition of “palliative care” that is used by the World Health Organisation. This definition provides that *“palliative care is an approach that improves the quality of life of patients and their families facing the problem associated with life-threatening illness, through the prevention and relief of suffering by means of early identification and impeccable assessment and treatment of pain and other problems, physical, psychosocial and spiritual”*. Weight is also likely to be given to the National Institute for Clinical Excellence (NICE) definition, which provides that *“palliative care is the active holistic care of patients with advanced progressive illness. Management of pain and other symptoms and provision of psychological, social and spiritual support is paramount. The goal of palliative care is achievement of the best quality of life for patients and their families. Many aspects of palliative care are also applicable earlier in the course of the illness in conjunction with other treatments”*.
566. A palliative care service is a service the main purpose of which is to provide palliative care. The term is therefore not intended to cover services that provide a degree of palliative care but where such care is incidental to the main service being provided. It is intended, however, to capture a wide range of palliative care services ranging from community based services to palliative care hospitals. Section 34T provides that an independent palliative care provider’s actions include actions taken by the provider’s staff and others acting on the provider’s behalf.
567. Part 2B applies to complaints made under Part 2 of the 2005 Act (complaints relating to listed authorities), as well as to complaints made under Part 2A of that Act (complaints relating to other persons about social care and palliative care). Part 2B restates, with minor modifications, the provision formerly contained in sections 25 to 27 and 32 of the 2005 Act.
568. Section 34U(1) and (2) requires the Ombudsman to consult another specified ombudsman whenever he/she thinks that a complaint is about a matter that could be the subject of investigation by that other ombudsman. The other ombudsmen that the Ombudsman is required to consult are specified in section 34U(7). There is power for the Welsh Ministers, by order, to amend this list of specified ombudsmen.

569. Pan fo'n ofynnol i'r Ombwdsmon ymgynghori ag ombwdsmon arall ar fater, caiff gydweithredu hefyd â'r ombwdsmon arall hwnnw ar y mater hwnnw (adran 34U(3)). Caiff yr ymgynghori a'r cydweithredu estyn i unrhyw beth sy'n ymwneud â'r mater. Ceir enghreifftiau o faterion y caniateir ymgynghori a chydweithredu arnynt yn adran 34U(4), sef:
- a) sut y dylid cynnal ymchwiliad i'r gŵyn; a
 - b) ffurf a chynnwys adroddiad a'i gyhoeddi yn dilyn ymchwiliad.
570. Mae adran 34U(5) a (6) yn darparu, pan fo ymgynghoriad o'r fath yn digwydd, y gall yr Ombwdsmon ac unrhyw un neu rai o'r ombwdsmon penodedig (ac eithrio Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban) gynnal ymchwiliadau ar y cyd a chyhoeddi adroddiadau ar y cyd.
571. Yn achos ymgynghori ynglŷn â chŵyn, bydd yr Ombwdsmon yn gallu defnyddio ei bwerau atodol ym mharagraff 21 o Atodlen 1 i Ddeddf 2005 er mwyn anfon copi o'r gŵyn at yr ombwdsmon arall. At hynny, bydd yr Ombwdsmon yn gallu defnyddio'r pwerau atodol hynny i hysbysu'r person sydd wedi gwneud y gŵyn sut y gall wneud cwyn i'r ombwdsmon arall.
572. Mae adran 34V yn ymdrin â sefyllfaoedd pan fo'r Ombwdsmon, wrth ddelio â chŵyn, yn canfod materion a allai fod yn ddarostyngedig i archwiliad gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru neu Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon hysbysu Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am y mater ac ymgynghori ag ef ac yn caniatáu i'r Ombwdsmon hysbysu Comisiynydd y Gymraeg ac ymgynghori ag ef yn yr un modd. Caiff yr Ombwdsmon a'r Comisiynydd perthnasol wedyn gydweithredu, a chynnal ymchwiliadau ar y cyd, a llunio adroddiad ar y cyd ar y mater.
573. Mae adran 34W yn cynnwys darpariaeth bellach ynghylch cydweithredu rhwng yr Ombwdsmon a'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg pan fo'r cwynion yn codi materion (y cyfeirir atynt fel "connected matters") y gallai'r Ombwdsmon neu'r Comisiynwyr priodol ddelio â hwy.
574. Mae adran 34X yn darparu bod gwybodaeth a geir gan ombwdsmon neu gomisiynwyr eraill mewn perthynas â chwynion neu mewn cysylltiad â hwy i'w chadw'n gyfrinachol ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig. Mae adran 34X(2) yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff gwybodaeth o'r fath gael ei datgelu.
575. Mae adran 34X(6) yn darparu na ellir ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon nac unrhyw aelod o'i staff nac unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar ei ran neu sy'n ei gynorthwyo roi tystiolaeth mewn unrhyw drafodion (ac eithrio drafodion a bennir yn adran 34X(2)) am:
- a) gwybodaeth a geir i helpu'r Ombwdsmon i benderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn, yn ystod yr ymchwiliad i gŵyn neu wrth ddatrys cwyn; neu
 - b) gwybodaeth a geir oddi wrth ombwdsmon arall wrth ymgynghori a chydweithredu â'r Ombwdsmon arall hwnnw.

569. Where the Ombudsman is required to consult with another ombudsman on a matter, he/he may also co-operate with that other ombudsman on that matter (section 34U(3)). The consultation and co-operation may extend to anything relating to the matter. Examples of matters on which there may be consultation and co-operation are set out in section 34U(4), namely:
- a) how an investigation into the complaint should be conducted; and
 - b) the form, content and publication of a report following an investigation.
570. Sections 34U(5) and (6) provides that, where such consultation takes place, the Ombudsman and any of the specified ombudsmen (other than the Scottish Public Services Ombudsman) can conduct joint investigations and publish joint reports.
571. In cases of consultation on a complaint, the Ombudsman will be able to use his/her supplementary powers in paragraph 21 of Schedule 1 to the 2005 Act to forward a copy of the complaint to the other ombudsman. Furthermore, the Ombudsman will be able to use those supplementary powers to inform the person who has made the complaint how he or she can make a complaint to the other ombudsman.
572. Section 34V deals with situations where the Ombudsman, when dealing with a complaint, identifies matters which could be subject to examination by the Commissioner for Older People in Wales or the Welsh Language Commissioner. It requires the Ombudsman to inform and consult the Commissioner for Older People in Wales about the matter and allows the Ombudsman to inform and consult the Welsh Language Commissioner similarly. The Ombudsman and the relevant Commissioner may then co-operate, and conduct a joint investigation, and prepare a joint report about the matter.
573. Section 34W contains further provision about collaborative working between the Ombudsman and , the Commissioner for Older People in Wales and the Welsh Language Commissioner where complaints raise matters (referred to as “connected matters”) that could be dealt with by the Ombudsman or by the respective Commissioners.
574. Section 34X provides that information obtained from other ombudsmen or commissioners in relation to, or in connection with, complaints is to be kept confidential except in limited circumstances. Section 34X(2) sets out the circumstances in which such information may be disclosed.
575. Section 34X(6) provides that neither the Ombudsman nor a member of his/her staff or other person acting on his/her behalf or assisting him/her can be required to give evidence in any proceedings (except proceedings specified in section 34X (2)) about:
- a) information obtained to assist the Ombudsman in deciding whether to investigate a complaint, during the investigation of a complaint or in resolving a complaint; or
 - b) information obtained from another ombudsman in consulting and co-operating with that Ombudsman.

576. Mae adran 34Y(1) yn darparu y caiff un o Weinidogion y Goron roi hysbysiad i'r Ombwdsmon yn nodi y byddai datgelu unrhyw ddogfen neu wybodaeth neu ddogfen o ddogfen neu wybodaeth a bennir yn yr hysbysiad, ym marn y Gweinidog, yn niweidiol i ddiogelwch y Deyrnas Unedig neu fel arall yn groes i fudd y cyhoedd. Pan fo hysbysiad o'r fath yn cael ei roi, nid yw'r Ddeddf hon yn awdurdodi'r Ombwdsmon nac yn ei gwneud yn ofynnol iddo, nac aelod o'i staff neu unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar ei ran neu'n ei gynorthwyo, ddatgelu gwybodaeth benodedig o'r fath.
577. Pan fo'r Ombwdsmon neu aelod o'i staff etc. o dan rwymedigaeth i ddatgelu'r wybodaeth yn rhinwedd gofyniad cyfreithiol arall, nid oes dim yn yr adran hon yn atal y person hwnnw rhag cydymffurfio â'r rhwymedigaeth honno.
578. Mae adran 34Z yn darparu bod y canlynol yn destun braint absoliwt at ddibenion difenwi, sef:
- a) cyhoeddi (a fydd yn dwyn ei ystyr arferol o fewn y gyfraith sy'n ymwneud â difenwi) unrhyw fater gan yr Ombwdsmon, aelod o'i staff neu berson arall sy'n gweithredu ar ei ran neu'n ei gynorthwyo wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan Ddeddf 2005;
 - b) cyhoeddi unrhyw fater mewn unrhyw adroddiad a gyhoeddir gan berson wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 17 o Ddeddf 2005 (Gofyniad ar awdurdodau rhestredig i gyhoeddi adroddiad yr Ombwdsmon ar ymchwiliad); ac
 - c) cyhoeddi mater mewn cysylltiad â chwyn a wnaed neu a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon o dan Ddeddf 2005, pan fo'r mater wedi ei gyhoeddi yn un o'r cyfathrebiadau a ganlyn:
 - i) cyfathrebiadau rhwng awdurdod rhestredig a bennir yn adran 28 ac Atodlen 3 o Ddeddf 2005 (gan gynnwys aelod neu aelod cyfetholedig, swyddog neu aelod o staff neu berson arall sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod neu sy'n cynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau) a'r Ombwdsmon (neu ei staff neu bersonau sy'n gweithredu ar ei ran neu'n ei gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau);
 - ii) cyfathrebiadau rhwng darparwr cartref gofal, darparwr gofal cartref neu ddarparwr gofal lliniarol annibynnol, (gan gynnwys swyddog neu aelod o staff neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y darparwr hwnnw neu'n ei gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau) a'r Ombwdsmon (neu ei staff neu bersonau sy'n gweithredu ar ei ran neu sy'n ei gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau);
 - iii) cyfathrebiadau rhwng y person a dramgwyddir neu'r person sy'n gwneud y gwyn ar ran y person a dramgwyddir ac aelod etholedig o Gynulliad Cenedlaethol Cymru; a
 - iv) cyfathrebiadau rhwng y person a dramgwyddir neu'r person sy'n gwneud y gwyn ar ran y person a dramgwyddir a'r Ombwdsmon (neu ei staff, personau sy'n gweithredu ar ei ran neu'n ei gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau).

576. Section 34Y(1) provides that a Minister of the Crown may give notice to the Ombudsman that disclosure of any document or information or class of document or information specified in the notice would, in the opinion of the Minister, be prejudicial to the safety of the United Kingdom or otherwise contrary to the public interest. Where such a notice is given, this Act neither authorises nor requires the Ombudsman, a member of his/her staff or any other person acting on his/her behalf or assisting him/her, to disclose such specified information.
577. Where the Ombudsman or a member of his/her staff etc. is obliged by virtue of some other legal requirement to disclose the information then nothing in this section prevents that person from complying with that obligation.
578. Section 34Z provides that the following are absolutely privileged for the purposes of defamation, namely:
- a) the publication (which will bear its usual meaning within the law relating to defamation) of any matter by the Ombudsman, a member of his/her staff or another person acting on his/her behalf or assisting him/her in the discharge of his/her functions under the 2005 Act;
 - b) the publication of any matter in any report published by a person in the discharge of its functions under section 17 of the 2005 Act (Requirement on listed authorities to publish the Ombudsman's report of an investigation); and
 - c) the publication of a matter in connection with a complaint made or referred to the Ombudsman under the 2005 Act, where that matter is published in one of the following communications:
 - i. communications between a listed authority as specified in section 28 and Schedule 3 of the 2005 Act (including a member or co-opted member, officer or member of staff or another person acting on behalf of or assisting in the discharge of the functions of that authority) and the Ombudsman (or his/her staff or persons acting on his/her behalf or assisting him/her in the discharge of his/her functions);
 - ii. communications between a care home provider, domiciliary care provider or independent palliative care provider, (including an officer or member of staff or another person acting on behalf of or assisting in the discharge of the functions of that provider) and the Ombudsman (or his/her staff or persons acting on his/her behalf or assisting him/her in the discharge of his/her functions);
 - iii. communications between the person aggrieved or the person making the complaint on behalf of the person aggrieved and an elected member of the National Assembly for Wales; and
 - iv. communications between the person aggrieved or the person making the complaint on behalf of the person aggrieved and the Ombudsman (or his staff, persons acting on his behalf or assisting him in the discharge of his functions).

579. Mae'r ddarpariaeth hon yn atgynhyrchu'n gyffredinol ddiogelwch tebyg a geir o dan y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ombwdsmyrn eraill.
580. Mae paragraff 3 o'r Atodlen i'r Ddeddf hon yn gwneud darpariaeth drosiannol fel nad yw darpariaethau adran 34V a 34W o Ddeddf 2005 yn gymwys mewn perthynas â Chomisiynydd y Gymraeg cyn i swyddogaethau'r Comisiynydd o dan Ran 5 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fod mewn grym.
581. Mae paragraff 4 o'r Atodlen yn mewnosod Atodlen newydd i Ddeddf 2005. Mae'r Atodlen newydd hon (Atodlen 3A) yn nodi'r materion y mae'r Ombwdsmon wedi ei wahardd rhag ymchwilio iddynt o dan Ran 2A o Ddeddf 2005.
582. Mae paragraffau 5 i 36 o'r Atodlen yn gwneud newidiadau canlyniadol i Ddeddf 2005 a deddfwriaeth gysylltiedig.

COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

583. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar: <http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IIId=5664>

Cyfnod	Dyddiad
Cyflwyno	28 Ionawr 2013
Cyfnod 1 - Dadl	8 Hydref 2013
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu - ystyried y gwelliannau	13 Tachwedd 2013 27 Tachwedd 2013 5 Rhagfyr 2013 11 Rhagfyr 2013
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn - ystyried y gwelliannau	4 Chwefror 2014 11 Chwefror 2014
Cyfnod Adrodd	18 Mawrth 2014
Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Cynulliad	18 Mawrth 2014
Y Cydsyniad Brenhinol	1 Mai 2014

*These notes refer to the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4)
which received Royal Assent on 1 May 2014*

579. This provision generally replicates similar protection under the legislation relating to other ombudsmen.
580. Paragraph 3 of the Schedule to this Act makes transitional provision so that the provisions of section 34V and 34W of the 2005 Act do not apply in relation to the Welsh Language Commissioner before the Commissioner's functions under Part 5 of Welsh Language (Wales) Measure 2011 are in force.
581. Paragraph 4 of the Schedule inserts a new Schedule into the 2005 Act. This new Schedule (Schedule 3A) sets out matters which the Ombudsman is prohibited from investigating under Part 2A of the 2005 Act.
582. Paragraphs 5 to 36 of the Schedule make consequential changes to the 2005 Act and related legislation.

RECORD OF PROCEEDINGS IN NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

583. The following table sets out the dates for each stage of the Act's passage through the National Assembly for Wales. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the National Assembly for Wales' website at: <http://www.senedd.assemblywales.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IID=566>
4

Stage	Date
Introduced	28 January 2013
Stage 1 - Debate	8 October 2013
Stage 2 Scrutiny Committee - consideration of amendments	13 November 2013 27 November 2013 5 December 2013 11 December 2013
Stage 3 Plenary - consideration of amendments	4 February 2014 11 February 2014
Report Stage	18 March 2014
Stage 4 Approved by the Assembly	18 March 2014
Royal Assent	1 May 2014

© Crown copyright 2014

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael o:

Ar-lein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522

Archebu trwy Linell Seneddol ar Lo-Call 0845 7 023474

Archebion ffacs: 0870 600 5533

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn Testun: 0870 240 3701

Y Llyfrfa

12 Bridge Street, Parliament Square,

Llundain SW1A 2JX

Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890

Archebion ffacs: 020 7219 3866

E-bost: bookshop@parliament.uk

Rhyngrwyd: <http://www.bookshop.parliament.uk>

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office) and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail

TSO

PO Box 29, Norwich NR3 1GN

General enquiries: 0870 600 5522

Order through the Parliamentary Hotline Lo-call 0845 7 023474

Fax orders: 0870 600 5533

Email: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0870 240 3701

The Houses of Parliament Shop

12 Bridge Street, Parliament Square

London SW1A 2JX

Telephone orders: 020 7219 3890

General enquiries: 020 7219 3890

Fax orders: 020 7219 3866

Email: bookshop@parliament.uk

Internet: <http://www.bookshop.parliament.uk>

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-10911-5



9 780348 109115